# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 14/01/2014

Cynnwys Contents


[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

Cwestiwn Brys: Tywydd Garw
Urgent Question: Adverse Weather

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Cyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) at y Goruchaf Lys
Statement: The Referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court

Datganiad: Gwasanaethau Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru
Statement: Historic Environment Services in Wales

Datganiad: Rhoi Polisi Amaethyddol Cyffredin Newydd ar waith
Statement: Implementation of a New Common Agricultural Policy

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â Diwygio Adran 98(1) o'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002
Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in respect of an Amendment in relation to Section 98(1) of the Adoption and Children Act 2002

Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014
The Public Audit (Wales) Act 2013 (Consequential Amendments) Order 2014

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014
The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

Cynnig i Atal Rheol Sefydlog 11.16 i Ganiatáu i'r Eitem Nesaf o Fusnes gael ei Thrafod
Motion to Suspend Standing Order 11.16 to Allow the Next Item of Business to be Debated

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014
The Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2014

Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15
The 2014-15 Local Government Revenue and Capital Settlements

Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2012-13
The Annual Report on Equality 2012-13

Pwynt o Drefn
Point of Order

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon, everyone. I wish you all a happy new year.

Prynhawn da, bawb. Hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Llifogydd

### Flooding

13:30 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y difrod a achoswyd i amddiffynfeydd gan lifogydd diweddar? OAQ(4)1418(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the damage caused to defences by recent flooding? OAQ(4)1418(FM)*

13:30

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister for Natural Resources and Food has issued a written statement, instructing Natural Resources Wales to lead a review of the recent events, including, of course, the impacts sustained to defences. The first part of that review will be completed by the end of January.

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig, yn cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i arwain adolygiad o'r digwyddiadau diweddar, gan gynnwys, wrth gwrs, y difrod a achoswyd i amddiffynfeydd. Cwblheir rhan gyntaf yr adolygiad hwnnw erbyn diwedd mis Ionawr.

13:30

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, flood defences are a wholly devolved matter. I am aware of Alun Davies's review into coastal flood defences. Of course, you will have been aware of the recent devastation, which damaged hundreds of properties, smashed roads, buckled rail lines, and broke a considerable number of sea defences across the coastline—not only of my region in north Wales, but elsewhere in Wales. It has been reported that Wales is struggling financially to deal with the flooding aftermath. However, there was a report some time ago into flooding and some recommendations from the Environment and Sustainability Committee about what the Welsh Government could do to strengthen defences against flooding. Will the review announced by the Minister look at those recommendations to see whether or not a failure to implement any of them contributed towards the damage that was caused in coastal communities?

Brif Weinidog, mae amddiffynfeydd rhag llifogydd yn fater cwbl ddatganoledig. Rwy'n ymwybodol o adolygiad Alun Davies i amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol. Wrth gwrs, byddwch wedi bod yn ymwybodol o'r dinistr diweddar, a achosodd ddifrod i gannoedd o dai, a falodd ffyrdd, a blygodd reilffyrdd, ac a dorrodd nifer sylweddol o amddiffynfeydd môr ar draws yr arfordir—nid yn unig yn fy rhanbarth i yng ngogledd Cymru, ond mewn mannau eraill yng Nghymru. Adroddwyd bod Cymru yn cael trafferth i ymdopi'n ariannol i ymdrin â sgil-effeithiau'r llifogydd. Fodd bynnag, bu adroddiad ar lifogydd gryn amser yn ôl a rhai argymhellion gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i gryfhau amddiffynfeydd rhag llifogydd. A fydd yr adolygiad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog yn ystyried yr argymhellion hynny i weld pa un a gyfrannodd methiant i weithredu unrhyw un ohonynt at y difrod a achoswyd mewn cymunedau arfordirol ai peidio?

13:32

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I believe that that is the case. We know, for example, in many communities—Aberaeron being one—that the investment that was made in defences made a real difference to the resilience of those communities. Nevertheless, there were people who were affected, and my sympathies, of course, go out to them. We have to understand that what we saw was a significantly unusual weather event. I can inform Members that it is the Government's intention to invest £240 million, in total, in flood and coastal defences during the lifetime of this Government. The Secretary of State for Wales has made it absolutely clear that we can expect no help at all from the UK Government. We will, of course, be continuing to invest, and we saw the effect of the investment in many communities that proved to be more resilient. However, it is right to say that, in some communities in Wales, the storm was so forceful that we did see some flooding.

Rwy'n credu y bydd. Rydym yn gwybod, er enghraifft, mewn llawer o gymunedau—Aberaeron yn un ohonynt—bod y buddsoddiad a wnaed mewn amddiffynfeydd wedi gwneud gwir wahaniaeth i gryfder y cymunedau hynny. Serch hynny, roedd pobl yr effeithiwyd arnynt, ac rwy'n cydymdeimlo â nhw, wrth gwrs. Mae'n rhaid i ni ddeall bod yr hyn a welsom yn ddigwyddiad tywydd anarferol dros ben. Gallaf hysbysu'r Aelodau mai bwriad y Llywodraeth yw buddsoddi cyfanswm o £240 miliwn mewn amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol yn ystod oes y Llywodraeth hon. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi ei gwneud yn gwbl eglur na allwn ddisgwyl unrhyw gymorth o gwbl gan Lywodraeth y DU. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i fuddsoddi, a gwelsom effaith y buddsoddiad mewn llawer o gymunedau a fu'n gryfach. Fodd bynnag, mae'n iawn i ddweud ein bod wedi gweld rhywfaint o lifogydd mewn rhai cymunedau yng Nghymru oherwydd nerth y storm.

13:32 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, may I again say 'thank you', through your offices, for the fact that the Minister for Natural Resources and Food came to Rhyl as soon as there was flooding? I know that he has also been to other affected areas. I welcome his review, and I welcome the fact that he has the support of the Cabinet in that. However, do you share my disbelief that the Secretary of State for Wales, David Jones, could not stand up for Wales, by saying that he is not going to fight for additional money for levels of Government in Wales that will be affected? He is thereby ignoring, not only all the constituents of Wales, but some in his own constituency who were flooded. The Prime Minister hinted that the Bellwin formula can be used, but do you agree with me that the Tories have actually cut the Bellwin formula so much that it will make it very difficult for local authorities—or, indeed, for the Welsh Government—to find additional resources? Also, should the Secretary of State for Wales stand up for Wales?

Brif Weinidog, a gaf i ddweud 'diolch' eto, drwy eich gwasanaeth, am y ffaith fod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi dod i'r Rhyl cyn gynted ag y cafwyd llifogydd? Rwy'n gwybod ei fod wedi bod mewn ardaloedd eraill yr effeithiwyd arnynt hefyd. Rwy'n croesawu ei adolygiad, ac rwy'n croesawu'r ffaith fod cefnogaeth y Cabinet ganddo yn hynny o beth. Fodd bynnag, a ydych chi'n rhannu fy anghrediniaeth i na allai Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Jones, sefyll yn gadarn dros Gymru, trwy ddweud nad yw'n mynd i frwydro am arian ychwanegol ar gyfer lefelau'r Llywodraeth yng Nghymru a fydd yn cael eu heffeithio? Trwy hynny, nid yn unig y mae'n anwybyddu holl etholwyr Cymru, ond rhai yn ei etholaeth ei hun a ddioddefodd llifogydd. Awgrymodd y Prif Weinidog y gellid defnyddio fformiwla Bellwin, ond a ydych chi'n cytuno â mi fod y Torïaid wedi torri cymaint ar fformiwla Bellwin mewn gwirionedd fel y bydd yn ei gwneud yn anodd iawn i awdurdodau lleol—neu i Lywodraeth Cymru, yn wir—ddod o hyd i adnoddau ychwanegol? Hefyd, a ddylai Ysgrifennydd Gwladol Cymru sefyll yn gadarn dros Gymru?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, the Secretary of State for Wales could try harder, but I am afraid that that is something that we are well used to. He made it very clear that he was not even going to ask for extra funding for Wales—there we are; that is the way he operates. What I can say is that the Bellwin scheme—or the emergency financial assistance scheme, as we have in Wales—is available in certain circumstances, but, of course, money is ever tighter as a result of the cuts being imposed from the UK Government.

Wel, gallai Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud mwy o ymdrech, ond mae arnaf ofn bod hynny'n rhywbeth yr ydym ni wedi hen arfer ag ef. Fe'i gwnaeth yn eglur iawn nad oedd hyd yn oed yn mynd i ofyn am arian ychwanegol ar gyfer Cymru—dyna ni; dyna'r ffordd y mae'n gweithredu. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod cynllun Bellwin—neu'r cynllun cymorth ariannol mewn argyfwng, fel sydd gennym ni yng Nghymru—ar gael dan rai amgylchiadau, ond, wrth gwrs, mae arian yn dynnach fyth o ganlyniad i'r toriadau sy'n cael eu gorfodi gan Lywodraeth y DU.

13:34 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, cafodd arfordir Ceredigion ei fwrw'n galed iawn gan y stormydd yr wythnos diwethaf, ac mae prom Aberystwyth wedi dioddef difrod costus sylweddol. Fodd bynnag, nid yw ysbryd pobl Ceredigion wedi cael ei dorri gan y storm a'r gwyntoedd hynny. Fel yr ydych wedi ei ddweud eisoes, cadarnhaodd Llywodraeth San Steffan, o fewn ychydig ddyddiau i hynny, ei bod yn bwriadu anwybyddu'r angen am gyllid ychwanegol i Gymru. A allwch chi, felly, amlinellu sut y byddwch yn cydweithio'n fwy cadarnhaol â chynghorau sir fel Cyngor Sir Ceredigion i atgyweirio'r difrod ac i amddiffyn ein glannau i'r dyfodol?

First Minister, the Ceredigion coast was hit extremely hard by the storms of last week, and the Aberystwyth prom suffered extensive and costly damage. The spirit of the people of Ceredigion has not been broken by the storms and winds, however. As you have already mentioned, the Westminster Government, within a few days of that, confirmed that it intended to ignore the need for additional funding for Wales. Can you therefore outline how you will collaborate more positively with county councils such as Ceredigion County Council to put things right and to protect our coastline for the future?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n deall bod cyfarfod heddiw rhwng swyddogion o gyngor Ceredigion a swyddogion y Llywodraeth er mwyn gweld beth yw'r gost o sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud i wella pethau yn Aberystwyth. Rydym yn deall bod y cyngor ei hunan yn edrych ar faint sydd angen arno ar hyn o bryd i sicrhau bod pethau yn dod yn ôl i normal. Wedi'r cyfarfod hwnnw, bydd mwy o syniad gyda phawb ynglŷn â faint o arian bydd eisiau er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddigwyddodd yn Aberystwyth yn cael ei riparo'n gyflym.

I understand that a meeting is taking place today between Ceredigion council officials and Government officers in order to see how much it will cost to improve things in Aberystwyth. We understand that the council itself is looking at the need at present and how much it would require to ensure that things are returned to normal. Following that meeting, everyone will have a better idea of how much funding will be required in order to ensure that what occurred in Aberystwyth is quickly repaired.

13:35 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I very much share your response to the Secretary of State for Wales's view that the European solidarity fund is not an appropriate route, but if that is in fact the case in terms of the building up of flood resilience, would it not be appropriate to consider approaching the European Investment Bank, which I understand was represented by some senior officials who met with members of your Government and officials here just last week? It was significantly recapitalised in the last couple of years and may potentially have the opportunity to make a valuable contribution in this area.

Brif Weinidog, rwy'n rhannu'n llwyr eich ymateb i farn Ysgrifennydd Gwladol Cymru nad yw'r gronfa undod Ewropeaidd yn llwybr addas, ond os mai dyna'r achos mewn gwirionedd o ran datblygu cryfder rhag llifogydd, oni fyddai'n briodol ystyried cysylltu â Banc Buddsoddi Ewrop, yr wyf yn deall y'i cynrychiolwyd gan rai uwch swyddogion a gafodd gyfarfod gydag aelodau eich Llywodraeth a swyddogion yma dim ond yr wythnos diwethaf? Fe'i ail-gyfalafwyd yn sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n bosibl y bydd cyfle iddynt wneud cyfraniad gwerthfawr yn y maes hwn.

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is already a significant allocation by the European regional development fund, which helps in terms of flood defences. We will, of course, explore every mechanism that is potentially available in order to secure funding. With the solidarity fund, the indications are—although these are early indications—that that fund is designed for, if I can put it this way, much larger events. That will seem a strange thing to say to those who suffered, but it seems that that is what the fund was designed to do. Nevertheless, we will investigate it of course, and, indeed, if there are funds that might be made available through the European Investment Bank, we will explore that option as well.

Ceir dyraniad sylweddol gan gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop eisoes, sy'n helpu o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd. Byddwn, wrth gwrs, yn archwilio pob dull sydd o bosibl ar gael er mwyn sicrhau cyllid. Gyda'r gronfa undod, yr arwyddion yw—er mai arwyddion cynnar yw'r rhain—bod y gronfa honno wedi ei chynllunio ar gyfer, os caf ei roi fel hyn, digwyddiadau llawer mwy. Bydd hynny'n ymddangos yn beth rhyfedd i'w ddweud wrth y rhai a ddioddefodd, ond mae'n ymddangos mai dyna mae'r gronfa wedi ei chynllunio i'w wneud. Serch hynny, byddwn yn ymchwilio iddi wrth gwrs, ac, yn wir, os oes arian a allai fod ar gael trwy Fanc Buddsoddi Ewrop, byddwn yn archwilio'r opsiwn hwnnw hefyd.

13:36 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, will you be working with Network Rail, as well as the Environment Agency, so that we can secure the future of the rail network in terms of the effects that this also has on businesses in Wales? I am thinking here particularly of Merco, which depends on rail access. The closure of the Ferryside section of that rail network has seriously hurt its business.

Brif Weinidog, a fyddwch chi'n gweithio gyda Network Rail, yn ogystal ag Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y gallwn sicrhau dyfodol y rhwydwaith rheilffyrdd o ran yr effeithiau ar fusnesau yng Nghymru hefyd? Rwy'n meddwl yn benodol yma am Merco, sy'n dibynnu ar fynediad at y rheilffordd. Mae cau darn Glanyfferi o'r rhwydwaith rheilffyrdd wedi niweidio ei fusnes yn ddifrifol.

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I can say that senior officials have met Network Rail's Wales route director to discuss the disruption that has taken place and it has been stressed that there is a need for a quick and effective recovery operation.

Byddwn. Gallaf ddweud bod uwch swyddogion wedi cyfarfod â chyfarwyddwr llwybrau Network Rail Cymru i drafod y tarfu sydd wedi digwydd a phwysleisiwyd bod angen cymryd camau adfer cyflym ac effeithiol.

## Diwygio Lles

## Welfare Reform

13:37 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith diwygio lles ar dlodi yn Nhorfaen? OAQ(4)1424(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the impact of welfare reform on poverty in Torfaen? OAQ(4)1424(FM)*

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Before I do that, I neglected at the beginning to offer congratulations to you, Presiding Officer, for the honour that you have received. I hope to rectify that now.

Cyn i mi wneud hynny, anghofiais eich llongyfarch ar y cychwyn, Lywydd, am yr anrhydedd yr ydych wedi ei dderbyn. Hoffwn unioni hynny nawr.

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn i chi.

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am sure I speak for the entire Assembly in terms of the congratulations that we offer.

Rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran y Cynulliad cyfan o ran y llongyfarchiadau a gynigir gennym.

In terms of the question, I am concerned, obviously, about the impact of the UK Government's welfare reforms on poverty in Torfaen and, indeed, across the rest of Wales, naturally. As part of our three-stage programme of research, we will shortly be publishing a report assessing the impacts of the reforms at local authority level.

O ran y cwestiwn, rwy'n poeni, yn amlwg, am effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar dlodi yn Nhorfaen ac, yn wir, ar draws gweddill Cymru, yn naturiol. Yn rhan o'n rhaglen ymchwil tri cham, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn asesu effeithiau'r diwygiadau ar lefel awdurdodau lleol yn fuan.

13:38 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Eastern Valley Foodbank in Torfaen has seen a huge increase in demand over the past year. In the week before Christmas alone, 300 people were helped and more than three tonnes of food was distributed. There were heart-breaking stories of mothers arriving in tears because they had no money for Christmas. First Minister, what more can the Welsh Government do to support Wales's network of food banks, which increasingly play such a vital role in our communities? Would you agree with me that the Conservatives in this Chamber, who have been very vocal in support of policies such as the bedroom tax, now need to examine their consciences as the bitter, Dickensian reality of the vindictive and ideologically-driven reforms starts to bite?

Mae Banc Bwyd y Cwm Dwyreiniol yn Nhorfaen wedi gweld cynnydd aruthrol mewn galw dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig yn unig, cynorthwywyd 300 o bobl a dosbarthwyd mwy na thair tunnell o fwyd. Roedd straeon torcalonnus o famau yn cyrraedd yn eu dagrau gan nad oedd ganddynt unrhyw arian ar gyfer y Nadolig. Brif Weinidog, beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi rhwydwaith Cymru o fanciau bwyd, sy'n cyflawni swyddogaeth gynyddol hanfodol yn ein cymunedau? A fyddech chi'n cytuno â mi bod angen bellach i'r Ceidwadwyr yn y Siambr hon, sydd wedi bod mor groch yn eu cefnogaeth i bolisïau fel y dreth ystafell wely, edrych i'w cydwybod wrth i realiti chwerw, Dickensaidd y diwygiadau dialgar sy'n cael eu gwneud ar sail ideolegol ddechrau brathu?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is in the DNA of the Conservative Party to attack the poorest in society. They will never change; that is what drives them as a party, and, unfortunately, they are aided and abetted by the Lib-Dems, I have to say. In terms of the food banks, it is important, of course, that food banks engage with other local community-based organisations and programmes, such as Communities First, to address the local needs collectively. For example, in the north of Wales, Communities First, the Citizens Advice Bureau and Barnados have worked in partnership to develop a food bank, which has been set up to address the problem of food poverty in Anglesey.

Mae'n rhan o DNA y Blaid Geidwadol i ymosod ar y bobl dlotaf mewn cymdeithas. Ni fyddant byth yn newid; dyna'r hyn sy'n eu sbarduno fel plaid ac, yn anffodus, maen nhw'n cael eu cynorthwyo a'u hannog gan y Democratiaid Rhyddfrydol, mae'n rhaid i mi ddweud. O ran y banciau bwyd, mae'n bwysig, wrth gwrs, fod banciau bwyd yn ymgysylltu â sefydliadau a rhaglenni cymunedol lleol eraill, fel Cymunedau yn Gyntaf i ddiwallu anghenion lleol gyda'i gilydd. Er enghraifft, yng ngogledd Cymru, mae Cymunedau yn Gyntaf, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a Barnardos wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu banc bwyd, sydd wedi ei sefydlu i fynd i'r afael â'r broblem o dlodi bwyd ar Ynys Môn.

13:39 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps it would be worthwhile rehearsing slightly the history of food banks, founded under this name in 2001. In 2005, there were some 3,000 people; by 2010, 40,000 people were attending food banks across the country. All those—[Interruption.] Yes, who was in Government? The Labour Party was in Government. It is also worth pointing out that a large number of those people who were accessing the food bank in Torfaen were from working-age families.

Efallai y byddai'n werth chweil rhoi rhywfaint o hanes banciau bwyd, a sefydlwyd dan yr enw hwnnw yn 2001. Yn 2005, roedd tua 3,000 o bobl; erbyn 2010, roedd 40,000 o bobl yn mynychu banciau bwyd ledled y wlad. Mae pob un — [Torri ar draws.] Ie, pwy oedd mewn Llywodraeth? Y Blaid Lafur oedd mewn Llywodraeth. Mae hefyd yn werth nodi bod nifer fawr o'r bobl hynny a oedd yn defnyddio'r banc bwyd yn Nhorfaen yn dod o deuluoedd o oedran gweithio.

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, does that not tell you that the hammering that you are giving to working-age families means that, even though they are working hard, they are not earning enough money to earn a living? That is the whole point. When they talk about benefit cuts and the bedroom tax they are hammering people who are working. That is the whole point. That is possibly the most preposterous, or one of the most preposterous, questions that I have heard asked in this Assembly. I do not know what point he is trying to make here. He makes the point that, under a Government run by his party, people who are working have to go to food banks. This is something that he is looking to celebrate. The reality of Conservative and Lib-dem Britain is that even those people who are in work and working hard are still forced to go to food banks. That is the extent of the battle that is being waged not against those who are unemployed but those who are working hard. They just do not care.

Wel, onid yw hynny'n dweud wrthych fod yr ergyd yr ydych chi'n ei rhoi i deuluoedd o oedran gweithio yn golygu, er eu bod yn gweithio'n galed, nad ydynt yn ennill digon o arian i ennill bywoliaeth? Dyna'r holl bwynt. Pan fyddant yn siarad am doriadau i fudd-daliadau a'r dreth ystafell wely, maen nhw'n taro pobl sy'n gweithio. Dyna'r holl bwynt. Mae'n bosibl mai dyna'r cwestiwn mwyaf afresymol, neu un o'r rhai mwyaf afresymol, yr wyf wedi ei glywed yn cael ei ofyn yn y Cynulliad hwn. Nid wyf yn gwybod pa bwynt y mae'n ceisio ei wneud yma. Mae'n gwneud y pwynt, dan Lywodraeth sy'n cael ei rhedeg gan ei blaid ef, bod yn rhaid i bobl sy'n gweithio fynd i fanciau bwyd. Mae hyn yn rhywbeth y mae eisiau ei ddathlu. Gwirionedd Prydain y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yw bod hyd yn oed y bobl hynny sydd mewn gwaith ac yn gweithio'n galed yn dal i gael eu gorfodi i fynd i fanciau bwyd. Dyna faint y frwydr sy'n cael ei hymladd, nid yn erbyn y rhai sy'n ddi-waith, ond y rhai sy'n gweithio'n galed. Nid oes ots ganddynt.

13:41 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I have constituents on welfare benefits who have permanent degenerative illnesses and yet are being reassessed at least annually for eligibility. Obviously, this is extremely stressful. They have won their appeals at tribunal and, in some cases, the Department for Work and Pensions has not presented any evidence against them. Would you agree with me that this is a complete waste of public money, apart from the fact that it is hounding people with no prospect of improved health?

Brif Weinidog, mae gennyf etholwyr sy'n derbyn budd-daliadau lles sydd â salwch dirywiol parhaol ac eto maen nhw'n cael eu hail-asesu i weld a ydynt yn gymwys o leiaf bob blwyddyn. Yn amlwg, mae hyn yn achosi straen dybryd. Maen nhw wedi ennill eu hapeliadau mewn tribiwnlys ac, mewn rhai achosion, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth yn eu herbyn. A fyddech chi'n cytuno â mi bod hyn yn wastraff llwyr o arian cyhoeddus, ar wahân i'r ffaith ei fod yn poenydio pobl heb unrhyw obaith o iechyd gwell?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I could not agree more with what the Member has said. It is quite clear, and I expect the research to show this, that there are people who have illnesses from which they will not recover. These are illnesses that put them at a permanent disadvantage in terms of getting a job and yet they are being denied benefits. Surely, the benefits system is there at least to assist people who are not able to work. What we see is what seems to be a systematic campaign not just against those of working age but who are unemployed, not just against those who are unable to work because of disability, but against those who are in work but who do not earn much money. They are all people who, in the eyes of the Tories and the Lib Dems, are undeserving.

Ni allwn gytuno mwy â'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud. Mae'n gwbl eglur, ac rwy'n disgwyl i'r gwaith ymchwil ddangos hyn, bod gan bobl salwch na fyddant byth yn gwella ohonynt. Mae'r rhain yn salwch sy'n eu rhoi dan anfantais barhaol o ran cael swydd ac eto gwrthodir budd-daliadau iddyn nhw. Does bosib bod y system fudd-daliadau yno i helpu pobl nad ydynt yn gallu gweithio o leiaf. Yr hyn yr ydym ni'n ei weld yw'r hyn sy'n ymddangos fel ymgyrch systematig nid yn unig yn erbyn y rhai o oedran gweithio ond sy'n ddi-waith, nid yn unig yn erbyn y rhai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd anabledd, ond yn erbyn y rhai sydd mewn gwaith ond nad ydynt yn ennill llawer o arian. Maen nhw i gyd yn bobl sydd, o safbwynt y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn anhaeddiannol.

13:42 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you will be aware of proposals by the Tory Government to cut or withdraw housing benefit for those aged under 25. In Wales, there are 20,000 under 25s with children who will be affected. In Torfaen, there are 700. In the Pontypridd constituency, there are 400 under 25s who now, potentially, face losing their homes or not being able to feed or heat their children. Does the First Minister agree that this is another example of the Tories hitting the poorest and the most vulnerable while the Lib Dems bury their heads in the sand?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o gynigion gan y Llywodraeth Dorïaidd i dorri budd-dal tai ar gyfer y rhai dan 25 oed, neu ei dynnu'n ôl. Yng Nghymru, mae 20,000 o bobl dan 25 oed â phlant ganddynt a fydd yn cael eu heffeithio. Ceir 700 yn Nhorfaen. Yn etholaeth Pontypridd, ceir 400 o bobl dan 25 oed sydd bellach, o bosibl, yn wynebu colli eu cartrefi neu fethu â gallu bwydo neu gynhesu eu plant. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod hyn yn enghraifft arall o'r Toriaid yn taro'r tlotaf a'r mwyaf agored i niwed tra bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn claddu eu pennau yn y tywod?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am afraid that it is. In terms of the logic of this, if this is a policy advocated by the Tories and the Lib Dems in this Chamber, they must accept that it will lead to people under 25 living on the street. That is what will happen. The Lib Dems say 'rubbish'. I tell you what: you have lost every social conscience that you ever had if you think that that is rubbish. If you take support away from under 25s who are unable to get work they will end up not being able to put a roof over their heads. What sort of party have you become?

Mae arnaf ofn bod hynny'n wir. O ran y rhesymeg dros hyn, os yw hwn yn bolisi a argymhellir gan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Siambr hon, mae'n rhaid iddynt dderbyn y bydd yn arwain at bobl dan 25 oed yn byw ar y stryd. Dyna fydd yn digwydd. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud 'lol'. Mi ddywedaf hyn wrthych chi : rydych chi wedi colli pob cydwybod gymdeithasol a fu gennych erioed os ydych chi'n credu bod hynny'n lol. Os cymerwch chi gymorth oddi wrth bobl dan 25 oed nad ydynt yn gallu cael gwaith, ni fyddant yn gallu rhoi to uwch eu pennau yn y pen draw. Pa fath o blaid ydych chi erbyn hyn?

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon is the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Wiliams.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer, and may I, on behalf of my group, also congratulate you on your inclusion in the new year's honours list? It is a source of great pride I am sure to all of us that you should be honoured in such a way.

First Minister, year on year, the number of apprenticeships in Wales has declined. Your own Government's statistics show that they have plummeted by a third over the last five years. Will you resolve that, by the end of this year, the long-term decline of apprenticeships in Wales under you leadership will be reversed?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd, ac a gaf innau hefyd, ar ran fy ngrŵp, eich llongyfarch ar gael eich cynnwys ar restr anrhydeddau'r flwyddyn newydd? Mae'n destun balchder mawr rwy'n siŵr i bob un ohonom eich bod wedi cael eich anrhydeddu yn y fath fodd.

Brif Weinidog, flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae nifer y prentisiaethau yng Nghymru wedi lleihau. Mae ystadegau eich Llywodraeth eich hun yn dangos eu bod wedi gostwng o draean yn ystod y pum mlynedd diwethaf. A wnewch chi addo, erbyn diwedd y flwyddyn hon, y bydd gostyngiad hirdymor prentisiaethau yng Nghymru dan eich arweiniad chi yn cael ei wrthdroi?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Let us look at the issue of apprenticeships first of all and deal particularly with Jobs Growth Wales, which is the most successful scheme of its kind anywhere, I would argue, in Europe, where, out of 10,000 job opportunities that have been created, over 8,000 of them have been filled. That is an extremely successful scheme. Where else do we see evidence of its success? It is in the fact that the unemployment rate for those aged between 18 and 24 in Wales is significantly lower than the UK average. It is 16.9% in Wales. The UK average is 19.1%. If you match that together with schemes such as the increased apprenticeship offer, the apprenticeship matching scheme, pathways to apprenticeships and shared apprenticeships, and with the young recruits programme, and take all those together with Jobs Growth Wales, you will see the real difference that it makes to the unemployment rate among those aged between 18 and 24.

Gadewch i ni edrych ar y mater o brentisiaethau yn gyntaf oll ac ymdrin yn benodol â Thwf Swyddi Cymru, sef y cynllun mwyaf llwyddiannus o'i fath yn unrhyw le, byddwn yn dadlau, yn Ewrop, lle, o'r 10,000 o gyfleoedd gwaith sydd wedi eu creu, mae dros 8,000 ohonynt wedi eu llenwi. Mae hwnnw'n gynllun hynod o lwyddiannus. Ble arall ydym ni'n gweld tystiolaeth o'i lwyddiant? Mae yn y ffaith fod y gyfradd ddiweithdra ymhlith y rhai rhwng 18 a 24 oed yng Nghymru yn sylweddol is na chyfartaledd y DU. Mae'n 16.9% yng Nghymru. 19.1% yw cyfartaledd y DU. Os cymerwch chi hynny ynghyd â chynlluniau fel y cynnydd i'r cynnig prentisiaeth, y cynllun paru prentisiaethau, llwybrau at brentisiaethau a phrentisiaethau ar y cyd, a chyda'r rhaglen recriwtiaid ifanc, a chymryd pob un o'r rheini ynghyd â Thwf Swyddi Cymru, byddwch yn gweld y gwahaniaeth gwirioneddol y mae'n ei wneud i gyfradd ddiweithdra ymhlith y rhai rhwng 18 a 24 oed.

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, in 2007 over 53,000 apprenticeships were offered in Wales. By 2012, that figure had dropped to under 40,000. First Minister, at the start of the year, a record number of people are waiting longer than they should for treatment on the Welsh NHS: 13,000 people are waiting more than six months to start their treatment. Will you resolve that, by the end of this year, you will hit your own Government's target to ensure that nobody waits that long?

Brif Weinidog, cynigwyd dros 53,000 o brentisiaethau yng Nghymru yn 2007. Erbyn 2012, roedd y ffigur hwnnw wedi gostwng i lai na 40,000. Brif Weinidog, ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r nifer uchaf erioed o bobl yn aros yn hwy nag y dylent am driniaeth gan y GIG yng Nghymru: mae 13,000 o bobl yn aros mwy na chwe mis i ddechrau eu triniaeth. A wnewch chi addo, erbyn diwedd y flwyddyn hon, y byddwch yn cyrraedd targed eich Llywodraeth eich hun i sicrhau nad oes unrhyw un yn aros mor hir â hynny?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I wonder whether she has included Jobs Growth Wales in the statistics. You do not seem to see that or count it as an apprenticeship scheme of any kind. The reality of the situation is that when it comes to the economy, those targets are being exceeded. It is true that the targets in health are being moved towards—in the opposite direction to that in England—and we know what is being put in place to improve the education system. If you look at the Welsh economy, you will see that we are doing better than the UK average. Unemployment has come down faster than it has anywhere else. Youth unemployment among those between the ages of 18 and 24 is much below the UK average. It shows that despite the economic folly of the UK Government, the Welsh Government is helping to make sure that young people get opportunities that they deserve.

Tybed a yw hi wedi cynnwys Twf Swyddi Cymru yn yr ystadegau. Nid yw'n ymddangos eich bod yn gweld hwnnw nac yn ei gyfrif fel cynllun prentisiaeth o unrhyw fath. Gwirionedd y sefyllfa yw pan ddaw i'r economi, ein bod yn rhagori ar y targedau hynny. Mae'n wir ein bod yn symud tuag at y targedau ym maes iechyd—i'r cyfeiriad croes i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr—ac rydym yn gwybod beth sy'n cael ei roi ar waith i wella'r system addysg. Os edrychwch chi ar economi Cymru, byddwch yn gweld ein bod yn gwneud yn well na chyfartaledd y DU. Mae diweithdra wedi gostwng yn gyflymach nag mewn unrhyw le arall. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn llawer is na chyfartaledd y DU. Mae'n dangos, er gwaethaf ffolineb economaidd Llywodraeth y DU, bod Llywodraeth Cymru yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael y cyfleoedd y maen nhw'n eu haeddu.

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

At the start of this year, more than a quarter of local education authorities in Wales are in special measures. Last month's Programme for International Student Assessment results showed us going backwards compared with our international competitors. First Minister, as we have seen this afternoon, I suspect that there will not be a lot of agreement between us this year, but can you agree with me on this: 2014 should be the year that we resolve that Wales can do better than this, and that Wales is better than this? Will you outline today what new actions your Government will take this year to deliver for Welsh pupils, for Welsh patients and for the economy?

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, mae mwy na chwarter yr awdurdodau addysg lleol yng Nghymru mewn mesurau arbennig. Dangosodd canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr y mis diwethaf ein bod yn mynd tuag yn ôl o'n cymharu â'n cystadleuwyr rhyngwladol. Brif Weinidog, fel rydym ni wedi ei weld y prynhawn yma, rwy'n amau na fydd llawer o gytundeb rhyngom ni eleni, ond a allwch chi gytuno â mi ar hyn: 2014 ddylai fod y flwyddyn pan ein bod yn penderfynu y gall Cymru wneud yn well na hyn, a bod Cymru yn well na hyn? A wnewch chi amlinellu heddiw pa gamau newydd y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd eleni i gyflawni ar gyfer disgyblion Cymru, ar gyfer cleifion yng Nghymru ac ar gyfer yr economi?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I think that the leader of the Lib Dems does herself a disservice when she says that we will not agree on much. Certainly, we always look to work with other parties where we can. You only have to see what has been put in place in education, particularly with the national literacy and numeracy programme. The statistics in health are generally moving in the right direction. For example, our cancer waiting times are the same as in England—there is no difference; they are pretty much identical. We know that improvements have happened in terms of ambulance response times. There is still some work to build on—that much I understand—and it will take time for the programme outlined by the previous Minister for Education and Skills, taken forward by the current Minister for education, to have the greatest effect. However, we know that when it comes to education, local education authorities are the deliverers, and they cannot escape responsibility for education within their own communities. I look forward to any suggestions or views that the Williams commission might have on this issue.

Rwy'n credu bod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn bod yn annheg a hi ei hun wrth ddweud na fyddwn yn cytuno ar lawer. Rydym yn sicr yn ceisio gweithio gyda phleidiau eraill bob amser pryd y gallwn. Does ond rhaid i chi weld yr hyn a roddwyd ar waith ym maes addysg, yn arbennig gyda'r rhaglen llythrennedd a rhifedd genedlaethol. Mae'r ystadegau ym maes iechyd yn symud i'r cyfeiriad cywir yn gyffredinol. Er enghraifft, mae ein hamseroedd aros o ran canser yr un fath ag yn Lloegr—nid oes unrhyw wahaniaeth; maen nhw fwy neu lai yr un fath. Rydym ni'n gwybod bod gwelliannau wedi digwydd o ran amseroedd ymateb ambiwlansys. Mae rhywfaint o waith i adeiladu arno o hyd—rwy'n deall cymaint â hynny—a bydd yn cymryd amser i'r rhaglen a amlinellwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol, a symudwyd yn ei flaen gan y Gweinidog addysg presennol, gael yr effaith fwyaf. Fodd bynnag, rydym yn gwybod, pan ddaw i addysg, mai awdurdodau addysg lleol yw'r darparwyr, ac ni allant ddianc rhag cyfrifoldeb am addysg yn eu cymunedau eu hunain. Edrychaf ymlaen at unrhyw awgrymiadau neu safbwyntiau a allai fod gan gomisiwn Williams ar y mater hwn.

13:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Presiding Officer, I also join in paying tribute to you on your award in the new year's honours list. It is very richly deserved for all the years of public service that you have undertaken, and recognises in particular the sterling work that you have done in assisting women into public life and public representation—I think that that was cited in the new year's honours list. From my group, heartfelt congratulations to you, Presiding Officer.

Lywydd, rwyf innau hefyd yn ymuno i dalu teyrnged i chi ar eich gwobr yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd. Mae'n haeddiannol iawn am yr holl flynyddoedd o wasanaeth cyhoeddus yr ydych chi wedi eu cyfrannu, ac mae'n cydnabod yn arbennig y gwaith rhagorol yr ydych chi wedi ei wneud i gynorthwyo menywod i mewn i fywyd cyhoeddus a chynrychiolaeth gyhoeddus—rwy'n credu y nodwyd hynny ar restr anrhydeddau'r flwyddyn newydd. Llongyfarchiadau gwresog i chi, Lywydd, oddi wrth fy ngrŵp i.

With your indulgence, Presiding Officer, I also wish to draw the Assembly's attention to the passing of Lord Wyn Roberts in the Christmas recess. Wyn Roberts was a staunch supporter of everything in Wales, whether in his private life or his public life. As a Minister, he had a record tenure in the Welsh Office, and he was a great supporter of the Welsh language and a staunch supporter of broadcasting in Wales. I think the comment that he built more roads in Wales than the Romans did was most probably reflective of the huge infrastructure improvements during his tenure. He will be a great loss to Wales, because when he ended his parliamentary career, he undertook his role in the House of Lords with such distinction. Whenever there was cause to fight for Wales's corner, he fought with such distinction. Thank you for allowing me to put those words on the record, Presiding Officer.

Os maddeuwch i mi, Lywydd, hoffwn hefyd dynnu sylw'r Cynulliad at farwolaeth yr Arglwydd Wyn Roberts yn ystod toriad y Nadolig. Roedd Wyn Roberts yn gefnogwr brwd o bopeth yng Nghymru, boed yn ei fywyd preifat neu ei fywyd cyhoeddus. Fel Gweinidog, bu'n gweithio yn y Swyddfa Gymreig am gyfnod hwy nag unrhyw un erioed, ac roedd yn gefnogwr brwd o'r iaith Gymraeg ac yn gefnogwr brwd o ddarlledu yng Nghymru. Rwy'n credu ei bod yn debyg bod y sylw ei fod wedi adeiladu mwy o ffyrdd yng Nghymru na wnaeth y Rhufeiniaid yn adlewyrchu ei welliannau enfawr i seilwaith yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Bydd yn golled fawr i Gymru, oherwydd pan ddaeth â'i yrfa seneddol i ben, cyflawnodd ei swyddogaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi gyda chymaint o ragoriaeth. Pryd bynnag yr oedd rheswm i frwydro dros Gymru, gwnaeth hynny'n ardderchog. Diolch i chi am ganiatáu i mi roi'r geiriau yna ar y cofnod, Lywydd.

First Minister, during the Christmas recess your Minister for education in a newspaper interview apologised for the state and standards of education in Wales. Will you join him in making that apology?

Brif Weinidog, yn ystod toriad y Nadolig, ymddiheurodd eich Gweinidog addysg mewn cyfweliad papur newydd am gyflwr a safonau addysg yng Nghymru. A wnewch chi ymuno ag ef i wneud yr ymddiheuriad hwnnw?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that you are missing out on the fact that he has made it very clear that the plans that we have in place to improve education are robust, and we will see that improvement being taken forward in the future.

Rwy'n meddwl eich bod wedi anghofio'r ffaith iddo ei gwneud yn eglur iawn bod y cynlluniau sydd gennym ar waith i wella addysg yn gadarn, ac y byddwn yn gweld y gwelliant hwnnw'n cael ei ddatblygu yn y dyfodol.

13:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I note that you did not choose to use this opportunity to apologise like your Minister for education did, and there is much for your Government to apologise for. As per usual, the complacency that you show knows no bounds. The PISA results that we had before Christmas regrettably show us propping up the league table. You pointed out in earlier answers that you regret the direction of travel of the UK Government in terms of the UK economy. You said that it shows no evidence that what the Tories are doing is working, yet we have record low interest rates, record numbers in employment and one of the fastest-growing economies in the western world. Not only that, the Centre for Economics and Business Research points out that the UK economy will be the largest economy in Europe. Regrettably, your measures are showing that the Welsh economy is continuing to be one of the poorest economies in Europe. Under your health measures, we have a doubling of waiting times.

At the start of 2014, is it not time that you reactivated your delivery unit and got it delivering on the policies that you pledged at the start of this Assembly, so that we can see an improvement in the economy, an improvement in our health service and, above all, so that we can see real improvement when you measure us against international standards in education?

Sylwaf na wnaethoch chi ddewis manteisio ar y cyfle hwn i ymddiheuro fel y gwnaeth eich Gweinidog addysg, ac mae llawer i'ch Llywodraeth ymddiheuro amdano. Yn ôl yr arfer, mae'r hunanfodlonrwydd yr ydych chi'n ei ddangos yn ddi-ben-draw. Yn anffodus, mae'r canlyniadau PISA a gawsom cyn y Nadolig yn dangos ein bod ar waelod y gynghrair. Dywedasoch mewn atebion cynharach eich bod yn gresynu cyfeiriad Llywodraeth y DU o ran economi'r DU. Dywedasoch nad yw'n dangos unrhyw dystiolaeth bod yr hyn y mae'r Torïaid yn ei wneud yn gweithio, ac eto mae gennym y cyfraddau llog isaf erioed, y nifer uchaf erioed mewn cyflogaeth ac un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd gorllewinol. Nid yn unig hynny, mae'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil Economeg a Busnes yn nodi mai economi'r DU fydd yr economi fwyaf yn Ewrop. Yn anffodus, mae eich mesurau chi yn dangos mai economi Cymru yw un o'r economïau tlotaf yn Ewrop o hyd. Dan eich mesurau iechyd chi, mae amseroedd aros wedi dyblu.

Ar ddechrau 2014, onid yw'n bryd i chi ail-sefydlu eich uned gyflawni a sicrhau ei bod yn cyflawni ar y polisïau i chi eu haddo ar ddechrau'r Cynulliad hwn, fel y gallwn weld gwelliant i'r economi, gwelliant i'n gwasanaeth iechyd ac, yn anad dim, fel y gallwn weld gwelliant gwirioneddol pan fyddwch yn ein mesur yn erbyn safonau rhyngwladol mewn addysg?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Either he has some kind of amnesia or he has not realised that interest rates dropped before there was a Conservative and Lib Dem Government. That happened at the time of a Labour Government. They have not changed since the current UK Government came into place. The point I make is this: things could have improved much faster if the Conservatives and Lib Dems had taken a different view. The economy was in a better shape in 2010 than it is now. The reality of it is that it was recovering in 2010 and it was pitched back into decline after that. I offer in evidence what we have done in Wales. Our unemployment rate is now the UK average; it has come down faster than anywhere else. I offer in evidence the fact that our youth unemployment rate is so low compared with the rest of the UK. That is, at least partially, a direct result of the Jobs Growth Wales scheme. It shows that a dynamic Welsh Government can make a real difference to the life chances of people in Wales, despite what happens elsewhere. When we look at health, we see that it is going in the right direction. We look at England and we see things going in the wrong direction. An innovations fund was announced in England—we have one in Wales—but it was scrapped and £50 million disappeared down the tubes. Nothing happened as a result of it. We see nurses being sacked in England and we see the waiting times figures going the other way. That is not to deny the challenges that we face in Wales, of course, but at least we are honest about them, unlike his Government in London.

Naill ai mae ganddo ryw fath o amnesia, neu nid yw wedi sylweddoli bod cyfraddau llog wedi gostwng cyn bod Llywodraeth Geidwadol a Democratiaid Rhyddfrydol. Digwyddodd hynny ar adeg Llywodraeth Lafur. Nid ydynt wedi newid ers i Lywodraeth bresennol y DU ddod i rym. Y pwynt rwy'n ei wneud yw hyn: gallai pethau fod wedi gwella'n llawer cyflymach pe byddai'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cymryd safbwynt gwahanol. Roedd yr economi mewn cyflwr gwell yn 2010 nag y mae nawr. Y gwir amdani yw ei bod yn gwella yn 2010 ac y dechreuodd ddirywio eto ar ôl hynny. Rwy'n cynnig fel tystiolaeth yr hyn rydym ni wedi ei wneud yng Nghymru. Mae ein cyfradd ddiweithdra bellach yr un fath â chyfartaledd y DU; mae wedi gostwng yn gyflymach nag mewn unrhyw le arall. Rwy'n cynnig fel tystiolaeth y ffaith fod ein cyfradd diweithdra ymhlith pobl ifanc mor isel o'i chymharu â gweddill y DU. Mae hynny, yn rhannol o leiaf, o ganlyniad uniongyrchol i gynllun Twf Swyddi Cymru. Mae'n dangos y gall Llywodraeth Cymru ddeinamig wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd pobl yng Nghymru, er gwaethaf yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill. Pan edrychwn ni ar iechyd, gwelwn ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Edrychwn ar Loegr a gwelwn bethau'n symud i'r cyfeiriad anghywir. Cyhoeddwyd cronfa arloesi yn Lloegr—mae gennym un yng Nghymru—ond cafodd ei diddymu a gwastraffwyd £50 miliwn. Ni ddigwyddodd unrhyw beth o ganlyniad i hynny. Rydym ni'n gweld nyrsys yn cael eu diswyddo yn Lloegr, ac rydym ni'n gweld y ffigurau amseroedd aros yn mynd y ffordd arall. Nid yw hynny'n gwadu'r heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru, wrth gwrs, ond rydym yn onest amdanynt o leiaf, yn wahanol i'w Lywodraeth ef yn Llundain.

13:52 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I said, the complacency knows no bounds. We are at the start of 2014. You could have offered the Assembly and the people of Wales some real, tangible targets that you would hit, whether it is in health, education or the economy. However, as per usual, it is always 'wait for tomorrow'. I never thought that I would hear the First Minister trying to describe his Government as 'dynamic'; that is one thing that you cannot call this lot. Come on, First Minister; if you benchmark yourself against anything in education, the economy or health, and if you ask any of the people on a 36-week wait—which has gone up time and again—whether they are seeing the improvements, you will hear that they are not seeing those improvements. When will you actually live up to the mantra that you used at the 2011 election of standing up for Wales and getting your much-vaunted delivery unit actually starting to deliver improvements in the quality of people's lives here in Wales?

Fel y dywedais, mae'r hunanfodlonrwydd yn ddi-ben-draw. Rydym ni ar ddechrau 2014. Gallech chi fod wedi cynnig targedau pendant, gwirioneddol, y byddech chi'n eu cyrraedd i'r Cynulliad ac i bobl Cymru, boed hynny ym maes iechyd, addysg neu'r economi. Fodd bynnag, yn ôl yr arfer, 'aros tan yfory' yw hi bob amser. Wnes i erioed feddwl y byddwn i'n clywed y Prif Weinidog yn ceisio disgrifio ei Lywodraeth fel un 'deinamig'; mae hynny'n un peth na allwch chi alw'r rhain. Dewch nawr, Brif Weinidog; os ydych chi'n meincnodi eich hun yn erbyn unrhyw beth ym maes addysg, yr economi neu iechyd, ac os gofynnwch chi i unrhyw un o'r bobl sy'n aros am 36 wythnos—sydd wedi cynyddu dro ar ôl tro—a ydynt yn gweld y gwelliannau, byddwch yn clywed nad ydynt yn gweld y gwelliannau hynny. Pryd wnewch chi gyd-fynd mewn gwirionedd â'r mantra a ddefnyddiwyd gennych yn etholiad 2011 o sefyll yn gadarn dros Gymru a sicrhau bod eich uned gyflawni y broliwyd cymaint arni yn dechrau darparu gwelliannau i ansawdd bywydau pobl yma yng Nghymru?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

He always ambles to the starting line, does he not? When it came to the constitutional debate, he was last there and did not say anything unless it was in agreement with the Secretary of State. When it comes to health, he has no views or policies of his own. None whatsoever. When it comes to the economy, he keeps on ignoring the fact that the Welsh economy has outperformed most of the rest of the UK as a direct result of what the Welsh Government has done. He talks about dynamism, and I give him credit for one act of dynamism. I give him credit for his dynamism in announcing yesterday that he would scrap the Wales for Africa programme. [Interruption.] When I was there last week, I saw the people who benefit from the support—not aid—that we give as a Government to voluntary organisations that help people who have literally nothing. He sat there from his country estate and said that he wants those people to have nothing. I will quote directly. He was asked what he thought of the programme, and he said, 'I don't agree with it'. I quote directly. As far as we are concerned, we take the issue—[Interruption.] He can try to shout as much as he wants, but I will tell him this now: let him go to Uganda to tell people there that he would take funding away from them. Let him go to tell people in Uganda that he would scrap the Wales for Africa programme. Then he can go to tell people in Wales how dynamic he is to take money away from some of the most worthy projects anywhere in the world. Is that not typical of the Tories? They never change.

Mae bob amser yn cerdded yn hamddenol at y llinell gychwyn, onid yw e? Pan ddaeth i'r ddadl gyfansoddiadol, ef oedd yr olaf yno a ni ddywedodd unrhyw beth oni bai ei fod yn cytuno â'r Ysgrifennydd Gwladol. Pan ddaw i iechyd, nid oes ganddo unrhyw safbwyntiau na pholisïau ei hun. Dim o gwbl. Pan ddaw i'r economi, mae'n parhau i anwybyddu'r ffaith fod economi Cymru wedi perfformio'n well na'r rhan fwyaf o weddill y DU o ganlyniad uniongyrchol i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud. Mae'n siarad am fod yn ddeinamig, ac rwy'n rhoi clod iddo am un weithred ddeinamig. Rwy'n rhoi clod iddo am fod yn ddeinamig wrth gyhoeddi ddoe y byddai'n diddymu rhaglen Cymru o Blaid Affrica. [Torri ar draws.] Pan roeddwn i yno yr wythnos diwethaf, gwelais y bobl sy'n elwa o'r gefnogaeth—nid y cymorth—rydym ni'n ei roi fel Llywodraeth i sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu pobl nad oes ganddynt ddim, a hynny'n llythrennol. Eisteddodd yno o'i stad wledig a dywedodd nad oedd eisiau i'r bobl hynny gael dim byd. Dyfynnaf yn uniongyrchol. Gofynnwyd iddo am ei farn ar y rhaglen, a dywedodd, 'Nid wyf yn cytuno â hi'. Rwy'n dyfynnu'n uniongyrchol. O'n safbwynt ni, rydym ni'n cymryd y mater— [Torri ar draws.] Gall geisio gweiddi cymaint ag y mae'n dymuno, ond dywedaf hyn wrtho nawr: gadewch iddo fynd i Uganda i ddweud wrth bobl yno y byddai'n cymryd arian oddi wrthynt. Gadewch iddo fynd i ddweud wrth bobl yn Uganda y byddai'n diddymu rhaglen Cymru o Blaid Affrica. Yna gall fynd i ddweud wrth bobl Cymru pa mor ddeinamig yw e yn cymryd arian oddi wrth rai o'r prosiectau mwyaf teilwng yn unrhyw le yn y byd. Onid yw hynny'n nodweddiadol o'r Torïaid? Dydyn nhw byth yn newid.

13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:54 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Blwyddyn newydd dda i chi gyd.

Thank you, Presiding Officer. Happy new year to you all.

I am sure, Llywydd, that you were very pleased to be recognised for your work and, in particular, your extensive work on women in public life.

Rwy'n siŵr, Lywydd, eich bod yn falch iawn o gael eich cydnabod am eich gwaith ac, yn arbennig, eich gwaith helaeth ar fenywod mewn bywyd cyhoeddus.

First Minister, yesterday, my party launched a far-reaching consultation on boosting doctor recruitment in the Welsh NHS. We have outlined plans for international recruitment as well as for retaining the home-grown medical students. Can you please tell us when your Government abandoned aspirations to increase doctor numbers in the Welsh NHS?

Brif Weinidog, ddoe, lansiodd fy mhlaid ymgynghoriad pellgyrhaeddol ar hybu'r broses o recriwtio meddygon yn y GIG yng Nghymru. Rydym ni wedi amlinellu cynlluniau ar gyfer recriwtio rhyngwladol ac ar gyfer cadw myfyrwyr meddygol a hyfforddwyd yma. A allwch chi ddweud wrthym pryd wnaeth eich Llywodraeth roi'r ffidil yn y to o ran y dyheadau i gynyddu nifer y meddygon yn y GIG yng Nghymru?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

She will be aware, of course, of the medical recruitment programme, which was launched some months ago. I saw the proposals put forward by Plaid Cymru. I would have several questions, I suppose. On the recruitment of 1,000 doctors, why 1,000? Where is that figure from? You talk about recruiting 100 doctors from abroad as though this has not been happening. The Welsh NHS has been recruiting doctors from abroad for more than 50 years. How is this something quite new? There would be a quota for the number of doctors who had to speak Welsh anyway, so that will affect recruitment, there is no doubt about this. This will all be paid for, I assume, by the 'pop' tax. So, the message would be to keep drinking pop to get more doctors, which is something I do not quite understand either. So, the reality is that doctors are not attracted by having their student fees paid. What they want is training opportunities. If the hospitals do not offer the right level of training opportunities, the doctors will not come here and they will not stay here. Before you train new medics, you need the consultants in place to train them. The consultants will only come to hospitals where they feel they can get the practice they need. Trainees will only go to hospitals where they feel there is a throughput of cases that will enable them to be properly trained, and those are the main factors that doctors will look at.

Bydd hi'n ymwybodol, wrth gwrs, o'r rhaglen recriwtio meddygol, a lansiwyd rai misoedd yn ôl. Gwelais y cynigion a gyflwynwyd gan Blaid Cymru. Byddai gennyf nifer o gwestiynau, mae'n debyg. O ran recriwtio 1,000 o feddygon, pam 1,000? O ble daw'r ffigur hwnnw? Rydych chi'n sôn am recriwtio 100 o feddygon o dramor fel pe na byddai hynny wedi bod yn digwydd. Mae'r GIG yng Nghymru wedi bod yn recriwtio meddygon o dramor ers mwy na 50 mlynedd. Sut mae hyn yn rhywbeth cwbl newydd? Byddai cwota ar gyfer nifer y meddygon y byddai'n rhaid iddynt allu siarad Cymraeg beth bynnag, felly bydd hynny'n effeithio ar recriwtio, nid oes amheuaeth am hyn. Rwy'n tybio mai'r dreth 'pop' fydd yn talu am hyn i gyd. Felly, y neges fyddai parhau i yfed pop i gael mwy o feddygon, sy'n rhywbeth nad wyf wir yn ei ddeall ychwaith. Felly, y gwir amdani yw nad yw meddygon yn cael eu denu trwy gael eu ffioedd myfyrwyr wedi eu talu. Yr hyn maen nhw ei eisiau yw cyfleoedd hyfforddi. Os na fydd yr ysbytai yn cynnig y lefel cywir o gyfleoedd hyfforddi, ni fydd y meddygon yn dod yma ac ni fyddant yn aros yma. Cyn i chi hyfforddi meddygon newydd, mae angen penodi ymgynghorwyr i'w hyfforddi. Bydd yr ymgynghorwyr ddim ond yn dod i ysbytai lle maen nhw'n teimlo y gallant gael yr ymarfer sydd ei angen arnynt. Bydd yr hyfforddeion ddim ond yn mynd i ysbytai lle maen nhw'n teimlo bod digon o achosion i'w galluogi i gael eu hyfforddi'n iawn, a dyna'r prif ffactorau y bydd meddygon yn eu hystyried.

It is a policy proposal. It is something that can be debated. There are several issues that I would question in terms of how effective it might be, particularly with regard to the sudden realisation that the NHS in Wales should recruit from abroad, which is something it has been doing for many years.

Cynnig polisi yw hwn. Mae'n rhywbeth y gellir ei drafod. Ceir nifer o faterion y byddwn i'n eu cwestiynu o ran pa mor effeithiol y gallai fod, yn enwedig o ran sylweddoli'n sydyn y dylai'r GIG yng Nghymru recriwtio o dramor, sy'n rhywbeth y mae wedi bod yn ei wneud ers blynyddoedd lawer.

13:57 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That was an interesting ramble, First Minister. [Laughter.] However, your comments on the sugared drinks levy show clearly that you do not understand how taxes on consumption of harmful goods can reduce consumption. Alcohol and tobacco are cases in point. Indeed, I very much welcome the Member for Pontypridd's support in principle for a sugared drinks levy. First Minister, today, your superiors in Westminster have raised concerns about the shortage of doctors in the English NHS. Of course, the state of the English NHS is something you comment on frequently in the Chamber. Data have been published today showing that locum costs in accident and emergency departments in England have gone up by 60% in three years. Can you please tell us the costs of locum doctors to the Welsh NHS?

Roedd hynna'n falu awyr diddorol, Brif Weinidog. [Chwerthin.] Fodd bynnag, mae eich sylwadau ar yr ardoll diodydd siwgr yn dangos yn eglur nad ydych chi'n deall sut y gall trethi ar y defnydd o nwyddau niweidiol leihau'r defnydd. Mae alcohol a thybaco yn enghreifftiau o hyn. Yn wir, rwy'n croesawu'n fawr cefnogaeth yr Aelod dros Bontypridd mewn egwyddor i gael ardoll ar ddiodydd siwgr. Brif Weinidog, heddiw, mae eich penaethiaid yn San Steffan wedi codi pryderon am y prinder meddygon yn y GIG yn Lloegr. Wrth gwrs, mae cyflwr y GIG yn Lloegr yn rhywbeth yr ydych chi'n sôn amdano'n aml yn y Siambr. Cyhoeddwyd data heddiw sy'n dangos bod costau locwm mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn Lloegr wedi cynyddu 60% mewn tair blynedd. A allwch chi ein hysbysu am gostau meddygon locwm i'r GIG yng Nghymru?

13:58

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, first, she said that I do not understand the way that this tax would operate. If you tax a particular product and you then hypothecate that tax for a particular purpose, you either have to make sure that consumption stays at the same level to finance what you are trying to do or consumption drops and then your revenue drops, in which case you could not fund as many doctors as you want to. That is the way it works. Look at the way that so-called sin taxes operate at a UK level: yes, of course, there are punitive taxes on alcohol and tobacco, but the money is not actually hypothecated for a particular purpose. The idea is to raise revenue, yes, but also to reduce consumption. If you are saying that you want to reduce the consumption of fizzy drinks by taxing them, you will eventually reduce the revenue you have to pay for these doctors. That is just simple economics, it seems to me. How she does not understand that I do not know.

Wel, yn gyntaf, dywedodd nad wyf yn deall y ffordd y byddai'r dreth hon yn gweithio. Os byddwch yn trethu cynnyrch penodol ac yna'n clustnodi'r dreth honno at ddiben penodol, mae'n rhaid i chi naill ai wneud yn siŵr bod y defnydd yn aros ar yr un lefel i ariannu'r hyn yr ydych chi'n ceisio ei wneud neu mae defnydd yn gostwng, ac yna mae eich refeniw'n gostwng, ac wedyn ni allech chi ariannu cymaint o feddygon ag y dymunwch. Dyna'r ffordd y mae'n gweithio. Edrychwch ar y ffordd y mae'r hyn a elwir yn drethi pechod yn gweithio ar lefel y DU: oes, wrth gwrs, mae trethi cosbol ar alcohol a thybaco, ond nid yw'r arian yn cael ei glustnodi at ddiben penodol mewn gwirionedd. Ie, codi refeniw yw'r syniad, ond hefyd lleihau defnydd. Os ydych chi'n dweud eich bod eisiau lleihau'r defnydd o ddiodydd swigod drwy eu trethu, byddwch yn lleihau refeniw y mae'n rhaid i chi ei dalu am y meddygon hyn yn y pen draw. Economeg syml yw hynny, mae'n ymddangos i mi. Sut nad yw'n deall hynny wn i ddim.

When it comes to locums, the NHS in Wales has relied, particularly in A&E, on locums for many, many years. Many of those locums are very effective. Many of them are people who do not want a permanent position. For various reasons, they do not want to work full time, but they are still exceptionally effective as A&E specialists. So, to suggest that locums are in some way second-class doctors certainly would not be the case. That is certainly not the way that A&E specialists have presented this to me. Of course, we want to be in a position where there is no longer any need for locums. However, as we know, there is a difficulty in recruiting A&E specialists—not just in Wales, but across the whole of the UK and beyond.

Pan ddaw i staff locwm, mae'r GIG yng Nghymru wedi dibynnu, yn enwedig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ar staff locwm ers blynyddoedd maith iawn. Mae llawer o'r staff locwm hynny yn effeithiol iawn. Mae llawer ohonynt yn bobl nad ydynt eisiau swydd barhaol. Am wahanol resymau, nid ydynt eisiau gweithio'n llawn amser, ond maen nhw'n dal i fod yn eithriadol o effeithiol fel arbenigwyr damweiniau ac achosion brys. Felly ni fyddai awgrymu bod staff locwm yn feddygon ail ddosbarth mewn rhyw ffordd yn wir o gwbl. Yn sicr nid dyna'r ffordd y mae arbenigwyr damweiniau ac achosion brys wedi cyflwyno hyn i mi. Wrth gwrs, rydym ni eisiau bod mewn sefyllfa lle nad oes unrhyw angen am staff locwm mwyach. Fodd bynnag, fel y gwyddom, ceir anhawster wrth recriwtio arbenigwyr damweiniau ac achosion brys—nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y DU gyfan a thu hwnt.

13:59

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Reducing the need for locums is precisely one of the aims of our policy proposals, First Minister. However, it was obviously far too much for us to expect a straight answer from you in the new year. Plaid Cymru is absolutely clear that we need to recruit more doctors to the Welsh NHS, something you appear to be in denial about. We need to reduce locum costs, as well. Labour's UK health spokesperson says today that the same needs to happen in England. Are we both engaging in fantasy politics, First Minister?

Mae lleihau'r angen am staff locwm yn union yr hyn y byddem yn amcanu ato yn ein cynigion polisi, Brif Weinidog. Fodd bynnag, roedd yn amlwg yn llawer gormod i ni ddisgwyl ateb uniongyrchol gennych yn y flwyddyn newydd. Mae Plaid Cymru yn gwbl eglur bod angen i ni recriwtio mwy o feddygon i'r GIG yng Nghymru, rhywbeth y mae'n ymddangos eich bod chi'n ei wadu. Mae angen i ni leihau costau locwm, hefyd. Mae llefarydd iechyd Llafur y DU yn dweud heddiw bod angen i'r un peth ddigwydd yn Lloegr. A ydym ni'n dau yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ffantasi, Brif Weinidog?

14:00

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

No, I think that just you are. [Laughter.]

Na, rwy'n credu mai dim ond chi sy'n gwneud hynny. [Chwerthin.]

She accuses me of not answering the question; that is her prerogative. There are questions—it is not her job to answer questions; I understand that. However, in general, in public, she has questions to answer about her own policy.

Mae hi'n fy nghyhuddo o beidio ag ateb y cwestiwn; mae ganddi hawl i wneud hynny. Mae cwestiynau—nid ei chyfrifoldeb hi yw ateb cwestiynau; rwy'n deall hynny. Fodd bynnag, yn gyffredinol, yn gyhoeddus, mae ganddi gwestiynau i'w hateb am ei pholisi ei hun.

You mentioned 1,000 doctors. That figure seems to have been plucked from thin air; I do not know where that comes from. Which specialisms and where do they go? In which specialisms do you say that there is a shortage and in which do you say that there is not a shortage? Where do you allocate these doctors? Where does the figure come from?

Soniasoch am 1,000 o feddygon. Mae'n ymddangos bod y ffigur hwnnw wedi ei dynnu o'r awyr; nid wyf yn gwybod o ble mae hwnnw'n dod. Pa arbenigeddau a ble maen nhw'n mynd? Ym mha arbenigeddau ydych chi'n dweud bod prinder a lle rydych chi'n dweud nad oes prinder? Ble rydych chi'n neilltuo'rr meddygon hyn? O ble mae'r ffigur yn dod?

You would recruit 100 doctors from abroad, as if this has not already happened or is not being done. I can tell you that every LHB in Wales is already recruiting from abroad. It is not the case that there is a pool of doctors out there from which you can recruit at the drop of a hat; not even money will do it. What they are looking for is the opportunity to get a throughput of cases that will provide them with the level of training that they need in order to keep up their professional competence. Every single consultant with whom I have ever spoken says that. In saying this, I am not trying to start a political argument, but these are questions that need to be addressed in order for us to understand how this policy would work.

Byddech chi'n recriwtio 100 o feddygon o dramor, fel pe na byddai hyn wedi digwydd eisoes neu nad yw'n cael ei wneud. Gallaf ddweud wrthych fod pob BILl yng Nghymru yn recriwtio o dramor eisoes. Nid yw'n wir fod cronfa o feddygon ar gael y gallwch chi recriwtio o'u plith yn ddirybudd; ni fydd arian hyd yn oed yn ddigon i wneud hynny. Yr hyn maen nhw'n chwilio amdano yw'r cyfle i gael digon o achosion fel y byddant yn cael y lefel o hyfforddiant sydd ei hangen arnynt er mwyn cadw safon eu cymhwysedd proffesiynol. Mae pob un ymgynghorydd yr wyf fi erioed wedi siarad ag ef yn dweud hynny. Wrth ddweud hyn, nid wyf yn ceisio dechrau dadl wleidyddol, ond mae'r rhain yn gwestiynau y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn i ni ddeall sut y byddai'r polisi hwn yn gweithio.

You say to me that we are complacent about this. We started a medical recruitment campaign some months ago. We have recruited more doctors. We know that the staffing rate in Wales is at roughly 96% of what it should be. However, it is the case that LHBs have been looking to recruit. They have been looking to recruit from abroad—that much is true—and they have done that for many years. The one thing that always comes back to me from medics is this: first, you cannot actually bring in trainees unless you have somebody to teach them, but consultants will not arrive unless they feel that hospitals in Wales can offer opportunities to them, and the trainees will not stay in hospitals in Wales unless they feel that the training opportunities are there. It is nothing to do with money; it is to do with providing those opportunities.

Rydych chi'n dweud wrthyf ein bod yn hunanfodlon ynglŷn â hyn. Dechreuwyd ymgyrch recriwtio meddygol gennym rai misoedd yn ôl. Rydym ni wedi recriwtio mwy o feddygon. Rydym ni'n gwybod bod y gyfradd staffio yng Nghymru tua 96% o'r hyn y dylai fod. Fodd bynnag, mae'n wir fod BILlau wedi bod yn ceisio recriwtio. Maen nhw wedi bod yn ceisio recriwtio o dramor—mae hynny'n wir—ac maen nhw wedi gwneud hynny ers blynyddoedd lawer. Yr un peth sydd bob amser yn dod yn ôl i mi oddi wrth feddygon yw hyn: yn gyntaf, ni allwch chi ddod â hyfforddeion i mewn oni bai bod gennych rywun i'w haddysgu, ond ni fydd ymgynghorwyr yn cyrraedd oni bai eu bod yn teimlo y gall ysbytai yng Nghymru gynnig cyfleoedd iddynt, ac ni fydd yr hyfforddeion yn aros mewn ysbytai yng Nghymru oni bai eu bod yn teimlo bod y cyfleoedd hyfforddi ar gael. Nid oes ganddo ddim i'w wneud ag arian; mae'n ymwneud â chynnig y cyfleoedd hynny.

### Gwella Cyfleoedd

### Improving Opportunities

14:02 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc yn Nyffryn Clwyd ar gyfer 2014? OAQ(4)1411(FM)*

*3. Will the First Minister outline his priorities for improving opportunities for children and young people in the Vale of Clwyd for 2014? OAQ(4)1411(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They are set out in the in the programme for government. We know that early identification and intervention is key, and it is for this reason that we are making significant investments through our Families First and Flying Start programmes.

Maent i'w gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu. Rydym yn gwybod bod nodi ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol, ac am y rheswm hwn rydym ni'n gwneud buddsoddiadau sylweddol trwy ein rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

14:02 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I want to congratulate you on that early intervention and to say that I think that that is the right way forward. However, I also want to talk about the number of youngsters who enter the youth justice system. Many do so for a variety of reasons, and often because of the conditions that are being forced upon them due to lack of services and lack of a real worth, such as the ending of the future jobs fund. Hopefully Jobs Growth Wales is now giving them something to think about. First Minister, could you update us on what your Government is doing, working with the Ministry of Justice, the probation service and the agencies that are required to keep young people out of the youth justice service, and what we can do to make sure that they do not enter it in the first place?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Hoffwn eich llongyfarch chi ar yr ymyrraeth gynnar honno a dweud fy mod yn credu mai dyna'r ffordd iawn ymlaen. Fodd bynnag, hoffwn siarad hefyd am y nifer o bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae llawer yn gwneud hynny am amrywiaeth o resymau, ac yn aml oherwydd yr amodau sy'n cael eu gorfodi arnynt oherwydd diffyg gwasanaethau a diffyg gwir werth, fel dod â'r gronfa swyddi'r dyfodol i ben. Y gobaith yw bod Twf Swyddi Cymru bellach yn rhoi rhywbeth iddyn nhw ei ystyried. Brif Weinidog, a allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud, gan weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y gwasanaeth prawf a'r asiantaethau sydd eu hangen i gadw pobl ifanc allan o'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, a'r hyn y gallwn ni ei wneud i sicrhau nad ydynt yn mynd i mewn iddi yn y lle cyntaf?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Youth Justice Board for England and Wales and the Welsh Government work together to ensure that the system works effectively. At the moment, we are developing a new youth justice strategy, and a White Paper is being drafted on proposals to improve services for young people in the youth justice system. Clearly, as justice is not devolved, we seek to work very closely—and that has happened—with the non-devolved agencies in order to ensure that we have a coherent approach.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu strategaeth cyfiawnder ieuenctid newydd, ac mae Papur Gwyn yn cael ei ddrafftio ar gynigion i wella gwasanaethau i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Yn amlwg, gan nad yw cyfiawnder wedi ei ddatganoli, rydym ni'n ceisio gweithio agos iawn—ac mae hynny wedi digwydd—gyda'r asiantaethau nad ydynt wedi eu datganoli er mwyn sicrhau bod gennym ddull cydlynol.

14:04 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As recently as yesterday, concern was raised with me that the life chances of young people in Rhyl are being damaged by the Welsh Government's failure to reach a decision on grant funding for the successor to Rhyl Youth Action Group. I know that this has become highly personalised, but will the Welsh Government take control and reach a decision, because of the impact that this is having on young people, alongside the loss of other grant funding and tenants in the building concerned?

Mor ddiweddar â ddoe, codwyd pryder gyda mi bod cyfleoedd bywyd pobl ifanc yn y Rhyl yn cael eu niweidio gan fethiant Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad ar gyllid grant ar gyfer yr olynydd i Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl. Gwn fod hyn wedi troi'n ddadl bersonol iawn, ond a wnaiff Llywodraeth Cymru gymryd rheolaeth a gwneud penderfyniad, oherwydd yr effaith y mae hyn yn ei chael ar bobl ifanc, ynghyd â cholli cyllidau grant eraill a thenantiaid yn yr adeilad dan sylw?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

These are difficult financial times. I will write to the Member with regard to the Rhyl action group. However, with regard to his suggestion that life chances are somehow being deprived to young people in Rhyl, I have already mentioned Jobs Growth Wales, but I will not mention it in any detail. Of course, it is also the case that we have kept the education maintenance allowances. They have offered so many young people the chance to stay in college, which is a chance that is not available to them elsewhere in the UK.

Mae'r hon yn oes anodd o safbwynt ariannol. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod am grŵp gweithredu'r Rhyl. Fodd bynnag, o ran ei awgrym bod pobl ifanc yn y Rhyl yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd bywyd rywsut, rwyf eisoes wedi crybwyll Twf Swyddi Cymru, ond nid wyf am sôn amdano mewn unrhyw fanylder. Wrth gwrs, mae hefyd yn wir ein bod wedi cadw'r lwfansau cynhaliaeth addysg. Maen nhw wedi cynnig y cyfle i gymaint o bobl ifanc aros yn y coleg, sy'n gyfle nad yw ar gael iddynt mewn mannau eraill yn y DU.

## Y Rhyfel Byd Cyntaf

## The First World War

14:05 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gofio rhan Cymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf? OAQ(4)1426(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on Welsh Government plans to commemorate Welsh involvement in the First World War? OAQ(4)1426(FM)*

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I was pleased to launch the programme, Cymru'n Cofio, last October. My adviser, Professor Sir Deian Hopkin, continues to work with officials and stakeholders to further develop the programme for the commemoration of the centenary of the beginning of the first world war this year.

Roeddwn yn falch o lansio'r rhaglen, Cymru'n Cofio, fis Hydref diwethaf. Mae fy nghynghorydd, yr Athro Syr Deian Hopkin, yn parhau i weithio gyda swyddogion a rhanddeiliaid i ddatblygu ymhellach y rhaglen ar gyfer coffáu canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf eleni.

14:05 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I tell the First Minister that plans are well under way now in the Rhondda to mark the engagement of people of the Rhondda in the first world war? May I urge him to ensure that the emphasis is always on commemoration and not celebration, and would he agree with me that no politician, whether in Wales or in the UK, should seek to hijack the commemoration of the first world war for political purposes?

A gaf i ddweud wrth y Prif Weinidog fod cynlluniau wedi hen gychwyn yn y Rhondda bellach i nodi cyfraniad pobl y Rhondda yn ystod y rhyfel byd cyntaf? A gaf i ei annog i sicrhau bod y pwyslais bob amser ar goffáu ac nid dathlu, ac a fyddai'n cytuno â mi na ddylai unrhyw wleidydd, boed yng Nghymru neu'r DU, geisio herwgipio'r digwyddiadau i goffáu rhyfel byd cyntaf at ddibenion gwleidyddol?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I would. I very much agree that the purpose should be commemoration. I do not think that, with the first world war, you can celebrate very much. The beginnings of the war were unclear, the end of the war was a mess—we know, of course, with the Treaty of Versailles, that it led directly to the second world war. We know as well that it was hypocritical in much of what it said. Self-determination was offered, but only to those people who were white and not Irish. I did see Michael Gove's comments—I could not believe that he was not struck by the irony of talking about defeating German expansionism at a time when Britain ruled a quarter of the world without the consent of the people who lived in those countries. I thought that it was a stunning lack of knowledge of history at the time. If you read about the history of the first world war, you will know that the reality is that much of it began with one event that led to mass mobilisation, a secret treaty for some of them and, ultimately, to tragedy. I think that what we must do in Wales is ensure that we commemorate, we understand and, above all else, we learn.

Byddwn, mi fyddwn. Rwy'n cytuno'n llwyr mai coffáu ddylai'r pwrpas fod. Nid wyf yn credu, gyda'r rhyfel byd cyntaf, y gallwch chi ddathlu rhyw lawer. Roedd dechreuadau'r rhyfel yn aneglur, a diwedd y rhyfel yn llanast—rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, gyda Chytundeb Versailles, ei fod wedi arwain yn uniongyrchol at yr ail ryfel byd. Rydym hefyd yn gwybod ei fod yn rhagrithiol o ran llawer o'r hyn yr oedd yn ei ddweud. Cynigwyd hunan-reolaeth, ond dim ond i'r bobl hynny a oedd yn wyn ac nid yn Wyddelod. Gwelais sylwadau Michael Gove—ni allwn gredu na chafodd ei daro gan yr eironi o siarad am drechu ymlediaeth yr Almaen ar adeg pan roedd Prydain yn rheoli chwarter y byd heb ganiatâd y bobl a oedd yn byw yn y gwledydd hynny. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn ddiffyg gwybodaeth syfrdanol am hanes ar y pryd. Os darllenwch chi am hanes y rhyfel byd cyntaf, byddwch yn gwybod mai'r gwirionedd yw bod llawer ohono wedi dechrau gydag un digwyddiad a arweiniodd at fyddiniad eang, cytundeb cyfrinachol i rai ohonynt ac, yn y pen draw, at drasiedi. Rwy'n credu mai'r hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yng Nghymru yw sicrhau ein bod yn coffáu, ein bod yn deall ac, yn anad dim arall, ein bod yn dysgu.

14:07 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you mentioned Sir Deian Hopkin and the rich programme of commemoration events during a Welsh Conservative debate last summer. Can you give us an indication of what you expect by way of a sustainable legacy from the programme and how you anticipate it being used to meet Government objectives of all sorts in the future?

Brif Weinidog, soniasoch am Syr Deian Hopkin a'r rhaglen gyfoethog o ddigwyddiadau coffáu yn ystod dadl Ceidwadwyr Cymru yr haf diwethaf. A allwch roi rhyw syniad i ni o'r hyn yr ydych chi'n ei ddisgwyl o ran etifeddiaeth gynaliadwy o'r rhaglen a sut yr ydych chi'n rhagweld y caiff ei defnyddio i fodloni amcanion y Llywodraeth o bob math yn y dyfodol?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I can. One area where we are doing that is the assistance that we are giving to schools, because it is among young people that the memory will perpetuate; there is no-one now alive who fought in the first world war, although it is not that long ago that we lost the last of those who had been involved in combat. For example, our museums and the national library are involved and there is a website that has been set up in order for people to learn more about the first world war. The intention is not that there should be commemoration for one year or for four years, but that its legacy will be one that remains in the minds of people for many years to come. That is one reason, of course, among many—to come back to what I said earlier—why we have provided funding to schools to enable our young people to keep that memory going.

Gallaf, mi allaf. Un maes lle'r ydym ni'n gwneud hynny yw'r cymorth yr ydym ni'n ei roi i ysgolion, gan mai ymhlith pobl ifanc y bydd y cof yn parhau; nid oes unrhyw un a fu'n ymladd yn y rhyfel byd cyntaf yn fyw bellach, er nad yw'n bell iawn yn ôl i ni golli'r olaf o'r rhai a fu'n ymladd. Er enghraifft, mae ein hamgueddfeydd a'r llyfrgell genedlaethol yn cymryd rhan a cheir gwefan a sefydlwyd er mwyn i bobl ddysgu mwy am y rhyfel byd cyntaf. Nid coffáu am flwyddyn neu am bedair blynedd yw'r bwriad, ond y bydd ei etifeddiaeth yn un sy'n aros ym meddyliau pobl am flynyddoedd lawer i ddod. Dyna un rheswm, wrth gwrs, ymhlith llawer—i ddod yn ôl at yr hyn a ddywedais yn gynharach—pam yr ydym ni wedi darparu cyllid i ysgolion er mwyn galluogi ein pobl ifanc i barhau'r cof hwnnw.

14:08 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tystiolaeth milwyr o'r ffosydd ydy'r cofnod mwyaf dirdynnol o'r rhyfel byd cyntaf. Mae gennych ddyddiaduron yn Gymraeg gan pobl fel Lewis Valentine, mae gennych lythyron ac mae gennych waith beirdd fel Hedd Wyn, Siegfried Sassoon, Wilfred Owen ac eraill. A wnewch chi sicrhau y bydd lleisiau'r bobl gyffredin hyn a fu trwy'r erchylltra mawr hwnnw yn cael lle blaenllaw mewn unrhyw gofnodi ac wrth gofio'r gyflafan wastraffus honno?

The evidence of the soldiers from the trenches is the most excruciating record of the first world war. You have diaries in Welsh by people such as Lewis Valentine, you have letters and you have the work of poets such as Hedd Wyn, Siegfried Sassoon, Wilfred Owen and others. Will you ensure that the voices of ordinary people who went through those horrors will be given prominence in any commemoration of that terrible, wasteful slaughter?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn hollol. Yr hyn sy'n bwysig yw deall beth oedd profiad nid dim ond y rheini a oedd yn Fflandrys, Ffrainc a gwledydd eraill ond y rheini a oedd wedi sefyll gartref, heb wybod dim byd am eu brodyr, gwŷr neu feibion a oedd yn ymladd yn Ffrainc ac i ddeall effaith y rhyfel byd cyntaf ar gymdeithas ar ôl i'r rhyfel orffen. Felly, nod Cymru'n Cofio yw deall profiad pobl gyffredin ac nid ystyried yr holl beth drwy edrych ar yr hyn yr oedd gwledydd yn ei wneud, ond drwy edrych ar brofiad pobl a deall sut oedd pethau ar y pryd a beth, felly, oedd y 'legacy' a gafodd ei greu o achos hynny.

Indeed. What is important is that we understand the experience not only of those in Flanders, France and other nations, but of those who stayed at home, knowing nothing about their brothers, husbands or sons who were away fighting in France, and to understand the impact of the first world war on society when the war came to an end. Therefore, the aim of Cymru'n Cofio is to understand the experiences of ordinary people and to look at this not in the context of what nations were doing, but in the context of people's experiences and gaining an understanding of what things were like at the time and of the legacy that was created as a result.

## Derbyn Cleifion

## Admission of Patients

14:09 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dderbyn cleifion i ysbytai yn Nwyrain De Cymru dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd? OAQ(4)1422(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement concerning the admission of patients into hospitals in South Wales East, over the Christmas to New Year period? OAQ(4)1422(FM)*

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Anticipated demand was effectively accommodated over the Christmas and new year period, and that reflected the commitment and hard work of NHS staff and the impact of the plans that had been developed for the winter.

Gwnaf. Bodlonwyd y galw a ragwelwyd yn effeithiol dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd, ac roedd hynny'n adlewyrchu ymrwymiad a gwaith caled aelodau staff y GIG ac effaith y cynlluniau a ddatblygwyd ar gyfer y gaeaf.

14:10 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am most grateful to the First Minister for his answer. I agree with him and commend the action of staff in the NHS. The problem is that a constituent has written to me saying that, one year, he was admitted, or attempted to be admitted, with a suspected heart attack and spent 13 hours in the accident and emergency department with no sleep or even comfort. I also have complaints from other constituents whose elective surgery has been cancelled and told that surgery would not take place at least until the early part of the new year. These things do not quite coincide, First Minister. Can you offer some solution?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Rwy'n cytuno ag ef ac yn cymeradwyo gwaith aelodau staff yn y GIG. Y broblem yw bod etholwr wedi ysgrifennu ataf yn dweud, un flwyddyn, iddo gael ei dderbyn, neu geisio cael ei dderbyn, gyda'r hyn a dybiwyd oedd yn drawiad ar y galon a threuliodd 13 awr yn yr adran damweiniau ac achosion brys heb unrhyw gwsg na chysur hyd yn oed. Rwyf hefyd wedi cael cwynion gan etholwyr eraill y cafodd eu llawdriniaeth ddewisol ei chanslo ac y dywedwyd wrthynt na fyddai'r llawdriniaeth yn digwydd tan ran gyntaf y flwyddyn newydd o leiaf. Nid yw'r pethau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd yn union, Brif Weinidog. Allwch chi gynnig rhyw fath o ateb?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I cannot possibly comment on letters that I have not seen, or indeed on allegations that are made that have not been investigated. I would be more than happy—if the individuals involved are happy for their details to be released—to look at their cases, and I will ask the Minister for health to respond accordingly.

Nid yw'n bosibl i mi wneud sylwadau ar lythyrau nad wyf wedi eu gweld, nac yn wir ar honiadau a wneir nas ymchwiliwyd iddynt. Byddwn yn fwy na pharod—os yw'r unigolion dan sylw yn fodlon i'w manylion gael eu rhyddhau—i edrych ar eu hachosion, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog iechyd ymateb yn unol â hynny.

14:10 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We know that a high percentage of A&E admissions over the festive period are due to cases of excess alcohol. What work is your Government doing with the health boards, and the Gwent Police in South Wales East in particular, to tackle abuse of staff over the festive period, which every decent person finds totally unacceptable?

Rydym yn gwybod bod canran uchel o dderbyniadau damweiniau ac achosion brys dros gyfnod y Nadolig yn achosion o yfed gormod o alcohol. Pa waith mae eich Llywodraeth yn ei wneud gyda'r byrddau iechyd, a Heddlu Gwent yn Nwyrain De Cymru yn benodol, i fynd i'r afael ag achosion o gam-drin aelodau staff dros gyfnod y Nadolig, sy'n gwbl annerbyniol i bob unigolyn rhesymol?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As I have expressed many times in the Chamber, my view is that people who are abusive or attack staff should be prosecuted, drunk or not. If they get drunk, that is their own look out. Sometimes, people will need medical treatment first, and it is a difficult judgment to make unless you are on the ground. However, it should be made absolutely clear—and it is certainly the view of the Government, and most Assembly Members, I am sure—that those who are seeking to administer medical care should not live in fear of their personal safety, and that those who attack or abuse them should be arrested and prosecuted, full stop.

Fel rwyf wedi ei ddweud droeon yn y Siambr, fy marn i yw y dylai pobl sy'n ymddwyn yn ymosodol neu'n ymosod ar aelodau staff gael eu herlyn, yn feddw neu beidio. Os ydynt yn meddwi, eu cyfrifoldeb nhw yw hynny. Weithiau, bydd angen triniaeth feddygol ar bobl yn gyntaf, ac mae'n benderfyniad anodd ei wneud oni bai eich bod yn y sefyllfa. Fodd bynnag, dylid ei gwneud yn gwbl eglur a dyma farn y Llywodraeth yn sicr, a'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad, rwy'n siŵr—na ddylai'r rhai sy'n ceisio darparu gofal meddygol fyw mewn ofn am eu diogelwch personol, a heb os y dylid arestio ac erlyn y rhai sy'n ymosod arnynt neu'n ymddwyn yn ymosodol tuag atynt.

### Rhaglenni Cyfalaf Awdurdodau Lleol

### Local Authorities' Capital Programmes

14:11 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglenni cyfalaf awdurdodau lleol? OAQ(4)1419(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on local authorities' capital programmes? OAQ(4)1415(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

O ganlyniad i'r gostyngiadau yn y gyllideb gyfalaf sy'n cael ei dirprwyo i ni gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r dyraniadau cyfalaf i lywodraeth leol yn parhau i fod yn her. Er hynny, mae'r cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol ar gyfer 2014-15, sef £406.3 miliwn, yn dal i fod yn fuddsoddiad sylweddol o ystyried y cefndir o gyfyngiadau ariannol parhaus.

As a result of the reductions in the capital budget delegated to us by the UK Government, capital allocations for local government continue to present challenges. However, the capital funding for local authorities for 2014-15, which is £406.3 million, still represents a significant investment, considering the backdrop of continuous financial limitations.

14:12 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n derbyn yn llwyr fod pwysau mawr ar y gyllideb hon oherwydd y toriadau sy'n dod o'r glymblaid yn San Steffan, Brif Weinidog. Eto i gyd, fel yr ydych wedi nodi, mae symiau sylweddol ar gael ar gyfer y rhaglenni cyfalaf hyn. Yn ei adroddiad ar raglen gyfalaf 2013-14, mae Cyngor Sir Gâr yn cydnabod bod tanwariant o £4.3 miliwn. A ydyw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o danwariant yn rhaglenni cyfalaf awdurdodau lleol yng Nghymru? A wnaed unrhyw asesiad o'r hyn y gellid ei wneud er mwyn sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei wario er mwyn ein tyfu ni allan o'r dirwasgiad?

I fully accept that there is huge pressure on this budget because of the cuts imposed by the coalition in Westminster, First Minister. However, as you have noted, there are significant sums of money available for these capital programmes. In its report on the capital programme for 2013-14, Carmarthenshire County Council acknowledges that there has been an underspend of £4.3 million. Has the Welsh Government carried out any assessment of underspend in the capital programmes of local authorities in Wales? Has there been any assessment of what can be done to ensure that this money is spent in order to grow us out of this recession?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Fel y gŵyr yr Aelod, nid yw hi weithiau'n bosibl gwario pob ceiniog o ran cyfalaf. Weithiau, nid yw prosiectau'n gallu mynd ymlaen mor gyflym ag y byddai pobl yn dymuno, ac, weithiau, mae rhai yn cael eu dileu. Wrth gwrs, rwy'n siŵr bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru yr ewyllys i hala'r arian y maent wedi'i gael fel arian cyfalaf, ac rwy'n siŵr y bydd pob un yn ceisio gwario'r arian yn y ffordd fwyaf effeithiol.

As the Member will be aware, sometimes it is not possible to spend every penny of capital funding. Sometimes, projects are unable to proceed as swiftly as one would wish, and sometimes, some are cancelled altogether. However, I am sure that every local authority in Wales has the will to spend the funding that they have received as capital funding and that each one of them will attempt to spend that money in the most effective manner.

14:13 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly within my own authority, the capital programme is already earmarked for existing infrastructure projects. However, following the recent flood and storm damage, we have seen some major infrastructure damage within Conwy county borough. This obviously comes against a backdrop of severe cuts and a poor financial settlement. As my colleague has rightly pointed out, this is a devolved issue. First Minister, will you allow for some emergency funding for my own authority of Conwy County Borough Council, which has suffered damage to large parts of its infrastructure to the tune of several million pounds?

Yn fy awdurdod i yn sicr, mae'r rhaglen gyfalaf eisoes wedi ei chlustnodi ar gyfer prosiectau seilwaith presennol. Fodd bynnag, yn dilyn difrod y llifogydd a'r stormydd diweddar, rydym ni wedi gweld difrod mawr i seilwaith ym mwrdeistref sirol Conwy. Mae hyn yn amlwg yn dod ar adeg lle ceir toriadau difrifol a setliad ariannol gwael. Fel mae fy nghydweithiwr wedi ei nodi'n gwbl gywir, mae hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli. Brif Weinidog, a wnewch chi ganiatáu rhywfaint o arian brys ar gyfer fy awdurdod i, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sydd wedi dioddef difrod i rannau helaeth o'i seilwaith gan arwain at gostau o filiynau lawer o bunnoedd?

14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Are you coming to a question?

Trefn. A ydych chi'n dod at gwestiwn?

14:14 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. First Minister, will you commit to supporting Conwy County Borough Council as it faces several million pounds-worth of damage to infrastructure as a result of the storm damage?

Ydw. Brif Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i gefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrth iddo wynebu difrod gwerth sawl miliwn o bunnoedd i seilwaith o ganlyniad i'r difrod storm?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member puts up a good case for her area. It is a shame that the Secretary of State was not quite as strong as the Member herself. Clearly, with regard to the flood alleviation scheme, it is a matter for local authorities to apply for assistance from that scheme. An assessment has to be made first, of course, of the damage that has occurred. I understand that, in terms of Conwy county borough, an assessment is being made of the situation at Kinmel Bay, and also of whether there will be a need for such an application in the future. However, as a matter of principle, such an application is possible, but it would then have to be considered very carefully.

Mae'r Aelod yn sicr yn cyflwyno achos da dros ei hardal. Mae'n drueni nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol mor gryf â'r Aelod ei hun. Yn amlwg, o ran y cynllun lliniaru llifogydd, mae'n fater i awdurdodau lleol wneud cais am gymorth gan y cynllun hwnnw. Mae'n rhaid gwneud asesiad yn gyntaf, wrth gwrs, o'r difrod sydd wedi digwydd. Rwy'n deall, o ran bwrdeistref sirol Conwy, bod asesiad yn cael ei wneud o'r sefyllfa ym Mae Cinmel, a hefyd pa un a fydd angen gwneud cais o'r fath yn y dyfodol. Fodd bynnag, fel mater o egwyddor, mae cais o'r fath yn bosibl, ond byddai'n rhaid iddo gael ei ystyried yn ofalus iawn wedyn.

### Hybu Chwaraeon

### Promoting Sport

14:15 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi a hybu chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)1410(FM)*

*7. What is the Welsh Government doing to support and promote sport in Wales? OAQ(4)1410(FM)*

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

One of our aims is to increase rates of participation in sport across Wales for all ages, for both genders and for all social groups. Our work programme is being delivered via Sport Wales.

Un o'n nodau yw cynyddu cyfraddau cyfranogiad mewn chwaraeon ledled Cymru ar gyfer pob oedran, ar gyfer y ddau ryw ac ar gyfer pob grŵp cymdeithasol. Mae ein rhaglen waith yn cael ei darparu trwy Chwaraeon Cymru.

14:15 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that you share my disappointment at the continuing impasse between the Welsh Rugby Union and the regions in Wales. Do you join me in urging a speedy resolution by both parties in the interests of our national game, our international standing in the game, and the growth and development of the game here in Wales?

Rwy'n siŵr eich bod yn rhannu fy siom ynghylch y diffyg cytundeb parhaus rhwng Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau yng Nghymru. A ydych chi'n ymuno â mi i annog penderfyniad buan gan y ddwy ochr er budd ein gêm genedlaethol, ein statws rhyngwladol yn y gêm, a thwf a datblygiad y gêm yma yng Nghymru?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do. I have done just that. I wrote to the parties involved and urged them to come to a conclusion as swiftly as possible. Ultimately, those who are losing out are the fans and the players. That uncertainty does nobody any good as far as the future is concerned. It is important that there is a settlement as quickly as possible.

Ydw, mi ydwyf. Rwyf wedi gwneud yn union hynny. Ysgrifennais at y partïon dan sylw a'u hannog i ddod i gasgliad cyn gynted â phosibl. Y cefnogwyr a'r chwaraewyr yw'r rhai sy'n dioddef y pen draw. Nid yw'r ansicrwydd hwnnw o les i unrhyw un cyn belled ag y mae'r dyfodol yn y cwestiwn. Mae'n bwysig cael cytundeb cyn gynted â phosibl.

14:16 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Sport Wales's recent school sports survey revealed an increase of almost 50% in the number of Welsh children taking regular part in sport and physical activities. That is good news. However, boys remain more likely than girls to regularly participate in sport, by some 8%. What is the Welsh Government doing to encourage more girls to participate in sports, particularly those from ethnic minorities where clothing is a religious and cultural issue?

Brif Weinidog, datgelodd arolwg chwaraeon mewn ysgolion diweddar Chwaraeon Cymru gynnydd o bron i 50% yn nifer y plant yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff yn rheolaidd. Mae hynny'n newyddion da. Fodd bynnag, mae bechgyn yn dal i fod yn fwy tebygol na merched o gymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, o tua 8%. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o ferched i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig y rhai o leiafrifoedd ethnig lle mae dillad yn fater crefyddol a diwylliannol?

14:16

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The Member refers to an issue that has been a problem for some years—the tendency of girls to drop out of physical activity in their teens, particularly. There is a tendency for more boys—although this is not universal for boys either—to keep on playing sport. Work has been done with Sport Wales to assess how this might be addressed. What is also important is that role models, in terms of sportswomen in Wales, are illustrated to young girls in particular, so that they can see how important it is to carry on going to see what success can be achieved. Most people do not ever reach that level, but it is important that people aim for that success in order to keep on with their physical education. I know that this is an issue that is very much in the mind of Sport Wales and very much in the minds of schools.

Mae'r Aelod yn cyfeirio at fater sydd wedi bod yn broblem ers rhai blynyddoedd—y duedd i ferched roi'r gorau i wneud ymarfer corff yn eu harddegau, yn enwedig. Ceir tuedd i fwy o fechgyn—er nad yw hyn yn gyffredinol ar gyfer bechgyn ychwaith—i barhau i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae gwaith wedi ei wneud gyda Chwaraeon Cymru i asesu sut y gellid mynd i'r afael â hyn. Yr hyn sy'n bwysig hefyd yw bod esiamplau, o ran athletwyr benywaidd yng Nghymru, yn cael eu dangos i ferched ifanc yn arbennig, fel y gallant weld pa mor bwysig yw hi i ddal ati i weld pa lwyddiant y gellir ei gyflawni. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl byth yn cyrraedd y lefel hwnnw, ond mae'n bwysig bod pobl â'r nod o gyrraedd y llwyddiant hwnnw er mwyn parhau â'u haddysg gorfforol. Gwn fod hwn yn fater sydd yn sicr ym meddyliau Chwaraeon Cymru ac yn sicr ym meddyliau ysgolion.

14:17

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rwyf ar ddeall gan y clybiau rygbi rwyf wedi cwrdd â nhw dros yr wythnosau diwethaf ynglŷn â'r anghydfod anffodus rhwng y rhanbarthau a'r WRU eich bod chi wedi ysgrifennu at y clybiau mewn capasiti personol. Tybed a fyddech chi, fel Prif Weinidog Cymru, yn dweud wrthym heddiw beth yw eich barn chi am yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran y negodi rhwng y WRU a Rygbi Rhanbarthol Cymru? A fyddech chi, er enghraifft, yn hyrwyddo rhyw fath o arolwg o sut y mae'r WRU yn cael ei lywodraethu? Ar ddiwedd y dydd, mae miliynau o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru yn mynd ar rygbi yng Nghymru ac rydym am sicrhau bod yr arian hwnnw'n mynd i'r lleoedd gorau er mwyn amddiffyn y maes hwn, ac er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau'r gêm, er lles y chwaraewyr sy'n chwarae ein gêm genedlaethol bob dydd.

First Minister, I am given to understand by the rubgy clubs that I have met over the last few weeks to discuss the unfortunate dispute between the regions and the WRU that you wrote to the clubs in a personal capacity. I wonder whether you, as First Minister, would give us today your view of what is currently happening with regard to the negotiations between the WRU and Regional Rugby Wales. Would you, for example, call for some kind of review of how the WRU is governed? At the end of the day, millions of pounds of Welsh Government money goes into Welsh rugby, and we want to ensure that that money is spent in the best possible way to safeguard the sport, so that everyone can enjoy the game, for the benefit of those playing our national game, day in, day out.

14:18

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Pe baem yn cynnal arolwg o'r undeb, byddai'n rhaid cynnal arolwg o'r rhanbarthau hefyd. Ni allwch ymdrin ag un rhan o'r sefyllfa yn unig. Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl gyfreithiol yn y mater hwn. Fodd bynnag, fel un sydd wedi dilyn rygbi ers blynyddoedd mawr, rwy'n deall beth yw'r sefyllfa, ond rwy'n gwybod bod siarad wedi bod dros yr wythnos ddiwethaf. Hoffwn weld cytundeb cyn bo hir, ac o leiaf cyn diwedd y mis, er mwyn rhoi sicrwydd nid yn unig i'r undeb ac i'r rhanbarthau, ond i'r clybiau hefyd. Effeithir ar y clybiau hefyd gan y sefyllfa hon, yn ogystal â'r rhai sy'n cefnogi ac yn chwarae'r gêm. Mae'n bwysig dros ben bod cytundeb yn digwydd yng Nghymru. Ni chredaf fod rhai cyrff sydd y tu allan i Gymru yn meddwl am les y gêm yng Nghymru. Credaf y dylai pawb fod yn ofalus ynglŷn â chofio hynny.

If we were to conduct a review of the union, we would have to conduct a review of the regions as well. You cannot deal with only one part of the picture. The Welsh Government has no legislative role in this issue. However, as one who has followed rugby over many years, I understand the situation, but I know that talks have taken place over the last few weeks. I would like to see an early resolution, by the end of the month at the latest, in order to give assurance not only to the union and to the regions, but to the clubs as well. Clubs are also affected by this situation, as well as those who support and play the game. It is vital that we have a Welsh resolution. I do not believe that some outside bodies have the Welsh game's interests at heart. I think that we should all be careful to bear than in mind.

14:19

# Cwestiwn Brys: Tywydd Garw

# Urgent Question: Adverse WeatherY

Senedd.tv
Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on William Graham to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar William Graham i ofyn y cwestiwn brys.

14:19 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cydlynu gwaith y gwasanaethau brys ag adrannau eraill y Llywodraeth, asiantaethau a gwasanaethau gwirfoddol wrth fynd i'r afael â'r tywydd garw a'r llifogydd? EAQ(4)0100 (NRF)*

*Will the Minister make a statement concerning the co-ordination of the emergency services with other government departments, agencies and voluntary services in tackling the adverse weather conditions and flooding? EAQ(4)0100 (NRF)*

14:20 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

The emergency services and other responder agencies implemented their established multi-agency response plans during the recent adverse weather conditions. These plans were co-ordinated by the four police forces, working closely with Natural Resources Wales. The Welsh Government used its emergency co-ordination centre to link into these groups and to COBRA. I am sure that Members on all sides of the Chamber this afternoon would like to join me in paying tribute to and thanking the emergency services for their work, as well as volunteers, Natural Resources Wales, local authorities and others over the last few weeks.

Rhoddodd y gwasanaethau brys ac asiantaethau eraill sy'n ymateb eu cynlluniau ymateb aml-asiantaeth sefydledig ar waith yn ystod y tywydd garw diweddar. Cydgysylltwyd y cynlluniau hyn gan y pedwar heddlu, gan weithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei chanolfan cydgysylltu brys i gysylltu â'r grwpiau hyn a chyda COBRA. Rwy'n siŵr y byddai Aelodau ar bob ochr o'r Siambr y prynhawn yma yn hoffi ymuno â mi i dalu teyrnged i'r gwasanaethau brys ac i ddiolch iddynt am eu gwaith, yn ogystal â gwirfoddolwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol ac eraill yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf.

14:20 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for his reply and I fully endorse the comments that he has just made. In order to support this co-ordination in future work, is he co-ordinating an application for Bellwin funds from central Government in Westminster, and also, following the lead suggested by the Welsh Conservative MEP, Dr Kay Swinburne, applying to the European solidarity fund? The Minister will know that there have to be exceptional circumstances for that money to be granted, with an application made within 10 weeks. I am given to understand that the Irish republic has already made an application.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb, ac rwy'n cymeradwyo'n llwyr y sylwadau y mae newydd eu gwneud. Er mwyn cefnogi'r cydgysylltiad hwn mewn gwaith yn y dyfodol, a yw'n cydgysylltu cais am arian Bellwin gan y Llywodraeth ganolog yn San Steffan, a hefyd, yn dilyn yr arweiniad a awgrymwyd gan ASE Ceidwadwyr Cymru, Dr Kay Swinburne, gan wneud cais i'r gronfa undod Ewropeaidd? Bydd y Gweinidog yn gwybod bod yn rhaid cael amgylchiadau eithriadol i'r arian hwnnw gael ei ganiatáu, o ran cais a wneir o fewn 10 wythnos. Rwyf wedi cael ar ddeall bod gweriniaeth Iwerddon wedi gwneud cais eisoes.

14:21 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I did receive correspondence from Dr Swinburne last week, and I thank her for that. I am sure that she was as disappointed as I was to hear the Secretary of State for Wales undermining her letter and her request, and your question this afternoon. I think that all of us will join together in registering a level of disappointment that the Secretary of State for Wales is not standing up for Wales, but rather potentially undermining the case for Wales.

Derbyniais ohebiaeth gan Dr Swinburne yr wythnos diwethaf, a diolchaf iddi am hynny. Rwy'n siŵr ei bod mor siomedig ag yr oeddwn innau o glywed Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn tanseilio ei llythyr a'i chais, a'ch cwestiwn chi y prynhawn yma. Rwy'n credu y bydd pob un ohonom yn dod ynghyd i fynegi lefel o siom nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn sefyll yn gadarn dros Gymru, ond yn hytrach yn tanseilio achos Cymru o bosibl.

In terms of the co-ordination that we are undertaking, I say this: we are currently assessing the scale and dimensions of the damage that has been caused to flood defences and coastal defences by the storms of two weeks ago. We are working closely with local authorities, and officials have met with all local authorities to discuss the damage and its implications. The final meeting is taking place today, with Ceredigion, as was indicated by the First Minister. The First Minister also indicated that we will be looking closely at all options available to us. We will be taking this forward over the coming days and I will make a further statement to Members when we reach conclusions on these matters.

O ran y cydgysylltiad yr ydym ni'n ymgymryd ag ef, dywedaf hyn: ar hyn o bryd, rydym ni'n asesu maint a hyd a lled y difrod a achoswyd i amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol gan y stormydd bythefnos yn ôl. Rydym ni'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, ac mae swyddogion wedi cyfarfod â'r holl awdurdodau lleol i drafod y difrod a'i oblygiadau. Mae'r cyfarfod olaf yn cael ei gynnal heddiw, gyda Cheredigion, fel y nodwyd gan y Prif Weinidog. Nododd y Prif Weinidog hefyd y byddwn yn edrych yn ofalus ar yr holl ddewisiadau sydd ar gael i ni. Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn yn ystod y diwrnodau nesaf a byddaf yn gwneud datganiad pellach i'r Aelodau pan fyddwn yn dod i gasgliadau ar y materion hyn.

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a long list of people who wish to ask the Minister questions. William Graham set a very good example today of being short and concise, so hopefully the questions and the answers will be along that line.

Mae gennyf restr hir o bobl sydd eisiau gofyn cwestiynau i'r Gweinidog. Gosododd William Graham esiampl dda iawn heddiw o fod yn fyr ac yn gryno, felly gobeithio y bydd y cwestiynau a'r atebion yn dilyn yr un patrwm.

14:22 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I also add my thanks to the emergency services? As somebody who presided over the first calls of the Tywyn floods back in the early 1990s, I know the stress that emergency services workers have to work under, very often, in situations like that. What do you intend to do around the civil contingencies Bill, and is there any scope within that Bill to make sure that we have one lead service, so that we all know who we would go to in emergencies?

A gaf innau ychwanegu fy niolch i'r gwasanaethau brys hefyd? Fel rhywun a oedd yn gyfrifol am alwadau cyntaf llifogydd Tywyn yn ôl yn nechrau'r 1990au, rwy'n ymwybodol o'r straen y mae'n rhaid i weithwyr gwasanaethau brys oddi tano, yn aml iawn, mewn sefyllfaoedd o'r fath. Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud o ran y Bil argyfyngau sifil, ac a oes unrhyw gyfle o fewn y Bil hwnnw i wneud yn siŵr bod gennym un gwasanaeth arweiniol, fel ein bod i gyd yn gwybod pwy fyddem ni'n mynd atynt mewn argyfwng?

14:23 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Many of these matters are matters for the Minister for Local Government and Government Business. She is in her place and she will have heard that question. I feel that co-ordination between the emergency services, local government and NRW over the last few weeks—we are discussing the storms of 3 January, but also storms back in December as well—has worked remarkably well, and lessons have been learned from previous occasions. I am very content at the moment with the way that local government, emergency services, NRW and Welsh Government are working together on these matters. These matters are always under consideration.

Mae llawer o'r materion hyn yn faterion i Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Mae hi yn ei lle a bydd wedi clywed y cwestiwn yna. Rwy'n teimlo bod y cydgysylltiad rhwng y gwasanaethau brys, llywodraeth leol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf—rydym ni'n trafod stormydd 3 Ionawr, ond stormydd yn ôl ym mis Rhagfyr hefyd—wedi gweithio'n rhyfeddol o dda, ac mae gwersi wedi cael eu dysgu o achlysuron blaenorol. Rwy'n fodlon iawn ar hyn o bryd â'r ffordd y mae llywodraeth leol, y gwasanaethau brys, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ar y materion hyn. Mae'r materion hyn dan ystyriaeth bob amser.

14:23 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, diolch i chi yn gyntaf am ymweld ag Aberystwyth ar fyr rybudd i weld y difrod a achosodd y stormydd ar y promenâd yno. Diolch hefyd i'r bobl, y busnesau a'r gwasanaethau yng Ngheredigion am ymateb mor gadarnhaol ac mor ddewr, ar adegau, i'r stormydd hyn. Mae angen cefnogaeth ariannol ar gynghorau fel Cyngor Sir Ceredigion i atgyweirio'r difrod, ac mae aelod-wladwriaeth Iwerddon eisoes wedi gwneud cais am arian Ewrop o gronfa 'solidarity' yn dilyn y stormydd diweddar. Defnyddiodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yr un gronfa yn 2007 hefyd yn dilyn llifogydd. A ydych yn hyderus bod digon o arian o fewn Cymru, ac o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru, i dalu am atgyweirio'r difrod ar hyd yr arfordir, ynteu a ydych yn credu bod angen i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol wneud cais am arian ychwanegol o Ewrop? Wrth gwrs, dim ond Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol all wneud cais o'r fath, gan mai hi yw'r aelod-wladwriaeth.

Minister, first of all I thank you for visiting Aberystwyth at short notice to see the storm damage on the promenade. I also thank people, businesses and services in Ceredigion for responding so positively and bravely, at times, to those storms. Councils like Ceredigion County Council need financial assistance to repair the damage, and Ireland, as a member state, has already applied for European solidarity fund money following the recent storms. The UK Government used the same fund following the floods in 2007. Are you confident that there is enough money in Wales, and in the Welsh Government budget, to deal with the cost of damage repair along the coast, or do you believe that the UK Government needs to apply for additional money from Europe? Of course, it is only the UK Government, as the member state, that is able to apply for those funds.

14:24 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am eich sylwadau, a diolch i chi hefyd am eich gwahoddiad ar Twitter i ddod i Aberystwyth. Gwelais hynny, ac roeddwn yn falch o'r cyfle i ymuno â chi. Cefais sioc go iawn o weld y difrod yn Aberystwyth. Mae pob un ohonom sy'n adnabod ac yn caru'r dref wedi teimlo'r un fath o sioc a 'distress' o weld beth sydd wedi digwydd i'r dref a'r gymuned yn Aberystwyth yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Thank you for your comments, and thank you for your Twitter invitation to visit Aberystwyth. I saw it, and was pleased to be able to join you. I was shocked to see the damage caused in Aberystwyth. Those of us who know Aberystwyth and love the town felt the same shock and distress when we saw what has happened to the town and the community there over the last few weeks.

Dywedaf hyn mewn ymateb i'ch cwestiwn penodol: ar hyn o bryd rydym yn asesu'r difrod. Fel rydych yn gwybod, mae swyddogion cyngor Ceredigion yn cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru y prynhawn yma i drafod hyn. Pan fyddwn yn gwybod beth yw 'dimensions' y difrod yn Aberystwyth ac ar draws y wlad, byddwn wedyn mewn sefyllfa i wneud y fath o asesiad rydych wedi gofyn amdano. Rwy'n hapus i ddod yn ôl i'r Siambr neu i wneud datganiad ysgrifenedig a fydd yn disgrifio'r camau nesaf y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd er mwyn ymateb i beth rydym wedi ei weld.

I will say this in reply to your specific question: we are currently assessing the damage. As you know, Ceredigion council officials are meeting Welsh Government officials this afternoon to discuss this. When we know the dimensions of the damage in Aberystwyth and across the country, we will be in a situation to conduct the kind of assessment that you have asked for. I am happy to return to the Chamber or to make a written statement on the next steps that the Government will take in responding to what we have seen.

Bydd y Llywodraeth hon yn gweithredu'n bositif i weithio gyda llywodraeth leol ac NRW ar draws Cymru i sicrhau bod gennym y fath o 'defences' sydd eu hangen i amddiffyn pobl a chymunedau ar draws y wlad.

This Government will work positively with local authorities and NRW across Wales to ensure that we have the kind of defences that are required to safeguard people and communities across the country.

14:26 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I associate myself very much with the remarks that you made about the dedicated efforts of the emergency services, Ceredigion council and others recently. Following on from my earlier question to the First Minister, will you undertake to have a discussion with your colleague the Minister for Finance about the possibility, in the longer term, of an approach to the European Investment Bank? That is not so much in dealing with the immediate aftermath and making good of immediate damage, but in ensuring longer-term resilience through key projects to improve coastal defence—as was recommended in our recent Environment and Sustainability Committee report.

Weinidog, rwy'n cytuno'n llwyr â'r sylwadau a wnaethoch am ymdrechion ymroddedig y gwasanaethau brys, cyngor Ceredigion ac eraill yn ddiweddar. Yn dilyn fy nghwestiwn cynharach i'r Prif Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i gael trafodaeth gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog Cyllid am y posibilrwydd, yn yr hirdymor, o ddull o wneud cais i Fanc Buddsoddi Ewrop? Nid cymaint o ran ymdrin â'r canlyniadau uniongyrchol a thrwsio difrod uniongyrchol, ond o ran sicrhau cryfder mwy hirdymor trwy brosiectau allweddol i wella amddiffynfeydd arfordirol—fel yr argymhellwyd yn adroddiad diweddar ein Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

14:27 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will certainly give the Member that undertaking. I will talk with the Minister for Finance and other ministerial colleagues about how we ensure that we have a comprehensive response to what we have seen over the last two weeks and also in December. The conversation that we had with Ceredigion council in Aberystwyth a week ago was very much about ensuring that we make emergency repairs immediately, that we are able to ensure that people can return to their homes where that is an issue, that people are able to re-establish and run their businesses, and that we are able to clear up the immediate damage.

Rwyf yn sicr yn rhoi'r ymrwymiad hwnnw i'r Aelod. Byddaf yn siarad â'r Gweinidog Cyllid ac chyd-Weinidogion eraill ynghylch sut yr ydym yn sicrhau bod gennym ymateb cynhwysfawr i'r hyn yr ydym ni wedi ei weld yn ystod y pythefnos diwethaf a hefyd ym mis Rhagfyr. Roedd y sgwrs a gawsom gyda chyngor Ceredigion yn Aberystwyth wythnos yn ôl yn sicr yn ymwneud â sicrhau ein bod yn gwneud gwaith atgyweirio brys ar unwaith, ein bod yn gallu sicrhau y gall pobl ddychwelyd i'w cartrefi pan fo hynny'n broblem, bod pobl yn gallu ail -sefydlu a rhedeg eu busnesau, ac ein bod yn gallu clirio difrod uniongyrchol ar unwaith.

We also know that, as a consequence of the storms and weather patterns emerging at the moment, we will need to look hard at the sort of capital and other investments that we are making in coastal and flood defences as we see the impact of climate change taking a grip on our weather patterns. That will mean that we will need to look at all sources of funding and all vehicles for funding. I give the Member and other Members an undertaking that this Government will continue to take an activist approach to such matters.

Rydym hefyd yn gwybod, o ganlyniad i'r stormydd a'r patrymau tywydd sydd gennym ar hyn o bryd, y bydd angen i ni edrych yn ofalus ar y math o gyfalaf a buddsoddiadau eraill yr ydym ni'n eu gwneud mewn amddiffynfeydd arfordirol a llifogydd wrth i ni weld effaith y newid yn yr hinsawdd yn cymryd gafael ar ein patrymau tywydd. Bydd hynny'n golygu y bydd angen i ni edrych ar bob ffynhonnell o gyllid a phob dull ariannu. Rhoddaf ymrwymiad i'r Aelod a'r Aelodau eraill y bydd y Llywodraeth hon yn parhau i fabwysiadu dull gweithredol o ymdrin â materion o'r fath.

14:28 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to hear you mention climate change, Minister, because it is quite clear that the Welsh Government has been warned by a number of people of the possible impacts of coastal erosion and severe weather events. In my question to the First Minister I referred to the report of the Environment and Sustainability Committee, specifically on flooding, which contained a number of key recommendations. There was evidence to that committee about damage to infrastructure that was proved to have happened in these events this year, last year and in 2012, when there was inland flooding.

Minister, you were due to report in early 2014, and this is early 2014, on outcomes, plans and activities arising from your national flood and coastal erosion risk strategy. Presumably, those steps have been in place for some time for you to bring forward that report and see how your management plans have been working. Given the damage that was caused along the north Wales coast and elsewhere, as we have heard, and the fact that there are substantial amounts of European funding available for flood defences—I know that you have allocated funds—I wonder if you will be tying up the two inquiries and effect the report that you announced in December and the report that you were asked to give by early 2014.

Rwy'n ddiolchgar iawn o'ch clywed yn sôn am newid yn yr hinsawdd, Weinidog, gan ei bod yn eithaf amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi cael ei rhybuddio gan nifer o bobl am effeithiau posibl erydiad arfordirol a digwyddiadau tywydd garw. Cyfeiriais yn fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog at adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ar lifogydd yn benodol, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion allweddol. Roedd tystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw am ddifrod i seilwaith y profwyd ei fod wedi digwydd yn ystod y digwyddiadau hyn eleni, y llynedd ac yn 2012, pan fu llifogydd mewndirol.

Weinidog, disgwyliwyd i chi adrodd yn ôl ar ddechrau 2014, ac mae'n ddechrau 2014 nawr, ar ganlyniadau, cynlluniau a gweithgareddau yn deillio o'ch strategaeth perygl llifogydd ac erydu arfordirol genedlaethol. Rwy'n cymryd bod y camau hynny wedi bod ar waith ers cryn amser i chi allu cyflwyno'r adroddiad hwnnw a gweld sut mae eich cynlluniau rheoli wedi bod yn gweithio. O ystyried y difrod a achoswyd ar hyd arfordir y gogledd ac mewn mannau eraill, fel rydym ni wedi clywed, a'r ffaith fod symiau sylweddol o gyllid Ewropeaidd ar gael ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd—gwn eich bod wedi neilltuo arian—tybed a fyddwch chi'n cysylltu'r ddau ymchwiliad ac yn cyflwyno'r adroddiad a gyhoeddwyd gennych ym mis Rhagfyr a'r adroddiad y gofynnwyd i chi ei gyflwyno erbyn dechrau 2014.

14:29 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that even the Conservative spokesperson would be as hard on me in the first meeting back this year to say that that is defined as the end of early 2014, rather than the beginning. Certainly, I will be bringing forward the report that the Member described, and I will be taking due note of that in decisions that we take. I will agree with what was said in the question: I think that we are seeing the impact of climate change on weather patterns. It is always difficult to associate individual weather episodes with much larger issues, such as climate change, but I think that we are seeing patterns in our weather that can be ascribed to that. In this case, this Government takes a very different view to that taken in Westminster, and, as a consequence, we have not made the enormous cuts to flood prevention budgets that we have seen across the border in England.

Nid wyf yn meddwl y byddai llefarydd y Ceidwadwyr hyd yn oed, mor llym gyda mi yn y cyfarfod cyntaf yn ôl eleni i ddweud bod hynny wedi ei ddiffinio fel diwedd dechrau 2014, yn hytrach na'r dechrau. Yn sicr, byddaf yn cyflwyno'r adroddiad a ddisgrifiwyd gan yr Aelod, a byddaf yn rhoi sylw dyledus i hynny mewn penderfyniadau y byddwn ni'n eu gwneud. Cytunaf â'r hyn a ddywedwyd yn y cwestiwn: rwy'n credu ein bod yn gweld effaith y newid yn yr hinsawdd ar batrymau tywydd. Mae bob amser yn anodd cysylltu digwyddiadau tywydd unigol gyda materion llawer mwy, fel newid yn yr hinsawdd, ond rwy'n credu ein bod yn gweld patrymau yn ein tywydd y gellir eu priodoli i hynny. Yn yr achos hwn, mae gan y Llywodraeth hon safbwynt gwahanol iawn i'r un a gymerir yn San Steffan, ac, o ganlyniad, nid ydym wedi gwneud y toriadau enfawr i gyllidebau atal llifogydd yr ydym ni wedi eu gweld dros y ffin yn Lloegr.

14:30 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Like everyone else, I would like to congratulate everyone who was involved in dealing with the flooding, including Flintshire County Council, in my case. However, Minister—and you will know that I have written to you about this issue already—in my area, Point of Ayr, Talacre, Mostyn, Bagillt and Flint were very lucky indeed not to experience a serious disaster. The reason for that was that the wind was blowing into the sea, rather than onto land, which has happened twice. However, we cannot rely on that in future—I am afraid that it is not a very reliable coastal defence. Therefore, when your review takes place, will you look closely, not only at those areas that were terribly devastated, but at areas like mine, where disaster was only narrowly averted?

Fel pawb arall, hoffwn longyfarch pawb a gymerodd ran yn y gwaith o ymdrin â'r llifogydd, gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint, yn fy achos i. Fodd bynnag, Weinidog—a byddwch yn gwybod fy mod wedi ysgrifennu atoch am y mater hwn eisoes—yn fy ardal i, roedd y Parlwr Du, Talacre, Mostyn, Bagillt a'r Fflint yn ffodus iawn o beidio â dioddef trychineb difrifol. Y rheswm am hynny oedd bod y gwynt yn chwythu i mewn i'r môr, yn hytrach nag i'r tir, sydd wedi digwydd ddwywaith. Fodd bynnag, ni allwn ddibynnu ar hynny yn y dyfodol—mae arnaf ofn nad yw'n amddiffyniad arfordirol dibynadwy iawn. Felly, pan fydd eich adolygiad yn cael ei gynnal, a wnewch chi edrych yn ofalus, nid yn unig ar yr ardaloedd hynny a ddioddefodd ddinistr ofnadwy, ond ar ardaloedd fel fy un i, lle cafodd trychineb ei osgoi o drwch blewyn yn unig?

14:31

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have visited several of those places, as the Member is aware, and I have discussed some of the flood plans that are in place for some of those communities, which were themselves put into use back in December, and I think did have an impact on providing safety and security for those communities. The Member has also invited me to Mold, and that is an invitation that I have been happy to accept. However, I think that the fundamental point is a fair one, as was the point that was made by the Conservative spokesperson, about the significant infrastructure that needs to be protected. North Wales provides significant challenges for that, with the A55, and the railway line, running very close to the coast, and at significant risk from serious weather episodes. Those are exactly the sorts of areas where we need to focus our protection and our efforts. We will be looking proactively at what we are told as a consequence of the review that NRW is undertaking, and, if necessary, I will undertake a reprioritisation exercise, to ensure that we address the most urgent matters facing us today.

Rwyf wedi ymweld â nifer o'r lleoedd hynny, fel y mae'r Aelod yn gwybod, ac rwyf wedi trafod rhai o'r cynlluniau llifogydd sydd ar waith ar gyfer rhai o'r cymunedau hynny, a ddefnyddiwyd eu hunain yn ôl ym mis Rhagfyr, ac rwy'n credu eu bod wedi cael effaith ar ddarparu diogelwch a sicrwydd i'r cymunedau hynny. Mae'r Aelod hefyd wedi fy ngwahodd i'r Wyddgrug, ac mae hwnnw'n wahoddiad rwyf wedi bod yn hapus i'w dderbyn. Fodd bynnag, rwy'n credu bod y pwynt sylfaenol yn un teg, fel yr oedd y pwynt a wnaed gan lefarydd y Ceidwadwyr, am y seilwaith sylweddol y mae angen ei ddiogelu. Ceir heriau sylweddol yn y gogledd yn hynny o beth, gyda'r A55, a'r rheilffordd, yn rhedeg yn agos iawn at yr arfordir, ac mewn perygl sylweddol oddi wrth ddigwyddiadau tywydd difrifol. Dyna'r union fath o ardaloedd lle mae angen i ni ganolbwyntio ein gwaith diogelu a'n hymdrechion. Byddwn yn edrych yn rhagweithiol ar yr hyn a ddywedir wrthym o ganlyniad i'r adolygiad y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gynnal, ac, os bydd angen, byddaf yn cynnal ymarfer ail-flaenoriaethu, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sy'n ein hwynebu heddiw lle y ceir mwyaf o frys.

14:32

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, mae pawb yn mynd i fod yn gofyn i chi am arian i daclo'r problemau yn eu hardaloedd nhw. Fel yr ydych wedi ei awgrymu, bydd angen blaenoriaethu, oherwydd y realiti yw nad oes digon o adnoddau ar gael i ymateb i'r angen sydd allan yno. Mae'r Llywodraeth hon wedi cyfeirio'n gyson at edrych i gyfeiriad y sector breifat, o bosibl, i gyfrannu at beth o'r costau yn y dyfodol, ac mae nifer o gyfeiriadau wedi bod at wahanol ffynonellau o arian cyhoeddus. Yr ydych yn siarad lot am hynny, ond nid ydym yn gweld lot o dystiolaeth o fynd ar ôl yr opsiynau o weld cyfraniad posibl gan y sector breifat. A oes cyfle i chi ymhelaethu ar hynny y prynhawn yma?

Of course, everyone will be asking you for funds to tackle problems in their own areas. As you have suggested, we will need to prioritise because the reality is that there are not sufficient resources to respond to the need. The Government has consistently referred to looking to the private sector, possibly, to contribute to some of these costs in future, and there have been a number of references to various sources of public funds. You say a great deal about that, but we do not see much evidence of you following up on those options of seeing a contribution by the private sector. Could you expand upon that this afternoon?

14:33

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ystyried y materion y mae'r Aelod wedi eu disgrifio, ac mae rhai mannau, wrth gwrs, lle mae hynny'n digwydd. Mae arfordir gogledd Cymru a'r fforwm llifogydd yn y gogledd yn enghraifft o le mae hynny wedi digwydd. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn greadigol wrth ystyried sut yr ydym yn cyllido ac yn ariannu'r math o fuddsoddiadau y bydd eu hangen yn y dyfodol. Buaswn yn hapus iawn i barhau â'r drafodaeth honno gyda'r Aelod, a chydag Aelodau eraill.

I do think that we must consider the issues that the Member has raised and, of course, there are places where that is happening. The north Wales coast and the flooding forum in north Wales are examples of where that has happened. I think that we have to be creative in considering how we fund the kinds of investments that will be needed for the future. I would be very happy to continue that discussion with the Member and others.

14:33 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I was very grateful for your visit to Kinmel Bay in the aftermath of the floods there in December. We were fortunate to have a narrow escape at the high tide pinch-point in January. I know that you have already referred to critical infrastructure in north Wales, and there is a very important pinch-point in Old Colwyn, in my constituency, where the promenade is very narrow, and sits immediately against the A55 and the north Wales railway line. That area has suffered some damage to its coastal defences in recent years, and is potentially the riskiest place, I would suggest to you, in terms of damage to our infrastructure. The funding formula for flood defences, of course, is heavily reliant on protecting businesses and homes at present, but has not emphasised sufficiently, in my opinion, the need to protect infrastructure. What action will you take to ensure that that infrastructure pinch-point in my own constituency is considered as part of the investigation and review that are taking place? Can you also tell us whether your investigation will include the flood warning system, which appeared to be inadequate in some parts of Wales?

Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am eich ymweliad â Bae Cinmel yn dilyn y llifogydd yno ym mis Rhagfyr. Roeddem ni'n ffodus o fod â dihangfa gul ar y gwasgle llanw uchel ym mis Ionawr. Rwy'n gwybod eich bod eisoes wedi cyfeirio at seilwaith hanfodol yn y gogledd, a cheir gwasgle pwysig iawn yn Hen Golwyn, yn fy etholaeth i, lle mae'r rhodfa yn gul iawn, ac mewn lleoliad yn agos iawn at yr A55 a rheilffordd gogledd Cymru. Mae'r ardal honno wedi dioddef rhywfaint o ddifrod i'w hamddiffynfeydd arfordirol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a dyma'r lle mwyaf peryglus o bosibl, byddwn yn awgrymu i chi, o ran difrod i'n seilwaith. Mae'r fformiwla ariannu ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd, wrth gwrs, yn dibynnu'n helaeth ar ddiogelu busnesau a chartrefi ar hyn o bryd, ond nid yw wedi pwysleisio'n ddigonol, yn fy marn i, yr angen i ddiogelu seilwaith. Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i sicrhau yr ystyrir y gwasgle seilwaith hwnnw yn fy etholaeth i yn rhan o'r ymchwiliad a'r adolygiad sy'n cael eu cynnal? A allwch chi hefyd ddweud wrthym a fydd eich ymchwiliad yn cynnwys y system rhybuddio rhag llifogydd, yr oedd yn ymddangos ei bod yn annigonol mewn rhai rhannau o Gymru?

14:35 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his kind remarks. Certainly on that final point, yes, the review that I requested as a result of December's floods is taking place and will include those sorts of matters. I gave an undertaking to the Chamber that I would pass a transcript of our discussion, following the oral statement on those floods, to NRW and that has happened, so the issues that were raised by Members at that time have been passed to NRW for it to consider as part of its wider review.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau caredig. Yn sicr ar y pwynt olaf, gallaf, mae'r adolygiad y gofynnais amdano yn sgil llifogydd mis Rhagfyr yn cael ei gynnal a bydd yn cynnwys y mathau hynny o faterion. Rhoddais ymrwymiad i'r Siambr y byddwn yn rhoi trawsgrifiad o'n trafodaeth, yn dilyn y datganiad llafar ar y llifogydd hynny, i Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae hynny wedi digwydd, felly trosglwyddwyd y materion a godwyd gan yr Aelodau bryd hynny i Gyfoeth Naturiol Cymru i'w hystyried yn rhan o'i adolygiad ehangach.

In terms of the infrastructure issue, you may remember that, as a Deputy Minister, I made a statement on how we would prioritise European funding in terms of flood defences in the future. An element of that, and a part of that, was to ensure that all those areas that would suffer economic challenges as a consequence of flooding would continue to receive European funding, and an element of that was infrastructure. We do continue to emphasise the importance of protecting infrastructure. One of the great lessons, of course, from the Gloucester floods some years ago, was the importance of infrastructure and the conversation I had with Chris Ruane following my visit to Rhyl in December was about electricity sub-stations being located right at the sea wall. There are a number of issues there that I would hope and expect NRW to consider, and certainly as a Government, we are actively considering those matters to ensure that all key infrastructure is protected and will continue to be protected.

O ran y broblem seilwaith, efallai y byddwch yn cofio fy mod, fel Dirprwy Weinidog, wedi gwneud datganiad ar sut y byddem yn blaenoriaethu cyllid Ewropeaidd o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd yn y dyfodol. Un elfen o hynny, a rhan o hynny, oedd sicrhau y byddai'r holl ardaloedd hynny a fyddai'n dioddef heriau economaidd o ganlyniad i lifogydd yn parhau i dderbyn cyllid Ewropeaidd, ac elfen o hynny oedd seilwaith. Rydym ni'n parhau i bwysleisio pwysigrwydd diogelu seilwaith. Un o'r gwersi mawr, wrth gwrs, o lifogydd Caerloyw rai blynyddoedd yn ôl, oedd pwysigrwydd seilwaith ac roedd y sgwrs a gefais gyda Chris Ruane yn dilyn fy ymweliad â'r Rhyl ym mis Rhagfyr yn ymwneud â lleoli is-orsafoedd trydan yn agos iawn at y morglawdd. Ceir nifer o broblemau yna y byddwn yn gobeithio ac yn disgwyl i Gyfoeth Naturiol Cymru eu hystyried, ac yn sicr fel Llywodraeth, rydym ni'n mynd ati i ystyried y problemau hynny er mwyn sicrhau bod yr holl seilwaith allweddol yn cael ei ddiogelu ac y bydd yn parhau i gael ei ddiogelu.

14:36 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Staying on infrastructure, Minister, the flooding had quite a serious impact on some of the rail network in my region. I am pleased that the line at Ferryside has reopened today, but the line along part of the Cambrian coast will certainly be out of action for the foreseeable future. I am concerned about the impact that this might have on tourism and the ability of local people to access services, get to work and so on. Will you explore what the Welsh Government can do to ensure that the line reopens as soon as possible and to minimise the inconvenience in the interim period?

Gan barhau â seilwaith, Weinidog, cafodd y llifogydd effaith tra difrifol ar rywfaint o'r rhwydwaith rheilffyrdd yn fy rhanbarth i. Rwy'n falch bod y rheilffordd yng Nglanyfferi wedi ailagor heddiw, ond mae'n sicr na fydd y rheilffordd ar hyd rhan o arfordir y Cambrian ar gael am y dyfodol rhagweladwy. Rwy'n pryderu am yr effaith y gallai hyn ei chael ar dwristiaeth a gallu pobl leol i gael mynediad at wasanaethau, cyrraedd y gwaith ac yn y blaen. A wnewch chi archwilio'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod y rheilffordd yn ailagor cyn gynted â phosibl ac i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o anghyfleustra yn y cyfamser?

14:37 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. I think that all of us have been concerned about the impact of these storms on our transport infrastructure. The Minister for transport is in her place and will have heard your question and will no doubt respond to it and take it into consideration in how we continue conversations on these matters. My response—it is my portfolio—is that we will be looking, when we come to take decisions on flood defences, at protecting those parts of the coasts or those parts of our communities that are most vulnerable. Clearly, our transport infrastructure is essential for the functioning of our communities and our economy and we will continue to seek ways of ensuring that that protection is afforded.

Yn bendant. Rwy'n credu bod pob un ohonom ni wedi bod yn pryderu am effaith y stormydd hyn ar ein seilwaith trafnidiaeth. Mae'r Gweinidog trafnidiaeth yn ei lle a bydd wedi clywed eich cwestiwn ac yn sicr o ymateb iddo a chymryd i ystyriaeth sut y byddwn ni'n parhau â sgyrsiau am y materion hyn. Fy ymateb i—fy mhortffolio i yw hwn—yw y byddwn yn ceisio, pan fyddwn yn dod i wneud penderfyniadau ar amddiffynfeydd rhag llifogydd, diogelu'r rhannau hynny o'r arfordir neu'r rhannau hynny o'n cymunedau sydd fwyaf bregus. Yn amlwg, mae ein seilwaith trafnidiaeth yn hanfodol ar gyfer gweithrediad ein cymunedau a'n heconomi a byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o sicrhau y rhoddir y diogelwch hwnnw.

14:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a gaf gefnogi'r hyn ddywedodd Elin Jones yn gynharach a hefyd groesawi'r hyn ddywedoch chi ynglŷn â'r sefyllfa yn Aberystwyth? Mae'r rhai ohonom sy'n byw yn y dref, wrth gwrs, yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weld y 'prom' wedi gwella fel ei fod yn gallu ymddangos ar 'Hinterland' ac 'Y Gwyll' unwaith eto a dangos Aberystwyth ar ei orau. Rwyf hefyd eisiau cefnogi'r hyn ddywedodd Rebecca Evans ynglŷn ag isadeiledd, yn enwedig y rheilffordd ar hyd yr arfordir.

Minister, may I support what Elin Jones said earlier and welcome what you had to say about the situation in Aberystwyth? Those of us who live in the town look forward to seeing the prom having been repaired so that it can be on 'Hinterland' and 'Y Gwyll' once again, showing Aberystwyth at its very best. I also want to support what Rebecca Evans had to say about the infrastructure, particularly the rail infrastructure along our coastline.

I droi at rywbeth mwy positif ar gyfer y dyfodol, mae cryn dipyn o sôn wedi bod am yr amddiffynfeydd newydd yn y Borth ac Aberaeron sydd wedi helpu'r ddwy dref hynny, ac mae hynny i'w weld yn wir. A ydych yn mynd i gynnal asesiad annibynnol nawr i edrych ar hynny i weld a oes modd edrych ar y ffordd honno o ddatblygu 'reefs' oddi ar yr arfordir i amddiffyn trefi fel Aberystwyth, ac Aberteifi o bosibl, ar gyfer y dyfodol?

In turning to a more positive aspect for the future, there has been quite a bit of talk about the new defences in Borth and Aberaeron that have those assisted those towns, and that appears to be true. Will you carry out an independent assessment now to look at that to see whether we can look at that way of developing reefs offshore to protect towns such as Aberystwyth, and places such as Cardigan possibly, for the future?

14:38 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n hapus iawn i wneud hynny. Y rheswm roeddwn wedi gofyn i NRW i edrych ar 'coastal defence' yn ei gyfanrwydd oedd i edrych ar beth sydd wedi gweithio a beth sydd heb weithio, ble mae difrod wedi bod a ble mae'n rhaid i ni fuddsoddi yn y dyfodol. Mae 'phase' 2 o'r amddiffynfa yn Borth ar fin dechrau ac rwy'n gwybod, o siarad â thrigolion Borth, eu bod nhw yn gwerthfawrogi'r buddsoddiad. Mae'r un peth yn wir am Fae Colwyn yn y gogledd ac, fel yr ydych wedi ei awgrymu, Aberaeron yng Ngheredigion.

I would be very happy to do so. The reason I asked NRW to look at coastal defences in totality was to look at what has worked and what has not worked, and where the damage has taken place and where we need to invest in future. Phase 2 of the defences in Borth is about to start and I know, from speaking to residents there, that they are appreciative of the investment. The same is true in Colwyn Bay in north Wales and, as you have suggested, in Aberaeron in Ceredigion.

Dywedaf hyn: byddwn yn ystyried o ddifrif impact yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf. Gofynnodd Elin Jones am sicrwydd o gefnogaeth ariannol; y rheswm, ambell waith, nad ydw i 'quite' yn ateb y cwestiwn yw nad ydym yn gwybod beth yw'r 'dimensions' eto. Yr hyn nid wyf am ei wneud yw addo pethau yn y fan hon heb wybod beth rwy'n addo. Fodd bynnag, dywedaf hyn: bydd yr agwedd a'r 'approach' bydd y Llywodraeth yn eu cymryd yn bositif, byddwn yn cydweithio gydag NRW ac awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn gallu atgyweirio'r difrod sydd wedi bod a buddsoddi yn y dyfodol. Byddaf yn ymateb mewn ffordd bositif iawn i'r trafodaethau yr ydym yn eu cael ar hyn o bryd.

I will say this: we will be considering seriously the impact of the events of the past few months. Elin Jones asked for an assurance of financial support; the reason why I sometimes do not quite answer the question is that we do not know what the dimensions of that might be yet, and I do not like to make empty promises. However, I will say this: the approach that the Government is going to adopt will be positive and it will involve collaboration with NRW and local authorities to ensure that we are able to repair the damage and invest in the future. I will respond in a most positive way to the discussions that we are having at present.

14:40

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Following on from Elin Jones's question, has the Government been, or will the Government be developing a business case to take to the UK Government to demonstrate that it has met the EU criteria to apply for money from the solidarity fund? What discussions have you had with your colleague the Minister for Local Government and Government Business about the adequacy of the emergency financial assistance scheme, both in relation to funding and the set criteria, and whether local authorities have sufficient reserves set aside to properly deal with future natural disasters?

Yn dilyn ymlaen o gwestiwn Elin Jones, a yw'r Llywodraeth wedi, neu a fydd y Llywodraeth yn datblygu achos busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU i ddangos ei bod wedi bodloni meini prawf yr UE i wneud cais am arian o'r gronfa undod? Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ynghylch digonolrwydd y cynllun cymorth ariannol mewn argyfwng, o ran cyllid a'r meini prawf a osodwyd, ac a oes gan awdurdodau lleol ddigon o arian wedi ei neilltuo i ymdrin yn briodol â thrychinebau naturiol yn y dyfodol?

14:40

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, some of those matters are matters for the Minister for local government and I think that she heard your question. That is a matter that you will be able to take up with her in due course. I want to say this: I do discuss these matters with the Minister for local government and other ministerial colleagues. It will be a Government response, not simply an individual Minister's response, to these matters. We have been in close contact with departments in the United Kingdom Government. We will continue to work alongside our colleagues in Westminster to ensure that we maximise any potential support, financial or otherwise, from the UK Government. We will continue to work alongside UK Government departments in making applications to either the solidarity fund or any other source of additional support where we need to and are required to work with the UK Government. However, we have invested a considerable amount of time in conversations with the UK Government over the last few weeks. We work closely, of course, with UK Government departments in terms of COBRA and immediate response and we will continue to do so.

Yn amlwg, mae rhai o'r materion hynny yn faterion i'r Gweinidog llywodraeth leol ac rwy'n meddwl ei bod wedi clywed eich cwestiwn. Mae hwnnw'n fater y byddwch yn gallu ei drafod gyda hi maes o law. Hoffwn ddweud hyn: rwyf yn trafod y materion hyn gyda'r Gweinidog llywodraeth leol a chydweithwyr gweinidogol eraill. Ymateb gan y Llywodraeth, nid ymateb Gweinidog unigol yn unig, a fydd i'r materion hyn. Rydym ni wedi bod mewn cysylltiad agos ag adrannau yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n cydweithwyr yn San Steffan i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gefnogaeth bosibl, boed ariannol neu fel arall, gan Lywodraeth y DU. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr ag adrannau Llywodraeth y DU wrth wneud ceisiadau i'r gronfa undod neu unrhyw ffynhonnell arall o gefnogaeth ychwanegol pan fo angen i ni wneud hynny a'i bod yn ofynnol i ni weithio gyda Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, rydym ni wedi rhoi cryn dipyn o amser i sgyrsiau gyda Llywodraeth y DU yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Rydym yn gweithio'n agos, wrth gwrs, gydag adrannau Llywodraeth y DU o ran COBRA ac ymateb ar unwaith a byddwn yn parhau i wneud hynny.

14:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:42 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Business Statement and Announcement**

Senedd.tv
Fideo Video

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have several changes to report to this week's business. Immediately after this business statement, the Counsel General will make an oral statement on his referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court. Secondly, I have extended the time allocated to the debate on the supplementary legislative consent motion on the Children and Families Bill. Thirdly, I have updated the title of the Public Audit (Wales) Act 2013 (Consequential Amendments) Order 2014. I have also scheduled a motion this afternoon seeking the Assembly's agreement of the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2014. In order for this to be debated today, I shall move a motion to suspend Standing Order 11.16. Finally, I have reduced the time allocated to tomorrow's oral Assembly questions to the Counsel General in line with the number of questions tabled. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf nifer o newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn, bydd y Cwnsler Cyffredinol yn gwneud datganiad llafar ar ei benderfyniad i atgyfeirio Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys. Yn ail, rwyf wedi ymestyn yr amser a neilltuwyd i'r ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd. Yn drydydd, rwyf wedi diweddaru teitl Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014. Rwyf hefyd wedi trefnu cynnig y prynhawn yma yn gofyn i'r Cynulliad gytuno ar Orchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014. Er mwyn i hyn gael ei drafod heddiw, byddaf yn gwneud cynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16. Yn olaf, rwyf wedi lleihau'r amser a neilltuir ar gyfer cwestiynau llafar y Cynulliad yfory i'r Cwnsler Cyffredinol yn unol â nifer y cwestiynau a gyflwynwyd. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:43

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Is it possible to have two statements or two points of clarification from two different Ministers? One would be from the Minister for Economy, Science and Transport in relation to the study that she has commissioned Stuart Cole to undertake of bus services in the Vale of Glamorgan and, in particular, how that will report back so that we, as Members, will be aware of its contents. The second statement would be from the Minister for planning in relation to housing projection numbers and population. These figures were due out before Christmas, but they were delayed. I was wondering when the new figures will be forwarded for us to look at them and how the new figures will be interpreted by local authorities when developing their local development plans, because I am conscious, in particular, that the Vale of Glamorgan Council has just received a letter from the Minister's department outlining its belief that the draft local development plan does not contain enough houses and should have more houses added to it. These figures are important in our understanding of where the Welsh Government is coming from with its own projections. As they have not been put forward in the public domain yet, obviously, there is little for us to scrutinise and to allay our constituents' fears over these numbers.

A yw'n bosibl cael dau ddatganiad neu ddau bwynt o eglurhad gan ddau wahanol Weinidog? Byddai un gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar yr astudiaeth y mae hi wedi comisiynu Stuart Cole i'w chynnal o wasanaethau bws ym Mro Morgannwg ac, yn arbennig, sut y bydd hynny'n cael ei adrodd yn ôl fel y byddwn ni, yr Aelodau, yn ymwybodol o'i chynnwys. Byddai'r ail ddatganiad gan y Gweinidog cynllunio ar rifau amcanestyniad tai a phoblogaeth. Disgwyliwyd i'r ffigurau hyn gael eu cyhoeddi cyn y Nadolig, ond cawsant eu hoedi. Roeddwn i'n meddwl tybed pryd y bydd y ffigurau newydd yn cael eu hanfon ymlaen i ni gael edrych arnynt a sut y bydd y ffigurau newydd yn cael eu dehongli gan awdurdodau lleol wrth ddatblygu eu cynlluniau datblygu lleol, oherwydd rwy'n ymwybodol, yn benodol, bod Cyngor Bro Morgannwg newydd dderbyn llythyr gan adran y Gweinidog yn amlinellu ei gred nad yw'r cynllun datblygu lleol drafft yn cynnwys digon o dai ac y dylid ychwanegu mwy o dai ato. Mae'r ffigurau hyn yn bwysig o ran ein dealltwriaeth o safbwynt Llywodraeth Cymru gyda'i hamcanestyniadau ei hun. Gan nad ydynt ar gael i'r cyhoedd hyd yn hyn, yn amlwg, ychydig sydd ar gael i ni graffu arno ac i dawelu ofnau ein hetholwyr am y niferoedd hyn.

14:44

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for those two questions. In relation to the Stuart Cole review, the Minister for Economy, Science and Transport will update us in due course. The Minister for Housing and Regeneration will write to you regarding your request for the housing figures.

Diolch i chi am y ddau gwestiwn yna. O ran adolygiad Stuart Cole, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni maes o law. Bydd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn ysgrifennu atoch ynghylch eich cais am y ffigurau tai.

14:44 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as I am sure that you are aware, over Christmas a loophole emerged in the bedroom tax legislation that could see tenants in continuous receipt of housing benefit since 1996 receive a rebate backdated to the introduction of the policy last year. On one level, of course, it is more evidence that the Tories' flagship welfare reform agenda is beginning to unravel, but, given that we know that there are a disproportionate number of Welsh tenants affected, many of whom have been resident in their homes for a number of years, I think that it would be helpful if the Minister for Housing and Regeneration were to issue a written or an oral statement outlining the Welsh Government's position with regard to this important development. I know that advice agencies are publicising this loophole, but it would be helpful to get clarity on the role of the Welsh Government in relation to key points, such as whether it is co-ordinating efforts to collate information on the number of households affected and whether it is planning to publicise the loophole to Welsh tenants.

Weinidog, fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, daeth man gwan yn y ddeddfwriaeth treth ystafell wely i'r amlwg dros y Nadolig a allai weld tenantiaid sy'n derbyn budd-dal tai parhaus ers 1996 yn derbyn ad-daliad wedi ei ôl-ddyddio i gyflwyniad y polisi y llynedd. Ar un lefel, wrth gwrs, mae'n fwy o dystiolaeth bod agenda diwygio lles blaenllaw'r Torïaid yn dechrau mynd â'i ben iddo, ond, o ystyried ein bod yn gwybod bod yna nifer anghymesur o denantiaid yng Nghymru yr effeithir arnynt, a llawer ohonynt wedi bod yn byw yn eu cartrefi ers nifer o flynyddoedd, rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig neu lafar yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar y datblygiad pwysig hwn. Gwn fod asiantaethau cynghori yn hysbysebu'r man gwan hwn, ond byddai'n ddefnyddiol cael eglurder ar swyddogaeth Llywodraeth Cymru o ran pwyntiau allweddol, fel a yw'n cydgysylltu ymdrechion i gasglu gwybodaeth am nifer y cartrefi yr effeithir arnynt ac a yw'n bwriadu hysbysu tenantiaid yng Nghymru am y man gwan.

14:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. The Minister for Housing and Regeneration is aware of the issue. The Department for Work and Pensions and the UK Government have advised that only a small number of tenants may be affected, but, clearly, we want to know the exact number and the Minister's officials have contacted the DWP in order to get that information. When the time is right, the Minister will update the Assembly.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn ymwybodol o'r mater. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth y DU wedi cynghori mai dim ond nifer fach o denantiaid allai gael eu heffeithio, ond, yn amlwg, rydym ni eisiau gwybod y nifer yn union ac mae swyddogion y Gweinidog wedi cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cael y wybodaeth honno. Ar yr adeg iawn, bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad.

14:46 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder whether we could have an updated statement from the Minister for Health and Social Services with regard to the deep-dive review into Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board? I ask because recently it was announced that Mr Sissling, who presided over ABMU when Lilian Williams, a constituent of mine, died, will be leaving, and the family of Lilian Williams is still very concerned that, due to his move to England, he may not fall within the scope of its remit. We would also like to have a statement from the Minister, because he told me on record here a few weeks ago that it would be a retrospective review, yet Professor Andrews has said,

Weinidog, rwy'n meddwl tybed a allem ni gael datganiad wedi ei ddiweddaru gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr adolygiad trylwyr i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg? Rwy'n gofyn hyn gan y cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd Mr Sissling, a oedd yn gyfrifol am PABM pan fu farw Lilian Williams, un o fy etholwyr, yn gadael, ac mae teulu Lilian Williams yn dal i fod yn bryderus iawn, gan ei fod yn symud i Loegr, efallai na fydd yn rhan o gwmpas y cylch gwaith. Hoffem gael datganiad gan y Gweinidog hefyd, gan iddo ddweud wrthyf ar gof a chadw yma ychydig wythnosau yn ôl y byddai'n cynnal adolygiad ôl-weithredol, ac eto mae'r Athro Andrews wedi dweud,

'I have been asked initially to look at the current position within ABMU.'

Gofynnwyd i mi edrych ar y sefyllfa bresennol o fewn PABM i gychwyn.

I see no point in the review taking place unless it is retrospective, and I urge the Welsh Government to provide us as Assembly Members with clarity, so that our constituents have clarity too.

Ni welaf unrhyw bwynt cynnal yr adolygiad oni bai ei fod yn ôl-weithredol, ac rwy'n annog Llywodraeth Cymru i roi eglurder i ni fel Aelodau'r Cynulliad, fel bod ein hetholwyr yn cael eglurder hefyd.

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. The review into the two hospitals in ABMU Health Board only began last month, in December, and will run until March 2014. During that time, David Sissling will still be in post. He is not leaving the Welsh Government to take up his new post until the end of March. The independent review into the care provided at the two hospitals was, as you say, instigated by the Minister for Health and Social Services. It will look at issues arising from the care of Lilian Williams, but it is not intended to review her care—it will look at the whole period. It is taking place in two parts and the first of these is an in-depth examination of current practice, which is already under way. Once that part of the review has concluded, the review team will determine what areas and issues it then needs to explore during the second part, which will be historical.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Dim ond mis diwethaf, ym mis Rhagfyr, y dechreuodd yr adolygiad i'r ddau ysbyty ym Mwrdd Iechyd PABM a bydd yn para tan fis Mawrth 2014. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd David Sissling yn dal i fod yn y swydd. Nid yw'n gadael Llywodraeth Cymru i ddechrau ei swydd newydd tan ddiwedd mis Mawrth. Cychwynnwyd yr adolygiad annibynnol i'r gofal a ddarperir yn y ddau ysbyty, fel y dywedwch, gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yn edrych ar y materion sy'n codi o ofal Lilian Williams, ond nid adolygu ei gofal yw ei fwriad—bydd yn edrych ar y cyfnod cyfan. Mae'n cael ei gynnal mewn dwy ran ac archwiliad trylwyr o arfer cyfredol yw'r cyntaf o'r rhain, sydd eisoes wedi cychwyn. Pan fydd y rhan honno o'r adolygiad wedi dod i ben, bydd y tîm adolygu yn penderfynu pa feysydd a materion y mae angen iddo eu harchwilio wedyn yn ystod yr ail ran, a fydd yn hanesyddol.

14:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last year your colleague the Minister for Culture and Sport indicated his intention to review legislation relating to access, both on land and on waterways. That announcement caused a great deal of wide-spread interest from a variety of parties across Wales, including many in my own constituency. The Minister did say that he would go out to consultation on this matter in December and I wrote to all concerned constituents, stating that fact. December has now come and gone and my constituents would like to know when the Minister will fulfil his promise to consult on these issues.

Weinidog, nododd eich cydweithiwr, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon y llynedd ei fwriad i adolygu'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â mynediad, ar y tir ac ar ddyfrffyrdd. Achosodd y cyhoeddiad hwnnw lawer iawn o ddiddordeb eang gan amrywiaeth o bartïon ledled Cymru, gan gynnwys llawer yn fy etholaeth i. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cynnal ymgynghoriad ar y mater hwn ym mis Rhagfyr ac ysgrifennais at yr holl etholwyr dan sylw, yn datgan y ffaith honno. Mae mis Rhagfyr wedi dod ac wedi mynd bellach a hoffai fy etholwyr wybod pryd y bydd y Gweinidog yn cyflawni ei addewid i ymgynghori ar y materion hyn.

14:48 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. I understand that, following the initial expectation that it would be December, the Minister remedied that and said that it would be early in this year. However, the Minister is in the Chamber, has heard your question, and will let you know as soon as possible when that consultation is due to begin.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Rwy'n deall, yn dilyn y disgwyliad cychwynnol y byddai ym mis Rhagfyr, bod y Gweinidog wedi cywiro hynny gan ddweud mai yn gynnar eleni y byddai'n digwydd. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn y Siambr, wedi clywed eich cwestiwn, a bydd yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl pryd y disgwylir i'r ymgynghoriad hwnnw ddechrau.

14:49 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I call for two statements? The first is on access to psychological therapy for people with mental health problems. This follows concerns raised with me by psychotherapists working in north Wales. As you know, the Welsh Government follows National Institute for Health and Care Excellence guidelines that state that cognitive behaviour therapy is the treatment of choice for most mental health problems. Whereas in Wales there is only one cognitive behaviour therapist for every 55,000 people, investment across the border means that there is now one cognitive behaviour therapist for every 17,000 people in England. I believe that this will generate a conference in March, because of the concern now being raised in Wales.

A gaf i alw am ddau ddatganiad? Mae'r cyntaf ar fynediad at therapi seicolegol i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae hyn yn dilyn pryderon a godwyd gyda mi gan seicotherapyddion sy'n gweithio yn y gogledd. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal sy'n nodi mai therapi ymddygiad gwybyddol yw'r driniaeth a ddewisir ar gyfer y rhan fwyaf o broblemau iechyd meddwl. Ond dim ond un therapydd ymddygiad gwybyddol ar gyfer pob 55,000 o bobl sydd ar gael yng Nghymru, ac mae buddsoddi ar draws y ffin yn golygu bod un therapydd ymddygiad gwybyddol ar gael ar gyfer pob 17,000 o bobl yn Lloegr erbyn hyn. Rwy'n credu y bydd hyn yn arwain at gynhadledd ym mis Mawrth, oherwydd y pryder sy'n cael ei godi yng Nghymru bellach.

The second is a statement on training for educational psychologists in Wales, after concerns were raised in correspondence to me received from both Gwynedd and Isle of Anglesey councils. Educational psychologists work with schools and education authorities to ensure that they are able to meet the educational needs of all children, especially those with special or additional educational needs. However, they say that recent changes in the way in which psychologists are trained have led to a situation where, to all intents and purposes, it is impossible for anyone from Wales to obtain a place on a training course. There are a number of courses in England, but the only course in Wales, which is in Cardiff, is due to close this academic year. They have said that it is not practical to train in England, because there is a requirement, if they follow the course in England, that afterwards they work as educational psychologists in an authority or school in England. So, I would be grateful for a statement on both those key matters.

Mae'r ail yn ddatganiad ar hyfforddiant i seicolegwyr addysgol yng Nghymru, ar ôl i bryderon gael eu codi mewn gohebiaeth i mi a dderbyniwyd oddi wrth gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn. Mae seicolegwyr addysg yn gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau addysg i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion addysgol pob plentyn, yn enwedig y rhai ag anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol. Fodd bynnag, maen nhw'n dweud bod newidiadau diweddar i'r ffordd y mae seicolegwyr yn cael eu hyfforddi wedi arwain at sefyllfa lle, i bob pwrpas, mae'n amhosibl i unrhyw un o Gymru gael lle ar gwrs hyfforddi. Ceir nifer o gyrsiau yn Lloegr, ond disgwylir i'r unig gwrs yng Nghymru, sydd yng Nghaerdydd, ddod i ben yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Maen nhw wedi dweud nad yw'n ymarferol hyfforddi yn Lloegr, oherwydd bod gofyniad, os ydynt yn dilyn y cwrs yn Lloegr, eu bod yn gweithio fel seicolegwyr addysgol mewn awdurdod neu ysgol yn Lloegr wedyn. Felly, byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad ar y ddau fater allweddol hynny.

14:50

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to your first question, the provision of health services is a matter for the health board. In the case that you referred to, it would be for Betsi Cadwaladr University Local Health Board to ensure that it has both the personnel and the facilities to ensure that it provides that service.

O ran eich cwestiwn cyntaf, mater i'r bwrdd iechyd yw'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd. Yn yr achos i chi gyfeirio ato, cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr fyddai sicrhau bod y personél a'r cyfleusterau ganddo i sicrhau ei fod yn darparu'r gwasanaeth hwnnw.

On your question regarding the training of educational psychologists, I will ask the Minister to write to you on that point, because you have raised a very specific point.

O ran eich cwestiwn ynglŷn â hyfforddi seicolegwyr addysgol, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch ar y pwynt hwnnw, gan eich bod wedi codi pwynt penodol iawn.

14:51

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, before the Christmas recess, you replied to my friend and colleague, Lynne Neagle, the Member for Torfaen, and me about the commitment to have a debate on the fire service in Government time. Will that debate on the fire and rescue services be held this term? I press upon you again the need to have this debate while there is an ongoing pensions dispute, which does not seem to be resolved. I do think we need to be debating the bigger issues around the fire and rescue services for the future.

Weinidog, cyn toriad y Nadolig, rhoesoch ateb i fy ffrind a chydweithiwr, Lynne Neagle, yr Aelod dros Dorfaen, a minnau am yr ymrwymiad i gael dadl ar y gwasanaeth tân yn amser y Llywodraeth. A fydd y ddadl honno ar y gwasanaethau tân ac achub yn cael ei chynnal y tymor hwn? Pwysaf arnoch unwaith eto yr angen i gael y ddadl hon tra bod anghydfod pensiynau yn parhau, ac nad yw'n ymddangos ei fod wedi ei ddatrys. Rwy'n credu bod angen i ni fod yn trafod y materion mwy yn ymwneud â'r gwasanaethau tân ac achub ar gyfer y dyfodol.

14:51

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I did commit to holding a full debate in the Assembly, and I will be doing so in March. Over the Christmas recess, I visited all three fire and rescue authorities to talk to the crews about, as you say, the ongoing issues and to see the many activities that the fire and rescue authorities undertake, particularly in relation to fire and road safety. I am also due to meet Brandon Lewis, the fire Minister in the UK Government, at the end of this month in order to talk about my concerns regarding the ongoing dispute. I am also meeting the Fire Brigades Union at regular intervals.

Diolch i chi am hynna. Fe wnes i ymrwymo i gynnal dadl lawn yn y Cynulliad, a byddaf yn gwneud hynny ym mis Mawrth. Yn ystod toriad y Nadolig, ymwelais â phob un o'r tri awdurdod tân ac achub i siarad â'r criwiau am, fel y dywedwch, y materion parhaus ac i weld y gweithgareddau niferus y mae'r awdurdodau tân ac achub yn eu cyflawni, yn enwedig o ran diogelwch rhag tân ac ar y ffyrdd. Byddaf hefyd yn cyfarfod â Brandon Lewis, y Gweinidog tân yn Llywodraeth y DU, ddiwedd y mis hwn er mwyn siarad am fy mhryderon ynghylch yr anghydfod parhaus. Rwyf hefyd yn cyfarfod ag Undeb y Brigadau Tân yn rheolaidd.

14:52 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I echo the concerns that Mark Isherwood has raised in relation to educational psychologists and ask that you include me in the letter. Certainly, correspondence with all of the north Wales councils has indicated that they would have severe difficulty in recruiting educational psychologists if the Cardiff course closes. In particular, it would severely impact on their Welsh language provision, which might mean that, in the future, there would be no Welsh language service at all. So, it really is a matter of key importance and every single local council in north Wales has stressed that to me. So, I would ask to be copied in on that correspondence.

Ategaf y pryderon y mae Mark Isherwood wedi eu codi o ran seicolegwyr addysgol a gofynnaf i chi fy nghynnwys i yn y llythyr. Yn sicr, mae gohebiaeth gyda phob un o gynghorau gogledd Cymru wedi dynodi y byddent yn cael anhawster difrifol yn recriwtio seicolegwyr addysgol os daw'r cwrs yng Nghaerdydd i ben. Yn benodol, byddai'n cael effaith ddifrifol ar eu darpariaeth iaith Gymraeg, a allai olygu, yn y dyfodol, na fyddai gwasanaeth Cymraeg ar gael o gwbl. Felly, mae'n wir yn fater o bwysigrwydd allweddol ac mae pob un cyngor lleol yng ngogledd Cymru wedi pwysleisio hynny i mi. Felly, byddwn yn gofyn i gael fy nghynnwys yn yr ohebiaeth honno.

Secondly, in relation to the Minister for Natural Resources and Food, who, sadly, is not here—I know that he will make an announcement later this week—last week, he broadcast that he would be introducing penalties of 1% on common agricultural policy payments for farmers who will be between one day and three months late for their TB tests. This penalty is on top of the 3% penalty already imposed on those who are three to 12 months late, and it will increase to 5% for those who are over 12 months late in terms of TB testing.

Yn ail, o ran y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, nad yw yma, yn anffodus—gwn y bydd yn gwneud cyhoeddiad yn ddiweddarach yr wythnos hon—darlledodd yr wythnos diwethaf y byddai'n cyflwyno cosbau o 1% ar daliadau'r polisi amaethyddol cyffredin i ffermwyr a fydd rhwng un diwrnod a thri mis yn hwyr ar gyfer eu profion TB. Mae'r gosb hon yn ogystal â'r gosb o 3% a gyflwynwyd eisoes ar y rhai sydd dri i 12 mis yn hwyr, a bydd yn codi i 5% ar gyfer y rhai sydd dros 12 mis yn hwyr o ran profion TB.

This announcement was made on 8 January, but it applies from 1 January. There are many farmers in coastal areas who may well have been affected, and who may not even have been able to gather in their stock due to flooding and damage to their farms. That is something that was, perhaps, not mentioned in the earlier question but has been widespread among the industry in coastal areas. So, I would be grateful if you could get a written statement from the Minister to clarify that, if there are circumstances in which farmers could not undertake the test, there will be an exemption, particularly because they were not aware of it because there was over a week's delay in the announcement prior to the implementation date, so nobody knew that this additional penalty was in place or would apply.

Gwnaed y cyhoeddiad hwn ar 8 Ionawr, ond mae mewn grym o 1 Ionawr. Mae llawer o ffermwyr mewn ardaloedd arfordirol a allai fod wedi cael eu heffeithio, ac o bosibl nad ydynt hyd yn oed wedi gallu casglu eu stoc eto o ganlyniad i lifogydd a difrod i'w ffermydd. Mae hynny'n rhywbeth na soniwyd amdano, efallai, yn y cwestiwn blaenorol ond sydd wedi bod yn gyffredin ymhlith y diwydiant mewn ardaloedd arfordirol. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gael datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog i egluro, os oes amgylchiadau lle na allai ffermwyr wneud y prawf, y bydd eithriad, yn enwedig gan nad oeddent yn ymwybodol ohono gan y bu oediad i'r cyhoeddiad o fwy nag wythnos cyn y dyddiad gweithredu, felly nid oedd unrhyw un yn gwybod bod y gosb ychwanegol hon ar waith nac y byddai'n berthnasol.

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will certainly ensure that you are copied in to the correspondence that I referred to in my answer to Mark Isherwood, and I will ask the Minister to make particular reference to the issue regarding the Welsh language. As you say, the Minister for Natural Resources and Food will be making a statement later this afternoon in the Chamber on the implementation of a new common agricultural policy. If the point you raised is not covered in that statement this afternoon, I will ask him to do a written statement.

Byddaf yn sicr yn sicrhau eich bod yn cael eich cynnwys yn yr ohebiaeth y cyfeiriais ato yn fy ateb i Mark Isherwood, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog gyfeirio'n benodol at y mater ynghylch yr iaith Gymraeg. Fel y dywedwch, bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad yn ddiweddarach y prynhawn yma yn y Siambr ar sefydlu polisi amaethyddol cyffredin newydd. Os na fydd y pwynt a godwyd gennych yn cael ei drafod yn y datganiad hwnnw y prynhawn yma, byddaf yn gofyn iddo wneud datganiad ysgrifenedig.

14:55 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, many patients, especially women, are concerned to hear that surgery to solve their bladder problems with tension-free vaginal tape may now be the greater danger to their health, as it has been found to break up inside the body, and fragments then cut into surrounding tissues. This leads to repeated infections and pain. Will you ask your Minister for health to issue a written statement setting out your policy on this procedure, and outline what products have been used in Welsh hospitals? Will you publish figures on the number of patients who have had TVT removed due to problems with the mesh tape?

Weinidog, mae llawer o gleifion, yn enwedig menywod, yn bryderus i glywed y gallai llawdriniaeth i ddatrys eu problemau pledren gyda thâp y wain sy'n rhydd o densiwn fod yn fwy o berygl i'w hiechyd erbyn hyn, gan y canfuwyd ei fod yn chwalu y tu mewn i'r corff, a bod darnau yn torri i mewn i feinweoedd cyfagos wedyn. Mae hyn yn arwain at heintiau ailadroddus a phoen. A wnewch chi ofyn i'ch Gweinidog iechyd i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn nodi eich polisi ar y llawdriniaeth hon, ac amlinellu pa gynhyrchion sydd wedi cael eu defnyddio yn ysbytai Cymru? A wnewch chi gyhoeddi ffigurau ar nifer y cleifion sydd wedi cael tynnu TVT oherwydd problemau gyda'r tâp rhwyll?

14:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will certainly ask—well, the Minister is in the Chamber and has heard your question, and I am sure that he will be happy to bring forward a written statement in due course. I am not sure whether those figures would be held centrally in Welsh Government, but if they are I am sure that he could include them in the written statement.

Byddaf yn sicr yn gofyn—wel, mae'r Gweinidog yn y Siambr ac mae wedi clywed eich cwestiwn, ac rwy'n siŵr y bydd yn hapus i gyflwyno datganiad ysgrifenedig maes o law. Nid wyf yn siŵr a fyddai'r ffigurau hynny yn cael eu cadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru, ond os ydynt rwy'n siŵr y gallai eu cynnwys yn y datganiad ysgrifenedig.

14:56 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will know that the Government published its first tranche of draft Welsh language standards last week, and the First Minister has indicated that he would like these regulations introduced by November if possible. Bearing in mind the summer recess dates, it would be helpful for the Business Committee to consider urgently the timetable for bringing those regulations through the Assembly. However, I wonder whether the Government would also make a statement, seeing as the First Minister has made his views known about the timetable. Once again, we have framework legislation that leaves policy development to secondary legislation, and, while the regulations for the final standards are subject to the affirmative procedure, this Assembly will be voting on what, effectively, are new rights and duties, with which it will not be familiar. So, mindful of how some of the legislation was dealt with in the last year or so, the Government statement that I seek is one which outlines how Government will deal with any slippage in the timetable, and which confirms that there will be no applications to suspend Standing Orders or curtail in any other way what is already limited scrutiny.

Weinidog, byddwch yn gwybod bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi ei chyfran gyntaf o safonau iaith Gymraeg drafft yr wythnos diwethaf, ac mae'r Prif Weinidog wedi nodi yr hoffai i'r rheoliadau hyn gael eu cyflwyno erbyn mis Tachwedd os yn bosibl. Gan gadw dyddiadau toriad yr haf mewn cof, byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor Busnes ystyried ar frys yr amserlen ar gyfer dod â'r rheoliadau hynny drwy'r Cynulliad. Fodd bynnag, tybed a fyddai'r Llywodraeth yn gwneud datganiad hefyd, gan fod y Prif Weinidog wedi gwneud ei farn yn hysbys am yr amserlen. Unwaith eto, mae gennym ddeddfwriaeth fframwaith sy'n gadael datblygiad polisi i ddeddfwriaeth eilaidd, ac, er bod y rheoliadau ar gyfer y safonau terfynol yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol, bydd y Cynulliad hwn yn pleidleisio ar yr hyn, mewn gwirionedd, sy'n hawliau a dyletswyddau newydd, na fydd yn gyfarwydd â nhw. Felly, gan gofio sut yr ymdriniwyd â rhywfaint o'r ddeddfwriaeth yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, mae'r datganiad gan y Llywodraeth rwy'n gofyn amdano yn un sy'n amlinellu sut y bydd y Llywodraeth yn ymdrin ag unrhyw achos o lithro oddi wrth yr amserlen, ac sy'n cadarnhau na fydd unrhyw geisiadau i atal Rheolau Sefydlog neu gwtogi mewn unrhyw ffordd yr hyn sydd eisoes yn graffu cyfyngedig.

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, this is something that the Business Committee will look at in relation to the timetable, and I know that you gave me notice regarding your concerns around scrutiny in committees. The committee that will scrutinise is the committee that has that within its remit. If that is unclear, again, it would be for the Business Committee to decide on that.

Yn amlwg, mae hyn yn rhywbeth y bydd y Pwyllgor Busnes yn ei ystyried o ran yr amserlen, ac rwy'n gwybod eich bod wedi rhoi rhybudd i mi am eich pryderon ynghylch craffu mewn pwyllgorau. Y pwyllgor a fydd yn craffu yw'r pwyllgor sydd â hynny yn ei gylch gwaith. Os yw hynny'n aneglur, unwaith eto, cyfrifoldeb y Pwyllgor Busnes fyddai penderfynu ar hynny.

14:57 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, we have already had an urgent question today on the problems caused by the recent flooding over the Christmas and new year period. I am sure that you would join me in recognising that flooding did not just affect the coastal areas, although they were worst affected, but that it affected certain areas of my constituency as well. In particular, a certain amount of damage was done to Monmouthshire and Brecon canal, which Glandwr Cymru has set about trying to rectify. That involved draining the canal at some expense. I know that this is not a devolved area, but I wonder whether we could have a statement from the Welsh Government on any discussions that you have had with Glandwr Cymru and the UK Government over funding that might be made available to that organisation. I am thinking particularly of the tourist season coming up in the summer, as it is very important that canals and waterways, which have a huge economic effect for Wales, are open for business, and that tourists are able to appreciate those tourist facilities as much as they possibly can. So, if we could have a statement on that, it would be much appreciated.

Arweinydd y tŷ, rydym ni eisoes wedi cael cwestiwn brys heddiw am y problemau a achoswyd gan y llifogydd diweddar dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Rwy'n siŵr y byddech yn ymuno â mi i gydnabod mai nad yr ardaloedd arfordirol yn unig a effeithiwyd gan y llifogydd, er mai nhw gafodd eu heffeithio waethaf, ond effeithiwyd ar rai ardaloedd yn fy etholaeth i hefyd. Yn arbennig, gwnaed cryn dipyn o ddifrod i gamlas Mynwy ac Aberhonddu, y mae Glandwr Cymru wedi mynd ati i geisio ei drwsio. Roedd hynny'n cynnwys draenio'r gamlas a gostiodd gryn dipyn o arian. Gwn nad yw hwn yn faes sydd wedi ei ddatganoli, ond tybed a allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael gyda Glandwr Cymru a Llywodraeth y DU ar gyllid y gellid ei roi ar gael i'r sefydliad hwnnw. Rwy'n meddwl yn arbennig am y tymor twristiaeth sy'n dod yn yr haf, gan ei bod yn bwysig iawn bod camlesi a dyfrffyrdd, sydd ag effaith economaidd enfawr i Gymru, ar agor i fusnes, a bod twristiaid yn gallu gwerthfawrogi'r cyfleusterau twristiaeth hynny gymaint ag y gallant. Felly, pe gallem ni gael datganiad ar hynny, byddai'n cael ei werthfawrogi'n fawr.

14:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You raise a very important point, that it was not just coastal areas that suffered in the very severe weather that we had at the beginning of this month. I know that the Minister for Natural Resources and Food is having a look at many different levers that he can use in relation to funding and expertise to look into all the flooding. The flood review is focused mainly on coastal flood defences, but I will certainly raise that point with him.

Rydych chi'n codi pwynt pwysig iawn, mai nad ardaloedd arfordirol yn unig a ddioddefodd yn y tywydd garw iawn a gawsom ddechrau'r mis hwn. Gwn fod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn cymryd golwg ar nifer o wahanol ddulliau y gall eu defnyddio o ran cyllid ac arbenigedd i ymchwilio i'r holl lifogydd. Mae'r adolygiad llifogydd yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol, ond byddaf yn sicr yn codi'r pwynt yna gydag ef.

14:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:59

Senedd.tv Fideo Video

# Datganiad: Cyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) at y Goruchaf Lys

# Statement: The Referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court

## Theodore Huckle

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. Before I give the statement, I wish to make two points. First, I hope that it is not too late to offer everyone a happy new year for 2014, and, secondly, I take this opportunity to extend my congratulations with regard to the honour bestowed on the Presiding Officer.

Prynhawn da, bawb. Hoffwn wneud dau bwynt cyn i mi gyflwyno'r datganiad. Yn gyntaf, rwy'n gobeithio nad yw'n rhy hwyr i ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb ar gyfer 2014, ac, yn ail, rwy'n manteisio ar y cyfle hwn i gynnig fy llongyfarchiadau o ran yr anrhydedd a gyflwynwyd i'r Llywydd.

The Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill was a Member proposed Bill introduced into the National Assembly for Wales by Mick Antoniw, Assembly Member, on 3 December 2012. Under section 112 of the Government of Wales Act 2006, I am able to refer the question as to whether the provisions of any Bill would be within the Assembly's legislative competence to the Supreme Court for decision during the four-week period that runs from the date on which the Bill was passed. The Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill was passed by the Assembly on 20 November 2013 and the period of intimation therefore expired on 18 December 2013.

Roedd Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yn Fil arfaethedig Aelod a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Mick Antoniw, Aelod Cynulliad, ar 3 Rhagfyr 2012. O dan adran 112 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gallaf gyfeirio'r cwestiwn ynghylch a fyddai darpariaethau unrhyw Fil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad at y Goruchaf Lys am benderfyniad yn ystod y cyfnod o bedair wythnos o'r dyddiad y cafodd y Bil ei basio. Cafodd Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) ei basio gan y Cynulliad ar 20 Tachwedd 2013 ac felly daeth y cyfnod dan sylw i ben ar 18 Rhagfyr 2013.

Until the Bill was passed, it was not in its final form and could be subject to further amendment. I was therefore able to commence a detailed review of the provisions of the finalised Bill in the context of my duty under section 112 only after it had been passed on 20 November 2013. An assessment of legislative competence is a complex matter that takes some time to consider and it was important than any reference made to the Supreme Court was clearly defined.

Hyd nes y cafodd y Bil ei basio, nid oedd ar ei ffurf derfynol a gallai fod yn destun gwelliannau pellach. Nid oeddwn felly'n gallu dechrau adolygiad manwl o ddarpariaethau'r Bil terfynol yng nghyd-destun fy nyletswydd o dan adran 112 hyd nes iddo gael ei basio ar 20 Tachwedd 2013. Mae asesu cymhwysedd deddfwriaethol yn fater cymhleth y mae angen amser i'w ystyried ac roedd yn bwysig bod unrhyw gyfeiriad at y Goruchaf Lys wedi'i ddiffinio'n glir.

Consideration was initially given to issuing the written statement at the same time as the reference to the Supreme Court was made. However, as the reference was made on 17 December, this would have resulted in the statement being issued in recess. I did not think that this would be appropriate and I thought it important to issue a statement to inform Assembly Members of my decision while the Assembly was still in session. I therefore published a written statement in the Assembly on 11 December 2013 to announce my decision to refer the Bill to the Supreme Court. For obvious reasons, I was able to provide only limited information at that time.

Yn gyntaf, ystyriwyd cyhoeddi'r datganiad ysgrifenedig ar yr un pryd ag y cyfeiriwyd y Bil at y Goruchaf Lys. Fodd bynnag, gan fod y cyfeiriad wedi'i wneud ar 17 Rhagfyr, byddai hynny wedi golygu cyhoeddi'r datganiad yn ystod y toriad. Nid oeddwn yn meddwl y byddai hynny'n briodol ac roeddwn o'r farn ei bod yn bwysig cyhoeddi datganiad i hysbysu Aelodau'r Cynulliad am fy mhenderfyniad cyn diwedd tymor y Cynulliad. Felly, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn y Cynulliad ar 11 Rhagfyr 2013 i gyhoeddi fy mhenderfyniad i gyfeirio'r Bil at y Goruchaf Lys. Am resymau amlwg, dim ond gwybodaeth gyfyngedig y gallwn ei darparu ar y pryd.

I reiterate my view that this Bill is within the competence of the Assembly. I consider, however, that it is appropriate in this case to have the issue of the competence of this Bill clearly resolved before it comes into force, given that bodies representing the insurance industry have consistently disputed the Assembly's competence to pass this Bill. It should be clear that the decision to refer a Bill under section 112 is one that, under the ministerial code, and by statute, I take independently of the Welsh Government.

Rwyf yn ailadrodd fy mod o'r farn fod y Bil hwn o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Rwyf o'r farn, fodd bynnag, ei bod yn briodol yn yr achos hwn datrys mater cymhwysedd y Bil hwn yn glir cyn iddo ddod i rym, o gofio bod cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant yswiriant yn gyson wedi herio cymhwysedd y Cynulliad i basio'r Bil hwn. Dylai fod yn glir fy mod wedi penderfynu cyfeirio'r Bil o dan adran 112 yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn unol â'r cod gweinidogol, a thrwy statud.

Before the Supreme Court I will contend strongly that the Bill is within the Assembly's legislative competence. However, making a reference in this way before it receives Royal Assent enables the matter of the Bill's competence to be determined without awaiting what I consider would be the inevitable challenge in potentially far more expensive and time-consuming court proceedings in due course, perhaps when substantial amounts of money had already been recouped under the Bill's provisions and would quite likely be subject to repayment were the decision of the court to be adverse. The litigation costs of a reference being made during the intimation period are likely to be less than the costs of any challenge brought once the Bill is enacted under the usual judicial review procedure, as Supreme Court rules provide that orders for costs will not normally be made either in favour of or against interveners. The Association of British Insurers would be considered to be an intervener in the case of this Bill in relation to this reference. It is, in my view, in the public interest for me to take the initiative in seeking the Supreme Court's decision on the Bill as it stands. Bodies representing the insurance industry may apply—and, we understand, will apply—to take part in these Supreme Court proceedings. In this way, all disputes can be settled at the earliest possible opportunity.

Gerbron y Goruchaf Lys, byddaf yn dadlau'n gryf fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae cyfeirio Bil fel hyn cyn iddo gael Cydsyniad Brenhinol yn golygu y gellir penderfynu ynglŷn â chymhwysedd y Bil heb aros am yr her yr wyf yn ei hystyried yn anochel, mewn achos llys a all fod yn llawer drutach ac yn fwy hirfaith maes o law, efallai pan fyddai symiau sylweddol o arian eisoes wedi'u hadennill o dan ddarpariaethau'r Bil, ac y mae'n debygol y byddai'n rhaid eu had-dalu pe bai penderfyniad y llys yn anffafriol. Mae'r costau cyfreitha sy'n gysylltiedig â chyfeirio yn ystod y cyfnod dan sylw'n debygol o fod yn llai na chostau unrhyw her a gyflwynir ar ôl i'r Bil ddod yn ddeddf o dan y weithdrefn arferol ar gyfer adolygiad barnwrol, oherwydd mae rheolau'r Goruchaf Lys yn darparu na chaiff gorchmynion am gostau eu gwneud fel rheol naill ai o blaid neu yn erbyn ymyrwyr. Byddai Cymdeithas Yswirwyr Prydain yn cael ei hystyried yn ymyrrwr yn achos y Bil hwn o ran y cyfeiriad hwn. Yn fy marn i, mae er lles y cyhoedd imi fynd ati o'm pen a'm pastwn fy hun i geisio penderfyniad y Goruchaf Lys am y Bil fel ag y mae. Gall cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant yswiriant wneud cais—ac rydym ar ddeall y byddant yn gwneud hynny—i gymryd rhan yn y trafodion hynny yn y Goruchaf Lys. Fel hyn, gallwn setlo pob anghydfod cyn gynted â phosibl.

15:03

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Counsel General, I welcome the statement and confirm that, as the Member who introduced the Bill, I fully agree with the course of action that you have taken. The reason I do so is that the insurance industry has made it very clear all along the way that it intends to challenge this, just as it has done on any particular legal decision or case that has benefitted victims of asbestos disease. It serves no benefit to victims of asbestos disease who might benefit from this legislation that there is uncertainty that, at some stage along the way, at the behest and at the timing of the insurance industry, there is a legal challenge. Therefore it is perfectly correct, and in the interest of asbestos disease victims, that the matter is referred to the Supreme Court, to clear the decks, so to speak, as quickly as possible.

Gwnsler Cyffredinol, rwyf yn croesawu'r datganiad ac yn cadarnhau fy mod innau, fel yr Aelod a gyflwynodd y Bil, yn cytuno'n llwyr â'r camau yr ydych wedi'u cymryd. Y rheswm am hynny yw bod y diwydiant yswiriant bob amser wedi ei gwneud yn glir iawn ei fod yn bwriadu herio hyn, yn union fel y mae wedi herio unrhyw benderfyniad neu achos cyfreithiol penodol sydd wedi bod o fudd i ddioddefwyr clefyd asbestos. Nid yw o fudd i'r rhai sy'n dioddef o glefyd asbestos a allai elwa o'r ddeddfwriaeth hon fod ansicrwydd ynglŷn â her gyfreithiol, ar ryw adeg ar hyd y ffordd, ar gais ac ar adeg a bennir gan y diwydiant yswiriant. Felly mae'n berffaith briodol, ac er budd y rhai sy'n dioddef o glefyd asbestos, fod y mater yn cael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys, i glirio'r byrddau, fel petai, cyn gynted ag y bo modd.

The only caveat that I set out is this: I think that the decision is right on the basis of the exceptional circumstances that exist in this particular case and in terms of the benefit that will accrue to those who stand to benefit from the legislation. In those circumstances, I invite your confirmation that this is an exceptional matter and that this is in no way setting a precedent that legislation as a matter of course might be considered to be referred to the Supreme Court for verification or otherwise, and that it is purely in these exceptional circumstances that you have given that particular consideration. I have no doubt in my mind that this legislation is a matter within our jurisdiction and competence. It is unfortunate that the insurance industry is intent on making such a challenge, but, nevertheless, it now becomes a matter for the Supreme Court to determine. Hopefully, that will be done as quickly as possible. I wonder whether you could perhaps give an indication as to the potential timescale.

Yr unig gafeat a nodaf yw hyn: rwyf yn credu bod y penderfyniad yn gywir ar sail yr amgylchiadau eithriadol sy'n bodoli yn yr achos penodol hwn ac o ran y budd a ddaw i'r rhai sydd mewn sefyllfa i elwa o'r ddeddfwriaeth. O dan yr amgylchiadau hynny, gofynnaf am eich cadarnhad fod hwn yn fater eithriadol ac nad yw hyn mewn unrhyw ffordd yn gosod cynsail i ystyried cyfeirio deddfwriaeth fel mater o drefn at y Goruchaf Lys i'w dilysu neu fel arall, ac mai dim ond o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn yr ydych wedi rhoi ystyriaeth benodol i hyn. Nid oes gennyf ddim amheuaeth nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn fater sydd o fewn ein hawdurdodaeth a'n cymhwysedd. Mae'n anffodus bod y diwydiant yswiriant yn benderfynol o gyflwyno her o'r fath, ond, serch hynny, lle'r Goruchaf Lys yw gwneud penderfyniad am hynny yn awr. Rwyf yn gobeithio y gwneir hynny cyn gynted â phosibl. Tybed a allech efallai roi syniad ynghylch yr amserlen bosibl?

15:05

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

As far as the last matter is concerned, as far as we know, we can expect to hear in about May. More generally in response to the question, I am reluctant to hold myself to words like 'exceptional' because I have to exercise the decision as to whether to refer a Bill against all the factors that pertain in any particular case. However, perhaps it will suffice for me to say that Members will know that this is the first time I have considered it necessary and appropriate to refer a Bill, although I have had to consider every one, of course, from the same standpoint. I think it very unlikely that it is something that will happen very often at all.

O ran y mater olaf hwn, hyd y gwyddom, gallwn ddisgwyl clywed tua mis Mai. I ateb y cwestiwn yn fwy cyffredinol, rwyf yn gyndyn o ddefnyddio geiriau megis 'eithriadol' gan fod yn rhaid imi ystyried yr holl ffactorau sy'n berthnasol i unrhyw achos penodol wrth benderfynu a ddylid cyfeirio Bil ai peidio. Fodd bynnag, efallai y bydd yn ddigon imi ddweud y bydd Aelodau'n gwybod mai dyma'r tro cyntaf imi ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol cyfeirio Bil, er fy mod wedi gorfod ystyried pob un, wrth gwrs, o'r un safbwynt. Rwyf yn credu ei bod yn annhebygol iawn y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn o gwbl.

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have given Mick Antoniw some extra time because he proposed the Bill, but I would remind Members that this is a statement and that, therefore, questions are in order.

Rwyf wedi rhoi rhywfaint o amser ychwanegol i Mick Antoniw oherwydd mai ef a gynigiodd y Bil, ond hoffwn atgoffa'r Aelodau mai datganiad yw hwn ac, felly, y bydd cwestiynau.

15:06

## Darren Millar

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Counsel General, I wonder what advice you gave to the Government before the vote on the day in respect of this matter. Surely, you must have been anticipating the possibility of having to refer this matter to the Supreme Court given the strong objections of the insurance industry around the competency issue. The timing does seem to be a little bit late in the day, frankly, given that you referred it immediately after it passed Stage 4 rather than giving advice to the Government beforehand. It would help if you could clarify that for the Assembly today. In addition to that, can you tell us whether you have any indication of the timescale within which you expect the Supreme Court to be able to look at the Bill in order that the Assembly can have some confidence that this matter will be drawn to a conclusion in a reasonable time?

Gwnsler Cyffredinol, tybed pa gyngor a roesoch i'r Llywodraeth cyn y bleidlais ar y diwrnod ynglŷn â'r mater hwn? Mae'n rhaid eich bod yn rhagweld y posibilrwydd o orfod cyfeirio'r mater hwn at y Goruchaf Lys o ystyried gwrthwynebiadau cryf y diwydiant yswiriant ynglŷn â chymhwysedd. Mae'n ymddangos ei bod ychydig yn hwyr yn y dydd, a dweud y gwir, ac ystyried eich bod wedi ei gyfeirio'n syth ar ôl iddo basio Cam 4 yn hytrach na chynghori'r Lywodraeth ymlaen llaw. Byddai o gymorth pe gallech egluro hynny i'r Cynulliad heddiw. Yn ogystal â hynny, a allwch ddweud wrthym a oes gennych unrhyw syniad pryd yr ydych yn disgwyl y bydd y Goruchaf Lys yn gallu edrych ar y Bil er mwyn i'r Cynulliad gael rhywfaint o hyder y bydd modd cau pen y mwdwl ar y mater o fewn amser rhesymol?

15:07

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

Well, in relation to the second matter, I think I have already answered that. We are expecting that a hearing can be arranged for May or thereabouts, which is not too long. In relation to the first matter, first, I do not propose to tell you what advice, if any, I have given in relation to this Bill. As far as my view is concerned, I have made it clear that I am of the view that the Bill is competent.

Wel, o ran yr ail fater, rwyf yn meddwl fy mod eisoes wedi ateb hynny. Rydym yn disgwyl y bydd modd trefnu gwrandawiad ar gyfer mis Mai neu oddeutu bryd hynny; nid yw hynny'n rhy bell i ffwrdd. O ran y mater cyntaf, yn gyntaf, nid wyf yn bwriadu dweud wrthych pa gyngor, os o gwbl, yr wyf wedi'i roi ynglŷn â'r Bil hwn. O ran fy marn i, rwyf wedi'i gwneud yn glir fy mod o'r farn fod y Bil yn gymwys.

15:07 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Counsel General for his statement today. It is always nice to have a question answered a day early. However, I have two questions tomorrow, so I hope that you will be back tomorrow, Counsel General. I think that we are in a curious state of affairs, however. I know that you will not tell us whether you gave any advice to the Government, but I think that we, as Assembly Members, can only collect the facts as we see them. We had a backbench Labour AM introduce a Bill; it was judged to be within our competence by the Presiding Officer—albeit it was a very carefully worded letter if I recall it correctly; and it was voted for not only by Labour Members but Labour Ministers. We can infer from that only that Labour Ministers were told at that time that the Bill, as presently constructed, was within our competence. I understand that you can only make a decision after a Bill has been passed and amended; it is your independent decision. I am left with the feeling that, had this been an opposition backbench AM's Bill, we would not be in this position because it would not have got so far but would have been ruled out by the Government at a much earlier stage. So, I will ask you again—although you did not want to answer Darren Millar—what advice you gave the Government as regards our competence for this Bill at that stage.

Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am ei ddatganiad heddiw. Mae bob amser yn braf cael ateb i gwestiwn ddiwrnod yn gynnar. Fodd bynnag, mae gennyf ddau gwestiwn yfory, felly rwyf yn gobeithio y byddwch yn ôl yfory, Gwnsler Cyffredinol. Credaf ein bod mewn sefyllfa ryfedd, fodd bynnag. Gwn nad ydych am ddweud wrthym a roesoch unrhyw gyngor i'r Llywodraeth, ond rwyf yn meddwl bod yn rhaid i ni, Aelodau'r Cynulliad, gasglu'r ffeithiau fel yr ydym yn eu gweld. Cafodd Bil ei gyflwyno gan Aelod o feinciau cefn Llafur; barnodd y Llywydd ei fod o fewn ein cymhwysedd—er bod y llythyr hwnnw wedi'i eirio'n ofalus iawn, fel y cofiaf; a phleidleisiodd Gweinidogion Llafur, yn ogystal ag Aelodau Llafur, o'i blaid. Yr unig beth y gallwn ei gasglu o hynny yw bod Gweinidogion Llafur wedi cael gwybod bryd hynny fod y Bil, fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd, o fewn ein cymhwysedd. Rwyf ar ddeall bod yn rhaid i Fil gael ei basio a'i ddiwygio cyn y gallwch wneud penderfyniad; eich penderfyniad annibynnol chi ydyw. Rwyf yn rhyw deimlo na fyddem, pe bai hwn yn Fil gan Aelod o feinciau cefn yr wrthblaid, yn y sefyllfa hon gan na fyddai wedi cyrraedd mor bell; byddai'r Llywodraeth wedi ei ddiystyru'n llawer cynharach. Felly, gofynnaf ichi eto—er nad oeddech am ateb Darren Millar—pa gyngor a roesoch i'r Llywodraeth o ran ein cymhwysedd ar gyfer y Bil hwn ar yr adeg honno.

The reason you give in your statement today for the referral of this Bill now to the Supreme Court is that the insurance industry is questioning its competence. We knew that all along, of course. However, there is a dangerous or unfortunate precedent that could be set here. Does this now mean that you will consider referring all Bills to the Supreme Court in advance of them becoming Acts when the competence is questioned by interested parties? Or is it only those questioned by interested parties that have sufficient funds to take you to court that will be referred?

Y rheswm a roddwch yn eich datganiad heddiw dros gyfeirio'r Bil hwn yn awr at y Goruchaf Lys yw bod y diwydiant yswiriant yn cwestiynu ei gymhwysedd. Roeddem yn gwybod hynny o'r dechrau, wrth gwrs. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gellid gosod cynsail peryglus neu anffodus yma. A yw hyn yn awr yn golygu y byddwch yn ystyried cyfeirio pob Bil i'r Goruchaf Lys cyn iddo ddod yn Ddeddf pan fydd partïon â diddordeb yn cwestiynu ei gymhwysedd? Ynteu ai dim ond y rhai a gwestiynir gan bartïon â diddordeb a chanddynt ddigon o arian i fynd â chi i'r llys a gaiff eu cyfeirio?

You seem to be claiming that this step will save public money as the insurance industry will inevitably challenge the Bill. What is inevitable about this challenge? What leads you to believe that such a challenge will happen? You could equally say that the step will save the insurance industry a considerable sum of money. Instead of funding a legal challenge to the courts themselves, they get a substantially publicly funded constitutional challenge initiated by the Welsh Government itself. Again, I think that that is an unfortunate precedent. Did you not think to face down the insurance companies and ask them to take you to court, rather than initiate this work yourself?

Rydych fel petaech yn honni y bydd y cam hwn yn arbed arian cyhoeddus oherwydd ei bod yn anochel y bydd y diwydiant yswiriant yn herio'r Bil. Beth sy'n anochel am yr her hon? Beth sy'n gwneud ichi gredu y bydd her o'r fath yn digwydd? Yn wir, gallech ddweud yn yr un modd y bydd y cam yn arbed swm sylweddol o arian i'r diwydiant yswiriant. Yn hytrach nag ariannu her gyfreithiol i'r llysoedd eu hunain, maent yn cael her gyfansoddiadol, wedi'i hariannu drwy arian cyhoeddus i raddau helaeth, ac wedi'i hysgogi gan Lywodraeth Cymru ei hun. Unwaith eto, credaf fod hynny'n gynsail anffodus. Oni wnaethoch chi ystyried wynebu'r cwmnïau yswiriant a gofyn iddynt fynd â chi i'r llys, yn hytrach na rhoi hyn ar waith eich hunan?

I am left with a very worrying thought, Presiding Officer, that we as an Assembly legislated on a false premise and that the Government never had confidence in this backbench Bill in the first place.

Mae hyn yn gwneud imi bryderu'n fawr, Lywydd, ein bod fel Cynulliad wedi deddfu ar gynsail ffug ac nad oedd gan y Llywodraeth erioed hyder yn y Bil hwn gan Aelod o'r meinciau cefn yn y lle cyntaf.

15:10 **Theodore Huckle**

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for the questions. I am wondering how many of them I can respond to. The reason that it has arisen in the way that it has is because the Government of Wales Act 2006 says that it should arise in the way that it has. Those promoting legislation and the Assembly must take their own views about whether provisions or a whole Bill are competent. At the stage of passing, I have to take a view as to whether a provision is competent and whether, as in this case, notwithstanding my view that they are competent, it is in the public interest for the matter to be determined sooner rather than later. That is the position that I have taken in this case.

Diolch am y cwestiynau. Rwyf yn ceisio meddwl tybed faint ohonynt y gallaf eu hateb. Y rheswm pam y mae hyn wedi digwydd fel ag y gwnaeth yw bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dweud y dylai ddigwydd fel ag y gwnaeth. Rhaid i'r rhai sy'n hyrwyddo deddfwriaeth a'r Cynulliad lunio eu barn eu hunain ynghylch a yw darpariaethau neu Fil cyfan yn gymwys ai peidio. Yn ystod y cam pasio, rhaid i mi lunio barn ynghylch a yw darpariaeth yn gymwys ac a yw, fel yn yr achos hwn, er gwaethaf fy marn eu bod yn gymwys, er budd y cyhoedd i'r mater gael ei benderfynu cyn gynted â phosibl. Dyna fy safbwynt yn yr achos hwn.

As for the inevitability of challenge, I do not think that it takes much working out why I take the view that challenge is inevitable. The Association of British Insurers, in particular, has, on numerous times, written to me, the Presiding Officer and to anyone else who would accept the letter to say that these provisions were unfair, incompetent, in breach of human rights, and so on. We know from the history of the Scottish experience that, in these types of cases, it is indeed the insurance industry that has challenged provisions. For example, the AXA case itself. My first venture into the Supreme Court arose because of a challenge by the insurance industry to the Bill to ensure that pleural plaques remained, or were again, a recoverable injury. Therefore, I have taken a view on that matter on the evidence available to me, which, I think, is strong.

O ran natur anochel yr her, nid wyf yn credu bod angen crafu pen rhyw lawer ynghylch pam yr wyf o'r farn bod her yn anochel. Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain, yn arbennig, wedi ysgrifennu sawl gwaith ataf fi, at y Llywydd ac at unrhyw un arall a fyddai'n derbyn y llythyr i ddweud bod y darpariaethau hyn yn annheg, yn anghymwys, yn groes i hawliau dynol, ac yn y blaen. Rydym yn gwybod o hanes profiad yr Alban mai'r diwydiant yswiriant sydd wedi herio darpariaethau yn y mathau hyn o achosion. Er enghraifft, achos AXA ei hun. Euthum at y Goruchaf Lys am y tro cyntaf oherwydd bod y diwydiant yswiriant wedi herio'r Bil i sicrhau bod placiau plewrol yn dal i fod yn anaf adferadwy, neu'n cael y statws hwnnw unwaith eto. Felly, rwyf wedi llunio barn am y mater hwnnw ar sail y dystiolaeth sydd ar gael imi, sydd, yn fy marn i, yn gryf.

In relation to this being a publicly funded challenge from the point of view of the Association of British Insurers, that is not quite right. It will have to bear its own costs and the costs that are incurred by the Government—as I think there will probably be—to defend the Bill will be publicly funded, but, as I comprehend, it will be at a significantly lower level than would be the case if this was a challenge in the courts in perhaps more conventional ways.

O ran yr awgrym fod yr her hon wedi'i hariannu drwy arian cyhoeddus o safbwynt Cymdeithas Yswirwyr Prydain, nid yw hynny'n hollol gywir. Bydd yn rhaid iddi dalu ei chostau ei hun a bydd y costau a ysgwyddir gan y Llywodraeth—a chredaf y bydd rhai costau, yn ôl pob tebyg—er mwyn amddiffyn y Bil yn cael eu hariannu'n gyhoeddus, ond rwyf ar ddeall y bydd y costau'n llawer is na phe bai'r her hon yn digwydd yn y llysoedd mewn ffyrdd mwy confensiynol, efallai.

15:12 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Counsel General for bringing a statement to the Chamber to explain the rationale for this referral. While the Bill seeks to establish a principle of justice, many Members would recognise the complexity of the competence issues that were raised in the passage of the Bill. I hope that the Supreme Court judgment will enable this Bill to be commenced in the confidence of knowing that those issues have been resolved and finally put beyond question.

Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am gyflwyno datganiad i'r Siambr i egluro'r rhesymeg dros gyfeirio'r Bil hwn. Er bod y Bil yn ceisio sefydlu egwyddor o gyfiawnder, byddai llawer o Aelodau'n cydnabod cymhlethdod y materion yn ymwneud â chymhwysedd a godwyd wrth i'r Bil fynd ar ei hynt. Rwyf yn gobeithio y bydd dyfarniad y Goruchaf Lys yn golygu y bydd modd cychwyn y Bil hwn, gan wybod yn sicr fod y materion hynny wedi'u datrys a'u cadarnhau unwaith ac am byth.

You stated that you commenced a detailed review only once it was passed in its final form, however, as Simon Thomas has already said, Members were provided with a note on competence issues at a much earlier point in the process. You identify in your own statement that the insurance industry had consistently raised this issue throughout the Bill's passing. So, we were all aware that there were complex issues that needed addressing.

Dywedasoch mai dim ond ar ôl iddo gael ei basio ar ei ffurf derfynol y dechreuasoch adolygiad manwl, ond fel y dywedodd Simon Thomas eisoes, cafodd yr Aelodau nodyn am faterion cymhwysedd yn llawer cynharach yn y broses. Nodwch yn eich datganiad eich hun fod y diwydiant yswiriant wedi codi'r mater hwn yn gyson drwy gydol hynt y Bil. Felly, roeddem oll yn ymwybodol bod angen ymdrin â rhai materion cymhleth.

I am wondering what preliminary work that you did in advance of Stage 4 to prepare the ground for what you then did. I note as well that you have told two Members already that you will not tell us what advice you gave to the Welsh Government, but can you confirm that you did, in fact, provide the Welsh Government with advice and when? May I ask whether you provided the Member in charge with advice as to these procedures as well?

Tybed pa waith rhagarweiniol a wnaethoch cyn Cyfnod 4 i baratoi'r tir ar gyfer yr hyn a wnaethoch wedyn? Nodaf hefyd eich bod eisoes wedi dweud wrth ddau Aelod nad ydych yn mynd i ddweud wrthym pa gyngor a roesoch i Lywodraeth Cymru, ond a allwch gadarnhau eich bod, yn wir, wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru a phryd? A gaf fi ofyn a roesoch gyngor am y gweithdrefnau hyn i'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd?

In his letter of 15 December to you, the Attorney-General mentioned correspondence between yourself and him. Could you confirm whether you initiated that correspondence with the Attorney-General in advance of the passage of this Bill at Stage 4?

Yn ei lythyr dyddiedig 15 Rhagfyr atoch, soniodd y Twrnai Cyffredinol am ohebiaeth rhyngoch chi ac ef. A wnewch chi gadarnhau ai chi a gychwynnodd yr ohebiaeth honno â'r Twrnai Cyffredinol cyn pasio'r Bil hwn yng Nghyfnod 4?

You just said during your answers, Counsel General, that it is right that these issues should be resolved sooner rather than later. I think that we would all agree with that. It is a matter of regret to the Assembly that so many of our Bills have been referred to the Supreme Court. I think that we would all wish to see, as our democracy develops, that our procedures are able to cope with exceptional circumstances such as this. I understand why you are not able to give detailed consideration to a Bill until the wording of a Bill is finalised, but, obviously, the wording of a Bill is finalised after Stage 3. Perhaps there is an opportunity between Stages 3 and 4, if we do not immediately pass from one to the other, for those kinds of considerations to take place at an earlier stage and, dare I say it, at a cheaper stage, without necessarily involving the Supreme Court.

Rydych newydd ddweud yn ystod eich atebion, Gwnsler Cyffredinol, y dylid datrys y materion hyn cyn gynted â phosibl. Rwyf yn meddwl y byddem i gyd yn cytuno â hynny. Mae'n destun gofid i'r Cynulliad fod cynifer o'n Biliau wedi eu cyfeirio at y Goruchaf Lys. Wrth i'n democratiaeth ddatblygu, credaf y byddem i gyd am weld bod ein gweithdrefnau'n gallu ymdopi ag amgylchiadau eithriadol fel y rhain. Rwyf yn deall pam nad ydych yn gallu rhoi ystyriaeth fanwl i Fil hyd nes y bydd geiriad y Bil wedi'i gwblhau, ond, yn amlwg, caiff geiriad Bil ei gwblhau ar ôl Cyfnod 3. Efallai fod cyfle rhwng Cyfnodau 3 a 4, os nad ydym yn symud yn syth o un i'r llall, i'r mathau hynny o ystyriaethau ddigwydd yn gynharach ac, os caf ddweud, yn rhatach, heb ymwneud â'r Goruchaf Lys o reidrwydd.

Finally, you state that your reason for referral was primarily because of what you saw as the likelihood that the insurance industry would challenge the competence, even though the Attorney-General, in his letter of 15 December, did state to you that he would not be challenging competence, and that was, of course, two days before your referral was made. I am wondering whether you are aware whether any representatives of the insurance industry have applied to take part in these proceedings at this time.

Yn olaf, dywedwch mai eich prif reswm dros gyfeirio'r Bil oedd y ffaith eich bod o'r farn ei bod yn debygol y byddai'r diwydiant yswiriant yn herio'r cymhwysedd, er bod y Twrnai Cyffredinol, yn ei lythyr dyddiedig 15 Rhagfyr, wedi dweud wrthych na fyddai'n herio'r cymhwysedd, ac roedd hynny, wrth gwrs, ddeuddydd cyn ichi gyfeirio'r Bil. Tybed a ydych yn gwybod a oes unrhyw gynrychiolwyr o'r diwydiant yswiriant wedi gwneud cais i gymryd rhan yn y trafodion hyn ar hyn o bryd?

15:15

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

Taking the last first, I am not sure whether the application has been made already, but I know that it is in hand and I know that counsel have been instructed on behalf of the Association of British Insurers.

A chymryd yr olaf yn gyntaf, nid wyf yn siŵr a yw'r cais eisoes wedi ei wneud, ond gwn ei fod ar y gweill a bod cwnsleriaid wedi eu cyfarwyddo ar ran Cymdeithas Yswirwyr Prydain.

Secondly, on dealings with the Attorney-General, as you know, I do not conventionally disclose what discussions I have had, but, as you know from the letter that you have referred to, there was correspondence in this case. I cannot tell you what it was, but, as you know also, the Attorney-General decided not to refer the Bill, which I see as—if I can put it this way—positive, and I decided to refer the Bill for the reasons that I have sought to explain.

Yn ail, ynglŷn ag ymwneud â'r Twrnai Cyffredinol, fel y gwyddoch, nid wyf fel rheol yn datgelu pa drafodaethau yr wyf wedi'u cael, ond, fel y gwyddoch o'r llythyr yr ydych wedi cyfeirio ato, bu gohebiaeth yn yr achos hwn. Ni allaf ddweud wrthych beth ydoedd, ond, fel y gwyddoch hefyd, penderfynodd y Twrnai Cyffredinol beidio â chyfeirio'r Bil, ac rwyf yn ystyried hynny—os gallaf ei roi fel hyn—yn beth cadarnhaol, a phenderfynais gyfeirio'r Bil am y rhesymau yr wyf wedi ceisio eu hesbonio.

As far as advice is concerned, I just cannot say what advice I was asked for, if any, or gave, but it is a reasonable inference from the basis upon which I have put the statement that if I was asked to advise on this Bill, had I been asked to advise on this Bill, I would probably have said that it is competent, which is what I say now.

O ran cyngor, ni allaf ddweud pa gyngor y gofynnwyd imi amdano, os o gwbl, na pha gyngor a roddais, ond mae'n gasgliad rhesymol o'r sail y rhoddais fy natganiad arni, pe gofynnid imi roi cyngor ar y Bil hwn, pe bai rhywun wedi gofyn imi roi cyngor ar y Bil hwn, mae'n debyg y byddwn wedi dweud ei fod yn gymwys, sef yr hyn yr wyf yn ei ddweud yn awr.

You prefaced one of the questions by saying that the reason for referring the Bill is the position of the insurance industry and the likelihood of challenge. That is one of the factors, and it is a primary factor. It probably will not be helpful to set out with any detail the factors that I will apply, because, in making a decision of this type—either yea or nay—the factors will change from case to case. However, perhaps it is appropriate for me to summarise that, in this case, the factors that I particularly bore in mind were: first, the likelihood of challenge—the inevitability, as I see it; secondly, the uncertainty adverted to by Mr Antoniw that that creates in the attempts to implement the policy behind the Bill; thirdly, the fact that if there was a successful challenge in due course, substantial moneys would probably already have been recouped and would be required to be repaid and the provisions unravelled; fourthly, the costs involved in a reference such as this compared with a challenge in the courts in the ordinary way in private proceedings, and the time delay associated with the latter; fifthly, the arguability of the objections to the Bill—I am not suggesting for a second that there are not arguments to be made against the Bill. There are previous authorities on interference with article 1 protocol 1 rights, which, no doubt, would be referred to. There are questions over the legitimacy of the interference with the rights and the proportionality of them, and the fact that section 14, in particular, is retrospective in effect. All those matters raised by the Association of British Industry in complaining about the Bill are factors that will have to be weighed. However, what I do say to this Assembly is that, having weighed those factors myself, I consider the Bill to be competent.

Dywedasoch cyn gofyn un o'r cwestiynau mai'r rheswm dros gyfeirio'r Bil yw safbwynt y diwydiant yswiriant a'r tebygolrwydd y byddai'n cyflwyno her. Mae hynny'n un o'r ffactorau, ac mae'n ffactor sylfaenol. Mae'n debyg na fydd yn ddefnyddiol nodi ag unrhyw fanylder y ffactorau y byddaf yn eu hystyried, oherwydd, wrth wneud penderfyniad fel hwn—naill ai o blaid neu yn erbyn—bydd y ffactorau'n newid o achos i achos. Fodd bynnag, efallai ei bod yn briodol imi grynhoi, yn yr achos hwn, mai'r ffactorau pwysicaf imi eu hystyried oedd, yn gyntaf, y tebygolrwydd y byddai her—mae'n anochel, yn fy nhyb i; yn ail, yr ansicrwydd y cyfeiriodd Mr Antoniw ato y mae hynny'n ei greu yn yr ymdrechion i weithredu'r polisi sy'n sail i'r Bil; yn drydydd, y ffaith, pe ceid her lwyddiannus maes o law, ei bod yn debygol y byddai symiau sylweddol o arian eisoes wedi eu hadennill ac y byddai angen eu had-dalu a datod y darpariaethau; yn bedwerydd, y costau sy'n gysylltiedig â chyfeiriad fel hwn o gymharu â her yn y llysoedd yn y ffordd arferol mewn trafodion preifat, a'r oedi sy'n gysylltiedig â'r olaf o'r rhain; yn bumed, pa mor ddadleuadwy yw'r gwrthwynebiadau i'r Bil—nid wyf yn awgrymu am eiliad nad oes dadleuon i'w gwneud yn erbyn y Bil. Mae awdurdodau blaenorol ar ymyrraeth â hawliau erthygl 1 protocol 1 y byddid, yn ddi-os, yn cyfeirio atynt. Mae cwestiynau ynglŷn â chyfreithlondeb ymyrryd â'r hawliau a'u cymesuredd, a'r ffaith bod adran 14, yn arbennig, yn ôl-weithredol ei heffaith. Mae'r holl faterion hynny a godwyd gan Gymdeithas Diwydiant Prydain wrth gwyno am y Bil yn ffactorau y bydd yn rhaid eu pwyso a'u mesur. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf yn ei ddweud wrth y Cynulliad hwn yw fy mod o'r farn, ar ôl pwyso a mesur y ffactorau hynny fy hun, fod y Bil yn gymwys.

15:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eluned Parrott thanked the Counsel General for bringing this statement today. Actually, the Counsel General was asked by me to bring it today because he made a written statement on the last day of term, which I did not think was an appropriate time to allow Members to discuss it.

Diolchodd Eluned Parrott i'r Cwnsler Cyffredinol am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw. A dweud y gwir, gofynnais i'r Cwnsler Cyffredinol ei gyflwyno heddiw gan ei fod wedi gwneud datganiad ysgrifenedig ar ddiwrnod olaf y tymor; nid oeddwn yn meddwl mai dyna'r amser priodol i'w roi i'r Aelodau i'w drafod.

15:19

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, and, if I may, I would like to reiterate that point: given the importance, the weight and, indeed, the number of contributions that have been made this afternoon, I do think that you should have announced this important decision here, Counsel General. The timetable was the timetable, and I realise that that determined your action to some extent, but we have had a long recess between the announcement and the chance, now, to put some questions to you.

Diolch, Lywydd, ac, os caf, hoffwn ailadrodd y pwynt hwnnw: ac ystyried pwysigrwydd a phwys ac, yn wir, nifer y cyfraniadau sydd wedi'u gwneud y prynhawn yma, rwyf yn credu y dylech fod wedi cyhoeddi'r penderfyniad pwysig hwn yma, Gwnsler Cyffredinol. Yr amserlen oedd yr amserlen, ac rwyf yn sylweddoli ei bod wedi dylanwadu ar yr hyn a wnaethoch i ryw raddau, ond bu toriad hir rhwng y cyhoeddiad a'r cyfle, yn awr, i ofyn rhai cwestiynau ichi.

I want to follow this issue of whether you are setting a precedent to seek some form of clearance from the Supreme Court for legislation in the future, because, if you are, that puts us in a very different position. I think that it is fairly standard interpretation that your powers to refer this matter at this stage, when it is still a Bill, were intended to allow the Government to refer private Member legislation that it thought may not be competent to the Supreme Court. You are using it in a pre-emptive way, possibly to meet a potential challenge at an earlier stage, and I just wonder whether you wish to comment on the robustness of that procedure, because I think that some people would say that the Assembly would appear to be much more confident if it had an Act—if you had allowed this to go to enactment—and then said to whoever wants to challenge it, 'You go ahead and challenge it. We are confident that we have the competence. That is why we have passed it, and it is now an Act'.

Hoffwn geisio canfod a ydych yn gosod cynsail i geisio rhyw fath o ganiatâd gan y Goruchaf Lys i ddeddfu yn y dyfodol, oherwydd, os ydych yn gwneud hynny, mae'n ein rhoi mewn sefyllfa wahanol iawn. Credaf ei fod yn ddehongliad eithaf safonol mai diben eich pwerau i gyfeirio'r mater hwn yn y cyfnod hwn, pan fo'n dal i fod yn Fil, oedd caniatáu i'r Llywodraeth gyfeirio deddfwriaeth Aelod preifat, yr oedd o'r farn efallai na fyddai'n gymwys, i'r Goruchaf Lys. Rydych yn eu defnyddio mewn ffordd ragataliol, o bosibl i ymdrin â her bosibl yn gynharach; tybed a hoffech wneud sylwadau am gadernid y weithdrefn honno, oherwydd credaf y byddai rhai pobl yn dweud y byddai'n ymddangos bod y Cynulliad yn llawer mwy hyderus pe bai ganddi Ddeddf—pe baech wedi caniatáu deddfu ar hyn—ac yna wedi dweud wrth bwy bynnag sydd eisiau ei herio, 'Mae croeso i chi ei herio. Rydym yn hyderus bod gennym y cymhwysedd. Dyna pam yr ydym wedi ei basio, a'i fod bellach yn Ddeddf'?

I also want to know whether the Counsel General would take this step if it was a Welsh Government sponsored Bill. Presumably, if you thought that there were areas of ambiguity in the competence, then that would be possible. Alternatively, have you done this only because it is, in fact, a private Member's Bill, although I do think that it is important to put on record that this Bill had support and assistance, I believe, from the Welsh Government? So, it straddles the categories to some extent, I think it is fair to say. To ask a slightly more helpful question, perhaps, to the Counsel General, do you think that this type of procedure is made more likely under a conferred powers model, or do you not see this type of ambiguity that may exist as not being strictly related to the type of settlement that we have compared with the reserved power models in Scotland and Northern Ireland?

Rwyf hefyd yn awyddus i gael gwybod a fyddai'r Cwnsler Cyffredinol yn cymryd y cam hwn pe bai'r Bil wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru. Rwyf yn tybio, pe baech yn meddwl bod rhywfaint o amwysedd o ran cymhwysedd, y byddai hynny'n bosibl. Fel arall, ai'r unig reswm yr ydych wedi gwneud hyn yw ei fod, mewn gwirionedd, yn Fil Aelod preifat, er fy mod yn credu ei bod yn bwysig rhoi ar gofnod fod y Bil hwn wedi cael cefnogaeth a chymorth, rwyf yn credu, gan Lywodraeth Cymru? Felly, credaf ei bod yn deg dweud ei fod yn perthyn i'r naill gategori a'r llall i ryw raddau. A gofyn cwestiwn ychydig yn fwy defnyddiol, efallai, i'r Cwnsler Cyffredinol, a ydych yn credu bod y math hwn o weithdrefn yn fwy tebygol o dan fodel pwerau a roddir, neu a ydych yn credu nad yw'r math hwn o amwysedd a allai fodoli yn gysylltiedig o reidrwydd â'r math o setliad yr ydym wedi'i gymharu â'r modelau pŵer a gadwyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon?

15:21

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. In terms of the go-ahead-and-challenge approach, it seems to me that, as far as the assurance for the Assembly is concerned, there is no difference in principle between the democratic force of a Bill that has been passed and is awaiting Royal Assent and that of a Bill that has been passed and has achieved Royal Assent and is called an Act. Both of those are completely and fully expressions of—if I can put it this way, without sounding too pompous about it—the will of the people. It seems to me that there is not really much of a distinction there. As far as the precedent issue is concerned, as I have said before, it is well known—or should be well known—that, despite the challenges in some cases, this is the first time that I have considered it appropriate to refer a Bill of the Assembly, so it is not my position that it is appropriate in the ordinary course of events to use a section 112 referral as some kind of clearing process whenever there is a challenge to a Bill. However, I hope that I have identified the factors that are particularly in play here, which, on balance, inclined me to make the reference. More than that I cannot really say. I hope that the Assembly will accept that I will seek to make these decisions in utter good faith and in support, generally speaking, of the position of this Assembly as representing the will of the people of Wales.

Diolch. O ran yr ymagwedd croeso-i-chi-herio, mae'n ymddangos i mi, o ran sicrwydd i'r Cynulliad, nad oes gwahaniaeth mewn egwyddor rhwng grym democrataidd Bil sydd wedi ei basio ac sy'n aros am Gydsyniad Brenhinol, a Bil sydd wedi ei basio ac sydd wedi cael Cydsyniad Brenhinol ac yn cael ei alw'n Ddeddf. Mae'r ddau hyn yn fynegiadau cyflawn a llawn—os caf ei fynegi fel hyn, heb swnio'n rhy rhodresgar—o ewyllys y bobl. Mae'n ymddangos i mi nad oes llawer o wahaniaeth yn hynny o beth mewn gwirionedd. O ran y cynsail, fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, mae'n dra hysbys—neu dylai fod yn dra hysbys—mai dyma'r tro cyntaf imi ystyried ei bod yn briodol cyfeirio un o Filiau'r Cynulliad, er gwaethaf yr heriau mewn rhai achosion, felly nid wyf yn credu ei bod yn briodol fel rheol defnyddio atgyfeiriad adran 112 fel rhyw fath o broses glirio pryd bynnag y bydd her i Fil. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio fy mod wedi nodi'r ffactorau sy'n arbennig o berthnasol yma, ac a'm harweiniodd, at ei gilydd, i gyfeirio'r Bil. Ni allaf ddweud dim mwy na hynny. Rwyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn derbyn y byddaf yn ceisio gwneud y penderfyniadau hyn yn gwbl ddidwyll a chan gefnogi, yn gyffredinol, safbwynt y Cynulliad hwn sy'n cynrychioli ewyllys pobl Cymru.

As for the query, which has now come twice, as to whether different considerations would have applied if it had not been Mick Antoniw's private Member's Bill, the questioner partly answered that question himself. In fact, this Bill was supported from a fairly early stage by the Welsh Government and, therefore, I fail to see any distinction of principle between this and a Government Bill. I cannot imagine that my approach to the question will change whatever the nature of the Bill because, at the end of the process, the Bill has been passed by this Assembly. That is what matters from the point of view of its status in the terms that I consider it. As to whether a reservation model will change the position, I suppose that the answer to that should be 'probably yes'. The reason for that is because history tells us that I do not think that that there has been a reference of this type at all from Scotland. I see it in terms of a burden of proof point, as the lawyers would say. We have to prove that provisions of powers for this Assembly are within competence, whereas the reverse is true in the case of the Scottish model.

O ran yr ymholiad, sydd bellach wedi'i wneud ddwywaith, ynghylch a fyddai'r ystyriaethau wedi bod yn wahanol pe na bai hwn yn Fil Aelod preifat gan Mick Antoniw, mae'r holwr ei hun wedi ateb y cwestiwn hwnnw'n rhannol. Mewn gwirionedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Bil hwn ers cyfnod cymharol gynnar, ac felly, ni allaf weld dim gwahaniaeth mewn egwyddor rhwng y Bil hwn a Bil gan y Llywodraeth. Ni allaf ddychmygu y bydd fy agwedd at y cwestiwn yn newid beth bynnag yw natur y Bil oherwydd, ar ddiwedd y broses, mae'r Cynulliad hwn wedi pasio'r Bil. Dyna sy'n bwysig o safbwynt ei statws yn ôl y telerau sy'n sail i'm hystyriaethau. O ran a fydd model cadw'n newid y sefyllfa, mae'n debyg mai'r ateb y dylid ei roi i hynny yw 'bydd, yn ôl pob tebyg'. Y rheswm dros hynny yw bod hanes yn dweud wrthym nad wyf yn credu y bu cyfeiriad o'r math hwn o gwbl o'r Alban. Rwyf yn ei weld fel pwynt baich profi, fel y byddai'r cyfreithwyr yn ei ddweud. Mae'n rhaid inni brofi bod darpariaethau pwerau'r Cynulliad hwn o fewn cymhwysedd; mae'r gwrthwyneb yn wir yn achos model yr Alban.

15:24

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Counsel General, I would like to ask you about the role of the newly appointed First Counsel in this matter, because Members may know that she is currently acting on behalf of the insurers of asbestos companies in the Supreme Court in an attempt to limit their liability against compensation claims from the victims of asbestos. What involvement has the First Counsel had in your decision to refer? Have you discussed this matter with her? Will she be acting for the Welsh Government in the Supreme Court? Has she, at any point, advised insurance companies in relation to this legislation or the competence of this institution?

Gwnsler Cyffredinol, hoffwn ofyn ichi am swyddogaeth y Prif Gwnsler sydd newydd ei phenodi yn y mater hwn, oherwydd efallai y bydd yr Aelodau'n gwybod ei bod ar hyn o bryd yn gweithredu ar ran yswirwyr cwmnïau asbestos yn y Goruchaf Lys mewn ymgais i gyfyngu ar eu hatebolrwydd yn erbyn hawliadau iawndal gan ddioddefwyr asbestos. Beth oedd rhan y Prif Gwnsler yn eich penderfyniad i gyfeirio? A ydych wedi trafod y mater hwn â hi? A fydd hi'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru yn y Goruchaf Lys? A yw hi, ar unrhyw adeg, wedi cynghori cwmnïau yswiriant ynglŷn â'r ddeddfwriaeth hon neu ynglŷn â chymhwysedd y sefydliad hwn?

15:25

## Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

As far as the last two questions are concerned, they are easy to answer. There is no question that Ms Mulcahy has advised the insurance industry in relation to this Bill. She would not be able to offer any thoughts on the Bill had she done so. I will not talk about the detail, but I think that I can say that I have spoken with the new First Counsel about this reference, although not in detail, and I leave it at that.

Mae'r ddau gwestiwn olaf yn hawdd i'w hateb. Yn sicr, nid yw Ms Mulcahy wedi cynghori'r diwydiant yswiriant ynglŷn â'r Bil hwn. Ni fyddai hi'n gallu cynnig unrhyw sylwadau am y Bil pe bai hi wedi gwneud hynny. Nid wyf am sôn am y manylion, ond rwyf yn meddwl y gallaf ddweud fy mod wedi siarad â'r Prif Gwnsler newydd am y cyfeiriad hwn, er nad yn fanwl, a dyna'r cwbl yr wyf am ei ddweud.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:25.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:25.*

15:25

## Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

I am so sorry, but there was an earlier question that I did not note.

Mae'n ddrwg iawn gennyf, ond roedd cwestiwn yn gynharach na nodwyd gennyf.

15:26

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I asked what her involvement was. Have you discussed this with her, and will she be acting for the Welsh Government in the Supreme Court?

Gofynnais beth oedd ei rhan. A ydych wedi trafod hyn â hi, ac a fydd hi'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru yn y Goruchaf Lys?

15:26

## Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

She will not be acting with me for the Welsh Government because leading counsel was already instructed before she became First Counsel.

Ni fydd yn gweithredu gyda mi ar ran Llywodraeth Cymru gan fod cwnsleriaid eisoes wedi cael eu cyfarwyddo cyn iddi ddod yn Brif Gwnsler.

15:26

# Datganiad: Gwasanaethau Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru

# Statement: Historic Environment Services in Wales

Senedd.tv
Fideo Video

**John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

In July, I published 'The Future of our Past', consulting on the way forward for our historic environment. Yesterday, I made a written statement and published the responses to the consultation. I would now like to turn to the future working of historic environment services in Wales. Significant progress has been made in recent years by Cadw, the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, the archaeological trusts and others in developing our knowledge of the historic environment, in making it more accessible to the people of Wales, with major investment in visitor access, interpretation and public participation, and in making the links between heritage and other aspects of Welsh life.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddais 'Dyfodol ein Gorffennol', ymgynghoriad ar y ffordd ymlaen ar gyfer ein hamgylchedd hanesyddol. Ddoe, gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig a chyhoeddais yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Hoffwn yn awr droi at waith gwasanaethau'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yr ymddiriedolaethau archeolegol ac eraill wrth ddatblygu ein gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol, ei wneud yn fwy hygyrch i bobl Cymru, gyda buddsoddi mawr mewn mynediad i ymwelwyr, dehongli a chyfranogiad y cyhoedd, a chreu'r cysylltiadau rhwng treftadaeth ac agweddau eraill ar fywyd Cymru.

Our services cover three main functions: increasing our knowledge of the historic environment, conserving it and engaging the public. The consultation document underlined the need for these services to focus effectively on strategic priorities. This is essential if we are to get the most from available resources and deliver tangible outcomes for the people of Wales. I am very pleased that the responses to the consultation strongly supported the proposal that strategic plans should be developed regularly in collaboration with the sector, building on the work that Cadw has already been doing. The responses also strongly supported the proposal that we should establish an independent advisory panel to support the development of the plans, to provide support and, where appropriate, to challenge our historic environment services. I will take both these proposals forward.

Mae tair prif swyddogaeth i'n gwasanaethau: cynyddu ein gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol, ei ddiogelu ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd y ddogfen ymgynghori'n pwysleisio'r angen i'r gwasanaethau hyn ganolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau strategol. Mae hyn yn hanfodol os ydym am gael y gorau o'r adnoddau sydd ar gael a sicrhau canlyniadau gwirioneddol i bobl Cymru. Rwyf yn falch iawn fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid y cynnig y dylid datblygu cynlluniau strategol yn rheolaidd ar y cyd â'r sector, gan adeiladu ar y gwaith y mae Cadw eisoes wedi bod yn ei wneud. Roedd yr ymatebion hefyd yn gryf o blaid y cynnig y dylem sefydlu panel cynghori annibynnol i gynorthwyo i ddatblygu'r cynlluniau, i ddarparu cefnogaeth a, lle bo'n briodol, i herio ein gwasanaethau amgylchedd hanesyddol. Byddaf yn symud ymlaen â'r ddau gynnig hyn.

The most sensitive issue in the consultation document was the potential merger between Cadw and the Royal Commission on the Ancient and Historic Monuments of Wales. Having taken account of the issues previously raised by the Communities, Equality and Local Government Committee, I consulted on the full range of merger options. I have considered the responses carefully, and the analysis of options produced by officials working closely with the commission. I am publishing that analysis today. I am also grateful for the discussions that I have had with the spokespeople in opposition parties.

Y mater mwyaf sensitif yn y ddogfen ymgynghori oedd yr uno posibl rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Ar ôl ystyried y materion a godwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ymgynghorais ar yr ystod lawn o opsiynau uno. Rwyf wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus, ynghyd â'r dadansoddiad o'r opsiynau a ddarparwyd gan swyddogion sy'n cydweithio'n agos â'r comisiwn. Rwyf yn cyhoeddi'r dadansoddiad hwnnw heddiw. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y trafodaethau yr wyf wedi'u cael â llefarwyr y gwrthbleidiau.

A significant number of respondents to the consultation did not express a preference between the merger options. Of those that did, merger within Government was the preferred option of a number of key delivery partners, including all four Welsh archaeological trusts, the National Trust and the Historic Houses Association. They emphasised the importance of maximising the influence of the historic environment within Government, working across departments, for the benefit of the sector as a whole. However, the majority preferred merger outside Government, as a Welsh Government-sponsored body. These respondents stressed the need for an arm's-length relationship with Government. The analysis that I am publishing today shows the progress that has been made by officials of the Welsh Government and the royal commission in developing safeguards for how a merged historic environment service could work within Government, addressing the range of potential concerns. I think that these safeguards are very substantial, but to try to press ahead with the option of merger within Government at this time would be difficult.

Ni ddywedodd nifer sylweddol o ymatebwyr i'r ymgynghoriad beth oedd y dewis yr oeddent yn ei ffafrio o blith yr opsiynau uno. O'r rhai a wnaeth, uno o fewn y Llywodraeth oedd y dewis a ffefrid gan nifer o bartneriaid cyflenwi allweddol, gan gynnwys pob un o bedair ymddiriedolaeth archeolegol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Gymdeithas Tai Hanesyddol. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd gwneud y gorau o ddylanwad yr amgylchedd hanesyddol o fewn y Llywodraeth, gan weithio ar draws adrannau, er budd y sector yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, byddai'n well gan y rhan fwyaf uno y tu allan i'r Llywodraeth, fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn fod angen perthynas hyd braich â'r Llywodraeth. Mae'r dadansoddiad yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw'n dangos y cynnydd y mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r comisiwn brenhinol wedi ei wneud wrth ddatblygu mesurau diogelu ar gyfer y modd y gallai gwasanaeth amgylchedd hanesyddol unedig weithio o fewn y Llywodraeth, gan ymdrin â'r amrywiaeth o bryderon posibl. Rwyf o'r farn fod y dulliau diogelu hyn yn sylweddol iawn, ond byddai'n anodd ceisio bwrw ymlaen â'r opsiwn o uno o fewn y Llywodraeth ar hyn o bryd.

Merger within Government would entail substantially lower annual corporate overhead costs, when compared with establishing a Welsh Government sponsored body. The latter option would provide greater opportunities to access non-governmental sources of income, but how much income would be likely to be generated is, inevitably, uncertain. Higher annual overhead costs, in an era when budgetary pressures are likely to mean that public funding will be squeezed over the coming decade, would be potentially problematic. In England, English Heritage is proposing to take account of charity law in England and Wales to split itself, to create a separate charity for some of its functions, in order to enhance its ability to generate income beyond Government provision. So, although merger as a Welsh Government sponsored body might seem to offer a way of obtaining the benefits of merger in a way that would generate a strong sense of ownership within the sector, in practice, it might turn out to be much more complicated than that.

Byddai uno o fewn y Llywodraeth yn golygu y byddai costau gorbenion corfforaethol blynyddol yn is o lawer o gymharu â sefydlu corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r dewis olaf hwn yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael gafael ar ffynonellau incwm anllywodraethol, ond, yn anochel, nid oes sicrwydd faint o incwm a fyddai'n debygol o gael ei gynhyrchu. Mae'n bosibl y byddai costau gorbenion blynyddol uwch, mewn cyfnod pan fo pwysau ar y gyllideb yn debygol o olygu y bydd gwasgu ar arian cyhoeddus dros y degawd nesaf, yn peri problem. Yn Lloegr, bwriad English Heritage yw defnyddio'r gyfraith elusennau yng Nghymru a Lloegr i ymrannu, a chreu elusen ar wahân ar gyfer rhai o'i swyddogaethau, er mwyn hybu ei allu i gynhyrchu incwm y tu hwnt i ddarpariaeth y Llywodraeth. Felly, er y gallai ymddangos bod uno fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn ffordd o sicrhau manteision uno mewn ffordd a fyddai'n creu ymdeimlad cryf o berchnogaeth o fewn y sector, gallai fod yn fater llawer mwy cymhleth na hynny o safbwynt ymarferol.

The Scottish Government is merging its equivalent bodies—Historic Scotland and the Scottish royal commission—as a body outside Government. However, it starts from a different position in terms of its structure, resources, corporate overhead costs and charity law. We need to evolve solutions that are suitable for Wales's needs and circumstances.

Mae Llywodraeth yr Alban yn uno ei chyrff cyfatebol—Historic Scotland a chomisiwn brenhinol yr Alban—fel corff y tu allan i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae ei fan cychwyn yn wahanol o ran strwythur, adnoddau, costau gorbenion corfforaethol a chyfraith elusennau. Mae angen inni ddatblygu atebion sy'n addas i anghenion ac amgylchiadau Cymru.

In the light of all this, I am announcing today that Cadw and the Royal Commission on the Ancient and Historic Monuments of Wales will remain separate organisations for the time being. We will take forward the strategic planning process in collaboration with the sector as a whole, taking account of the helpful responses received from the consultation. This will provide us with a very effective strategic framework within which Cadw can use its sponsorship relationship with the royal commission to ensure that both organisations focus effectively on coherent and mutually reinforcing priorities, delivering strategic outcomes for the people of Wales. We will encourage the royal commission to develop non-governmental sources of income, many of which do not depend on charitable status being achieved, and we will work with it to explore the scope, advantages and disadvantages for its gaining recognition as a charity. The extent to which it is successful in generating additional income could potentially help provide a basis to reconsider the options in the future. In addition, we will work to safeguard the future of the archaeological trusts, which are such an important part of the sector in Wales.

Yng ngoleuni hyn oll, rwyf yn cyhoeddi heddiw y bydd Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru'n parhau i fod yn sefydliadau ar wahân am y tro. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r broses cynllunio strategol ar y cyd â'r sector yn ei gyfanrwydd, gan ystyried yr ymatebion defnyddiol a gafwyd drwy'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn rhoi inni fframwaith strategol effeithiol iawn lle gall Cadw ddefnyddio ei berthynas noddi â'r comisiwn brenhinol i sicrhau bod y ddau sefydliad yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau cydlynol sy'n atgyfnerthu'r naill a'r llall, gan sicrhau canlyniadau strategol i bobl Cymru. Byddwn yn annog y comisiwn brenhinol i ddatblygu ffynonellau incwm anllywodraethol, a llawer ohonynt nad ydynt yn dibynnu ar gael statws elusennol, a byddwn yn cydweithio â'r comisiwn i edrych ar y posibiliadau iddo gael ei gydnabod fel elusen, ac ar fanteision ac anfanteision hynny. Gallai i ba raddau y mae'n llwyddo i gynhyrchu incwm ychwanegol o bosibl helpu i roi sail i ailystyried y dewisiadau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn gweithio i ddiogelu dyfodol yr ymddiriedolaethau archeolegol, sy'n rhan mor bwysig o'r sector yng Nghymru.

What unites all parties in the Assembly is their commitment to the historic environment, and our desire to find the best way forward that will be in the interests of the sector, and Wales as a whole. It is important that we proceed with care. The approach that I am announcing should allow us to improve synergy and collaboration within the sector, and to test out the scope for increasing non-governmental sources of income. We will monitor closely the consequences of the proposed merger in Scotland, and the proposed split in English Heritage. In due course, this should enable the Welsh Government, and the Assembly, to be better placed to decide the best structure for our specific needs, as well as the longer term future for our historic environment sector, taking account of the wider public service reform agenda in Wales and beyond.

Yr hyn sy'n uno pob plaid yn y Cynulliad yw eu hymrwymiad i'r amgylchedd hanesyddol, a'n hawydd i ddod o hyd i'r ffordd orau ymlaen a fydd er lles y sector, a Chymru'n gyffredinol. Mae'n bwysig ein bod yn symud ymlaen yn ofalus. Dylai'r ymagwedd yr wyf yn ei chyhoeddi ein galluogi i wella synergedd a chydweithio o fewn y sector, ac i roi prawf ar gyfleoedd i gynyddu ffynonellau incwm anllywodraethol. Byddwn yn monitro canlyniadau'r uno arfaethedig yn yr Alban yn ofalus, ynghyd â'r cynnig i rannu English Heritage. Maes o law, dylai hyn olygu y bydd Llywodraeth Cymru, a'r Cynulliad, mewn gwell sefyllfa i benderfynu ar y strwythur gorau ar gyfer ein hanghenion penodol, yn ogystal â dyfodol mwy hirdymor ein sector amgylchedd hanesyddol, gan ystyried agenda ehangach diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

15:34

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I begin by thanking you, Minister, for that statement, as well as for your acknowledgement of the cross-party commitment to the historic environment. I would particularly like to thank you for sharing information, and for speaking to opposition spokesmen—that is very good practice as far as I am concerned. I also particularly thank you for the summary of the consultation responses, full versions of which, I hope, will be available for us to look at shortly. I also thank you, Minister, for your analysis of the options, which we only received today, of course.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch ichi, Weinidog, am y datganiad hwn, ac am eich cydnabyddiaeth i'r ymrwymiad trawsbleidiol i'r amgylchedd hanesyddol. Hoffwn ddiolch yn arbennig ichi am rannu gwybodaeth, ac am siarad â llefarwyr y gwrthbleidiau—mae hynny'n arfer da iawn yn fy marn i. Rwyf hefyd yn arbennig o ddiolchgar ichi am y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad; gobeithiaf y bydd fersiynau llawn o'r rhain ar gael inni i edrych arnynt cyn hir. Diolch ichi hefyd, Weinidog, am eich dadansoddiad o'r opsiynau; dim ond heddiw y cawsom hwnnw, wrth gwrs.

Could you let me know whether you have any plans to show us how the figures in that analysis were arrived at? That may be something that you could publish some time fairly soon. I also thank you for not plunging us into a pitched battle in this first week back in the Assembly. I am extremely grateful for that. Even though the financial implications of the status quo were not particularly consulted on, your statement today is a relief to those in the royal commission, particularly the staff, who have lived in a state of stress for some months now. However, I have to say that it is not entirely clear how long the grass is into which you have kicked this particular issue. Perhaps you could tell us what you mean when you talk about 'for the time being' and 'in due course'. Essentially, I would like to know whether this matter will be back before us before the end of this Assembly, in terms of our consideration of the heritage Bill, or is this issue off the agenda now for the remainder of this Assembly term?

A allwch ddweud wrthyf a ydych yn bwriadu dangos inni sut y cafwyd y ffigurau yn y dadansoddiad hwnnw? Efallai y gallech gyhoeddi hynny'n eithaf buan. Rwyf hefyd am ddiolch ichi am beidio â'n plymio i frwydr lawn yn yr wythnos gyntaf hon yn ôl yn y Cynulliad. Rwyf yn hynod ddiolchgar am hynny. Er na chafwyd ymgynghoriad manwl ar oblygiadau ariannol y sefyllfa fel ag y mae, mae eich datganiad heddiw'n rhyddhad i'r rhai yn y comisiwn brenhinol, yn enwedig y staff, sy'n byw dan straen ers rhai misoedd bellach. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud nad yw'n gwbl glir pa mor hir yw'r glaswellt yr ydych wedi cicio'r mater penodol hwn iddo. Efallai y gallech ddweud wrthym beth yr ydych yn ei olygu wrth ddweud 'am y tro' a 'maes o law'. Yn y bôn, hoffwn wybod a fydd y mater hwn yn ôl ger ein bron cyn diwedd y Cynulliad hwn, o safbwynt ein hystyriaeth i'r Bil treftadaeth, ynteu a yw'r mater hwn oddi ar yr agenda yn awr am weddill tymor y Cynulliad hwn?

Could you also give some indication of how you intend to use this time, however long it is? I can see that you wish to see how the different models in England and Scotland might work, but, of course, these are still at the very early stages themselves. So, we are looking at some time before we can reach any conclusion on how they are working. I also see that you expect the royal commission to take this chance to wake up, shall we say, to be more commercially proactive; that is certainly something that I do not take issue with. However, I am rather keen to find out what you will be doing during this time and I am a little concerned that you draw attention to 'strong support' for an independent advisory panel when the summary of consultation responses spoke of reserved support for such a panel—reserved because it would only be required if merger inside Government went ahead. You confirmed today in your statement that you are taking the proposal for the panel forward. Are you using this time really in order to get your ducks in a row to help beef up the argument for merger inside Government? I am effectively asking you for whose benefit is this delay.

A wnewch chi hefyd roi rhyw syniad o sut yr ydych yn bwriadu defnyddio'r amser hwn, pa mor hir bynnag y bydd? Gallaf weld eich bod am weld sut y gallai'r gwahanol fodelau yn Lloegr a'r Alban weithio, ond, wrth gwrs, megis dechrau y mae'r rheini o hyd. Felly, bydd yn rhaid aros tipyn cyn y gallwn ffurfio unrhyw gasgliad ynglŷn â sut y maent yn gweithio. Gwelaf hefyd eich bod yn disgwyl i'r comisiwn brenhinol gymryd y cyfle hwn i ddeffro, os caf ddweud, i fod yn fwy rhagweithiol yn fasnachol; yn sicr, nid wyf yn gwrthwynebu hynny. Fodd bynnag, rwyf yn eithaf awyddus i gael gwybod beth y byddwch yn ei wneud yn ystod y cyfnod hwn ac rwyf ychydig yn bryderus eich bod yn dweud bod yr ymatebion 'yn gryf o blaid' panel cynghori annibynnol pan fo'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn sôn am gefnogaeth bwyllog i banel o'r fath—pwyllog oherwydd na fyddai ei angen oni bai bod uno y tu mewn i'r Llywodraeth yn digwydd. Rydych wedi cadarnhau heddiw yn eich datganiad eich bod yn bwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer y panel. A ydych mewn gwirionedd yn defnyddio'r amser hwn i osod eich hwyaid mewn rhes i'ch helpu i gryfhau'r ddadl dros uno y tu mewn i'r Llywodraeth? Yn y bôn, rwyf yn gofyn ichi pwy sy'n elwa o'r oedi hwn.

15:37 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Suzy Davies for her general welcome for this statement and the decision that I have announced today. I have been very pleased to publish the analysis and the responses to the consultation document and I hope very much that that properly informs Members in terms of all the necessary background and rationale for decision making. In terms of timescale, it is always difficult to envisage what developments will take place in any sector, and that very much includes the historic environment sector and the services within it. I am reluctant to give any cast-iron commitments here today, but what I can say is that it would take some time to evaluate developments in Scotland and England, wider public sector reform and, indeed, the ability of the royal commission as it currently stands to lever in additional funding and, of course, potential developments around charitable status. There is a lot that needs to take place before the Welsh Government and, indeed, the Assembly as a whole can revisit these matters in a meaningful way. So, I would not anticipate revisiting this decision within the lifetime of this Assembly, but, as I say, I am reluctant to give any cast-iron commitments, because unexpected developments are always a possibility.

Diolch i Suzy Davies am ei chroeso cyffredinol i'r datganiad hwn ac i'r penderfyniad yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw. Mae'n dda iawn gennyf fy mod wedi cyhoeddi'r dadansoddiad a'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori ac rwyf yn gobeithio'n fawr fod hynny'n rhoi gwybodaeth briodol i'r Aelodau am gefndir y penderfyniadau a wnaethpwyd a'r sail resymegol drostynt. O ran yr amserlen, mae bob amser yn anodd rhagweld pa ddatblygiadau a fydd yn digwydd yn unrhyw sector, ac mae hynny'n sicr yn cynnwys y sector amgylchedd hanesyddol a'r gwasanaethau sy'n rhan ohono. Rwyf yn gyndyn o roi unrhyw ymrwymiadau cadarn yma heddiw, ond yr hyn y gallaf ei ddweud yw y byddai'n cymryd cryn dipyn o amser i bwyso a mesur datblygiadau yn yr Alban a Lloegr, diwygio ehangach yn y sector cyhoeddus ac, yn wir, gallu'r comisiwn brenhinol fel ag y mae ar hyn o bryd i ddenu cyllid ychwanegol ac, wrth gwrs, datblygiadau posibl o ran statws elusennol. Mae angen i lawer o bethau ddigwydd cyn y gall Llywodraeth Cymru ac, yn wir, y Cynulliad yn gyffredinol ailedrych ar y materion hyn mewn ffordd ystyrlon. Felly, ni fyddwn yn disgwyl ailystyried y penderfyniad hwn yn ystod oes y Cynulliad hwn, ond, fel y dywedais, rwyf yn gyndyn o roi unrhyw ymrwymiadau cadarn, oherwydd gallai datblygiadau annisgwyl ddigwydd unrhyw bryd.

Levering in funding is a very important part of the overall equation, because public finances are very strained. Any structure that allows greater potential for additional non-governmental funding to be brought to the table is obviously very valuable to the historic environment and its services. So, we will look very carefully now at the experience of the royal commission as it moves forward. I think that it is absolutely right that we do that, as well as look at the experience elsewhere, as I touched upon earlier.

Mae denu arian yn rhan bwysig iawn o'r hafaliad cyfan, oherwydd mae arian cyhoeddus o dan straen mawr. Mae unrhyw strwythur sy'n golygu bod mwy o botensial i roi mwy o gyllid anllywodraethol ar y bwrdd yn amlwg yn werthfawr iawn i'r amgylchedd hanesyddol a'i wasanaethau. Felly, byddwn yn edrych yn ofalus iawn yn awr ar brofiad y comisiwn brenhinol wrth iddo symud ymlaen. Rwyf yn meddwl ei bod yn gwbl briodol ein bod yn gwneud hynny, ac yn edrych ar y profiad mewn mannau eraill, fel y nodais yn gynharach.

I do consider it very important that we have the panel in place, because it is a matter of contribution from the wider sector in Wales to make sure that our strategy is informed in that way. It is a great opportunity for the wider sector, but it is also an important aspect of scrutiny. It is very positive in terms of engagement, regardless of merger inside Government, merger outside Government or continuation with the status quo.

Rwyf yn credu ei bod yn bwysig iawn sefydlu'r panel, oherwydd mae angen cyfraniad y sector ehangach yng Nghymru er mwyn llywio ein strategaeth yn hynny o beth. Mae'n gyfle gwych i'r sector ehangach, ond mae hefyd yn agwedd bwysig ar waith craffu. Mae'n gadarnhaol iawn o ran ymgysylltu, beth bynnag a fydd yn digwydd o ran uno'r tu mewn i'r Llywodraeth, uno'r tu allan i'r Llywodraeth neu barhau â'r sefyllfa fel ag y mae.

15:39 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, I very much welcome the statement. I fully support the proposals to focus effectively on strategic priorities and to establish an independent advisory panel. I am pleased that the start-up costs following a merger have been avoided.

Yn gyntaf oll, rwyf yn croesawu'r datganiad yn fawr iawn. Rwyf yn llwyr gefnogi'r cynigion i ganolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau strategol ac i sefydlu panel cynghori annibynnol. Rwyf yn falch ein bod wedi osgoi'r costau cychwynnol yn sgil uno.

I have a concern, of which the Minister is well aware—I have raised it on a number of occasions. It is about the grade I listed chapels built at the end of the nineteenth century and at the beginning of the twentieth century, which have declining congregations and are likely, in the near future, to have people just locking the doors and walking away. Will that be one of the strategic priorities?

Mae gennyf bryder, ac mae'r Gweinidog yn ymwybodol iawn ohono—rwyf wedi ei godi ar sawl achlysur. Mae'n ymwneud â'r capeli rhestredig gradd I a adeiladwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif; mae eu cynulleidfaoedd yn dirywio ac mae'n debygol, yn y dyfodol agos, y bydd pobl yn cloi eu drysau ac yn cerdded i ffwrdd. A fydd hynny'n un o'r blaenoriaethau strategol?

15:40 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mike Hedges for his general welcome. I believe that the plans and the panel will be important in terms of taking strategy forward and shaping future provision. Cost is an important aspect of the decision, of course, as is risk in terms of uncertainty of moving from the model that we currently have. All of that was set out in the paperwork that I have made available and duly considered. I do not think that it is a matter for me at this stage to pronounce on chapels and their place in the future plans and strategy. However, I know full well that these are issues that matter very much to Members, to me as Minister and to the sector as a whole. I am sure that considerable thought will be given to the place of chapels and the issues that the Member rightly mentioned.

Diolch i Mike Hedges am ei groeso cyffredinol. Credaf y bydd y cynlluniau a'r panel yn bwysig o ran bwrw ymlaen â'r strategaeth a llunio darpariaeth y dyfodol. Mae'r gost yn agwedd bwysig ar y penderfyniad, wrth gwrs, ynghyd â'r risg o ran ansicrwydd ynghylch symud oddi wrth y model sydd gennym ar hyn o bryd. Roedd hynny i gyd wedi'i amlinellu yn y gwaith papur yr wyf wedi'i ddarparu ac wedi'i ystyried yn briodol. Nid wyf yn credu mai fy lle i ar hyn o bryd yw sôn am gapeli a'u lle yng nghynlluniau a strategaeth y dyfodol. Fodd bynnag, gwn yn iawn fod y rhain yn faterion sy'n bwysig iawn i'r Aelodau, i mi fel Gweinidog ac i'r sector cyfan. Rwyf yn siŵr y rhoddir cryn ystyriaeth i le capeli a'r materion y soniodd yr Aelod yn briodol iawn amdanynt.

15:41 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I thank you for the consensual approach that you have taken with this process. It is refreshing. I also thank you for meeting me, my colleague Elin Jones and others. It is good that you have taken on the arguments that have been brought forward. The decision that you have made is better for having listened. It is also important that I and others have met with trade unions, such as the Public and Commercial Services Union and Prospect, which have brought forward the staffing issues that would, potentially, emanate from any changes, notwithstanding the deep concern that exists, and still exists for the future, around what would happen if there were changes with regard to retaining expertise in this particular area. We should all acknowledge the expertise that those staff members at the royal commission in Aberystwyth have.

Weinidog, diolch ichi am eich ymagwedd gydsyniol at y broses hon. Mae'n chwa o awyr iach. Diolch ichi hefyd am gwrdd â mi, fy nghyd-Aelod Elin Jones ac eraill. Mae'n dda o beth eich bod wedi ystyried y dadleuon a gyflwynwyd. Mae'r penderfyniad yr ydych wedi'i wneud yn un gwell am eich bod wedi gwrando. Mae hefyd yn bwysig fy mod i ac eraill wedi cwrdd ag undebau llafur, megis Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a Prospect, sydd wedi codi'r materion staffio a fyddai, o bosibl, yn deillio o unrhyw newidiadau, er gwaethaf y pryder dwfn sy'n bodoli, ac sy'n dal i fodoli am y dyfodol, ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai newidiadau o ran cadw arbenigedd yn y maes penodol hwn. Dylai pob un ohonom gydnabod arbenigedd yr aelodau hynny o staff y comisiwn brenhinol yn Aberystwyth.

I wanted to follow on with a question regarding the panel that you mentioned. I guess that I am a little bit less cynical—shock, horror—than Suzy Davies on this. I think that it is important that we have joined-up thinking between the Government and, of course, the royal commission, which will remain outside of Government. Therefore, we need to try to understand how people will be appointed to that panel and how they will have views from different parts of the heritage sector, so that we have a diverse range of people around the table as opposed to it being weighted in one particular area; while some areas, of course, would like that, it is not best practice. We need to understand whether that panel will be answerable to the National Assembly as opposed to being appointed by you as Minister, so that the Assembly can be accountable for any such development in the future.

Roeddwn am fynd ymlaen i ofyn cwestiwn am y panel y soniasoch amdano. Tybiaf fy mod ychydig yn llai sinigaidd—dyna syndod—na Suzy Davies ar hyn. Credaf ei bod yn bwysig sicrhau meddwl cydgysylltiedig rhwng y Llywodraeth ac, wrth gwrs, y comisiwn brenhinol, a fydd yn aros y tu allan i'r Llywodraeth. Felly, mae angen inni geisio deall sut y caiff pobl eu penodi i'r panel hwnnw a sut y bydd ganddynt safbwyntiau o wahanol rannau o'r sector treftadaeth, fel bod gennym amrywiaeth eang o bobl o gwmpas y bwrdd yn hytrach na'i fod wedi'i bwysoli tuag at un maes penodol; er y byddai rhai meysydd, wrth gwrs, yn hoffi hynny, nid yw'n arfer gorau. Mae angen inni ddeall a fydd y panel hwnnw'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach nag yn cael ei benodi gennych chi fel y Gweinidog, fel y gall y Cynulliad fod yn atebol am unrhyw ddatblygiad o'r fath yn y dyfodol.

Following on from what has been said before, there is vague language here—'for the time being' and so forth. I wonder whether you had considered, if it is going to happen after the election, putting something in your manifesto that would tell us what you would do if you formed a Government. Certainly, that is what Plaid Cymru would look to do, because we cannot be in this position again, whereby we are going out to consultation constantly and making staff and people concerned about what is going to happen. We need security and sustainability in this sector, because what I have realised from meeting with staff is that there are people who are retiring, coming to the end of their tenures in the royal commission and other areas of the heritage sector, and they desperately need young people to come through. Perhaps we could think of heritage or cultural apprenticeships, so that young people can develop the knowledge that is currently being lost as a result of many people leaving the sector through retirement.

A dilyn yr hyn a ddywedwyd eisoes, mae iaith amwys yma—'am y tro' ac yn y blaen. Tybed a ydych wedi ystyried, os bydd yn digwydd ar ôl yr etholiad, rhoi rhywbeth yn eich maniffesto a fyddai'n dweud wrthym beth y byddech chi'n ei wneud pe baech yn ffurfio Llywodraeth. Yn sicr, dyna fyddai bwriad Plaid Cymru, oherwydd ni allwn fod yn y sefyllfa hon eto, lle'r ydym yn mynd allan i ymgynghori drwy'r amser ac yn peri i staff a phobl bryderu ynghylch yr hyn sy'n mynd i ddigwydd. Mae arnom angen sicrwydd a chynaliadwyedd yn y sector hwn, oherwydd yr hyn yr wyf wedi'i sylweddoli wrth gyfarfod â staff yw bod pobl yn ymddeol, yn dod i ddiwedd eu cyfnod yn eu swyddi yn y comisiwn brenhinol ac mewn rhannau eraill o'r sector treftadaeth, ac mae angen dybryd am bobl ifanc i gymryd eu lle. Efallai y gallem feddwl am brentisiaethau treftadaeth neu ddiwylliannol, fel y gall pobl ifanc ddatblygu'r wybodaeth sy'n cael ei cholli ar hyn o bryd wrth i nifer o bobl ymddeol a gadael y sector.

Again, I thank you for this statement today and I think that those in the sector will be pleased with what they hear.

Unwaith eto, diolch ichi am y datganiad hwn heddiw; credaf y bydd pobl yn y sector yn falch ynghylch yr hyn y maent yn ei glywed.

15:44

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Bethan Jenkins for her general welcome for the process and the decision. It is very important—of course it is—that we properly value staff and their trade union representatives. They have been an essential part of this process. We need to value the knowledge and experience that they have and make sure that it is passed on to staff recruited in the future. That will be an important part of the strategy and the process that we continue with. It is important that the panel and the plans do have this necessary joining up and scrutiny element that the Member mentions. Obviously, the royal commission is very important in terms of research and working up the information that can then inform conservation policy and interpretation, so we do have to join up the royal commission with Cadw, the archaeological trusts and others in an increasingly effective way. That, obviously, has been the background to this process.

Diolch i Bethan Jenkins am ei chroeso cyffredinol i'r broses a'r penderfyniad. Mae'n bwysig iawn—wrth gwrs ei bod—ein bod yn rhoi gwerth priodol ar staff a chynrychiolwyr yr undebau llafur. Maent wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses hon. Mae angen inni werthfawrogi'r wybodaeth a'r profiad sydd ganddynt a gwneud yn siŵr y cânt eu trosglwyddo i staff sy'n cael eu recriwtio yn y dyfodol. Bydd hynny'n rhan bwysig o'r strategaeth a'r broses y byddwn yn bwrw ymlaen â hi. Mae'n bwysig bod yr elfennau cydgysylltu a chraffu angenrheidiol hyn y mae'r Aelod yn sôn amdanynt yn rhan o'r panel a'r cynlluniau. Wrth gwrs, mae'r comisiwn brenhinol yn bwysig iawn o ran ymchwil a llunio'r wybodaeth a all wedyn lywio polisïau cadwraeth a gwaith dehongli, felly rhaid inni gysylltu'r comisiwn brenhinol â Cadw, yr ymddiriedolaethau archeolegol ac eraill mewn ffordd fwyfwy effeithiol. Dyna, yn amlwg, oedd cefndir y broses hon.

The work that has been carried out, the analysis, and the time taken by Cadw staff, royal commission staff and others, have been very valuable, and will be there as a basis for any future decision making, I think. So, it is work that will not only be valuable in the future in that way, but also will help to take forward the strategy in terms of the work of the panel and the plans. It is very important and will be very useful.

Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud, y dadansoddi, a'r amser a gymerodd staff Cadw, staff y comisiwn brenhinol ac eraill, wedi bod yn werthfawr iawn, a chredaf y byddant yn sail i unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol. Felly, mae'n waith a fydd nid yn unig yn werthfawr yn y dyfodol yn hynny o beth, ond hefyd o gymorth i fwrw ymlaen â'r strategaeth o ran gwaith y panel a'r cynlluniau. Mae'n bwysig iawn a bydd yn ddefnyddiol iawn.

In terms of the manifestos of parties, obviously each party manifesto is a matter for the party concerned, but I take on board the points that the Member makes, and I am sure that all of us, as parties, will be looking to the historic environment and its importance in terms of formulating those manifestos.

O ran maniffestos y pleidiau, wrth gwrs, mater i'r blaid dan sylw yw maniffesto pob plaid, ond rwyf yn derbyn y pwyntiau y mae'r Aelod yn eu gwneud, ac rwyf yn siŵr y bydd pob un ohonom, fel pleidiau, yn edrych ar yr amgylchedd hanesyddol a'i bwysigrwydd o ran llunio'r maniffestos hynny.

15:46 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

May I start by welcoming this statement by the Minister? I think that, in my view, you have reached the right conclusion, and, I think, a conclusion that will be welcomed across the sector. My concern of course is that, having gone through a period of uncertainty and discussion over maybe a year or so, the way that the statement is framed, that this may be revisited in the near future, does not provide the security and certainty that the sector needs now to settle into starting to deliver the agenda that you have set out, and the strategic approach that I think we are all looking for from the sector in terms of this. May I ask, Minister, in terms of where we are now and where we are going, how content are you that the arrangement that we are now settling upon will survive for the medium term? To what extent will you be supporting the royal commission, particularly in terms of the ambitions you have for it, and we all have for it, in terms of bringing in additional resources, money and support from outside the public sector, and in terms of investigating and exploring the possibilities of charitable status to be able to exploit any opportunities that may come as a result of that? To what extent are you going to be offering support from the Welsh Government—practical support; I am not talking about money, but resources and advice—to enable it to start to effectively re-launch the service from this point, to ensure that it does grow and move forwards from where we are at this present time? I understand that we are looking already at the relocation of the service to the National Library of Wales, and other opportunities may arise as a result of that.

A gaf i ddechrau drwy groesawu'r datganiad hwn gan y Gweinidog? Yn fy marn i, rydych wedi ffurfio'r casgliad cywir, a chredaf ei fod yn gasgliad a gaiff ei groesawu ar draws y sector. Fy mhryder yw wrth gwrs, ar ôl mynd drwy gyfnod o ansicrwydd a thrafodaethau dros efallai flwyddyn neu ddwy, nad yw'r ffordd y mae'r datganiad wedi'i fframio, o ran y posibilrwydd y gellid ei ailystyried yn y dyfodol agos, yn darparu'r diogelwch a'r sicrwydd sydd eu hangen yn awr ar y sector er mwyn mynd ati i ddechrau cyflawni'r agenda yr ydych wedi'i nodi, a'r ymagwedd strategol yr wyf yn meddwl ein bod i gyd yn ei disgwyl gan y sector yn hyn o beth. A gaf i ofyn, Weinidog, o ran ble'r ydym yn awr ac i ble'r ydym yn mynd, pa mor fodlon yr ydych y bydd y trefniant yr ydym yn setlo arno'n awr yn goroesi yn y tymor canolig? I ba raddau y byddwch yn cefnogi'r comisiwn brenhinol, yn enwedig o ran eich uchelgeisiau ar ei gyfer, a'n huchelgeisiau ni i gyd ar ei gyfer, o ran denu adnoddau, arian a chefnogaeth ychwanegol o'r tu allan i'r sector cyhoeddus, ac o ran archwilio ac ymchwilio i bosibiliadau statws elusennol er mwyn gallu manteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai ddod o ganlyniad i hynny? I ba raddau yr ydych yn mynd i fod yn cynnig cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru—cefnogaeth ymarferol; nid wyf yn sôn am arian, ond adnoddau a chyngor—i'w galluogi i ddechrau ail-lansio'r gwasanaeth yn effeithiol o hyn ymlaen, er mwyn sicrhau ei fod yn tyfu ac yn symud ymlaen o'r fan lle'r ydym ar hyn o bryd? Rwyf yn deall ein bod eisoes yn edrych ar adleoli'r gwasanaeth i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ac efallai y bydd cyfleoedd eraill yn codi o ganlyniad i hynny.

15:48 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Peter Black for his comments. In terms of revisiting these matters, obviously this Welsh Government cannot bind its successors, so what I can say applies for the remainder of the term of this Welsh Government. As I said earlier, I do not intend to revisit this decision over that time span, but it is always possible that unexpected developments may take place that would mean that such a revisiting would have to occur. If that is not the case, the decision that I have announced today takes us through the remainder of this Assembly term, and I hope that does give some stability and necessary confidence.

Diolch i Peter Black am ei sylwadau. O ran ailedrych ar y materion hyn, wrth gwrs ni all y Llywodraeth hon rwymo ei holynwyr, felly mae'r hyn y gallaf ei ddweud yn berthnasol i weddill tymor y Llywodraeth hon yng Nghymru. Fel y dywedais yn gynharach, nid wyf yn bwriadu ailedrych ar y penderfyniad hwn yn ystod y cyfnod hwnnw, ond mae bob amser yn bosibl y gallai datblygiadau annisgwyl ddigwydd a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid ailedrych arno. Os na fydd hynny'n digwydd, bydd y penderfyniad yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw'n mynd â ni drwy weddill tymor y Cynulliad hwn, ac rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n rhoi rhywfaint o'r sefydlogrwydd a'r hyder sydd eu hangen.

We will, of course, be very keen to ensure that the whole of the sector now works together, and that issues around the royal commission levering in additional funding are aided by our Welsh Government officials working with the royal commission. That will include consideration of what charitable status would bring to the table in that respect, but of course there are issues there around joining up in strategic terms, and whether that allows the necessary independence that would make charitable status a possibility. Of course, those are the sorts of issues that are being wrestled with in England in terms of the possible splitting of English Heritage. So, there are quite a number of issues to be considered there, I think.

Byddwn, wrth gwrs, yn awyddus iawn i sicrhau bod y sector cyfan yn awr yn cydweithio â'i gilydd, a bod materion o ran sicrhau bod y comisiwn brenhinol yn denu cyllid ychwanegol yn cael cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r comisiwn brenhinol. Bydd hynny'n cynnwys ystyried yr hyn y byddai statws elusennol yn ei ychwanegu yn hynny o beth, ond wrth gwrs mae materion ynghylch cydgysylltu o safbwynt strategol, ac a yw hynny'n caniatáu'r annibyniaeth angenrheidiol a fyddai'n gwneud statws elusennol yn bosibl. Wrth gwrs, dyna'r mathau o faterion y maent yn ymaflyd â hwy yn Lloegr o ran y posibilrwydd o hollti English Heritage. Felly, credaf fod cryn dipyn o faterion i'w hystyried yno.

I am very happy to say that I do think that we have momentum and impetus from today. We can now take these strategic plans forward, joining the whole of the sector up behind that effort. There will be progress, as Peter Black mentions, in terms of the relocation to the library of the national monuments record, and indeed staff of the royal commission. That is very important in terms of making sure that services can be effectively delivered over the years to come.

Mae'n dda iawn gennyf ddweud fy mod yn credu bod heddiw wedi rhoi momentwm inni ac wedi'n symbylu. Gallwn symud ymlaen yn awr â'r cynlluniau strategol hyn, ac uno'r sector cyfan yn yr ymdrech honno. Bydd cynnydd, fel y dywed Peter Black, o ran adleoli'r cofnod henebion cenedlaethol i'r llyfrgell, ynghyd â staff y comisiwn brenhinol. Mae hynny'n bwysig iawn o ran gwneud yn siŵr y gallwn ddarparu gwasanaethau'n effeithiol dros y blynyddoedd i ddod.

15:50

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, like everyone else, I welcome this statement today. Indeed, I welcome the number of responses that you have had to the consultation. It is very good indeed that so many people have bothered to respond and it indicates how important the historic environment is to people. In fact, that was the subject of a short debate that I did about six months ago in the Chamber. Then, I had concerns about access to much of our historic environment and community engagement in the protection and use of local historical assets. In my constituency, there are examples of this with the community and town council in Mold coming together to revive the ancient Bailey Hill, with plans for signage and a heritage trail, and, in Flint, local people have campaigned to be allowed to fly flags at appropriate times and occasions from Flint Castle—a historic, but sometimes overlooked site in the wider context of Welsh history. That really does hit all the buttons, does it not, for increasing knowledge, conservation and public participation? I am pleased to see that the consultation concluded that members of the public should have a voice in decisions about the future of their own historic assets, because that gives them ownership and takes it on into the future. Minister, will you look very closely at the question of community engagement in helping to make our historic environment more accessible in the future?

Weinidog, rwyf fi, fel pawb arall, yn croesawu'r datganiad hwn heddiw. Yn wir, rwyf yn croesawu'r nifer o ymatebion yr ydych wedi'u cael i'r ymgynghoriad. Mae'n dda iawn, iawn fod cynifer o bobl wedi trafferthu i ymateb ac mae'n dangos pa mor bwysig yw'r amgylchedd hanesyddol i bobl. Yn wir, dyna oedd testun dadl fer a gyflwynais tua chwe mis yn ôl yn y Siambr. Bryd hynny, roedd gennyf bryderon am fynediad i lawer o'n hamgylchedd hanesyddol ac am ymgysylltu â'r gymuned o ran diogelu a defnyddio asedau hanesyddol lleol. Mae enghreifftiau o hyn wedi bod yn fy etholaeth i; daeth cyngor cymuned a thref yr Wyddgrug at ei gilydd i adfer yr hen Bailey Hill, gyda chynlluniau ar gyfer arwyddion a llwybr treftadaeth, ac, yn y Fflint, mae pobl leol wedi ymgyrchu i gael yr hawl i gyhwfan baneri ar adegau ac achlysuron priodol o Gastell y Fflint—safle hanesyddol, ond un sydd weithiau'n cael ei anwybyddu yng nghyd-destun ehangach hanes Cymru. Onid yw hynny, yn wir, yn taro'r botymau i gyd o ran cynyddu gwybodaeth, cadwraeth a chyfranogiad cyhoeddus? Rwyf yn falch o weld bod yr ymgynghoriad wedi dod i'r casgliad y dylai aelodau o'r cyhoedd gael llais mewn penderfyniadau am ddyfodol eu hasedau hanesyddol eu hunain, gan fod hynny'n rhoi perchnogaeth iddynt ac yn symud pethau ymlaen i'r dyfodol. Weinidog, a wnewch chi edrych yn ofalus iawn ar fater ymgysylltu â'r gymuned o ran helpu i wneud ein hamgylchedd hanesyddol yn fwy hygyrch yn y dyfodol?

15:52

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Sandy Mewies for that contribution and very much agree that it was very heartening to look at the number of responses and the quality of responses to the consultation, demonstrating the level of interest and passion for our historic environment in Wales. I mentioned earlier some of the essential parts of the historic environment services, and many of those are about interpretation and engagement with communities, and helping to produce that sense of ownership that Sandy Mewies mentions, which is so crucial.

Diolch i Sandy Mewies am y cyfraniad hwnnw; rwyf yn cytuno'n gryf ei bod yn galondid mawr gweld nifer ac ansawdd yr ymatebion i'r ymgynghoriad; maent yn dangos y diddordeb sydd yn ein hamgylchedd hanesyddol yng Nghymru, a'r angerdd yn ei gylch. Soniais yn gynharach am rai o rannau hanfodol gwasanaethau'r amgylchedd hanesyddol, ac mae llawer o'r rheini'n ymwneud â dehongli ac ymgysylltu â chymunedau, a helpu i greu'r ymdeimlad hwnnw o berchnogaeth y soniodd Sandy Mewies amdano, sydd mor allweddol.

Much of this will be the subject matter of our heritage Bill. I very much look forward to engaging with Members around that Bill and important legislation to make sure that we get the balance right between conservation, protection, finding use, and making sure that the passion and enthusiasm for our historic environment in Wales is reflected in that legislation and the quality of that legislation.

Trafodir llawer o hyn yn ein Bil treftadaeth. Edrychaf ymlaen yn fawr at drafod y Bil hwnnw a deddfwriaeth bwysig â'r Aelodau er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cadwraeth, gwarchod, dod o hyd i ddefnydd, a gwneud yn siŵr bod y ddeddfwriaeth honno ac ansawdd y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r angerdd a'r brwdfrydedd tuag at ein hamgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

15:53

## Datganiad: Rhoi Polisi Amaethyddol Cyffredin Newydd ar waith

## Statement: Implementation of a New Common Agricultural Policy

Senedd.tv
Fideo Video

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Today, I am announcing my decisions on the main features of pillar 1 of the common agricultural policy, direct payments to farmers, and some headline proposals for pillar 2, the rural development programme.

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi fy mhenderfyniadau am brif nodweddion colofn 1 y polisi amaethyddol cyffredin, taliadau uniongyrchol i ffermwyr, a rhai o'r prif gynigion ar gyfer colofn 2, y rhaglen datblygu gwledig.

This is the first in a series of statements that I will be making in coming weeks, setting out my vision for the development of Welsh agriculture and ensuring its long-term viability within our wider rural economy. The coming CAP changes are arguably the most significant and radical for Wales since the EU MacSharry reforms of 1992. We need to take decisions today that are right for the long-term success of Welsh agriculture, and not decisions that just address issues of the short term.

Dyma'r cyntaf o gyfres o ddatganiadau y byddaf yn eu gwneud yn yr wythnosau nesaf, i amlinellu fy ngweledigaeth ar gyfer datblygu amaethyddiaeth yng Nghymru a sicrhau ei hyfywedd hirdymor o fewn ein heconomi wledig ehangach. Gellid dadlau mai'r newidiadau sydd ar ddod i'r PAC yw'r rhai mwyaf arwyddocaol a radical i Gymru ers diwygiadau MacSharry yr UE yn 1992. Mae angen inni wneud penderfyniadau heddiw sy'n iawn ar gyfer llwyddiant hirdymor amaethyddiaeth yng Nghymru, ac nid penderfyniadau sy'n ymdrin â materion byrdymor yn unig.

These decisions are informed by the emerging findings of Kevin Roberts's review of farm resilience and Peter Davies's review of rural development, and link to the implementation of our strategic action plan for Wales's food and drinks industries. We are also working on the final proposals for an environment Bill, which we will be publishing in due course.

Mae'r penderfyniadau hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o adolygiad Kevin Roberts am wytnwch ffermydd ac adolygiad Peter Davies o ddatblygu gwledig, ac mae cysylltiad rhyngddynt a'n cynllun gweithredu strategol ar gyfer diwydiannau bwyd a diod Cymru. Rydym hefyd yn gweithio ar y cynigion terfynol ar gyfer Bil amgylchedd y byddwn yn ei gyhoeddi maes o law.

CAP reform underpins all this work and will help to build a stronger rural Wales, strengthen agriculture and food production, and boost the wider rural economy. On 8 November, I updated Members on the CAP budget. The reducing EU CAP budget makes reform harder, but the allocation within the UK has been the one that I argued for and it offers the fairest outcome for Wales. Negotiations on the main regulatory framework have finished. Subject to the details that will be published in subordinate legislation that is expected this spring, the legislative framework is now decided and we are moving forward from that.

Mae diwygio'r PAC wrth wraidd yr holl waith hwn a bydd yn helpu i greu Cymru wledig gryfach, cryfhau amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, a rhoi hwb i'r economi wledig ehangach. Ar 8 Tachwedd, rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gyllideb y PAC. Mae cyllideb PAC yr UE yn crebachu, ac o'r herwydd mae'n anos gwneud diwygiadau, ond y dyraniad yn y DU oedd yr un yr oeddwn yn dadlau o'i blaid a hwnnw sy'n cynnig y canlyniad tecaf i Gymru. Mae'r trafodaethau ar y prif fframwaith rheoleiddio wedi dod i ben. Yn amodol ar y manylion a gyhoeddir mewn is-ddeddfwriaeth a ddisgwylir yn y gwanwyn, mae'r fframwaith deddfwriaethol bellach wedi'i bennu ac rydym yn symud ymlaen o hynny.

My decisions on CAP are designed to place Welsh agriculture on the strongest possible footing for the future, ready for the developments and opportunities in world markets; for further pressure on our natural resources; and the likelihood that CAP funding will continue to fall further from 2020. In taking these decisions, I have reflected on the tremendous response to the consultation and the well-attended public meetings that I held over the autumn of last year. I was pleased by the high level of interest from individuals and organisations across the industry, and I am grateful to all of the people who took part in that consultation.

Bwriad fy mhenderfyniadau am y PAC yw rhoi'r sylfaen gryfaf bosibl i amaethyddiaeth Cymru at y dyfodol, a'i pharatoi at y datblygiadau a'r cyfleoedd ym marchnadoedd y byd; at fwy o bwysau ar ein hadnoddau naturiol; ac at y tebygolrwydd y bydd cyllid PAC yn parhau i ostwng ymhellach ar ôl 2020. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, rwyf wedi ystyried yr ymateb aruthrol i'r ymgynghoriad a'r cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd dros yr hydref y llynedd ac yr oedd cynifer o bobl yn bresennol ynddynt. Roeddwn yn falch â'r lefel uchel o ddiddordeb oddi wrth unigolion a sefydliadau ar draws y diwydiant, ac rwyf yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwnnw.

My first decision has been to transfer 15% of the pillar 1 budget to pillar 2. It has been clear from the outset that both pillars support farming and we must use them together to help to build both resilience and growth within the industry. Kevin Roberts and Peter Davies have also advised this in both of their independent reviews. My ambition is to use the new rural development programme to develop farming, the wider rural economy and rural communities further. We will be consulting on the new programme in February. My ambition for the programme is to make the industry more resilient and more competitive, equipping people with skills and knowledge; to make targeted investments in farms and farm-related businesses, safeguarding the natural environment whilst harnessing opportunities for green energy; and to tackle poverty, which sometimes goes unseen in rural Wales. I want to ensure that looking after and protecting our land goes hand-in-hand with building a strong agriculture industry and rural economy.

Fy mhenderfyniad cyntaf oedd trosglwyddo 15% o gyllideb colofn 1 i golofn 2. Mae wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf fod y naill golofn a'r llall yn cefnogi ffermio a rhaid inni eu defnyddio gyda'i gilydd i helpu i adeiladu gwytnwch a thwf yn y diwydiant. Mae Kevin Roberts a Peter Davies hefyd wedi dweud hyn yn eu hadolygiadau annibynnol. Fy uchelgais yw defnyddio'r rhaglen datblygu gwledig newydd i ddatblygu ffermio, yr economi wledig ehangach a chymunedau gwledig ymhellach. Byddwn yn ymgynghori ar y rhaglen newydd ym mis Chwefror. Fy uchelgais ar gyfer y rhaglen yw gwneud y diwydiant yn fwy gwydn ac yn fwy cystadleuol, a rhoi sgiliau a gwybodaeth i bobl; gwneud buddsoddiadau wedi'u targedu mewn ffermydd a busnesau sy'n gysylltiedig â ffermydd, a gwarchod yr amgylchedd naturiol a harneisio cyfleoedd ar gyfer ynni gwyrdd ar yr un pryd; a threchu tlodi, sydd weithiau'n anweledig yng nghefn gwlad Cymru. Rwyf am sicrhau bod gofalu am ein tir a'i ddiogelu'n mynd law yn llaw ag adeiladu diwydiant amaethyddiaeth cryf ac economi wledig gref.

For pillar 1, I have decided that the new basic payment scheme will be introduced over five years, becoming wholly based on the land area farmed by 2019. There will be three land regions funded at different rates: first, the moorland; secondly, the severely disadvantaged area; and, finally, the lowland and the disadvantaged area as a combined region. The designation of moorland has attracted much comment during the consultation and I am aware of the concern that my initial proposal risked incorporating reasonable-quality grazing land. Working with the farming unions and others, I have decided to restrict moorland to a smaller body of land at 400m or higher within areas already mapped as moorland in 1992. Farmers will be notified by the time of this year's Royal Welsh Show about the classification of land into different regions, and will have the opportunity to appeal if they believe that their land designations are incorrect. I am confident that this is a fair and workable proposal that recognises the productive potential of land types across Wales.

Ar gyfer colofn 1, rwyf wedi penderfynu y caiff y cynllun taliadau sylfaenol newydd ei gyflwyno dros bum mlynedd, ac y bydd yn gwbl seiliedig ar arwynebedd y tir sy'n cael ei ffermio erbyn 2019. Bydd tri rhanbarth tir yn cael eu hariannu ar gyfraddau gwahanol: yn gyntaf, y rhostir; yn ail, yr ardal dan anfantais fawr; ac, yn olaf, y tir isel a'r ardal dan anfantais fel un rhanbarth. Mae dynodiad rhostir wedi denu llawer o sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad ac rwyf yn ymwybodol o'r pryder bod perygl y byddai fy nghynnig gwreiddiol yn cynnwys tir pori o ansawdd rhesymol. Drwy gydweithio â'r undebau ffermio ac eraill, rwyf wedi penderfynu cyfyngu rhostir i gorff llai o dir 400m neu uwch o fewn ardaloedd a oedd eisoes wedi'u mapio fel rhostir yn 1992. Bydd ffermwyr yn cael gwybod erbyn Sioe Frenhinol Cymru eleni am ddosbarthiad tir i wahanol ranbarthau, a bydd ganddynt gyfle i apelio os ydynt o'r farn fod eu dynodiadau tir yn anghywir. Rwyf yn hyderus bod hwn yn gynnig teg ac ymarferol sy'n cydnabod potensial mathau o dir ledled Cymru o ran cynhyrchu.

There has been vigorous debate, but no consensus, about payment rates. The only consensus has been that the change to the new system should limit financial disruption wherever possible. The new area-based system will inevitably generate different outcomes from the existing one, which is based on historic activity and on subsidies. Further modelling work, shared with the unions and other bodies, has shown that there is no ideal set of payment rates, because the level and scope of claims varies from year to year. I will not know, until 2015 claims are received, exactly what demand there is and what the payment rates will be. Therefore, I am announcing today indicative payment rates based on the productive potential of different land types and minimising financial disruption. Moorland, SDA and DA-lowland will be funded at the ratio of 1:10:12. This recognises the increased size of the SDA, the equivalent reduction of the moorland region, and also the importance of the SDA to both upland and lowland farming. In cash terms, by 2019-20 this would mean payment rates at around €20 a hectare for moorland, around €200 per hectare for SDA, and approximately €240 per hectare for the DA-lowland region. The payment rate for the SDA will always be 10 times greater than that for moorland, and the DA-lowland will always be funded more generously than SDA.

Bu dadl fywiog, ond heb gonsensws, am gyfraddau talu. Yr unig gonsensws oedd y dylai'r newid i'r system newydd gyfyngu ar darfu ariannol lle bo hynny'n bosibl. Bydd y system newydd sy'n seiliedig ar arwynebedd yn anochel yn esgor ar ganlyniadau gwahanol i'r system bresennol, sy'n seiliedig ar weithgaredd hanesyddol ac ar gymorthdaliadau. Mae gwaith modelu pellach, wedi'i rannu â'r undebau a chyrff eraill, wedi dangos nad oes set ddelfrydol o gyfraddau talu, oherwydd mae lefel a chwmpas ceisiadau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Ni fyddaf yn gwybod, tan i geisiadau 2015 ddod i law, beth yn union yw'r galw a beth fydd y cyfraddau talu. Felly, rwyf heddiw'n cyhoeddi cyfraddau talu dangosol yn seiliedig ar botensial cynhyrchu gwahanol fathau o dir a lleihau tarfu ariannol. Bydd rhostir, ardaloedd dan anfantais fawr a thir isel ac ardaloedd dan anfantais yn cael eu hariannu ar gymhareb 1:10:12. Mae hyn yn cydnabod maint mwy'r ardaloedd dan anfantais fawr, y gostyngiad cyfatebol yn y rhanbarth rhostir, a hefyd bwysigrwydd yr ardaloedd dan anfantais fawr o ran ffermio ucheldir a thir isel. Yn nhermau arian parod, erbyn 2019–20 byddai hyn yn golygu cyfraddau talu o tua €20 yr hectar ar gyfer rhostir, tua €200 yr hectar ar gyfer ardaloedd dan anfantais fawr, a thua €240 yr hectar ar gyfer y rhanbarth tir isel ac ardaloedd dan anfantais. Bydd cyfradd taliadau'r ardaloedd dan anfantais fawr bob amser 10 gwaith yn fwy na chyfradd rhostir, a bydd tir isel ac ardaloedd dan anfantais bob amser yn cael eu hariannu'n fwy hael nag ardaloedd dan anfantais fawr.

These proposals will provide some €120 million a year to upland areas, which is more than was in my original consultation proposal for the three regions. Moorland will be funded at a low rate because it is not agriculturally productive, but it has other qualities that need recognition, particularly for safeguarding our natural environment for future generations, which is one of the reasons why I am transferring 15% of the pillar 1 budget to the RDP. I will be announcing the domestic co-financing rate for the RDP when I launch the detailed consultation on the new programme. I expect to co-finance above the regulatory minimum, hoping and helping to offer a new programme of at least £900 million. Funding for upland areas will be a priority to ensure that moorland in particular continues to be actively farmed in ways that deliver towards our wider national objectives and ensure that its environmental needs are met.

Bydd y cynigion hyn yn darparu tua €120 miliwn y flwyddyn i ardaloedd yr ucheldir, sy'n fwy nag oedd yn fy nghynnig ymgynghori gwreiddiol ar gyfer y tri rhanbarth. Bydd rhostir yn cael ei ariannu ar gyfradd isel gan nad yw'n amaethyddol gynhyrchiol, ond mae ganddo rinweddau eraill y mae angen eu cydnabod, yn enwedig o ran diogelu ein hamgylchedd naturiol i genedlaethau'r dyfodol, sydd yn un o'r rhesymau pam yr wyf yn trosglwyddo 15% o gyllideb colofn 1 i'r Cynllun Datblygu Gwledig. Byddaf yn cyhoeddi'r gyfradd gydariannu ddomestig ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig pan fyddaf yn lansio'r ymgynghoriad manwl ar y rhaglen newydd. Rwyf yn disgwyl cydariannu'n uwch na'r isafswm rheoleiddio, gan obeithio cynnig rhaglen newydd gwerth o leiaf £900 miliwn a helpu i gynnig hynny. Bydd y cyllid i ardaloedd yr ucheldir yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod rhostir yn arbennig yn parhau i gael ei ffermio'n weithredol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at ein hamcanion cenedlaethol ehangach ac yn sicrhau bod yr anghenion amgylcheddol yn cael eu bodloni.

There is understandable concern that change will be hard. Having listened throughout the consultation, I have concluded that allowing five years for the move to a fully area-based payment system strikes a balance between providing time to adjust for those who may get less in future, but giving a clear message that change is necessary. It is important to be fair to farmers who currently get little or no CAP support because of past entitlement. The move from historic to area payments was signalled at the end of the last CAP reform nearly 10 years ago.

Mae pobl yn pryderu y bydd y newid yn anodd, ac mae hynny'n ddealladwy. Ar ôl gwrando drwy gydol yr ymgynghoriad, rwyf wedi dod i'r casgliad bod caniatáu pum mlynedd i symud i system daliadau sy'n gwbl seiliedig ar arwynebedd yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng rhoi amser i addasu i'r rhai a allai gael llai yn y dyfodol a chyfleu neges glir bod angen newid. Mae'n bwysig bod yn deg â ffermwyr sydd ar hyn o bryd yn cael ychydig neu ddim cefnogaeth PAC oherwydd eu hawl yn y gorffennol. Rhoddwyd arwydd o'r symudiad o daliadau hanesyddol i rai seiliedig ar arwynebedd ar ddiwedd diwygiad diwethaf y PAC bron i 10 mlynedd yn ôl.

Future payments must be considered in the context of a tighter CAP budget. Within reason, I have sought to limit farmers' losses. When scaled for the available budget, 84% of current claimants will reach the proposed area payment rates by getting higher payments or not losing more than 10% of their historical payment every year. Over 10,000 current claimants should receive higher payment rates under the new system. Of those getting less, around 3,600 should have relatively modest losses of under €5,000 over five years.

Mae'n rhaid ystyried taliadau yn y dyfodol yng nghyd-destun cyllideb PAC dynnach. O fewn rheswm, rwyf wedi ceisio cyfyngu ar golledion ffermwyr. Ar ôl eu graddio ar gyfer y gyllideb sydd ar gael, bydd 84% o'r hawlwyr presennol yn cyrraedd y cyfraddau talu yn ôl arwynebedd a gynigir drwy gael taliadau uwch neu drwy beidio â cholli mwy na 10% o'u taliad hanesyddol bob blwyddyn. Dylai dros 10,000 o hawlwyr presennol dderbyn cyfraddau talu uwch o dan y system newydd. O'r rhai a fydd yn cael llai, dylai tua 3,600 ddioddef colledion cymharol fach—llai na €5,000 dros bum mlynedd.

I recognise that getting less money is tough for individual businesses. However, we have a situation where payments can bear little relationship to current farming activity. Almost 2,000 farms get the equivalent of €300 or more per hectare. In contrast 5,800 farms get less than €150 per hectare. There is and can be no justification for this distribution, which is a product of history and may well hold the industry back. This is neither sustainable nor is it fair.

Rwyf yn cydnabod ei bod yn anodd i fusnesau unigol gael llai o arian. Fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa lle nad oes fawr o gysylltiad o reidrwydd rhwng taliadau a gweithgareddau ffermio cyfredol. Mae bron i 2,000 o ffermydd yn cael yr hyn sy'n cyfateb i €300 neu fwy yr hectar. Ar y llaw arall, mae 5,800 o ffermydd yn cael llai na €150 yr hectar. Nid oes dim ffordd o gyfiawnhau'r dosbarthiad hwn; deillio o hanes y mae hynny ac mae'n bosibl iawn ei fod yn dal y diwydiant yn ôl. Nid yw hyn yn gynaliadwy nac yn deg.

I have been clear about my intention to limit large payments and I will confirm this proposal today. I will cap all payments at the higher rate, and the cap will apply to basic payment scheme payments, excluding the greening payment, and I will make no allowance for wage-related costs. The minimum claim size will increase to 5 ha.

Rwyf wedi bod yn glir am fy mwriad i gyfyngu ar daliadau mawr a byddaf yn cadarnhau'r cynnig hwn heddiw. Byddaf yn capio pob taliad ar y gyfradd uwch, a bydd y cap yn berthnasol i daliadau'r cynllun taliadau sylfaenol, heb gynnwys y taliad gwyrddu, ac ni fyddaf yn rhoi ystyriaeth i gostau sy'n gysylltiedig â chyflogau. Bydd yr isafswm hawlio'n cynyddu i 5 ha.

I confirm that Wales will adopt the European Commission's greening proposals based on the maintenance of permanent grassland, crop diversification and ecological focus areas. This was well-received in the consultation as best fitting Welsh agriculture.

Rwyf yn cadarnhau y bydd Cymru'n mabwysiadu cynigion gwyrddu'r Comisiwn Ewropeaidd yn seiliedig ar waith cynnal a chadw glaswelltir parhaol, tyfu amrywiaeth o gnydau a meysydd ffocws ecolegol. Croesawyd hyn yn yr ymgynghoriad fel yr ateb gorau i amaethyddiaeth Cymru.

The consultation provided no compelling evidence in support of a coupling scheme or a pillar 1 scheme for areas facing natural constraint. I confirm that neither will be introduced.

Ni roddodd yr ymgynghoriad ddim tystiolaeth gref o blaid cynllun cyplu neu gynllun colofn 1 i ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiad naturiol. Rwyf yn cadarnhau na chaiff y naill na'r llall ei gyflwyno.

I am publishing a booklet today explaining my pillar 1 decisions. There remain decisions to take about the detail of entitlements, the definition of active farmers, greening and additional payments for young farmers. These will follow once the EU implementing regulations and delegated acts are published.

Rwyf yn cyhoeddi llyfryn heddiw i esbonio fy mhenderfyniadau colofn 1. Mae penderfyniadau i'w gwneud o hyd ynglŷn â manylion hawliau, diffiniad ffermwyr gweithredol, taliadau gwyrddu a thaliadau ychwanegol i ffermwyr ifanc. Bydd y rhain yn dilyn cyn gynted ag y bydd rheoliadau gweithredu a deddfau dirprwyedig yr UE wedi'u cyhoeddi.

CAP reform has proved lengthy and complex. It has, by and large, moved European farming along a positive path. My decisions on pillar 1 take account of my ambitions for pillar 2. CAP reform gives us the opportunity to develop agriculture in Wales and I believe that these decisions offer the best way forward in creating a strong, resilient industry that will safeguard our land for future generations. I have seen at first hand best practice in farms across Wales and know that we have the ability to create a strong future for farming. We need managed adjustment to an area system, accompanied by pillar 2 investment in businesses and people that will improve competitiveness, strengthen our natural resource base, and open up new market-rewarded opportunities. There is a major process of change ahead, but I believe that our industry can face the future with confidence.

Mae diwygio'r PAC wedi bod yn broses hir a chymhleth. Ar y cyfan, mae wedi symud ffermio yn Ewrop ar lwybr cadarnhaol. Mae fy mhenderfyniadau am golofn 1 yn rhoi ystyriaeth i'm huchelgeisiau ar gyfer colofn 2. Mae diwygio'r PAC yn gyfle inni i ddatblygu amaethyddiaeth yng Nghymru a chredaf fod y penderfyniadau hyn yn cynnig y ffordd orau ymlaen i greu diwydiant cryf, gwydn a fydd yn diogelu ein tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf wedi gweld arfer gorau drosof fy hun ar ffermydd ledled Cymru a gwn fod gennym y gallu i greu dyfodol cryf i ffermio. Mae angen inni reoli'r broses o addasu i system sy'n seiliedig ar arwynebedd, ynghyd â buddsoddiad colofn 2 mewn busnesau a phobl a fydd yn gwella cystadleurwydd, yn cryfhau ein sylfaen adnoddau naturiol, ac yn agor cyfleoedd newydd wedi'u gwobrwyo gan y farchnad. Mae proses fawr o newid o'n blaenau, ond rwyf yn credu y gall ein diwydiant wynebu'r dyfodol yn hyderus.

16:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. This statement is down for half an hour, which is not achievable, so I would say to the Government that the timing on this has been a bit off. I appreciate the detail in which that statement had to be given. A lot of Members want to speak and, despite the fact that I will extend the time to 45 minutes, please focus on questions and keep any preambles very short, otherwise I will not be able to call your colleagues. I will make sure that there is balance in who I call, but, if anyone goes on too long, your time will be taken from one of your colleagues.

Diolch, Weinidog. Mae hanner awr wedi'i neilltuo i'r datganiad hwn, ac nid yw'n bosibl cyflawni hynny, felly byddwn yn dweud wrth y Llywodraeth bod yr amseriad hwnnw'n anghywir braidd. Rwyf yn cydnabod y manylder y bu'n rhaid ei roi yn y datganiad hwnnw. Mae llawer o Aelodau am siarad ac, er y byddaf yn estyn yr amser i 45 munud, ceisiwch ganolbwyntio ar gwestiynau os gwelwch yn dda a chadw unrhyw ragymadroddi'n fyr iawn, neu ni fyddaf yn gallu galw ar eich cydweithwyr. Byddaf yn sicrhau cydbwysedd o ran pwy yr wyf yn ei alw, ond, os bydd unrhyw un yn siarad yn rhy hir, caiff eich amser ei gymryd oddi ar un o'ch cydweithwyr.

16:04 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement and the certainty that it will bring to farmers who have been engaged in what has seemed to be a never-ending round of consultations. The industry and farmers in particular now finally have a decision and can start to make the business decisions that they need to make to plan for the future.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad a'r sicrwydd y bydd yn ei roi i ffermwyr sydd wedi bod yn cymryd rhan mewn cylch o ymgynghoriadau nad oedd yn teimlo fel petai byth am ddod i ben. Yn awr, mae'r diwydiant a ffermwyr wedi cael penderfyniad o'r diwedd a gallant ddechrau gwneud y penderfyniadau busnes y mae angen iddynt eu gwneud i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Absent from your statement and the associated document that you provided—I am very grateful for that document being disclosed in advance today—is the definitive year or years on which the allocation of entitlement will be based. There was some indication that that may be changed, or that you may be looking at different reference years, and I wonder whether you could clarify that.

Yr hyn sy'n absennol o'ch datganiad a'r ddogfen gysylltiedig a ddarparwyd gennych—rwyf yn ddiolchgar iawn ichi am ddatgelu'r ddogfen honno ymlaen llaw heddiw—yw'r flwyddyn neu'r blynyddoedd pendant y bydd y dyraniad o hawl yn seiliedig arnynt. Roedd rhywfaint o awgrym y gallai hynny newid, neu y gallech fod yn cyfeirio at flynyddoedd gwahanol, a tybed a allech egluro hynny?

There are a number of points in your statement and the associated booklet that I very much welcome. Your decision in relation to greening will be very welcome indeed, as will your promise not to gold-plate it. I also welcome your new entrants and young entrants allocation. It is vital that we get new entrants into the industry. There are questions as to how that will work in practice; in particular, if there is a set number of entitlements per region, how will that be affected by allocation out of the envelope, as it were, of the national scheme for new entrants and the trading between regions? When you talking about regions, are you talking about the regions of land, that is, moorland, disadvantaged land, severely disadvantaged land and lowland? I am grateful to see you nodding in response to that question, Minister.

Mae nifer o bwyntiau yn eich datganiad a'r llyfryn cysylltiedig yr wyf yn eu croesawu'n fawr. Bydd croeso mawr iawn i'ch penderfyniad ynglŷn â thaliadau gwyrddu, ynghyd â'ch addewid i beidio â'i orchuddio ag aur. Rwyf hefyd yn croesawu eich dyraniad newydd i newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc. Mae'n hanfodol ein bod yn denu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. Mae cwestiynau ynghylch sut y bydd hynny'n gweithio'n ymarferol; yn arbennig, os oes nifer penodol o hawliau i bob rhanbarth, sut y bydd dyraniadau o amlen, fel petai, y cynllun cenedlaethol i newydd-ddyfodiaid a'r masnachu rhwng rhanbarthau'n effeithio ar hynny? Wrth sôn am ranbarthau, a ydych yn sôn am y rhanbarthau tir, hynny yw, rhostir, tir dan anfantais, tir dan anfantais fawr a thir isel? Mae'n dda gennyf eich gweld yn nodio mewn ymateb i'r cwestiwn hwnnw, Weinidog.

There were concerns about the modelling of the tiers, and I know that some farming union representatives expressed concern that some of the data was only released to them at 6 p.m. yesterday evening, which seems very late in the day when a statement is being made the next day. Obviously, they will not have had the opportunity to take that into account, and I would ask that you consider earlier release in the future.

Roedd pryderon ynghylch modelu'r haenau, a gwn fod rhai o gynrychiolwyr yr undebau ffermio wedi mynegi pryder na chafodd rhywfaint o'r data ei ryddhau iddynt tan 6 o'r gloch neithiwr, sy'n ymddangos yn hwyr iawn pan fo disgwyl datganiad drannoeth. Wrth gwrs, ni fyddant wedi cael cyfle i ystyried hynny, a byddwn yn gofyn ichi ystyried rhyddhau pethau'n gynharach yn y dyfodol.

Your designation of moorland for the pillar 1 payments is based on the 1992 map. There may well have been changes in the plant types since 1992, particularly if you look at the science around climate change. I wonder whether you could comments as to why have you picked 1992 as the reference date, rather than looking at the moorland now and deciding on a scientific basis whether or not the line is in the right place.

Mae eich dynodiad rhostir ar gyfer taliadau colofn 1 yn seiliedig ar fap 1992. Mae'n ddigon posibl y bu newidiadau i'r mathau o blanhigion ers 1992, yn enwedig os edrychwch ar y wyddoniaeth o ran newid yn yr hinsawdd. Tybed a allech ddweud pam yr ydych wedi dewis 1992 fel dyddiad cyfeirio, yn hytrach nag edrych ar y rhostir yn awr a phenderfynu ar sail wyddonol a yw'r llinell yn y lle iawn.

Overall, Minister, given what the Deputy Presiding Officer said about being brief in responding to the statement, there are a lot of decisions that you have made and are outlined in your statement that I would welcome, but there is one that I roundly condemn, and that is the decision to modulate to the maximum 15%. That decision is going to make Welsh farmers uncompetitive yet again. France has decided to modulate at 3%, Germany at 4.5%, Italy at 0%, Ireland at 0% and England at 12%. You have placed Welsh farmers in the most uncompetitive bracket you possibly could by that decision to modulate. The way in which it was announced has upset many in the industry, as it was announced, in effect, over Twitter. The information was not available publicly and was not given before recess to this Assembly when it could have been, I would submit, because those announcements were made only a few days after we broke up. However, I welcome your intention overall to see that farmers minimise the losses that they make in payments, or, where there are big losses, that those are to farmers that received the very highest amounts of payments overall in respect of their single farm payment. That having been said, your decision to modulate at 15% takes investment decisions away from businesses and takes money away from businesses that they could invest in their livestock, equipment and improving the efficiency of their businesses. That decision, Minister, I am afraid, is not a good one.

At ei gilydd, Weinidog, o gofio'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Lywydd am fod yn gryno wrth ymateb i'r datganiad, byddwn yn croesawu llawer o'r penderfyniadau yr ydych wedi'u gwneud ac sydd wedi'u hamlinellu yn eich datganiad, ond mae un yr wyf yn ei gondemnio'n llwyr, sef y penderfyniad i fodiwleiddio hyd at yr uchafswm o 15%. Bydd y penderfyniad hwnnw'n gwneud ffermwyr Cymru'n anghystadleuol unwaith eto. Mae Ffrainc wedi penderfynu modiwleiddio ar 3%, yr Almaen ar 4.5%, yr Eidal ar 0%, Iwerddon ar 0% a Lloegr ar 12%. Mae eich penderfyniad i fodiwleiddio wedi rhoi ffermwyr Cymru yn y grŵp mwyaf anghystadleuol posibl. Mae'r ffordd y cyhoeddwyd y penderfyniad wedi cynhyrfu llawer yn y diwydiant, oherwydd cafodd ei gyhoeddi, i bob pwrpas, ar Twitter. Nid oedd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ac ni chafodd ei rhoi i'r Cynulliad hwn cyn y toriad, er y gallai fod wedi cael ei roi bryd hynny, yn fy marn i, oherwydd bod y cyhoeddiadau hynny wedi eu gwneud dim ond ychydig ddyddiau ar ôl dechrau'r toriad. Fodd bynnag, croesawaf eich bwriad cyffredinol i weld ffermwyr yn lleihau'r colledion yn eu taliadau, neu, lle mae colledion mawr, fod y rheini i ffermwyr a gafodd y symiau uchaf o daliadau ar y cyfan o ran eu taliad sengl. Wedi dweud hynny, mae eich penderfyniad i fodiwleiddio ar 15% yn cymryd penderfyniadau buddsoddi oddi ar fusnesau ac yn cymryd arian oddi ar fusnesau y gallent ei fuddsoddi yn eu da byw a'u hoffer ac i wella effeithlonrwydd eu busnesau. Mae arnaf ofn, Weinidog, nad yw'r penderfyniad hwnnw'n un da.

There is, perhaps, one final question. Will the amount of land in any one region, as you have described it, always stay the same? If not, how do you propose to deal with trading entitlements, as you have limited that to a region rather than in any other way? Many thanks.

Mae un cwestiwn olaf, efallai. A fydd faint o dir sydd mewn un rhanbarth, fel yr ydych wedi'i ddisgrifio, yn aros yr un fath drwy'r amser? Os na fydd, sut ydych chi'n bwriadu ymdrin â hawliau masnachu, gan eich bod wedi cyfyngu hynny i ranbarth yn hytrach nag mewn unrhyw ffordd arall? Diolch yn fawr.

16:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Conservative spokesperson for her generally warm response to my statement this afternoon—far warmer than the press release that she issued half an hour ago. I am very grateful to her for that. I very much agree with the points that she made on new entrants, young farmers and greening. That is exactly the direction that the Government is seeking to move in to decomplexify, if you like, support available to the farming community and to do so in such a way as to ensure that support reaches those who need it, in order to continue production and to invest in the future of their businesses.

Diolch i lefarydd y Ceidwadwyr am ei hymateb cynnes at ei gilydd i'm datganiad y prynhawn yma—llawer cynhesach na'r datganiad i'r wasg a gyhoeddodd hanner awr yn ôl. Rwyf yn ddiolchgar iawn iddi am hynny. Cytunaf yn llwyr â'r pwyntiau a wnaeth am newydd-ddyfodiaid, ffermwyr ifanc a thaliadau gwyrddu. Dyna'r union gyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn ceisio symud iddo i ddadgymhlethu, os hoffwch, y cymorth sydd ar gael i'r gymuned amaethyddol ac i wneud hynny mewn ffordd sy'n sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y rhai sydd ei angen, er mwyn parhau i gynhyrchu ac i fuddsoddi yn nyfodol eu busnesau.

You have asked a number of questions on entitlements. We have taken the major headline decisions over the Christmas recess, over the period up until today, and we are making announcements on those decisions today. Many of the detailed questions that you have asked on entitlements will be subject to a review of implementing legislation and we will continue to update Members on those decisions as they are made. I will say this on the issue of entitlements: there has been a secondary market created in entitlements over the last few years. I see my decisions based on supporting agricultural businesses that are able to grow and invest in the future. I do not make these decisions based on supporting the secondary market. Supporting that secondary market is not the purpose of the decisions that I am announcing today.

Rydych wedi gofyn nifer o gwestiynau am hawliau. Rydym wedi gwneud y prif benderfyniadau mawr yn ystod toriad y Nadolig, yn ystod y cyfnod hyd at heddiw, ac rydym yn gwneud cyhoeddiadau am y penderfyniadau hynny heddiw. Bydd llawer o'r cwestiynau manwl yr ydych wedi'u gofyn am hawliau'n destun adolygiad o weithredu deddfwriaeth a byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y penderfyniadau hynny fel y cânt eu gwneud. Dywedaf hyn am hawliau: mae is-farchnad wedi ei chreu o ran hawliau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rwyf yn ystyried bod fy mhenderfyniadau'n seiliedig ar gefnogi busnesau amaethyddol sy'n gallu tyfu a buddsoddi yn y dyfodol. Nid wyf yn gwneud y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar gefnogi'r is-farchnad. Nid cefnogi'r is-farchnad honno yw pwrpas y penderfyniadau yr wyf yn eu cyhoeddi heddiw.

As regards the questions on moorland, the line is at 400m. It is within the map that was published in 1992. I would say to the Conservative spokesperson not to put too much emphasis on the 1992 date; it is the point at which the last map of the moorland was published. It is a map that outlines those areas of Wales and which describes those areas of Wales, but the key number is that of the 400m line. That is the area that we will be looking to measure.

O ran y cwestiynau am rostir, mae'r llinell ar 400m. Mae o fewn y map a gyhoeddwyd yn 1992. Byddwn yn dweud wrth lefarydd y Ceidwadwyr am beidio â rhoi gormod o bwyslais ar y dyddiad 1992; dyna pryd y cafodd y map diwethaf o'r rhostir ei gyhoeddi. Mae'n fap sy'n amlinellu'r ardaloedd hynny yng Nghymru ac sy'n disgrifio'r ardaloedd hynny yng Nghymru, ond y rhif allweddol yw rhif y llinell 400m. Dyna'r ardal y byddwn yn ceisio ei mesur.

You mention the 15% decision on modulation. Anyone who understands business knows that you do not promote efficiency through subsidies and that we need to invest in the business development of Welsh agricultural and farming businesses. You shake your head; I would be surprised if a Conservative spokesperson in any sector were to say that we do not need to invest in efficient businesses. [Interruption.] I understand what the leader of the opposition is saying, but let me say this: I have spent the last two years arguing against a UK Government that sought 'significant'—I quote—reductions in pillar 1 payments to farmers, significant reductions to the whole CAP budget and significant reductions to the support available, not only to individual farm businesses but to all businesses and all communities in rural Wales. There was nobody from the Conservative party here—or, for that matter, from the Liberal Democrats—who supported this Government in opposing that policy. I have to say that it is a little rich today for a Conservative spokesperson to come to the Chamber to complain about money being taken away from farmers in the way that she described, when the purpose of the UK Government's policy for the last two years has been to do precisely that. What we are doing is transferring money from pillar 1 to pillar 2. I remind the Conservative Members who are shaking their heads that 80% of moneys available in pillar 2 will be made available to recipients of pillar 1 claims. So, there will be a significant investment in the future of Welsh agriculture. This is a key point, on which I will end this answer. We are not simply looking at creating a system that will support Welsh agriculture today and tomorrow and will pay bills for today and tomorrow, this year and next year; we are looking at investing in the future of agricultural business up and down Wales and making our world-class agriculture fit for the future.

Rydych yn sôn am y penderfyniad ynghylch modiwleiddio ar 15%. Mae unrhyw un sy'n deall busnes yn gwybod nad ydych yn hyrwyddo effeithlonrwydd drwy gymorthdaliadau, a bod angen inni fuddsoddi i ddatblygu busnesau amaethyddiaeth a ffermio yng Nghymru. Rydych yn ysgwyd eich pen; byddwn yn synnu pe bai llefarydd Ceidwadol o unrhyw sector yn dweud nad oes angen inni fuddsoddi mewn busnesau effeithlon. [Torri ar draws.] Rwyf yn deall yr hyn y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei ddweud, ond gadewch imi ddweud hyn: rwyf wedi treulio'r ddwy flynedd ddiwethaf yn dadlau yn erbyn Llywodraeth y DU a oedd yn ceisio gostyngiadau 'arwyddocaol'—dyfynnaf—mewn taliadau colofn 1 i ffermwyr, gostyngiadau sylweddol i gyllideb gyfan y PAC a gostyngiadau sylweddol i'r gefnogaeth sydd ar gael, nid yn unig i fusnesau fferm unigol, ond i bob busnes a phob cymuned yng nghefn gwlad Cymru. Nid oedd neb o'r blaid Geidwadol yma—nac, o ran hynny, o'r Democratiaid Rhyddfrydol—yn cefnogi'r Llywodraeth hon wrth wrthwynebu'r polisi hwnnw. Mae'n rhaid imi ddweud ei bod braidd yn eofn heddiw i lefarydd y Ceidwadwyr ddod i'r Siambr i gwyno am arian yn cael ei gymryd oddi ar ffermwyr fel y disgrifiodd; diben polisi Llywodraeth y DU dros y ddwy flynedd ddiwethaf oedd gwneud yr union beth hwnnw. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yw trosglwyddo arian o golofn 1 i golofn 2. Rwyf yn atgoffa'r Aelodau Ceidwadol sy'n ysgwyd eu pennau y bydd 80% o'r arian sydd ar gael yng ngholofn 2 ar gael i bobl sy'n derbyn hawliadau colofn 1. Felly, bydd buddsoddiad sylweddol yn nyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae hwn yn bwynt allweddol, a byddaf yn dirwyn yr ateb hwn i ben ag ef. Nid ydym yn edrych yn unig ar greu system a fydd yn cefnogi amaethyddiaeth Cymru heddiw ac yfory ac a fydd yn talu biliau heddiw ac yfory, eleni a'r flwyddyn nesaf; ein bwriad yw buddsoddi yn nyfodol busnesau amaethyddol ar hyd a lled Cymru a sicrhau bod ein hamaethyddiaeth, sydd o safon fyd-eang, yn addas ar gyfer y dyfodol.

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I remind Members who want to be called that, if they heckle, they do not exactly improve their chances.

Atgoffaf Aelodau a hoffai gael eu galw, os byddant yn gweiddi ar draws pobl, na fydd hynny'n gwneud dim i wella eu gobeithion.

16:14

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n eironig braidd bod y Gweinidog yn ymosod ar y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, achos mae'n gwybod yn iawn nad yw record Aelodau Seneddol Llafur tamaid gwell. Felly, gobeithio bod yr un neges yn mynd yn ôl i Aelodau eich plaid chi.

It is slightly ironic that the Minister is attacking the Conservatives and the Liberal Democrats in Westminster, because he knows full well that the record of Labour Members of Parliament is no better. So, I hope that the same message is being conveyed to Members of your own party.

Beth bynnag, gwnaf ganolbwyntio ar y datganiad a'r hyn sydd wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r hyn sydd yn eich datganiad—a diolch ichi amdano—yn lled dderbyniol. Rwy'n meddwl ei fod yn ateb pragmatig yn y cyd-destun rydym yn ffeindio ein hunain ynddo. Nid yw hynny i ddweud bod pob elfen ohono'n gwbl dderbyniol, ond rwy'n gwerthfawrogi rhai o'r cyfyngiadau y mae'r Gweinidog yn gweithredu oddi mewn iddynt.

However, I will concentrate on the statement and what has been announced. What is in your statement—and thank you for it—is generally acceptable. I think that it is a pragmatic response in the context that we find ourselves in. That is not to say that each and every element is acceptable, but I appreciate some of the restrictions that the Minister is working within.

Yr egwyddor sylfaenol, fel mae'r Gweinidog wedi dweud yn y gorffennol, yw trio cyflwyno'r newidiadau hyn mewn modd sy'n cyfyngu, cymaint ag sy'n bosibl, ar y modd y mae hynny'n amharu ar y diwydiant fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd. Wedyn, rydym yn gweld y Gweinidog yn mynd am yr uchafswm posibl o fodiwleiddio—15%—sydd, i mi, yn rhedeg yn groes i'r datganiad hwnnw.

The founding principle, as the Minister has said in the past, is to try to introduce these changes in a way that limits, as much as possible, the effect that that has on the industry as it currently operates. Then, we see the Minister going for the maximum level of modulation—15%—that, to me, is contrary to that statement of principle.

Wrth gwrs, mae hynny'n mynd i ddarparu mwy o adnoddau i'r RDP. Rydym wedi clywed y Gweinidog yn rhoi rhyw fath o sicrwydd i ni y bydd peth o'r arian hwnnw'n dod yn ôl i ffermwyr, ond byddwn yn licio clywed mwy ynglŷn â sut y byddwch chi'n sicrhau bod yr RDP yn ei gyfanrwydd yn delifro. Mae'n ymddangos i mi eich bod yn rhoi cryn fwy o bwysau ar yr RDP fel cyfrwng i ddelifro nifer o'r allbynnau rydych chi eisiau eu cyflawni.

Of course, that is going to provide more resources for the RDP. We have heard the Minister giving some sort of assurance that some of that funding will be returned to farmers, but I would like to hear more as to how you will ensure that the RDP as a whole will actually deliver. It appears to me that you are placing a lot more pressure on the RDP as a means of delivering many of the outputs that you want to see delivered.

Rydych chi'n dweud eich bod wedi pwyso'n drwm iawn ar adroddiad Kevin Roberts, a'r argymhellion sy'n dod allan yn sgîl hynny, wrth edrych ymlaen at ddyfodol y diwydiant. Mae'n biti nad oedd y rheini allan yn gyhoeddus ac ar gael fel rhan o'r drafodaeth o gwmpas yr argymhellion. Byddai wedi bod yn llawer mwy gwerthfawr i'r cyhoedd fod wedi cael bod yn ymwybodol o'r rheini yn ystod y broses o ymgynghori, er enghraifft. Croesawaf y model talu o dri chategori o dir, oherwydd fe all fod yn wahanol iawn, ac rwy'n meddwl y bydd hynny'n helpu i sicrhau bod yr amharu sy'n digwydd ar y diwydiant yn cael ei leihau.

You say that you have been very dependent on the Kevin Roberts report, and the recommendations emerging from that, as we look to the future of the industry. It is a pity that those were not publicly available as part of the wider debate around the recommendations. It would have been far more valuable for the public to have been aware of those recommendations during the consultation process, for example. I welcome the three-category payment model, because it could be very different, and I think that that will assist in ensuring that any interference with the industry is restricted.

Rydych chi'n awgrymu symiau y bydd ffermwyr yn eu derbyn. Wrth gwrs, mae'n anodd dweud ar hyn o bryd, ond efallai y gallem ofyn pa mor hyderus ydych chi fod y ffigurau, mwy neu lai, yn agos ati, a phryd yn union ydych chi'n rhagweld y bydd ffermwyr Cymru'n cael gwybod beth fydd y graddfeydd y byddant yn eu derbyn?

You suggest what sums the farmers will receive. Of course, it is difficult to be accurate at present, but may I ask how confident you are that those figures are relatively close to the mark, and when do you anticipate that Welsh farmers will be informed of the actual rates that they will receive?

Rydych chi'n dweud na fydd cynllun ANC i ucheldiroedd o dan biler 1, ond a allwch chi ymhelaethu ar ba fath o gynlluniau amgen rydych chi'n eu hystyried mewn cyd-destunau eraill o safbwynt yr ucheldiroedd? Yn amlwg, rydych chi hefyd wedi dweud yn y gorffennol y bydd angen adolygu Glastir yn sgîl y newidiadau hyn. Pa mor bellgyrhaeddol ydych chi'n rhagweld y bydd rhai o'r newidiadau y bydd angen eu cyflwyno i'r rhaglen honno?

You say that there will be no ANC upland scheme under pillar 1, but can you outline what alternative proposals you are considering in other contexts in terms of the uplands? Clearly, you have said in the past that there will need to be a review of Glastir as a result of these changes. How far reaching do you anticipate that some of the changes that will need to be introduced to that programme will be?

Mae llawer o newidiadau'n wynebu'r diwydiant yn sgîl y datganiad hwn heddiw, ac mae cwestiwn pwysig yn fy meddwl i ynglŷn â sut fydd y Llywodraeth yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol i ffermwyr. Efallai y gallwch ddweud wrthym ynglŷn â hynny. Pa adnoddau ychwanegol fydd ar gael i ddarparu'r gefnogaeth y bydd ei hangen wrth bontio rhwng yr hen bolisi amaethyddol cyffredin a'r polisi amaethyddol cyffredin newydd? Mae llawer o fanylion yn y datganiad a'r cyhoeddiad sy'n mynd gyda'r datganiad. Wrth gwrs, mae llawer i ddod eto a byddwn yn edrych ymlaen at graffu ar y broses wrth iddi barhau.

There are going to be numerous changes facing the industry in the light of this statement today, and there is an important question in my mind as to how the Government will ensure that all of this information will be communicated effectively to farmers. Perhaps you could tell us a little about that. What additional resources will be available to provide the necessary support as we undertake this transition from the old CAP to the new CAP? There are a great many details in the statement and announcement that goes alongside that. Of course, there is a great deal more to come and we look forward to scrutinising the process as it continues.

16:18 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Liciwn i ddiolch i chi am eich croeso 'lled dderbyniol'—rwy'n credu taw dyna'r geiriau y bu i ti eu defnyddio. Rwy'n gwerthfawrogi tôn yr ymateb. Rwy'n cytuno â sawl pwynt a gafodd eu gwneud. Ddechreuaf â'r pwyntiau rwyf yn cytuno â nhw.

I would like to thank you for your 'generally acceptable' welcome—I think that those were the words that you used. I appreciate the tone of the response. I agree with many of the points that you have made. I will start with the points that I agree with.

Rydych chi'n iawn—byddai wedi bod yn hwylus petai adroddiad Kevin Roberts wedi bod ar gael i ni i'w drafod ac er mwyn inni bwyso a mesur yr adroddiad o ran ein trafodaethau ehangach. Rwyf wedi cymryd penderfyniad ei fod yn well cael adroddiad da yn hytrach nag adroddiad clou. Dyna pam rwyf wedi caniatáu i Kevin ddod â'r adroddiad i mi tipyn yn hwyrach na'r hyn yr oeddwn wedi'i obeithio; rwyf wedi gwneud datganiad ar hynny o'r blaen. Bydd cyfle ar gyfer datganiad llafar eto mewn pythefnos er mwyn trafod y pecyn ar gyfer yr ucheldiroedd, fel rydych chi wedi awgrymu, a sut rydym yn symud pecyn Kevin Roberts ymlaen fel rhan o'r drafodaeth hon. Os nad oedd ar gael ar gyfer heddiw, roeddwn yn meddwl bod yn rhaid cael datganiad llafar arall, er mwyn i chi allu cael y drafodaeth yr ydych wedi awgrymu sydd ei hangen. Rwy'n cytuno bod angen y fath drafodaeth.

You are right—it would have been useful had Kevin Roberts's report been available to us to discuss and in order for us to evaluate the report in terms of our wider discussions. I have taken the decision that it is better to have a good report rather than a quick report. That is why I have allowed Kevin to bring forward the report a little later than I had hoped; I have made a statement about that previously. There will be an opportunity for an oral statement again in a fortnight's time to discuss the package for the uplands, as you have suggested, and how we take forward Kevin Roberts's package as part of this discussion. If it was not available for today, I thought that there had to be another oral statement, so that you could have the discussion that you have suggested is needed. I agree that we need to have that kind of discussion.

Rydych chi wedi dweud bod angen i'r ddau biler gweithio gyda'i gilydd. Rydych chi'n dweud bod 'claimants' o dan biler 1 yn cael peth o arian o dan biler 2. Mae 80% yn fwy na 'peth' o'r arian. Mae'r rhan fwyaf o'r arian ac adnoddau y tu mewn i biler 2 yn mynd i mewn i'r diwydiant amaethyddol.

You have said that both pillars need to work together. You say that claimants under pillar 1 will have some funding under pillar 2. Eighty per cent is more than 'some' funding. Most of the funding and the resources under pillar 2 go into the agriculture industry.

A gaf i ddweud wrthych mai'r hyn rwyf eisiau ei wneud yw defnyddio'r arian hwn yn greadigol i sicrhau dyfodol y diwydiant, nid dim ond yn yr ucheldiroedd, ond ar draws y wlad? Rwy'n credu ei fod yn hollbwysig ein bod yn buddsoddi mewn busnesau amaethyddol, lle bynnag y maent, i sicrhau'r dyfodol rydym i gyd eisiau ei weld ar gyfer economi cefn gwlad Cymru. Rwyf eisiau gwneud yn sicr bod lle yn yr RDP ar gyfer buddsoddiadau er mwyn datblygu busnesau ac economi cefn gwlad, ac rwy'n croesawu'r drafodaeth rwy'n siŵr y byddwn yn ei chael ar hynny a byddwn yn croesawu unrhyw gynigion sydd gennych ar hynny a sut ydym ni'n gwneud hynny. Mae'r pwyntiau rydych yn eu gwneud yn bwyntiau rwy'n cytuno â nhw ac rwyf eisiau gweld yr union fath o fuddsoddiad a chefnogaeth i fusnesau amaethyddol ag y gwnaethoch chi eu hawgrymu.

May I say that what I want to do is to use this funding creatively to secure the future of the industry, not just in the uplands, but across the country? I think that it is vital that we invest in agricultural businesses, wherever they may be, to secure the future that we all want to see for the rural economy of Wales. I want to make sure that there is room in the RDP for investments to develop rural businesses and the rural economy, and I welcome the discussion that I am sure that we will have on that and I would welcome any suggestions that you have in relation to that and how we should go about that. The points that you make are points that I agree with and I would like to see the exact type of investment and support for agricultural businesses that you have outlined.

Gwnaethoch ofyn i mi pa fath o newidiadau a fydd i Glastir. Byddaf yn gwneud datganiad ychwanegol ar hynny, sef datganiad ysgrifenedig ar Glastir, wythnos nesaf. Liciwn i aros nes fy mod i'n gwneud y datganiad hwnnw i drafod hynny. Dywedaf hyn: rwy'n gweld bod angen newidiadau sylfaenol i Glastir, newidiadau a fydd yn newid y prosiect i sicrhau bod gennym raglen amgylcheddol yn y CAP nesaf a fydd yn ein galluogi ni i gyrraedd ein targedau ar gyfer yr ucheldiroedd ac ar gyfer yr amgylchedd hefyd i sicrhau bod amaethyddiaeth yn ddiwydiant cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

You asked me what type of changes there will be in relation to Glastir. I will make an additional statement on that, a written statement on Glastir, next week. I would like to wait until I make that statement to discuss this. I would say this: I see that fundamental changes need to be made to Glastir, changes that will change the project to ensure that we have an environmental programme in place for the next CAP that will allow us to achieve our targets for the uplands as well as for the environment to ensure that agriculture is a sustainable industry for the future.

Rydych yn hollol iawn hefyd am gyfathrebu. Rydym yn buddsoddi ar hyn o bryd er mwyn cryfhau'r hyn rydym yn ei wneud wrth gyfathrebu gyda ffermwyr. Mae hyn yn rhan o'r broses 'Working Smarter', wrth gwrs. Mae'n rhywbeth rwyf wedi adrodd yn ôl i'r Cynulliad yn ei gylch mewn sawl achos, Llyr, ers i mi fod yn rhan o'r Llywodraeth. Mae hwn yn fuddsoddiad yr ydym yn parhau i'w wneud.

You are quite right in terms of communication as well. We are currently investing to strengthen what we are doing when we communicate with farmers. This is part of the Working Smarter process, of course. This is something on which I have reported back to the Assembly on a number of cases, Llyr, since I have been in Government. This is an investment that we will continue to make.

16:21 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for your statement. Obviously, the sustainability of food production in Wales is as much an urban issue as it is a rural issue. I wondered whether you could give us a bit more information about how your differential payments are going to lead to an increase in the amount of activity in relation to food production, both for the population of Wales and for other regions and nations. We obviously have huge opportunities in Wales because we have so much water, which is the new gold. Water has created a lot of problems recently, with too much water, but the lack of water means that we are unable to produce food. The adulteration of food by manufacturers, whether it is horsemeat, sugar or harmful trans fats is something that is neither sustainable nor affordable for our national health service, and I wondered whether you could tell us a little bit more about how these differential payments can encourage a more sustainable food industry, both for us in Wales and for the wider areas?

Diolch ichi am eich datganiad. Wrth gwrs, mae cynaliadwyedd cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn fater trefol yn gymaint ag y mae'n fater gwledig. Tybed a allech roi ychydig mwy o wybodaeth inni am sut y bydd eich taliadau gwahaniaethol yn arwain at gynnydd mewn gweithgarwch o ran cynhyrchu bwyd, a hynny i boblogaeth Cymru ac i ranbarthau a gwledydd eraill? Mae'n amlwg fod gennym gyfleoedd aruthrol yng Nghymru am fod gennym gymaint o ddŵr, sef yr aur newydd. Mae dŵr wedi creu llawer o broblemau'n ddiweddar, gyda gormod o ddŵr, ond mae diffyg dŵr yn golygu na allwn gynhyrchu bwyd. Mae difwyno bwyd gan weithgynhyrchwyr, p'un a yw'n gig ceffyl, yn siwgr neu'n frasterau trans niweidiol yn rhywbeth nad yw'n gynaliadwy nac yn fforddiadwy i'n gwasanaeth iechyd gwladol, a tybed a allech ddweud ychydig mwy wrthym am sut y gall y taliadau gwahaniaethol hyn annog diwydiant bwyd mwy cynaliadwy, i ni yng Nghymru ac i'r ardaloedd ehangach?

Lastly, I wonder whether I could ask you about the cap on higher payments, which I believe that you have set at €300,000, which is a very high sum. Can you tell us why you have not set it at a slightly lower sum than that?

Yn olaf, tybed a gaf i ofyn ichi am y cap ar daliadau uwch; rwyf yn credu eich bod wedi ei osod ar €300,000, sy'n swm uchel iawn. A allwch ddweud wrthym pam nad ydych wedi ei osod ychydig yn is na hynny?

16:23 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much. I have set the capping limits at the rates made available under the regulations. We will be applying a cap to payments over €150,000, on a differential basis, up to €300,000, where there will be a 100% cap. We will be capping payments at €150,000 from 15%, and that will lead to a 100% cap at €300,000. We are doing that in a very progressive way in order to ensure that very large payments enable farmers to contribute to work that is carried out in pillar 2, and all capping payments will be transferred to pillar 2. Pillar 2 is important in terms of your question. Sustainability is absolutely fundamental to the ability of food producers to continue to provide excellent and high-quality food into the future. The purpose of pillar 2 is to work alongside pillar 1 to ensure that food production is done in a sustainable fashion—both environmentally sustainable and financially sustainable—that we are able to ensure that the food chain in Wales is sustainable and that we are able to make further investments in the food chain in Wales. What I am absolutely convinced about is that we need a pillar 2 that is of substance and that is able to invest not only in the agriculture industry, but in the wider rural economy.

Diolch yn fawr iawn. Rwyf wedi gosod y terfynau capio ar y cyfraddau a oedd ar gael o dan y rheoliadau. Byddwn yn capio taliadau dros €150,000, ar sail wahaniaethol, hyd at €300,000, lle bydd cap 100%. Byddwn yn capio taliadau ar €150,000 o 15%, a bydd hynny'n arwain at gap 100% ar €300,000. Rydym yn gwneud hynny mewn ffordd flaengar iawn er mwyn sicrhau bod taliadau mawr iawn yn galluogi ffermwyr i gyfrannu at waith a wneir yng ngholofn 2, a chaiff yr holl daliadau capio eu trosglwyddo i golofn 2. Mae colofn 2 yn bwysig o ran eich cwestiwn. Mae cynaliadwyedd yn gwbl hanfodol i allu cynhyrchwyr bwyd i barhau i ddarparu bwyd rhagorol o ansawdd uchel yn y dyfodol. Pwrpas colofn 2 yw gweithio ochr yn ochr â cholofn 1 i sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy—o safbwynt amgylcheddol ac ariannol—fel y gallwn sicrhau bod y gadwyn fwyd yng Nghymru'n gynaliadwy a'n bod yn gallu gwneud buddsoddiadau pellach yn y gadwyn fwyd yng Nghymru. Yr hyn yr wyf yn gwbl argyhoeddedig ohono yw bod arnom angen colofn 2 sydd o sylwedd ac sy'n gallu buddsoddi nid yn unig yn y diwydiant amaeth, ond yn yr economi wledig ehangach.

16:25 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for today's statement.

Thank you also for affording us a briefing earlier, as party spokespeople, on some of these wider issues. On the whole, I think that farmers will be pleased to an extent today that there is, at least, a greater degree of clarity on many of the aspects around the CAP because there is nothing that could be more debilitating than prolonged uncertainty. I think that we have had that for some time during this extended process. Without wishing to cover the ground that other colleagues have covered, I would like to confine my comments and questions to a couple of the finer points of your decision.

Diolch hefyd am gynnig sesiwn wybodaeth inni'n gynharach, fel llefarwyr y pleidiau, am rai o'r materion ehangach hyn. Ar y cyfan, rwyf yn meddwl y bydd ffermwyr yn falch i raddau heddiw fod yna, o leiaf, fwy o eglurder ar lawer o'r agweddau sy'n gysylltiedig â'r PAC gan nad oes dim a allai fod yn fwy o faen tramgwydd nag ansicrwydd parhaus. Rwyf yn meddwl bod hynny wedi bod gyda ni ers peth amser yn ystod y broses estynedig hon. Heb ddymuno codi'r un pwyntiau â chydweithwyr eraill, hoffwn gyfyngu fy sylwadau a'm cwestiynau i un neu ddau o bwyntiau manylach eich penderfyniad.

Looking first at the raising of the minimum holding size that is eligible for claim to 5 ha, I note that it is now the case that some smaller farms that remain eligible for Glastir are now no longer eligible for the single farm payment. What assessment have you made of the losses that will be sustained? Perhaps you could give us some clarity on this matter.

A throi yn gyntaf ar godi isafswm maint y daliad sy'n gymwys ar gyfer gwneud cais i 5 ha, sylwaf ei bod bellach yn wir fod rhai ffermydd llai o faint sy'n dal i fod yn gymwys ar gyfer Glastir nad ydynt bellach yn gymwys ar gyfer y taliad sengl. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o'r colledion y bydd hynny'n eu hachosi? Efallai y gallech roi rhywfaint o eglurder am y mater hwn ini.

Looking also at the number of land categories, I see that you settled for the three-category model. While some farmers had advocated just a simple approach of having two, I understand the point that you made regarding the limited impact that this will have. I am also pleased to see that you have kept moorland separate, as I would argue that that is sensible in terms of the targeting within the future RDP.

Wrth edrych hefyd ar nifer y categorïau tir, gwelaf eich bod wedi setlo ar y model tri chategori. Er bod rhai ffermwyr wedi argymell dull syml o gael dim ond dau, rwyf yn deall y pwynt a wnaethoch ynglŷn â'r effaith gyfyngedig y bydd hyn yn ei chael. Rwyf hefyd yn falch o weld eich bod wedi cadw rhostir ar wahân; byddwn yn dadlau bod hynny'n synhwyrol o ran targedu o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol.

Turning to greening, it is good to see that there is a level of consistency in deciding to implement this without the much-feared gold-plating—something that the unions have made a consistent plea should be avoided. Given this, would you please be willing to narrow down the timing of some of the forthcoming greening discussions so that colleagues across the industry can be clear on this, with also some indication of timing of when further detail will emerge?

A throi at daliadau gwyrddu, mae'n braf gweld rhywfaint o gysondeb wrth benderfynu gweithredu hyn heb y platio aur yr oedd llawer yn ei ofni—rhywbeth y mae'r undebau wedi erfyn yn gyson arnoch i'w osgoi. Ac ystyried hyn, a fyddech yn fodlon rhoi syniad inni o amseriad rhai o'r trafodaethau sydd i ddod am daliadau gwyrddu fel y gall cydweithwyr ar draws y diwydiant fod yn glir am hyn, a rhoi rhywfaint o syniad hefyd o bryd y daw mwy o fanylion i'r amlwg?

I share the concerns that have been widely expressed in the Chamber and across the Welsh agricultural sector with regard to the announcement that you made before Christmas regarding the transfer of the full 15% to pillar 2, which is unique in any neighbouring countries within the UK, the devolved administrations, or indeed other competitors across the European Union. While being disappointed to see that the tone of the section of your statement regarding the ANC appears to rule this out, to what extent are you still open to the RDP providing meaningful support to our hard-pressed upland farmers? As we well recognise, this is not just a matter of efficiency in the industry but also a matter of plain social justice.

Rwyf yn rhannu'r pryderon a fynegwyd yn eang yn y Siambr ac ar draws sector amaethyddol Cymru o ran y cyhoeddiad a wnaethoch cyn y Nadolig ynghylch trosglwyddo'r 15% llawn i golofn 2, sy'n unigryw ymysg gwledydd cyfagos o fewn y DU, y gweinyddiaethau datganoledig, ac yn wir gystadleuwyr eraill ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Er ein bod yn siomedig o weld ei bod yn ymddangos bod tôn y rhan o'ch datganiad sy'n ymwneud â'r Ardal â Chyfyngiadau Naturiol yn diystyru hyn, i ba raddau ydych chi'n dal i fod yn agored i'r posibilrwydd y gallai'r Cynllun Datblygu Gwledig ddarparu cymorth ystyrlon i ffermwyr yr ucheldir sydd o dan bwysau? Fel yr ydym yn gwybod yn iawn, nid dim ond mater o effeithlonrwydd yn y diwydiant yw hyn; mae'n fater o gyfiawnder cymdeithasol.

While there have been really good examples of the RDP delivering through Farming Connect, and also through projects the length and breadth of Wales—and I know that Glastir has been particularly successful in my native Powys—what can you do, Minister, to drive down the central administration costs, which sometimes in RDP-related projects represent surely too high a spend in terms of what is actually delivered in terms of benefit? Diolch yn fawr.

Er y bu enghreifftiau da iawn lle gwelwyd y Cynllun Datblygu Gwledig yn cyflawni drwy Cyswllt Ffermio, a hefyd drwy brosiectau ar hyd a lled Cymru—a gwn fod Glastir wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn fy ardal i, Powys—beth y gallwch ei wneud, Weinidog, i leihau costau gweinyddiaeth ganolog, sydd weithiau mewn prosiectau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Gwledig, onid ydynt, yn achosi gwariant rhy uchel o ran y budd a geir mewn gwirionedd? Diolch yn fawr.

16:28 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I thank the Liberal Democrats for their generally warm support for most of the proposals that I have announced today. In looking at this statement, it is important not to look at it in isolation but to look at it alongside the consultation that I will launch next week on Glastir, the statement that I will make in two weeks' time on resilience and upland support, and then the consultation on the rural development plan that I will lunch formally on 13 February. I hope that the Liberal Democrats and others will take these announcements together as a suite of policy initiatives, which, taken together, will provide the sort of business support that Welsh agriculture needs to ensure that we are able to invest in the long term and not just survive in the short term.

Unwaith eto, diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am eu cefnogaeth gynnes yn gyffredinol i'r rhan fwyaf o'r cynigion yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw. Wrth edrych ar y datganiad hwn, mae'n bwysig peidio ag edrych arno ar wahân, ond edrych arno ochr yn ochr â'r ymgynghoriad y byddaf yn ei lansio'r wythnos nesaf am Glastir, y datganiad y byddaf yn ei wneud ymhen pythefnos am wytnwch a chymorth ucheldir, ac yna'r ymgynghoriad ar y cynllun datblygu gwledig y byddaf yn ei lansio'n ffurfiol ar 13 Chwefror. Rwyf yn gobeithio y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol ac eraill yn gweld y cyhoeddiadau hyn gyda'i gilydd fel cyfres o fentrau polisi, a fydd, gyda'i gilydd, yn darparu'r math o gymorth busnes sydd ei angen ar amaethyddiaeth yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gallu buddsoddi yn y tymor hir ac nid dim ond goroesi yn y tymor byr.

The point that you make on small farms is, I think, a minor point; we do not believe that there will be any significant impact to Welsh agriculture by the change that we have made. The small farms over 3 ha and below 5 ha will, as you suggest, still be able to be a part of Glastir and will still have access to public support through pillar 2. The issue of greening, to which you referred, is again something that we will implement over the coming period. The point made by Llyr Huws Gruffydd about communication, and about ensuring that the industry is informed about how we deliver that, is something that we will be bearing in mind in driving forward some of these ideas.

Mae'r pwynt a wnewch am ffermydd bach, yn fy marn i, yn bwynt bach; nid ydym yn credu y bydd unrhyw effaith sylweddol ar amaethyddiaeth yng Nghymru o ganlyniad i'r newid yr ydym wedi'i wneud. Bydd y ffermydd bach dros 3 ha ac o dan 5 ha, fel yr awgrymwch, yn dal i allu bod yn rhan o Glastir, a byddant yn dal i allu cael cymorth cyhoeddus drwy golofn 2. Mae mater y taliadau gwyrddu, y cyfeiriasoch atynt, eto'n rhywbeth y byddwn yn ei weithredu dros y cyfnod sydd i ddod. Mae'r pwynt a wnaeth Llyr Huws Gruffydd ynglŷn â chyfathrebu, a sicrhau bod y diwydiant yn cael gwybod sut yr ydym yn cyflawni hynny, yn rhywbeth y byddwn yn ei gofio wrth fwrw ymlaen â rhai o'r syniadau hyn.

You referred to the 15% modulation figure. Again, I would have more sympathy with the points that you make had you paid any attention, or had you provided me with any support at all, over the last two years, when I fought hard for a CAP budget that was being cut by a Government that you support in London. We have to ensure that, in providing support under pillar 1, we do so in a way that is complemented by the work that we do in pillar 2. I hope that, in pillar 2, we will be able to develop a business support programme for Welsh agriculture that will enable farm businesses to invest in efficiency, invest in productivity and invest in profitability, and which will mean that our farms are the strongest farm businesses on these islands, that our farms will be able to compete in the future and that our farms are not simply dependent on a diminishing public resource. CAP pillar 1 payments, as we have seen, have fallen in recent years. They will continue to fall in the future. If we simply look at the short term, we will lose the long term. This statement is about radical reform of public support for agriculture to ensure that we have the strongest possible industry in the future and not simply an industry that is struggling on a subsidy.

Cyfeiriasoch at y ffigur modiwleiddio 15%. Unwaith eto, byddai gennyf fwy o gydymdeimlad â'r pwyntiau a wnewch pe baech wedi talu unrhyw sylw, neu pe baech wedi rhoi unrhyw gymorth o gwbl imi, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, pan fûm yn ymladd yn galed am gyllideb PAC a oedd yn cael ei thorri gan Lywodraeth yr ydych yn ei chefnogi yn Llundain. Mae'n rhaid inni sicrhau, wrth ddarparu cymorth o dan golofn 1, ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd y mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud yng ngholofn 2 yn ei ategu. Rwyf yn gobeithio, yng ngholofn 2, y gallwn ddatblygu rhaglen cymorth busnes ar gyfer amaethyddiaeth Cymru a fydd yn galluogi busnesau fferm i fuddsoddi mewn effeithlonrwydd, buddsoddi mewn cynhyrchiant a buddsoddi mewn proffidioldeb, ac a fydd yn golygu mai ein ffermydd ni yw'r busnesau fferm cryfaf ar yr ynysoedd hyn, y bydd ein ffermydd yn gallu cystadlu yn y dyfodol ac nad yw ein ffermydd yn gwbl ddibynnol ar adnodd cyhoeddus sy'n lleihau. Mae taliadau PAC colofn 1, fel y gwelsom, wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Byddant yn parhau i ostwng yn y dyfodol. Os edrychwn ar y tymor byr yn unig, byddwn yn colli'r tymor hir. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â diwygiadau radical i gymorth cyhoeddus i amaethyddiaeth er mwyn sicrhau bod gennym y diwydiant cryfaf posibl yn y dyfodol ac nid dim ond diwydiant sy'n ei chael yn anodd ar gymhorthdal.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let us have questions now, please. I call on Russell George.

Gadewch inni gael cwestiynau yn awr, os gwelwch yn dda. Galwaf ar Russell George.

16:31 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also thank the Minister for his statement. I understand the need to transfer money from pillar 1 to pillar 2. The proposed rate, compared with other parts of the UK and across Europe, is very unfortunate. However, I welcome other aspects of his statement today, and it is important to say that.

Rwyf finnau am ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Rwyf yn deall bod angen trosglwyddo arian o golofn 1 i golofn 2. Mae'r gyfradd arfaethedig, o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU ac ar draws Ewrop, yn anffodus iawn. Fodd bynnag, croesawaf agweddau eraill ar ei ddatganiad heddiw, ac mae'n bwysig dweud hynny.

In terms of questions, I believe that Welsh farmers will be more supportive of this allocation change if they knew exactly what the Welsh Government intended to do with the £286 million and how that money was going to help with sustainable diversification, capital grant support, improving young entrant schemes and developing and enhancing sector skills. Minister, in making this announcement today, you must clearly have some thoughts on those issues. I would appreciate it if you could flesh out some of those aspects. In terms of the letter to the Environment and Sustainability Committee, you indicated that sector supply chains needed strengthening. Therefore, how does the Government intend to do that within the new RDP, and how will the extra allocation to pillar 2 enable that improvement to take place?

O ran cwestiynau, rwyf yn credu y byddai ffermwyr Cymru'n fwy cefnogol i'r newid dyraniad hwn pe byddent yn gwybod yn union beth yr oedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei wneud â'r £286 miliwn a sut yr oedd yr arian hwnnw'n mynd i helpu ag arallgyfeirio cynaliadwy, cymorth grant cyfalaf, gwella cynlluniau ffermwyr ifanc a datblygu a gwella sgiliau'r sector. Weinidog, wrth wneud y cyhoeddiad hwn heddiw, mae'n rhaid bod gennych farn am y materion hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ar rai o'r agweddau hynny. O ran y llythyr at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, dywedasoch fod angen cryfhau cadwyni cyflenwi'r sector. Felly, sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud hynny o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig newydd, a sut y bydd y dyraniad ychwanegol i golofn 2 yn caniatáu i'r gwelliant hwnnw ddigwydd?

16:33 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I might test the patience of the Deputy Presiding Officer to breaking point if I answered all of those questions as fully as you might wish. Let me say this: I have said in answer to previous questions that pillar 1 and pillar 2 need to be seen as complementary, working together to deliver effective support for an efficient, profitable and prosperous farming industry that will deliver excellence in food production today and in the future, and will be sustainable financially and environmentally. We are looking at how we do that. We will be making announcements, as I said, on Glastir next week. I will be making a formal announcement on the future of the RDP on 13 February, and I look forward to the comments that you would wish to make at that time. I look forward to the debate and ideas that you might have to help deliver that, when we launch that consultation next month.

Efallai y byddwn yn rhoi gormod o brawf ar amynedd y Dirprwy Lywydd pe bawn yn ateb pob un o'r cwestiynau hynny mor llawn ag y dymunech. Gadewch imi ddweud hyn: rwyf wedi dweud wrth ateb cwestiynau blaenorol fod angen ystyried bod colofn 1 a cholofn 2 yn ategu'r naill a'r llall, yn gweithio gyda'i gilydd i roi cymorth effeithiol i ddiwydiant ffermio effeithlon, proffidiol a ffyniannus a fydd yn cyflawni rhagoriaeth o ran cynhyrchu bwyd heddiw ac yn y dyfodol, ac a fydd yn gynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol. Rydym yn edrych ar sut yr ydym yn gwneud hynny. Byddwn yn gwneud cyhoeddiadau, fel y dywedais, am Glastir yr wythnos nesaf. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad ffurfiol am ddyfodol y Cynllun Datblygu Gwledig ar 13 Chwefror, ac edrychaf ymlaen at y sylwadau y byddwch am eu gwneud bryd hynny. Edrychaf ymlaen at y ddadl ac at glywed y syniadau a allai fod gennych i helpu i gyflawni hynny, pan fyddwn yn lansio'r ymgynghoriad hwnnw y mis nesaf.

16:33 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, for full transparency's sake, I would draw Members' attention to my entry in the register of Members' interests—my husband is a partner in a business that receives SFPs—before I read about it in the 'Western Mail'. Minister, given your commitment to not commit at this stage to an uplands scheme for ANCs and your decision to raise the maximum amount of modulation rate, how will you ensure that the competitive disadvantage at which you have put farmers in my constituency immediately through these decisions, as opposed to farmers in Northern Ireland, Scotland and England, will be overcome by your decisions in pillar 2?

Ddirprwy Lywydd, er mwyn sicrhau tryloywder llawn, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at fy nghofnod yn y gofrestr o ddiddordebau Aelodau—mae fy ngŵr yn bartner mewn busnes sy'n cael taliadau sengl—cyn imi ddarllen amdano yn y 'Western Mail'. Weinidog, ac ystyried eich ymrwymiad i beidio ag ymrwymo ar hyn o bryd i gynllun ucheldir ar gyfer Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol a'ch penderfyniad i godi uchafswm y gyfradd fodiwleiddio, sut y byddwch yn sicrhau bod eich penderfyniadau am golofn 2 yn drech na'r anfantais gystadleuol yr ydych wedi'i rhoi i ffermwyr yn fy etholaeth yn uniongyrchol drwy'r penderfyniadau hyn, yn wahanol i ffermwyr yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr?

16:34

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You will be aware that Kevin Roberts wrote me a letter earlier today, saying that he would outline an uplands package that I will respond to in two weeks' time. You will see from the business statement that there will be an oral statement in two weeks' time, where those matters will be discussed. However, let me say this: your constituents, and farmers in Wales, will not be disadvantaged by a modulation rate of 15%. They will be disadvantaged by a Government that cares for the short term, and not the long term. A farm business, like any other business, will survive and prosper if it is efficient and if it is market-facing and able to deliver the product that the customer needs at a price the customer is likely to pay. The efficiency comes not from subsidy, but from good business management. We are investing in good business management and business development, and your constituents and others' constituents will all benefit from that.

Byddwch yn ymwybodol fod Kevin Roberts wedi ysgrifennu llythyr ataf yn gynharach heddiw, yn dweud y byddai'n amlinellu pecyn ucheldir y byddaf yn ymateb iddo ymhen pythefnos. Fe welwch o'r datganiad busnes y bydd datganiad llafar ymhen pythefnos, lle caiff y materion hynny eu trafod. Fodd bynnag, gadewch imi ddweud hyn: ni fydd eich etholwyr, na ffermwyr yng Nghymru, o dan anfantais oherwydd cyfradd fodiwleiddio 15%. Byddant o dan anfantais oherwydd Llywodraeth sy'n gofalu am y tymor byr, ac nid y tymor hir. Bydd busnes fferm, fel unrhyw fusnes arall, yn goroesi ac yn ffynnu os yw'n effeithlon ac yn wynebu'r farchnad ac yn gallu cyflenwi'r cynnyrch sydd ei angen ar y cwsmer am bris y mae'r cwsmer yn debygol o'i dalu. Nid o gymhorthdal y mae'r effeithlonrwydd yn dod, ond o reoli busnes da. Rydym yn buddsoddi mewn rheoli busnes da a datblygu busnes, a bydd eich etholwyr chi ac etholwyr Aelodau eraill i gyd yn elwa o hynny.

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Although the Conservatives do not really deserve to have their leader called, I have made a new year's resolution to be less grumpy in the Chamber, so, I call on Andrew R.T. Davies.

Er nad yw'r Ceidwadwyr yn haeddu i'w harweinydd gael ei alw, rwyf wedi gwneud adduned blwyddyn newydd i fod yn llai blin yn y Siambr, felly, galwaf ar Andrew R.T. Davies.

16:35

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I ask the Chamber to note my declaration in the register of Members' interests, because I, too, would not want a Government press officer alerting the 'Western Mail' that I had not declared that, so I draw Members' attention to that.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gofynnaf i'r Siambr nodi fy natganiad yng nghofrestr buddiannau'r Aelodau, oherwydd ni fyddwn innau ychwaith am i un o swyddogion y wasg y Llywodraeth dynnu sylw'r 'Western Mail' at y ffaith nad oeddwn wedi datgan hynny, felly rwyf yn tynnu sylw'r Aelodau at hynny.

I would ask the Minister to outline clearly how he thinks that a modulated rate of 15% ,when Italy is 0%, France is 3% and the Republic of Ireland is 0%--and we are going to be 15% in modulation—will enable Welsh farms to be competitive? You have talked about efficiencies, you have talked about the consultancy work that will be undertaken out of pillar 2 payments—I presume that is what you were referring to—but how on earth can a modulated rate of 15% make Welsh agriculture more competitive and, more importantly, support the agri-food industry that depends on the primary product that farmers produce and which sustains tens of thousands of jobs throughout the Welsh economy?

Gofynnaf i'r Gweinidog amlinellu'n glir sut y mae'n credu y bydd cyfradd fodiwleiddio o 15%, pan fo'r Eidal ar 0%, Ffrainc ar 3% a Gweriniaeth Iwerddon ar 0%—a byddwn ni'n modiwleiddio ar 15%—yn galluogi ffermydd Cymru i fod yn gystadleuol? Rydych wedi sôn am arbedion effeithlonrwydd, rydych wedi sôn am y gwaith ymgynghori a wneir o daliadau colofn 2—rwyf yn tybio mai dyna'r oeddech yn cyfeirio ato—ond sut ar y ddaear y gall cyfradd fodiwleiddio o 15% wneud amaethyddiaeth Cymru'n fwy cystadleuol ac, yn bwysicach, gynorthwyo'r diwydiant bwyd-amaeth sy'n dibynnu ar y cynnyrch sylfaenol y mae ffermwyr yn ei gynhyrchu ac sy'n cynnal degau o filoedd o swyddi ar draws economi Cymru?

16:36 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am fascinated that you believe that efficiency and productivity is aided by a subsidy regime. This is something that is unique and which I have not heard from the Conservatives before. I look forward to your economic development spokesperson expanding on this theme in future debates. Let me say this: if you look at the different sectors in agriculture, you will see that there is a significant difference between those who are most efficient and those who are least efficient. If you take the upland cattle and sheep sector for one moment—[Interruption]. Let me answer the question you asked. The top third of that sector delivers 42% more agricultural output than the sector average. That is an extraordinary differential. That differential is not going to be bridged by increased public subvention and increased public subsidies at a time of declining public finances. Let me say this to you: we know, and you should know, that the CAP pillar 1 budget has been under pressure, mainly from your own party and your own Government in London, and that there will be a decline in pillar 1 subsidy levels over the next seven years, and there will be after 2020. It would be a historic act of irresponsibility if this Government stood back and said, 'We will do nothing about that except wring our hands and write press releases and make speeches'. We will roll up our sleeves and invest in business development in agriculture to ensure that our agriculture businesses are fit and sustainable for the future. Competitiveness in international markets derives from efficient, well-run farm businesses able to derive a profit from the products that they produce. It does not derive from relying on a diminishing subsidy regime. That direction is not the direction that will take Welsh agriculture forward to a successful future. That is what I want. I want you to join me, and I want you to help me deliver that, but if you simply look to the past and a subsidy regime that has not delivered efficiency in the past, you will not be a part of the future of Welsh agriculture.

Rwyf yn rhyfeddu eich bod yn credu bod cyfundrefn cymorthdaliadau yn helpu effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae hyn yn rhywbeth sy'n unigryw ac nad wyf wedi'i glywed gan y Ceidwadwyr o'r blaen. Edrychaf ymlaen at glywed eich llefarydd datblygu economaidd yn ymhelaethu ar y thema hon mewn dadleuon yn y dyfodol. Gadewch i mi ddweud hyn: os edrychwch ar y gwahanol sectorau o fewn amaethyddiaeth, fe welwch fod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y rhai mwyaf effeithlon a'r rhai lleiaf effeithlon. Os edrychwch ar sector gwartheg a defaid yr ucheldir am foment—[Torri ar draws]. Gadewch imi ateb eich cwestiwn. Mae traean uchaf y sector hwnnw'n cyflenwi 42% yn fwy o allbwn amaethyddol na chyfartaledd y sector. Mae hwnnw'n wahaniaeth rhyfeddol. Ni allwn bontio'r gwahaniaeth hwnnw drwy gynyddu cymorthdaliadau cyhoeddus ar adeg pan fo cyllid cyhoeddus yn lleihau. Gadewch imi ddweud hyn wrthych: rydym ni'n gwybod, a dylech chi wybod, fod cyllideb colofn 1 y PAC wedi bod o dan bwysau, yn bennaf o du eich plaid eich hun a'ch Llywodraeth eich hun yn Llundain, ac y bydd gostyngiad yng nghymorthdaliadau colofn 1 dros y saith mlynedd nesaf, ac eto ar ôl 2020. Byddai'n weithred hanesyddol o anghyfrifol i'r Llywodraeth hon sefyll yn ôl a dweud, 'Nid ydym yn mynd i wneud dim am hynny ond llaesu ein dwylo ac ysgrifennu datganiadau i'r wasg a gwneud areithiau'. Rydym yn mynd i dorchi llewys a buddsoddi mewn datblygu busnesau amaethyddiaeth i sicrhau bod ein busnesau amaethyddiaeth yn addas ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae cystadleurwydd mewn marchnadoedd rhyngwladol yn deillio o fusnesau fferm effeithlon sy'n cael eu rhedeg yn dda ac sy'n gallu gwneud elw o'r hyn y maent yn ei gynhyrchu. Nid yw'n deillio o ddibynnu ar drefn cymorthdaliadau sy'n crebachu. Nid dyna'r cyfeiriad a fydd yn sicrhau dyfodol llwyddiannus i amaethyddiaeth Cymru. Dyna'r hyn sydd arnaf ei eisiau. Hoffwn ichi ymuno â mi, a hoffwn ichi fy helpu i gyflawni hynny, ond os byddwch yn mynnu edrych tua'r gorffennol tuag at drefn cymorthdaliadau nad yw wedi sicrhau effeithlonrwydd yn y gorffennol, ni fyddwch yn rhan o ddyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 16:38.*

*The Presiding Officer took the Chair at 16:38.*

# Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â Diwygio Adran 98(1) o'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002

# Supplementary Legislative Consent Motion on the Children and Families Bill in respect of an Amendment in relation to Section 98(1) of the Adoption and Children Act 2002

Cynnig NDM5383 Gwenda Thomas

Motion NDM5383 Gwenda Thomas

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd sy'n ymwneud â diwygiadau i adran 98(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Children and Families Bill, relating to amendments to section 98(1) of the Adoption and Children Act 2002 in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:38 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Thank you for this opportunity to explain the background to the legislative consent motion on the UK Government's Children and Families Bill, as laid before the Assembly on 4 December. The LCM is the result of a very late amendment proposed by the Department for Education, initiated by Baroness Butler-Sloss and Baroness Hamwee, who brought this important matter to the UK Government's attention, both earlier this year through the report of the House of Lords Select Committee on Adoption Legislation, and through this proposed clause within the Children and Families Bill.

Diolch i chi am y cyfle hwn i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar Fil Plant a Theuluoedd Llywodraeth y DU, fel y'i gosodwyd gerbron y Cynulliad ar 4 Rhagfyr. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ganlyniad gwelliant hwyr iawn a gynigiwyd gan yr Adran Addysg, ac a gychwynnwyd gan y Farwnes Butler-Sloss a'r Farwnes Hamwee. Daethpwyd â'r mater pwysig hwn i sylw Llywodraeth y DU, yn gynharach eleni drwy adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Ddeddfwriaeth Mabwysiadu, a thrwy'r cymal arfaethedig o fewn y Bil Plant a Theuluoedd.

The Adoption and Children Act 2002 is the legislative framework that enshrines adoption law in England and Wales. It is a stand-alone Act that replaced the Adoption Act 1976. The effect of an adoption order is to legally sever the relationship between an adopted child and the birth family, so that the adopted person is treated as a child of their adoptive family, not their birth family. Adoptions before the introduction of the Adoption and Children Act 2002 were often shrouded in secrecy, with very limited information shared with the child, or his or her birth parents. The adoptions that preceded the implementation of the 2002 Act—pre-commencement adoptions—maintain the position that had existed under the 1976 Act. The introduction of the 2002 Act changed the culture around adoption and encouraged more openness. Children are now given a life-story book, which helps them to understand their early history and life before their adoption, and a later-life letter, which explains their history from birth in sufficient detail so that they, on reaching adolescence and becoming a young adult, are able to understand why they were adopted.

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yw'r fframwaith deddfwriaethol sy'n corffori cyfraith mabwysiadu yng Nghymru a Lloegr. Mae'n Ddeddf annibynnol a ddisodlodd Ddeddf Mabwysiadu 1976. Effaith gorchymyn mabwysiadu yw torri'r berthynas rhwng plentyn a fabwysiadwyd a'r teulu biolegol yn gyfreithiol, fel bod y sawl a fabwysiadwyd yn cael ei drin fel plentyn y teulu mabwysiadol, nid eu teulu biolegol. Roedd y broses fabwysiadau, cyn cyflwyno Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, yn aml yn cael ei chynnal dan len o gyfrinachedd, a gwybodaeth gyfyngedig iawn yn cael ei rhannu gyda'r plentyn, neu ei rhieni neu rieni biolegol. Mae'r achosion o fabwysiadu a ragflaenodd Ddeddf 2002 — mabwysiadau cyn-gychwyn—yn cynnal y sefyllfa a oedd yn bodoli o dan Ddeddf 1976. Newidiwyd y diwylliant ym maes mabwysiadu yn sgil cyflwyno Deddf 2002, gan annog agwedd fwy agored. Mae plant bellach yn cael llyfrau hanes bywyd, sy'n eu helpu i ddeall eu hanes cynnar a'u bywyd cyn iddynt gael eu mabwysiadu, a llythyr bywyd diweddarach, sy'n egluro eu hanes o'u genedigaeth yn ddigon manwl fel eu bod yn gallu deall, ar ôl cyrraedd llencyndod a dod yn oedolion ifanc, pam y cawsant eu mabwysiadu.

All those adopted on or after 30 December 2005, including the adopted person, their birth relatives and their descendants, can apply to an adoption agency for information relating to the adoption. It is then a matter for the agency's discretion whether the information is disclosed. If an adult who was adopted before 30 December 2005 did not find out about their birth family or chose not to give their descendants information about their birth family, the descendants have limited options.

Gall pawb a fabwysiadwyd ar neu ar ôl 30 Rhagfyr 2005, gan gynnwys y sawl a fabwysiadwyd, ei berthnasau biolegol a'i ddisgynyddion, wneud cais i asiantaeth fabwysiadu am wybodaeth sy'n ymwneud â'r mabwysiadu. Yna mae'n fater i ddisgresiwn yr asiantaeth a yw'r wybodaeth yn cael ei datgelu. Os nad yw oedolyn a fabwysiadwyd cyn 30 Rhagfyr 2005 wedi cael gwybod am ei deulu biolegol, neu'n dewis peidio â rhoi gwybodaeth i'w ddisgynyddion am eu teulu biolegol, mae gan opsiynau'r disgynyddion yn gyfyngedig.

At the moment, they can apply to the registrar general for a copy of the adoption certificate, but this will not have any information about the adopted person's birth. Alternatively, they are able to apply to a court under section 70(4) of the 2002 Act, which provides that, in exceptional circumstances, the court may order the registrar general to disclose the birth details of an adopted person.

Ar hyn o bryd, gallant wneud cais i'r cofrestrydd cyffredinol am gopi o'r dystysgrif mabwysiadu, ond ni fydd hon yn cynnwys unrhyw wybodaeth am enedigaeth y sawl a fabwysiadwyd. Fel arall, maent yn gallu gwneud cais i'r llys o dan adran 70 (4) o Ddeddf 2002, sy'n darparu y gall y llys, o dan amgylchiadau eithriadol, orchymyn i'r cofrestrydd cyffredinol ddatgelu manylion genedigaeth y person mabwysiedig.

Case law provides that the test for 'exceptional circumstances' is something more that the strongly held wish to know or the underlying curiosity to find out. There must be a need or benefit that must relate to the adopted person, rather than to the birth family. This is more likely to be successful in relation to passing on information about genetic diseases than in relation to genealogical research. The overall effect of the proposed provision is to change the regulation-making power in section 98(1) of the 2002 Act to enable regulations to be made to give relatives of people adopted before 30 December 2005—pre-commencement adoptions—access to intermediary services to facilitate contact between the descendants and the adopted person's birth relatives, regardless of whether the adopted person is living or dead. The types of relatives who will be affected by the new provision will be set out in regulations made by Welsh Ministers, and this new clause will place descendants on a par with the adopted person.

Mae cyfraith achos yn darparu bod y prawf ar gyfer 'amgylchiadau eithriadol' yn rhywbeth mwy na'r dymuniad cryf i wybod neu chwilfrydedd sylfaenol i gael gwybod. Rhaid bod angen neu fudd sy'n gorfod ymwneud â'r sawl a fabwysiadwyd, yn hytrach nag â'r teulu biolegol. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus o ran trosglwyddo gwybodaeth am glefydau genetig nag o ran ymchwil i achau. Effaith gyffredinol y ddarpariaeth arfaethedig yw newid y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 98(1) o Ddeddf 2002 er mwyn gallu gwneud rheoliadau i roi hawl i berthnasau pobl a fabwysiadwyd cyn 30 Rhagfyr 2005—mabwysiadau cyn-gychwyn—i dderbyn gwasanaethau cyfryngol i hwyluso cyswllt rhwng y disgynyddion a pherthnasau biolegol y sawl a fabwysiadwyd, ni waeth a yw'r unigolyn a fabwysiadwyd yn fyw neu'n farw.  Bydd y mathau o berthnasau a fydd yn cael eu heffeithio gan y ddarpariaeth newydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, a bydd y cymal newydd hwn yn rhoi disgynyddion ar yr un lefel â'r sawl a fabwysiadwyd.

We are all aware that adoption is a high-profile area for both the Welsh Government with the establishment of the national adoption service, and the UK Government in its reform of the adoption service. Intermediary services and access to information has always been an area that has featured strongly within the media in relation to family-finding and when descendants of adopted people want to find out more about their relatives' history, particularly where there is a hereditary medical condition.

Rydym i gyd yn ymwybodol fod mabwysiadu yn faes proffil uchel i Lywodraeth Cymru yn sgil sefydlu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol, ac i Lywodraeth y DU yn sgil diwygio'r gwasanaeth mabwysiadu. Mae gwasanaethau cyfryngol a hawl i weld gwybodaeth bob amser wedi cael llawer o sylw gan y cyfryngau o safbwynt canfod teulu a phan fydd disgynyddion pobl sydd wedi'u mabwysiadu yn awyddus i gael gwybod mwy am hanes eu perthnasau, yn enwedig lle yr etifeddwyd cyflwr meddygol.

Not applying the amendment to Wales may be seen as discriminating against Welsh adoptees and their families. We are already aware of the problems identified and experienced by some adoptees in their quest for information because of the differing interpretation of guidance in England and Wales. The British Association of Adoption and Fostering provided evidence to the House of Lords Select Committee expressing its concern on existing anomalies within the 2002 Act and the distress this causes. We intend to rectify and clarify this in the code of practice that will support the Social Services and Well-being (Wales) Bill. The extension of this new provision to adoptions that took place before December 2005, pre commencement, is intended to create a level playing field for those affected by adoption post 2005. You will, I am sure, agree that the exclusion of this amendment to Wales would create an unfair anomaly in the legislation.

Os na chymhwysir y gwelliant i Gymru, mae'n bosibl y gellid gweld hynny fel gwahaniaethu yn erbyn plant mabwysiedig Cymru a'u teuluoedd. Rydym eisoes yn ymwybodol o'r problemau a nodwyd ac a brofwyd gan rai pobl a fabwysiadwyd wrth geisio gwybodaeth, oherwydd i ganllawiau gael eu dehongli'n wahanol yng Nghymru a Lloegr. Darparodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain dystiolaeth i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi, yn mynegi ei phryder ynglŷn â'r anomaleddau presennol o fewn Deddf 2002 a'r trallod y mae hyn yn ei achosi. Rydym yn bwriadu cywiro ac egluro hyn yn y cod ymarfer a fydd yn cefnogi Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Y bwriad, wrth ymestyn y ddarpariaeth newydd hon i achosion o fabwysiadu a gynhaliwyd cyn Rhagfyr 2005, cyn-gychwyn, yw gwneud y sefyllfa'n deg ar gyfer rhai a effeithiwyd gan fabwysiadu ar ôl 2005. Byddwch yn cytuno, rwy'n siŵr, y byddid yn creu anghysondeb annheg yn y ddeddfwriaeth trwy beidio â chymhwyso'r gwelliant hwn i Gymru.

I would also like to mention that the Welsh Government supports scrutiny of LCMs by an Assembly committee wherever possible, but in a small minority of cases, such as this LCM, we are constrained by the UK Government bringing forward these amendments at a late stage in the Bill's Parliamentary process.

Hoffwn hefyd sôn bod Llywodraeth Cymru o blaid cael pwyllgor y Cynulliad i graffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol lle bynnag y bo'n bosibl, ond mewn lleiafrif bychan o achosion, megis y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, cyfyngir arnom gan y ffaith fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn yn hwyr ym mhroses y Bil trwy'r Senedd.

I hope that you understand that we feel that this is a welcome amendment and although insufficient time has meant that the Assembly has been unable to carry out full scrutiny by an Assembly committee, we feel that we cannot afford to miss the opportunity for this to apply in Wales.

Rwy'n gobeithio eich bod yn deall ein bod yn teimlo bod hwn yn welliant i'w groesawu, ac er nad yw'r Cynulliad wedi gallu cynnal proses graffu lawn gan un o bwyllgorau'r Cynulliad oherwydd amser annigonol, rydym yn teimlo na allwn fforddio colli'r cyfle i roi hyn ar waith yng Nghymru.

16:46 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dirprwy Weinidog, byddwn yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma. Fel y dywedoch chi, nid yw'n gwneud llawer o synnwyr bod gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr. Hefyd, rwy'n derbyn nad oes beirniadaeth ar y Llywodraeth, wrth feddwl am amserlen San Steffan. A wnaethpwyd unrhyw asesiad yng Nghymru o sut y bydd y gwasanaethau yn ymdopi â'r newidiadau hyn ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, wrth feddwl am yr holl feirniadaeth o'r gwasanaeth mabwysiadu yn yr ymchwiliad gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc? Rwy'n derbyn eich bod wedi cyflwyno gwasanaeth cenedlaethol newydd, ond mae nifer o achosion wedi'u codi gyda fy swyddfa i o fewn y misoedd diwethaf sy'n ei gwneud yn glir nad yw'r newidiadau mewn grym ar lawr gwlad.

Deputy Minister, we will be supporting the motion this afternoon. As you said, it does not make a lot of sense to have differences between England and Wales. I also accept that there is no criticism of the Government, bearing in mind the Westminster timetable. Was any assessment undertaken in Wales of how services will cope with these changes when they are introduced, given all the criticisms levelled at the adoption service in the Children and Young People Committee inquiry? I accept that you have introduced a new national service, but many cases have been raised with my office over the last few months that make it clear that the changes are yet to be introduced in practice.

16:47 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

Diolch, Aled, am y gefnogaeth. Mae'r gwasanaeth cenedlaethol yn datblygu ar draws Cymru gyfan. Mae enghreifftiau o beth sydd wedi digwydd yn y rhanbarthau sydd yn dangos bod gwaith yn cael ei wneud a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio'n fanwl gyda chynghorau. Gallaf ysgrifennu atoch, oherwydd mae gennyf ddwy dudalen o fanylion i ddangos sut mae'r gwasanaeth cenedlaethol yn datblygu—efallai y byddai hynny o help i bob Aelod. Carwn, felly, ysgrifennu at Aelodau i esbonio sut y mae'r datblygiad yn mynd yn ei flaen.

Thank you, Aled, for the support. The national service is developing across the whole of Wales. There are examples from the regions that demonstrate that work is being done and that the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Social Services have worked on the detail with councils. I can write to you, because I have two pages of details on how the national service is developing—that might be useful for all Members. I would like, therefore, to write to Members to explain how this is being developed.

16:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed, in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014

Cynnig NDM5395 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2013.

## The Public Audit (Wales) Act 2013 (Consequential Amendments) Order 2014

Motion NDM5395 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Public Audit (Wales) Act 2013 (Consequential Amendments) Order 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 26 November 2013.

16:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The Order makes provision for the modification of two pieces of legislation as a result of the powers in the Public Audit (Wales) Act 2013. The 2013 Act makes provision reforming public audit arrangements in Wales, including the continuation of the office of the Auditor General for Wales and the creation of a new corporate body—the Wales Audit Office—with a range of functions. The 2013 Act also provides for the transfer of AGW staff to the WAO, with effect from 1 April 2014. The Order does not introduce any new policy, but is required to make consequential amendments to the Government of Wales Act 1998 and the Public Audit (Wales) Act 2004 as a result of the 2013 Act, which this Assembly passed on 5 March last year.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer addasu dau ddarn o ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r pwerau yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae Deddf 2013 gwneud darpariaeth yn diwygio trefniadau archwilio cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys parhad swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru a chreu corff newydd corfforaethol—Swyddfa Archwilio Cymru— gydag ystod o swyddogaethau. Mae Deddf 2013 hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff Archwilydd Cyffredinol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru, gan ddod i rym o 1 Ebrill 2014. Nid yw'r Gorchymyn yn cyflwyno unrhyw bolisi newydd, ond mae'n ofynnol i wneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004 (Cymru) o ganlyniad i Ddeddf 2013, a gafodd ei phasio gan y Cynulliad hwn ar 5 Mawrth y llynedd.

Article 2 of the Order amends section 145B(5)(b) of the Government of Wales Act 1998. That section currently enables the AGW, at the request of a further education corporation or a higher education corporation in Wales to arrange for their accounts to be audited by one or more members of AGW staff appointed by a corporation. From 1 April 2014, the AGW will not have any staff, as on that date his staff will transfer to the employment of the corporate Wales Audit Office. In consequence, from 1 April this year, section 145B(5)(b) will be redundant. Therefore, from then, article 2 of the Order will provide a further or higher education corporation with the power to appoint the AGW to audit its accounts. The amendment does not impose the AGW as the auditor of further education and higher education corporations; those bodies will retain control over whom they decide to appoint to audit their accounts.

Mae erthygl 2 y Gorchymyn hwn yn diwygio adran 145B (5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r adran ar hyn o bryd yn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar gais corfforaeth addysg bellach neu gorfforaeth addysg uwch yng Nghymru, i drefnu bod eu cyfrifon yn cael eu harchwilio gan un neu fwy o aelodau o staff Archwilydd Cyffredinol Cymru a benodir gan gorfforaeth. O 1 Ebrill 2014, ni fydd gan yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw staff, oherwydd y bydd ei staff yn trosglwyddo ar y dyddiad hwnnw i gyflogaeth corfforaeth Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad, o 1 Ebrill eleni, mae adran 145B(5)(b) yn ddiangen. Felly, o'r adeg honno, bydd erthygl 2 o'r Gorchymyn yn darparu'r pŵer i gorfforaeth addysg bellach neu uwch benodi Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio ei chyfrifon. Nid yw'r diwygiad yn gosod Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd corfforaethau addysg uwch ac addysg bellach; bydd y cyrff hynny yn cadw rheolaeth dros bwy y byddant yn penderfynu ei benodi i archwilio eu cyfrifon.

Article 3 of the Order amends section 68 of and Schedule 3 to the Public Audit (Wales) Act 2004. The amendment will substitute references to the Wales Audit Office for reference to the AGW. Those provisions in the 2004 Act currently enable a transfer of property, rights and liabilities that are the subject of a transfer scheme from the Audit Commission and the Comptroller and Auditor General to the AGW. The effect of the amendments in the Order would be to ensure that there is no doubt that, from 1 April 2014, any future transfers would be to the new corporate WAO rather than the AGW. I commend the Order to the Assembly.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 68 ac Atodlen 3 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Bydd y diwygiad yn rhoi cyfeiriadau at Swyddfa Archwilio Cymru yn lle cyfeiriadau at Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r darpariaethau hynny yn Neddf 2004 ar hyn o bryd yn galluogi trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n destun cynllun trosglwyddo oddi wrth y Comisiwn Archwilio a'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Effaith y diwygiadau yn y Gorchymyn fyddai sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth y byddai unrhyw drosglwyddiadau yn y dyfodol, o 1 Ebrill 2014, yn cael eu gwneud i gorfforaeth newydd Swyddfa Archwilio Cymru yn hytrach nag i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cymeradwyaf y Gorchymyn i'r Cynulliad.

16:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers; do you wish to add anything, Minister? No. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill; a ydych chi am ychwanegu unrhyw beth, Weinidog? Na. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014

## The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

Cynnig NDM5392 Lesley Griffiths

Motion NDM5392 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2013.

Approves that the draft The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 9 December 2013.

16:51

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am grateful to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for making time to scrutinise these regulations to enable today's debate. Before recess, Members approved two sets of regulations, which will govern the operation of council tax reduction schemes in Wales from 1 April 2014. I notified Members then that the timing of the Chancellor's autumn statement would mean that a separate set of regulations would have to be made to uprate the financial figures used to calculate entitlement to a reduction.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am neilltuo amser i graffu ar y rheoliadau hyn i alluogi dadl heddiw. Cyn y toriad, cymeradwyodd yr Aelodau ddwy set o reoliadau, a fydd yn llywio gweithrediad cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru o 1 Ebrill 2014. Hysbysais Aelodau bryd hynny y byddai'n rhaid gwneud rheoliadau ar wahân, oherwydd amseriad datganiad yr hydref gan y Canghellor, er mwyn uwchraddio'r ffigurau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo hawl i ostyngiad.

The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2014 ensure that the figures used to calculate each applicant's entitlement are increased to take into account rises in the cost of living. To minimise the administrative burden for local authorities and to limit confusion for applicants, this uprating has been calculated in line with housing benefit uprating. While the exact impact is dependent on an applicant's particular circumstances, almost all applicants who are means-tested to determine their eligibility for a reduction would be made worse off if the uprating amendments were not made. For some applicants, this could mean having to pay a small amount of council tax for the first time. I have also taken the opportunity in making these regulations to address a number of minor technical points identified by the Constitutional and Legislative Affairs Committee during the scrutiny of the 2013 regulations. I ask Members to approve these regulations.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 yn sicrhau bod y ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl pob ymgeisydd yn cael eu cynyddu i ystyried y cynnydd mewn costau byw. Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol i awdurdodau lleol ac i gyfyngu ar ddryswch i ymgeiswyr, mae'r uwchraddio hwn wedi'i gyfrifo yn unol â'r drefn o uwchraddio budd-dal tai. Mae'r union effaith yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob ymgeisydd, ond byddai bron pob ymgeisydd y rhoddir prawf modd arnynt i benderfynu ar eu cymhwysedd i ostyngiad yn waeth eu byd pe na byddai'r diwygiadau uwchraddio'n cael eu gwneud. Gallai hyn olygu y byddai'n rhaid i rai ymgeiswyr dalu swm bach o dreth gyngor am y tro cyntaf. Rwyf hefyd wedi achub ar y cyfle wrth wneud y rheoliadau hyn i fynd i'r afael â nifer o fân bwyntiau technegol a nodwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wrth graffu ar reoliadau 2013. Gofynnaf i'r Aelodau gymeradwyo'r rheoliadau hyn.

16:53 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roeddwn yn falch iawn bod y Gweinidog wedi dweud, ar ddiwedd ei chyfraniad, bod diwygiadau wedi eu gwneud i'r rheoliadau hyn yn dilyn y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rwy'n ddigon bodlon cefnogi'r rheoliadau, ond credaf fod cwestiynau yn codi ynglŷn â'r broses. Cododd y pwyllgor nifer o gwestiynau sylfaenol yn ystod y broses ynglŷn â'r rheoliadau hyn. Credaf fod perygl ein bod ni, fel deddfwrfa, yn cael ein hunan mewn sefyllfa lle mae teimlad mai gwaith pwyllgorau craffu yw galluogi'r Llywodraeth i gyflawni ei chyfrifoldebau sylfaenol. Ni fyddai unrhyw bwyllgor yn mynd ati i rwystro'r Llywodraeth rhag gwneud hynny, ond nid dyna yw rôl y pwyllgorau craffu. Rôl y pwyllgorau hynny yw edrych yn feirniadol ar yr hyn sy'n cael ei gynnig a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gywir. Os oes cwestiynau, mae'n bwysig bod y rheini yn cael eu dilyn yn fanwl iawn.

Felly, gobeithiaf—a gobeithiaf y gall y Gweinidog gadarnhau hyn y prynhawn yma—fod gwersi wedi eu dysgu o'r broses hon. Mae'n bwysig iawn mewn sefyllfa fel hyn bod pwyntiau manwl sy'n ymwneud â deddfwriaeth sy'n cael eu codi gan bwyllgorau yn cael eu hystyried yn llawn gan y Llywodraeth a chan y Gweinidog.

I was very pleased that the Minister said, at the end of her contribution, that these regulations had been amended as a result of the points raised by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. I am happy enough to support the regulations, but I believe that there are questions to be answered with regard to the process. The committee raised a number of fundamental questions during the process with regard to these regulations. I believe that there is a danger that we, as a legislature, are getting into a position where there is a feeling that the work of scrutiny committees is to enable the Government to fulfil its basic responsibilities. No committee would set about preventing the Government from doing so, but that is not the role of scrutiny committees. Their role is to critically review what is proposed and to ensure that the legislation is correct. If there are questions, it is important that they are looked at in detail.

Therefore, I hope—hopefully the Minister can confirm this this afternoon—that lessons have been learned from this process. It is vital in a situation like this that detailed points on legislation raised by committees are fully considered by the Government and by the Minister.

16:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I thank Rhodri Glyn Thomas for making those points. I did commit to addressing a number of the minor technical points that were raised with me following scrutiny by the committee. This is the first time that I have taken through very complex regulations such as these, and I am grateful to Members for their assistance in that.

Diolch i Rhodri Glyn Thomas am wneud y pwyntiau hynny. Ymrwymais i fynd i'r afael â nifer o'r mân bwyntiau technegol a godwyd gyda mi yn dilyn craffu gan y pwyllgor. Dyma'r tro cyntaf i mi gyflwyno rheoliadau cymhleth iawn fel y rhain, ac rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau am eu cymorth yn hynny o beth.

16:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Cynnig i Atal Rheol Sefydlog 11.16 i Ganiatáu i'r Eitem Nesaf o Fusnes gael ei Thrafod

## Motion to Suspend Standing Order 11.16 to Allow the Next Item of Business to be Debated

Cynnig NDM5400 Lesley Griffiths

Motion NDM5400 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

That the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders 33.6 and 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 9 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth 14 Ionawr 2014.

Suspends that part of Standing Order 11.16 that requires the weekly announcement under Standing Order 11.11 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motion under item 9 to be considered in Plenary on Tuesday 14 January 2014.

16:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

16:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014

# The Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2014

Cynnig NNDM5396 Lesley Griffiths

Motion NNDM5396 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2014.

Approves that the draft The Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 6 January 2014.

16:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to present to the Assembly for its approval the Order for restricting the increase in the non-domestic rates multiplier for 2014-15 to 2%. The Chancellor's autumn statement in December announced plans for a 2% cap on the increase in multiplier for England. After careful consideration, the Welsh Government proposes to implement an equivalent cap in Wales. By restricting the increase in the multiplier to 2%, we are ensuring that Welsh businesses are not placed at a disadvantage compared with their counterparts in England.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i'r Cynulliad ei gymeradwyo, y Gorchymyn ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn y lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2014-15 i 2%. Yn natganiad yr hydref ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Canghellor gynlluniau ar gyfer rhoi uchafswm o 2% ar y cynnydd yn y lluosydd ar gyfer Lloegr. Ar ôl ystyried yn ofalus, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod uchafswm cyfatebol yng Nghymru. Trwy gyfyngu ar y cynnydd yn y lluosydd i 2%, rydym yn sicrhau nad yw busnesau Cymru yn cael eu rhoi dan anfantais o'u cymharu â'r rhai sy'n cyfateb iddynt yn Lloegr.

Normally, the multiplier is increased in line with inflation. This would have resulted in bills being increased by 3.2% for 2014-15. By supporting the cap, Members will therefore ensure that rates bills in Wales are lower than they would otherwise have been.

Fel arfer, mae'r lluosydd yn cynyddu yn unol â chwyddiant. Byddai hyn wedi arwain at gynyddu biliau gan 3.2% ar gyfer 2014-15. Trwy gefnogi'r uchafswm, bydd Aelodau felly'n sicrhau bod biliau ardrethi yng Nghymru yn is nag y byddent fel arall.

The cost of limiting the increase next year is expected to be around £14 million. The Welsh Government will be meeting this through the non-domestic rates pool arrangements, using the flexibility afforded to us as a consequence of the autumn statement. There will be no impact, therefore, on local authority budgets as a result of issuing lower bills for non-domestic properties. The wider benefits of offering the same financial conditions in Wales as in England are obvious.

Disgwylir y bydd y gost o gyfyngu ar y cynnydd y flwyddyn nesaf tua £14 miliwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu hynny trwy drefniadau'r gronfa ardrethi annomestig, gan ddefnyddio'r hyblygrwydd a roddir i ni o ganlyniad i ddatganiad yr hydref. Ni fydd unrhyw effaith, felly, ar gyllidebau awdurdodau lleol o ganlyniad i gyhoeddi biliau is ar gyfer eiddo annomestig. Mae'r manteision ehangach yn sgil cynnig yr un amgylchiadau ariannol yng Nghymru ag yn Lloegr yn amlwg.

Given the timing of the autumn statement and the need to vote on the multiplier Order before the vote on the local government finance report, which had already been scheduled for today, it has been necessary for certain elements of Standing Orders to be suspended, and for the Constitutional and Legislative Affairs Committee to give early consideration to the multiplier Order. I am grateful to the committee for considering the Order and to those Members who agreed to the arrangements needed to bring the Order before the Assembly today. A delay would have meant postponing consideration of the local government finance report, with consequences for the budget-setting processes of local government. It would also have resulted in prolonged uncertainty for non-domestic rate payers in Wales.

O ystyried amseriad datganiad yr hydref a'r angen i bleidleisio ar y Gorchymyn lluosydd cyn y bleidlais ar yr adroddiad ar gyllid llywodraeth leol, a oedd eisoes wedi'i threfnu ar gyfer heddiw, bu raid atal elfennau penodol o'r Rheolau Sefydlog, a bu raid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol roi ystyriaeth gynnar i'r Gorchymyn lluosydd. Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor am ystyried y Gorchymyn ac i'r Aelodau hynny a gytunodd i'r trefniadau sydd eu hangen i ddod â'r Gorchymyn gerbron y Cynulliad heddiw. Byddai unrhyw oedi wedi golygu bod yn rhaid gohirio cyn ystyried yr adroddiad ar gyllid llywodraeth leol, gyda chanlyniadau i brosesau llywodraeth leol ar gyfer pennu cyllideb. Byddai hefyd wedi arwain at ansicrwydd hir i dalwyr ardrethi annomestig yng Nghymru.

I ask Members to support this motion.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynnig hwn.

16:58

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, the Welsh Conservatives are pleased to support the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2014 before us today, specifically the proposal that you set out to cap the business rate multiplier at 2%, following the example set by the UK coalition Government, and set out by the Chancellor of the Exchequer in his autumn statement.

Weinidog, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn falch o gefnogi Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014 sydd ger ein bron heddiw, yn benodol y cynnig i gapio'r lluosydd ardrethi i fusnesau ar 2%, yn dilyn yr esiampl a osodwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU, ac a nodwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn natganiad yr hydref.

To be clear, my party will support all meaningful efforts to reduce the burden on businesses. As this Chamber knows, we have consistently called for an extension of rate relief for smaller businesses with rateable values below £12,000. As we see it, this 2% cap will reduce the business rate burden over and above any other rate relief that might be granted. Most importantly, as the Minister said, this Order will mean that rates levied in Wales will not be disadvantegous to business vis-a-vis those being levelled in England following the Chancellor's autumn statement last year. That would have been unthinkable.

I fod yn glir, bydd fy mhlaid yn cefnogi pob ymdrech ystyrlon i leihau'r baich ar fusnesau. Fel y gŵyr y Siambr hon, rydym wedi galw'n gyson am ymestyn y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol o lai na £12,000. Yn ein barn ni, bydd yr uchafswm hwn o 2% yn lleihau'r baich ardrethi busnes yn ychwanegol at unrhyw ryddhad ardrethi eraill y gellid ei roi. Yn bwysicaf oll, fel y dywedodd y Gweinidog, bydd y Gorchymyn hwn yn golygu na fydd yr ardrethi a godir yng Nghymru yn anfanteisiol i fusnesau o'i gymharu â'r rhai a godir yn Lloegr yn dilyn datganiad yr hydref gan y Canghellor y llynedd. Byddai hynny wedi bod y tu hwnt i amgyffred.

Finally, you mentioned the Assembly procedure, which the Constitutional and Legislative Affairs Committee looked at. I welcome your efforts to ensure that the Order was brought here today. You promised that it would come to us ahead of the local government finance report; it is marginally ahead of it. However, we appreciate that there were problems with the timescale with regard to when the UK Government made the decision, and there was obviously a need for this procedure to be brought forward as quickly as possible. So, we welcome the fact that the Welsh Government has brought this to us today, following the example set by the UK Government, and we support it.

Yn olaf, soniasoch am weithdrefn y Cynulliad, yr edrychodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol arni. Rwy'n croesawu eich ymdrechion i sicrhau bod y Gorchymyn wedi dod ger ein bron heddiw. Fe wnaethoch addo y byddai'n dod ger ein bron cyn yr adroddiad ar gyllid llywodraeth leol; mae ychydig bach o'i flaen. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi y cafwyd problemau â'r amserlen o ran pryd y gwnaeth Llywodraeth y DU y penderfyniad, ac roedd yn amlwg bod angen dod â'r weithdrefn hon gerbron cyn gynted ag y bo modd. Felly, rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw, yn dilyn yr esiampl a osodwyd gan Lywodraeth y DU, ac rydym yn ei gefnogi.

16:59

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae ardrethi busnes yn elfen sylweddol o gostau cwmnïau ar y stryd fawr ac ym mhob man, a dyna pam mae Plaid Cymru wedi dadlau hefyd y dylid ehangu'r cynllun rhyddhad ardrethi. Yn y pen draw, o gofio'r dirywiad ar ein strydoedd siopa ni, rhaid newid holl sylfaen y dreth, sydd bellach yn un gwbl annheg. Mae'n hen bryd i fusnesau o bob math—boed ar gyrion ein trefi, yn gweithio ar-lein neu ar y stryd fawr—rannu'r baich trethiannol. O ran y Gorchymyn hwn, mae Plaid Cymru yn ei gefnogi 100% ac yn cytuno â sylwadau'r Gweinidog yn ei chyflwyniad.

Business rates form a significant part of the costs of businesses on the high street and in general, which is why Plaid Cymru has also argued that the rates relief scheme should be expanded. Eventually, bearing in mind the decline of our high streets, there must be a change to the whole system of business rates, which is now completely unfair. It is high time that businesses of all kinds—whether they are on the outskirts of our towns, working online or on our high streets—shared the tax burden. In terms of this Order, Plaid Cymru supports it 100% and agrees with the Minister's comments as made in her introduction.

17:00

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister for bringing forward this Order today in response to the UK Government's autumn statement. As we know, the autumn statement brought forward a number of measures designed to assist small businesses and further encourage growth in the UK economy. While there is no reason for us to slavishly follow everything that is done in Westminster, I think that, in this instance, we would not want to see Welsh businesses put at a disadvantage because an investment of this nature had not been passed on. So, it is, in my view, right to use part of the consequential from the autumn statement to help to boost the economy in Wales through capping a rise in a tax that we know hits some of our smallest businesses the hardest. Using the multiplier is a very straightforward and efficient method of controlling those costs and I am pleased that the Welsh Government is matching the UK Government's proposals in this respect, to ensure that Welsh businesses have parity of treatment with English ones. However, in the long term, business rates need root-and-branch reform. We have seen today in the news how fluctuations in property values are still playing havoc with retailers in particular, some of which are paying as much in rates as they do in rent. So, there is still a challenge for us to rebalance the way in which we tax businesses in the long term, so that it better reflects the changing nature of our business environment. However, I am pleased to be able to support this Order today.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r Gorchymyn hwn heddiw mewn ymateb i ddatganiad yr hydref gan Lywodraeth y DU. Fel y gwyddom, cyflwynwyd nifer o fesurau yn natganiad yr hydref gyda'r bwriad o gynorthwyo busnesau bach ac annog twf yn economi'r DU ymhellach. Er nad oes unrhyw reswm inni ddilyn popeth sy'n cael ei wneud yn San Steffan yn slafaidd, rwy'n meddwl, yn yr achos hwn, na fyddem am weld busnesau Cymru'n cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd nad yw buddsoddiad o'r natur hwn wedi cael ei basio ymlaen. Felly mae'n iawn, yn fy marn i, defnyddio rhan o'r cyllid canlyniadol o ddatganiad yr hydref i helpu i roi hwb i'r economi yng Nghymru trwy gapio cynnydd yn yr ardrethi y gwyddom sy'n taro rhai o'n busnesau lleiaf galetaf. Mae'r lluosydd yn ddull syml ac effeithiol iawn o reoli'r costau hynny, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud yr un fath â Llywodraeth y DU yn hyn o beth, er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru yn cael eu trin yn gydradd â rhai Lloegr. Fodd bynnag, yn y tymor hir, mae angen diwygio ardrethi busnes yn llwyr. Rydym wedi gweld heddiw yn y newyddion sut y mae amrywiadau mewn gwerth eiddo yn dal i achosi strach i fanwerthwyr yn benodol, a bod rhai ohonynt yn talu cymaint mewn ardrethi ag y maent mewn rhent. Felly, mae'n dal i fod yn her i ni i newid y ffordd yr ydym yn trethu busnesau yn y tymor hir, er mwyn adlewyrchu'n well y ffaith bod amgylchedd busnes mor gyfnewidiol. Fodd bynnag, rwy'n falch o allu cefnogi'r Gorchymyn hwn heddiw.

17:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:01

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I would like to thank the three Members for their supporting comments. I know that the Minister for Economy, Science and Transport, who is responsible for the policy side of this, has heard their comments too. Thank you.

Hoffwn ddiolch i'r tri Aelod am eu sylwadau cefnogol. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, sy'n gyfrifol am ochr polisi hyn, wedi clywed eu sylwadau hefyd. Diolch yn fawr.

17:02

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15

Cynnig NDM5393 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988:

Yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2014-2015 (Setliad Terfynol – Cynghorau), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2014.

## The 2014-15 Local Government Revenue and Capital Settlements

Motion NDM5393 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Section 84H of the Local Government Finance Act 1988:

Approves the Local Government Finance Report (No. 1) 2014-2015 (Final Settlement - Councils), which was laid in the Table Office on 7 January 2014.

17:02

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

I am pleased to present to the Assembly for its approval the 2014-15 local government finance report for the 22 unitary authorities in Wales. Next year, after accounting for transfers, local authorities in Wales will receive £4.3 billion in general revenue funding—a decrease of 3.4% compared with 2013-14. While this settlement represents a reduction in funding, it still reflects a reasonable outcome for local government in Wales, given the cuts imposed on our budget by the UK Government. This settlement is delivered against an unprecedented challenging financial context. However, it continues to ensure an appropriate settlement for local government in Wales, to enable authorities to protect vital services in the face of competing pressures.

As a consequence of UK Government decisions, by 2015-16 the Welsh Government budget will have been cut by 10% in real terms since 2010-11. However, we have sought to protect local government in Wales from the worst of these cuts. As a consequence, over the past three years, local authorities in Wales have seen a cash increase in their funding. Local government in England has not fared so well. Indeed, it has faced cuts of over 10% since 2011-12. However, the scale of the cuts to our budget going forward means continued protection for local government in Wales is not sustainable into the future.

Since taking up this portfolio last March, I have been very clear about the future financial reality facing local government in Wales. I have also worked hard to increase flexibility, achieve fairness and provide additional support to help local authorities to manage the challenges ahead. The decisions that I have taken reflect the value the Welsh Government places on the wide variety of services provided by local authorities. As a result, included within this settlement is £39.3 million of funding previously provided though specific grants. Of this funding, nearly £31 million came from my own portfolio. In addition to this, I also took the decision to add the £4 million of funding previously identified for the council tax reduction scheme pensioner grant into the settlement.

Cynigiaf y cynnig.

Rwy’n falch o gyflwyno i’r Cynulliad, ar gyfer ei gymeradwyo, adroddiad cyllid llywodraeth leol 2014-15 ar gyfer y 22 awdurdod unedol yng Nghymru. Y flwyddyn nesaf, ar ôl ystyried trosglwyddiadau, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn derbyn £4.3 biliwn mewn arian refeniw cyffredinol—3.4% yn llai nag yn 2013-14. Er bod y setliad hwn yn cynrychioli gostyngiad mewn cyllid, mae’n dal yn ganlyniad rhesymol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, o ystyried y toriadau i’n cyllideb gan Lywodraeth y DU. Mae’r setliad hwn yn cael ei ddarparu o fewn cyd-destun ariannol heriol digynsail. Fodd bynnag, mae’n parhau i sicrhau setliad priodol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, er mwyn galluogi awdurdodau i ddiogelu gwasanaethau hanfodol yn wyneb pwysau cystadleuol.

O ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU, erbyn 2015-16 bydd cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael ei thorri 10% mewn termau real ers 2010-11. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio amddiffyn llywodraeth leol yng Nghymru rhag y gwaethaf o’r toriadau hyn. O ganlyniad, dros y tair blynedd diwethaf, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweld cynnydd arian parod yn eu cyllid. Nid yw llywodraeth leol yn Lloegr wedi gwneud mor dda. Yn wir, mae wedi wynebu toriadau o dros 10% ers 2011-12. Fodd bynnag, mae maint y toriadau i’n cyllideb yn y dyfodol yn golygu nad yw’n gynaliadwy i barhau i amddiffyn llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol.

Ers derbyn y portffolio hwn fis Mawrth diwethaf, rwyf wedi bod yn glir iawn ynglŷn â’r realiti ariannol sy’n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol. Rwyf hefyd wedi gweithio’n galed i gynyddu hyblygrwydd, sicrhau tegwch a darparu cymorth ychwanegol i helpu awdurdodau lleol i reoli’r heriau sydd o’n blaenau. Mae’r penderfyniadau yr wyf wedi’u gwneud yn adlewyrchu’r gwerth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae’r setliad hwn yn cynnwys £39.3 miliwn o gyllid a ddarparwyd yn flaenorol trwy grantiau penodol. Daeth bron i £31 miliwn o’r arian hwn o fy mhortffolio fy hun. Yn ychwanegol at hyn, penderfynais hefyd ychwanegu £4 miliwn o gyllid a nodwyd yn flaenorol ar gyfer y grant pensiynwyr cynllun gostyngiadau’r dreth gyngor at y setliad.

I continue to work with my ministerial colleagues to look at the programmes within their portfolios and the most effective mechanisms for providing funding for local services. Local government must also be fully engaged in delivering the right outcomes in key areas. This is why I announced, at the meeting of the partnership council for Wales in November, a review of funding flexibilities for local government, to be conducted in partnership with it. This review will examine the existing range of Welsh Government specific grants and identify ways forward for the future. I will also investigate other opportunities to provide local government with greater flexibility in managing the pressures that it faces while ensuring that key outcomes are delivered. I intend for this review to report back to the partnership council's finance sub-group in March.

Rwy'n parhau i weithio gyda'm cydweithwyr gweinidogol i edrych ar y rhaglenni o fewn eu portffolios a'r dulliau mwyaf effeithiol o ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol. Rhaid i lywodraeth leol hefyd gael ei chynnwys yn llawn yn y gwaith o gyflawni'r canlyniadau cywir mewn meysydd allweddol. Dyma pam y cyhoeddais, yng nghyfarfod y cyngor partneriaeth ar gyfer Cymru ym mis Tachwedd, adolygiad o hyblygrwydd cyllid ar gyfer llywodraeth leol, i gael ei gynnal mewn partneriaeth â'r cyngor hwnnw. Bydd yr adolygiad hwn yn archwilio'r ystod bresennol o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a nodi ffyrdd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Byddaf hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd eraill i roi mwy o hyblygrwydd i lywodraeth leol wrth reoli'r pwysau sy'n ei hwynebu gan sicrhau y cyflawnir canlyniadau allweddol ar yr un pryd. Rwy'n bwriadu i'r adolygiad hwn gyflwyno adroddiad i is-grŵp cyllid y cyngor partneriaeth ym mis Mawrth.

However, the immediate focus now needs to be on intensifying efforts to achieve transformational change to be able to sustain services and deliver the best outcomes for people across Wales. The Welsh Government will soon receive the report from the Williams commission and this will be a key factor in determining the way forward for local government and the wider public services in Wales.

Fodd bynnag, yr hyn y mae angen canolbwyntio arno ar hyn o bryd yw dwysáu ymdrechion i gyflawni newid trawsnewidiol er mwyn gallu cynnal gwasanaethau a sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn fuan yn derbyn yr adroddiad gan gomisiwn Williams a bydd hwn yn ffactor allweddol wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen i lywodraeth leol a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Designing public services to meet the needs of its citizens is at the heart of the work of the Williams commission. Later this month, I will publish a further addition of our annual compendium looking at the performance of local authority services. This publication contains the latest performance data to support the accountability and scrutiny of public services by citizens and by elected members acting on their behalf.

Mae cynllunio gwasanaethau cyhoeddus i ddiwallu anghenion ei ddinasyddion wrth wraidd gwaith comisiwn Williams. Yn ddiweddarach y mis hwn, byddaf yn cyhoeddi rhifyn arall o'n compendiwm blynyddol yn edrych ar berfformiad gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys y data perfformiad diweddaraf i gefnogi atebolrwydd a chynorthwyo dinasyddion ac aelodau etholedig sy'n gweithredu ar eu rhan i graffu ar wasanaethau cyhoeddus.

The performance data in this publication will reflect the variation in the performance across authorities in delivering services, and the transparency that it offers will support our efforts to develop and improve public services in Wales, so that they are sustainable and centred around the citizen. Better performance is about much more than the amount of money provided. However, it is important to recognise that this settlement is vital to maintaining momentum in the transformational change that still needs to happen as we consider the findings of the Williams commission.

Bydd y data perfformiad yn y cyhoeddiad hwn yn adlewyrchu'r modd y mae perfformiad awdurdodau yn amrywio o ran darparu gwasanaethau, a bydd y tryloywder y mae'n ei gynnig yn cefnogi ein hymdrechion i ddatblygu a gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel eu bod yn gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar y dinesydd. Mae perfformiad gwell yn golygu llawer mwy na'r swm o arian a ddarperir. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod y setliad hwn yn hanfodol i gynnal momentwm y newid trawsnewidiol y mae angen iddo ddigwydd o hyd, wrth inni ystyried canfyddiadau comisiwn Williams.

Recognising that investing in our young people's education remains a key priority of this Government. An additional £8.3 million for the protection of schools funding is included within the settlement. This, alongside an extra £7.4 million provided as part of the increase in the pupil deprivation grant, meets our commitment to provide protection for schools equivalent to 1% above the change in the Welsh budget from the UK Government. For 2014-15, the protection equates to a 0.9% increase in schools funding. Since the introduction of the funding protection for schools in 2011-12, we have built around £75 million of additional funding into the settlement baseline.

Gan gydnabod bod buddsoddi yn addysg ein pobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon, mae'r setliad yn cynnwys £8.3 miliwn ychwanegol ar gyfer diogelu cyllid ysgolion. Mae hwn, ochr yn ochr â £7.4 miliwn ychwanegol a ddarperir fel rhan o'r cynnydd yn y grant amddifadedd disgyblion, yn cyflawni ein hymrwymiad i amddiffyn ysgolion sy'n cyfateb i 1% uwchlaw'r newid yng nghyllideb Cymru gan Lywodraeth y DU. Ar gyfer 2014-15, mae'r amddiffyniad yn cyfateb i gynnydd o 0.9% yn y cyllid i ysgolion. Ers inni ddechrau diogelu cyllid ysgolion yn 2011-12, rydym wedi cynnwys tua £75 miliwn o arian ychwanegol yn llinell sylfaen y setliad.

The Welsh Local Government Association has acknowledged that these are challenging financial times, and has committed to working with Welsh Government to mitigate impacts wherever possible. It has welcomed the ongoing support being made available by the Welsh Government for council tax reduction schemes.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cydnabod bod hwn yn gyfnod ariannol anodd, ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i liniaru effeithiau pryd bynnag y bo modd. Mae wedi croesawu'r gefnogaeth barhaus sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor.

Alongside the settlement announcement, I have also provided local authorities with details of the specific grants that they will receive in 2014-15. Local authorities can expect to receive more than £700 million of grant funding to support projects that are vital to the future of Wales.

Ochr yn ochr â chyhoeddiad y setliad, rwyf hefyd wedi darparu manylion i awdurdodau lleol am y grantiau penodol y byddant yn eu derbyn yn 2014-15. Gall awdurdodau lleol ddisgwyl derbyn mwy na £700 miliwn o arian grant i gefnogi prosiectau sy'n hanfodol i ddyfodol Cymru.

As a result of the reductions in the capital budget delegated to us by the UK Government, capital allocations for local government continue to present challenges. Maintaining our capacity to invest is vital, not just to improve services, but also to provide an economic stimulus when it is needed most. This settlement includes an extra £4 million of funding for the local government borrowing initiative for highways improvement, bringing the total built into the settlement to £12 million a year, allowing authorities to invest more than £170 million in highways improvement over three years.

O ganlyniad i'r gostyngiadau yn y gyllideb gyfalaf a ddirprwywyd i ni gan Lywodraeth y DU, mae dyraniadau cyfalaf ar gyfer llywodraeth leol yn parhau i gyflwyno heriau. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ein gallu i fuddsoddi, nid yn unig er mwyn gwella gwasanaethau, ond hefyd i roi ysgogiad economaidd pan fydd ei angen fwyaf. Mae'r setliad yn cynnwys £4 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y fenter benthyca llywodraeth leol ar gyfer gwella priffyrdd, gan ddod â'r cyfanswm a adeiladwyd i mewn i'r setliad i £12 miliwn y flwyddyn, gan alluogi awdurdodau i fuddsoddi mwy na £170 miliwn mewn gwella priffyrdd dros dair blynedd.

We are working closely with local government to expand the initiative to boost borrowing over the next few years to accelerate the twenty-first century schools programme. As with the successful initiative for roads, we will provide local government with additional revenue funding to enable it to fund borrowing over and above current plans. This will be provided outside the settlement for 2014-15 to allow the distribution of the funding to be confirmed prior to transferring it into the settlement in 2015-16.

Rydym yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i ehangu'r fenter i roi hwb i fenthyca dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er mwyn cyflymu rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Fel gyda'r fenter lwyddiannus ar gyfer ffyrdd, byddwn yn darparu cyllid refeniw ychwanegol i lywodraeth leol i'w galluogi i ariannu benthyciadau y tu hwnt i'r cynlluniau presennol. Bydd hwn yn cael ei ddarparu y tu allan i'r setliad ar gyfer 2014-15 er mwyn gallu cadarnhau dosbarthiad y cyllid cyn ei drosglwyddo i mewn i'r setliad yn 2015-16.

It is now for local authorities to set their budgets for 2014-15. This year, average council tax levels in Wales are around £230 lower than those in England, because of the proportionately greater support that the Welsh Government provides for local spending. I am prepared to use the capping powers available to me should the need arise. Council tax rises over recent years have, in the main, shown restraint. I am confident that, at a time when we all need to be managing our resources as efficiently as possible, local authorities in Wales will continue to act responsibly in setting council tax for next year.

Mater i awdurdodau lleol yn awr yw pennu eu cyllidebau ar gyfer 2014-15. Mae lefelau cyfartalog y dreth gyngor yng Nghymru tua £230 yn is na'r rhai yn Lloegr eleni, oherwydd y gefnogaeth gymesurol uwch y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu ar gyfer gwariant lleol. Rwy'n barod i ddefnyddio'r pwerau capio sydd ar gael i mi pe cyfyd yr angen. Nid yw'r cynnydd yn y dreth gyngor dros y blynyddoedd diwethaf, ar y cyfan, wedi bod yn ormodol. Rwy'n ffyddiog y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i ymddwyn yn gyfrifol wrth bennu'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf, ar adeg pan mae angen inni i gyd fod yn rheoli ein hadnoddau mor effeithlon ag y bo modd.

The motion is to agree the local government finance report, which has been laid before the Assembly. If approved, this will allow authorities to formally set their budgets for 2014-15. I believe this to be a fair and realistic settlement for local government and it provides additional support for the economy through the capping of non-domestic rates. It underlines our commitment to maintaining support for those who need it most and continuing to invest in local government despite the funding reductions elsewhere. I ask Members to support the motion.

Y cynnig yw cytuno ar yr adroddiad ar gyllid llywodraeth leol, a osodwyd gerbron y Cynulliad. Os caiff ei gymeradwyo, bydd hwn yn galluogi awdurdodau i bennu eu cyllidebau yn ffurfiol ar gyfer 2014-15. Credaf fod hwn yn setliad teg a realistig i lywodraeth leol a'i fod yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer yr economi trwy gapio ardrethi annomestig. Mae'n tanlinellu ein hymrwymiad i barhau i gefnogi'r rhai sydd ag angen hynny fwyaf ac i barhau i fuddsoddi mewn llywodraeth leol er gwaethaf y gostyngiadau ariannol mewn mannau arall. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynnig.

17:10 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the report by the Minister on the local government finance report and settlement detail. We often talk about funding settlements, formulas and standard spending assessments, but do SSAs take account of the impact of demographic, economic and geographical considerations? Do they take account of lone working parents in need of support? Do they reward good practice? Evidence would suggest that some SSAs and the settlement formula itself could be described as disproportionate. In rural communities, it is harder to access a service and draw down funding. Greater consideration is given to factors such as those in receipt of some benefits—working lone parents are disadvantaged when compared with those in receipt of social housing. Fiscally prudent councils such as Monmouthshire are disadvantaged when they receive £1,550 per head, which is below the average settlement of £1,761 and the £1,931 afforded to Blaenau Gwent. I would like to ask the Minister how the equality assessment has influenced this settlement. The Government of Wales Act 2006 states that Ministers must ensure,

'equality of opportunity for all people'.

Where is the equality for our rural communities? Where is the equality for lone working parents? Where is the equality impact assessment evidence to determine the appropriate weighting of SSA units?

Preventative spending has been identified by many, including the Taxpayers' Alliance, as one of the most efficient ways of saving money in local government, by negating small problems to prevent bigger spends. When environmental departments cannot repair paving slabs, leisure departments cannot keep their leisure centres open and housing departments cannot make adequate adaptations, it affects the health of our nation. There must be leadership from this Welsh Government in encouraging a culture of spending taxpayers' money wisely.

In debating this report, we must consider how authorities are addressing their financial challenges. Last week, Welsh-Labour-run Rhondda Cynon Taf proposed closing 14 of its 26 libraries and 10 of its 19 day centres, and scaling back meals on wheels. Most alarming is a measure that sees children unable to attend school until a year later than in other authorities—

Rwy'n croesawu'r adroddiad gan y Gweinidog ar yr adroddiad cyllid llywodraeth leol a manylion y setliad. Rydym yn aml yn siarad am setliadau ariannu, fformiwlâu ac asesiadau o wariant safonol, ond a yw asesiadau o wariant safonol yn ystyried effaith ystyriaethau demograffig, economaidd a daearyddol? A ydynt yn ystyried unig rieni sy'n gweithio ac sydd angen cefnogaeth? A ydynt yn gwobrwyo arfer da? Byddai'r dystiolaeth yn awgrymu y gellid disgrifio rhai asesiadau o wariant safonol a fformiwla'r setliad ei hun fel bod yn anghymesur. Mewn cymunedau gwledig, mae'n anoddach cael gafael ar wasanaeth a denu cyllid. Rhoddir mwy o ystyriaeth i ffactorau megis y rhai sy'n derbyn rhai budd-daliadau—mae unig rieni sy'n gweithio dan anfantais o'u cymharu â'r rhai sy'n derbyn tai cymdeithasol. Mae cynghorau darbodus fel Sir Fynwy o dan anfantais pan fyddant yn derbyn £1,550 y pen, sy'n is na'r setliad cyfartalog o £1,761 a'r £1,931 a roddir i Flaenau Gwent. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog sut y mae'r asesiad cydraddoldeb wedi dylanwadu ar y setliad hwn. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan bod rhaid i Weinidogion sicrhau,

cyfle cyfartal i bawb.

Ble mae'r cydraddoldeb ar gyfer ein cymunedau gwledig? Ble mae'r cydraddoldeb ar gyfer unig rieni sy'n gweithio? Ble mae tystiolaeth asesiad yr effaith ar gydraddoldeb er mwyn penderfynu ar bwysoliad priodol unedau asesiadau o wariant safonol?

Mae gwariant ataliol wedi cael ei gydnabod gan lawer, gan gynnwys Cynghrair y Trethdalwyr, fel un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o arbed arian mewn llywodraeth leol, drwy ddileu'r problemau bach er mwyn atal gwariant mwy. Pan na all adrannau amgylcheddol atgyweirio slabiau palmant, pan na all adrannau hamdden gadw eu canolfannau hamdden ar agor a phan na all adrannau tai wneud addasiadau digonol, mae'n effeithio ar iechyd ein cenedl. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth wrth annog diwylliant o wario arian trethdalwyr yn ddoeth.

Wrth drafod yr adroddiad hwn, mae'n rhaid inni ystyried sut y mae awdurdodau yn mynd i'r afael â'u heriau ariannol. Yr wythnos diwethaf, cynigiodd cyngor Rhondda Cynon Taf sy'n cael ei redeg gan Lafur Cymru gau 14 o'i 26 o lyfrgelloedd a 10 o'i 19 canolfan ddydd, a lleihau'r gwasanaeth pryd ar glud. Y peth mwyaf brawychus yw mesur sy'n golygu na fydd plant yn gallu mynychu ysgol tan flwyddyn yn ddiweddarach nag mewn awdurdodau eraill—

17:13 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you think that the fact that, effectively, £70 million has been cut out of the RCT budget, directly as a result of a UK Government cut, has had any impact whatsoever on the RCT budget arrangements?

A ydych chi'n meddwl bod y ffaith y torrwyd £70 miliwn allan o gyllideb Rhondda Cynon Taf, i bob pwrpas, yn uniongyrchol o ganlyniad i doriad gan Lywodraeth y DU, wedi cael unrhyw effaith o gwbl ar drefniadau cyllideb Rhondda Cynon Taf?

17:13 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With respect, it is fair to say that we have now got devolved—[Interruption.] We have got Welsh Government now. The Welsh Government decides how it spends its money and, in this case, it decided to make the cuts. It was nothing to do with UK Government—[Interruption.]

Gyda phob parch, mae'n deg dweud bod gennym bellach—[Torri ar draws.] Bod gennym Lywodraeth Cymru bellach. Mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu sut y mae'n gwario ei harian ac, yn yr achos hwn, penderfynodd wneud y toriadau. Nid oedd yn ddim i'w wneud â Llywodraeth y DU—[Torri ar draws.]

17:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

17:13 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That will further disadvantage children who come from areas with socioeconomic barriers. While the schoolchildren of RCT will start learning a year later, the director of education and lifelong learning earns over £100,000 a year. However, this is not isolated. In Bridgend, the council is cutting expenditure on youth services by 39% while its corporate director for communities earns £134,000. In Carmarthenshire, proposals include raising the cost of hiring cricket facilities by 200% while the director of regeneration and leisure earns £147,000. Services are not prioritised above bloated, elitist government pay. These figures demonstrate the ethos of some local authorities: corporate directors over schoolchildren, diversity co-ordinators over meals on wheels, and media and propaganda officers over concessionary travel schemes. In Monmouthshire, the Conservative-run council is engaging with residents to discuss how they will make savings through consultation events. So, before stones are thrown about savage Tory cuts, I suggest that you make sure that your own fiscal glasshouse is in order.

Bydd hynny'n rhoi plant o ardaloedd sy'n wynebu rhwystrau economaidd-gymdeithasol dan fwy o anfantais. Er y bydd plant ysgol Rhondda Cynon Taf yn dechrau dysgu flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes yn ennill dros £100,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, nid achosion unigol mo hwn. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r cyngor yn torri gwariant ar wasanaethau ieuenctid 39% tra bod ei gyfarwyddwr corfforaethol ar gyfer cymunedau yn ennill £134,000. Yn Sir Gaerfyrddin, mae cynigion yn cynnwys codi'r gost o logi cyfleusterau criced 200% tra bod y cyfarwyddwr adfywio a hamdden yn ennill £147,000. Nid yw gwasanaethau yn cael mwy o flaenoriaeth na chyflogau chwyddedig, elitaidd llywodraeth. Mae'r ffigurau hyn yn dangos ethos rhai awdurdodau lleol: cyfarwyddwyr corfforaethol uwchben plant ysgol, cydlynwyr amrywiaeth uwchben pryd ar glud, a swyddogion cyfryngau a phropaganda uwchben cynlluniau teithio rhatach. Yn Sir Fynwy, mae'r cyngor sy'n cael ei redeg gan y Ceidwadwyr yn ymgysylltu â thrigolion trwy ddigwyddiadau ymgynghori i drafod sut y byddant yn arbed arian. Felly, cyn taflu cerrig ynglŷn â thoriadau milain gan y Torïaid, rwy'n awgrymu eich bod yn gwneud yn siŵr bod eich tŷ gwydr ariannol eich hun mewn trefn.

*Rhodri Glyn Thomas a gododd—*

*Rhodri Glyn Thomas rose—*

17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking another intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad arall?

17:15 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

17:15 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. I will not. The Welsh Conservatives have long called for addressing all exorbitant local authority senior pay, not just chief executives'. The revenue and capital settlement outlines how local government grants will change. This is not before time. With Conwy County Borough Council—my own authority—in receipt of 30 separate grants, the administration and audit costs of distinct streams often negate the measurable benefit of the actual grant.

Na wnaf. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw ers amser am fynd i'r afael â chyflog afresymol pob uwch swyddog awdurdod lleol, ac nid prif weithredwyr yn unig. Mae'r setliad refeniw a chyfalaf yn amlinellu sut y bydd grantiau llywodraeth leol yn newid. Mae'n hen bryd gwneud hynny. Gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy—fy awdurdod fy hun—yn derbyn 30 o grantiau ar wahân, mae costau gweinyddu ac archwilio ffrydiau gwahanol yn aml yn dileu budd mesuradwy'r grant ei hun.

Grants must be hypothecated to a much greater degree, and I would ask the Minister to really speed up the review on that. The financial settlement for local authorities will not help my constituents on a stormy day.

Rhaid i grantiau gael eu neilltuo i raddau llawer mwy, a hoffwn ofyn i'r Gweinidog wir gyflymu'r adolygiad ar hynny. Ni fydd y setliad ariannol ar gyfer awdurdodau lleol yn helpu fy etholwyr ar ddiwrnod stormus.

17:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your time is nearly up.

Mae eich amser bron ar ben.

17:16 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Right. The local government finance report underlines a challenging settlement for our local authorities, but the onus is on you, Minister, to provide the strong leadership within local government to ensure financial probity, efficiency, transparency and democratic accountability, and that this runs through the very heart of our local government in Wales.

Iawn. Mae'r adroddiad ar gyllid llywodraeth leol yn tanlinellu setliad heriol ar gyfer ein hawdurdodau lleol, ond mae'r cyfrifoldeb arnoch chi, Weinidog, i ddarparu arweiniad cryf o fewn llywodraeth leol er mwyn sicrhau cywirdeb ariannol, effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd democrataidd, a sicrhau bod hyn yn rhedeg drwy'r galon ein llywodraeth leol yng Nghymru.

17:16 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise that today's debate is taking place at a time when fundamental questions about the future size and shape of local government in Wales are being considered, but, for me, it represents an important opportunity for a different reason. Whatever the future holds, in the here and now it sometimes feels as if we are becoming too detached in this Assembly from the sheer scale of the task that we are asking of councils in Wales. Indeed, it is worth reminding ourselves every chance that we get that, along with welfare reform, which we know is hitting some of the poorest households and communities incredibly hard, it is the cuts to local services that people really care about and that will have the most profound and visible bearing on the daily lives of those we were elected to represent. Yes, the economic battleground at UK level may have moved on to new arguments about the cost of living and the latest round of ideologically-driven welfare cuts, but having managed to successfully protect councils from the worst of our own spending pressures up to this point, in many ways it is only now that the full force of Tory-imposed austerity is beginning to bite at local level in Wales.

Rwy'n cydnabod bod y ddadl heddiw yn cael ei chynnal ar adeg pan fo cwestiynau sylfaenol am faint a siâp llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol yn cael eu hystyried, ond, i mi, mae'n gyfle pwysig am reswm gwahanol. Beth bynnag a ddaw yn y dyfodol, yn y presennol mae weithiau'n teimlo fel pe byddem ni yn y Cynulliad hwn wedi ein datgysylltu'n ormodol oddi wrth raddfa fawr y dasg yr ydym yn disgwyl i gynghorau yng Nghymru ei chyflawni. Yn wir, mae'n werth atgoffa ein hunain bob cyfle a gawn mai'r hyn y mae pobl wir yn poeni amdano a'r hyn a fydd yn cael yr effaith fwyaf dwys a gweladwy ar fywydau bob dydd y rhai y cawsom ein hethol i'w cynrychioli, ynghyd â'r diwygiadau i'r gyfundrefn les, y gwyddom eu bod yn taro rhai o'r aelwydydd a'r cymunedau tlotaf yn anhygoel o galed, yw'r toriadau i wasanaethau lleol. Ydy, efallai bod y frwydr economaidd ar lefel y DU wedi symud ymlaen at ddadleuon newydd ynglŷn â chostau byw a'r rownd ddiweddaraf o doriadau lles a sbardunwyd gan ideoleg, ond ar ôl llwyddo i ddiogelu'r cynghorau rhag y gwaethaf o'n pwysau gwariant ein hunain hyd yma, mewn nifer o ffyrdd, dim ond yn awr y mae effaith lawn y polisïau llymder a osodwyd gan y Torïaid yn dechrau brathu ar lefel leol yng Nghymru.

Torfaen County Borough Council is facing a settlement that is 4% lower this year than last year after the re-allocation of Treasury grants is taken into account. That translates to a cash-terms cut of £5.7 million, which is on top of an additional £4.8 million-worth of savings that need to be found just to bridge the gap caused by increasing demand on services, fixed costs that cannot be avoided, and inflationary pressures. The picture is all the more bleak, frankly, when you realise that, after factoring in areas of spend that have been earmarked, quite rightly, for protection by the Welsh Government, the £10.5 million-worth of savings that Torfaen County Borough Council needs to deliver this year will come from a much smaller pot than the headline revenue allocation might otherwise suggest. Despite all that, while I cannot speak with authority about the situation in all parts of Wales, in Torfaen I believe that elected members and officers deserve great credit, working hard to deliver a budget that strikes an almost impossible balance between protecting key services such as social care and education, keeping council tax rises to a minimum, and, at the same time, actually finding the savings required to balance the books. In short, I believe that they have worked incredibly hard to make the best of a really difficult situation created by the UK Government in Westminster.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn wynebu setliad sydd 4% yn is eleni na'r llynedd ar ôl ystyried ailddyraniad grantiau'r Trysorlys. Mae hynny'n cyfateb i doriad o £5.7 miliwn mewn termau arian parod, sy'n ychwanegol at y £4.8 miliwn ychwanegol y mae angen ei arbed dim ond i bontio'r bwlch a achosir gan y galw cynyddol am wasanaethau, costau sefydlog na ellir eu hosgoi, a phwysau yn sgil chwyddiant. Mae'r darlun hyd yn oed yn fwy llwm, a dweud y gwir, pan fyddwch yn sylweddoli bod y £10.5 miliwn y mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei arbed eleni yn dod o gronfa lawer llai nag y byddai'r prif ddyraniad refeniw yn ei awgrymu, ar ôl ystyried meysydd gwariant a glustnodwyd i'w hamddiffyn, yn gwbl briodol, gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf hynny i gyd, er na allaf siarad ag awdurdod am y sefyllfa ym mhob rhan o Gymru, yn Nhorfaen rwy'n credu bod aelodau etholedig a swyddogion yn haeddu clod mawr, a'u bod yn gweithio'n galed i ddarparu cyllideb sy'n taro cydbwysedd amhosibl bron rhwng diogelu gwasanaethau allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg, cadw codiadau'r dreth gyngor mor isel â phosibl, ac, ar yr un pryd, dod o hyd i'r arbedion sydd eu hangen i fantoli'r llyfrau. Yn gryno, rwy'n credu eu bod wedi gweithio'n anhygoel o galed i wneud y gorau o sefyllfa anodd iawn a grëwyd gan Lywodraeth y DU yn San Steffan.

So, it stands to reason that, at a time when we are asking so much of local authorities, it should be incumbent on all of us to ensure that we are not placing additional demands on councils that they simply cannot afford at this time. This was a point that was made on a number of occasions during the scrutiny of the Social Services and Well-being (Wales) Bill last year, when assurances of cost-neutrality were met with concern. However, it is a maxim that could apply across the board. Has anyone, for example, actually sat down and worked out the cost implications of the proposed new Welsh language standards on councils such as Torfaen, which are already having to fork out hundreds of thousands of pounds just to ensure that they meet current expectations, and at a time when services that local people cherish are being pared back to the bone or cut completely?

Felly, mae'n rhesymol dweud y dylai fod yn ddyletswydd ar bob un ohonom, ar adeg pan ein bod yn gofyn cymaint gan awdurdodau lleol, i sicrhau nad ydym yn rhoi pwysau ychwanegol ar gynghorau na allant eu fforddio ar hyn o bryd. Roedd hwn yn bwynt a wnaed ar nifer o achlysuron wrth graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) y llynedd, pan fynegwyd pryder mewn ymateb i sicrwydd y byddai'n niwtral o ran cost. Fodd bynnag, mae'n wireb a allai fod yn berthnasol yn gyffredinol. A oes unrhyw un, er enghraifft, mewn gwirionedd wedi eistedd i lawr a chyfrifo goblygiadau'r safonau iaith Gymraeg newydd, o ran cost, i gynghorau megis Torfaen, sydd eisoes yn gorfod talu cannoedd o filoedd o bunnoedd i sicrhau eu bod yn bodloni disgwyliadau presennol, a hynny ar adeg pan fo gwasanaethau y mae pobl leol yn eu coleddu yn cael eu torri'n ôl at yr asgwrn neu eu dileu'n gyfan gwbl?

Above all, through all of this, we have to be mindful of the extent to which councils in Wales really are at the front line when it comes to dealing with the seismic impact of welfare reform on our communities. It has struck me on many occasions recently just how vital a role the local authority has played in Torfaen, particularly, working closely with the housing and advice sectors to identify trends, and co-ordinating efforts to mitigate the worst impacts of welfare reform. In fact, I shudder to think how much worse things could be looking if that important work was not taking place. Whatever changes are on the way in the future, I think we would all do well to take a step back now and again and recognise the incredibly valuable role that local authorities can play, and are playing, in communities such as Torfaen, even in these incredibly difficult and challenging economic times.

Yn anad dim, trwy hyn i gyd, mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol i ba raddau y mae cynghorau yng Nghymru mewn gwirionedd yn y rheng flaen o ran ymdrin â'r effaith seismig ar ein cymunedau yn sgil y diwygiadau i'r gyfundrefn les. Mae wedi fy nharo ar sawl achlysur yn ddiweddar swyddogaeth pa mor hanfodol sydd gan yr awdurdod lleol yn Nhorfaen, yn arbennig, gan weithio'n agos gyda'r sectorau tai a chynghori i nodi tueddiadau, a chydgysylltu ymdrechion i liniaru effeithiau gwaethaf y diwygiadau. Yn wir, mae'n gas gennyf feddwl gymaint gwaeth y gallai pethau edrych pe na byddai'r gwaith pwysig hwnnw'n digwydd. Pa bynnag newidiadau sydd ar ddod yn y dyfodol, rwy'n credu y byddai'n beth da i bob un ohonom gymryd cam yn ôl bob hyn a hyn a chydnabod y swyddogaeth hynod werthfawr y gall awdurdodau lleol ei chyflawni, ac y maent yn ei chyflawni, mewn cymunedau fel Torfaen, hyd yn oed yn y cyfnod economaidd hynod anodd a heriol hwn.

17:20 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y llynedd, roedd modd inni groesawu'r setliad llywodraeth leol oherwydd roedd cynnydd o 1.5% yn y gyllideb, a hynny o fewn cyd-destun ariannol digon anodd. Eleni, rydym yn wynebu sefyllfa ariannol sydd hyd yn oed yn anoddach. Oherwydd hynny, mae gostyngiad o 3.4% yn y gyllideb sydd ar gael i lywodraeth leol. Fel dywedodd Lynne Neagle, pan fydd rhywun yn ystyried y ffaith fod y cyllidebau ar gyfer iechyd ac addysg wedi'u diogelu—ac rydym yn cytuno'n llwyr â hynny—mae'r gofynion ar lywodraeth leol gymaint â hynny'n fwy llym. Mae penderfyniadau anodd iawn yn mynd i wynebu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif y gallai 10,000 o swyddi ddiflannu dros y blynyddoedd nesaf—pobl sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Mae'n rhaid inni gofio mai'r awdurdod lleol yw'r prif gyflogwr mewn rhai o'n hardaloedd gwledig a'i fod yn gyfrifol am gyflogi canran helaeth o'r gweithlu yn yr ardaloedd hynny. Bydd hyn yn effeithio ar y sector preifat hefyd, oherwydd, yn yr ardaloedd hynny, llywodraeth leol yn aml iawn sy'n pwrcasu oddi wrth y sector preifat ac sy'n creu swyddi yn y sector preifat drwy'r broses honno. Felly, rydym yn wynebu sefyllfa eithriadol o anodd.

Last year, we were able to welcome the local government settlement because there was an increase of 1.5% in the budget, and that was within a relatively difficult financial context. This year, we are facing an even more stringent financial position. As a result, there is a reduction of 3.4% in the budget available to local government. As Lynne Neagle said, when one considers the fact that the budgets for health and education have been safeguarded—and we agree entirely with that—then the requirements on local government are so much more pressing. Local government in Wales will face some difficult decisions. The Welsh Local Government Association estimates that up to 10,000 jobs could disappear over the next few years—these are people who are directly employed by local authorities. We must bear in mind that, in some of our rural areas, the local authority is the main employer and is responsible for employing a large percentage of the workforce in those areas. This will also affect the private sector because, very often, local government procures from the private sector and generates jobs in that sector through that process. Therefore, we are facing an incredibly difficult situation.

Rydym yn derbyn, Weinidog, nad oedd gennych lawer o opsiynau o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru. Credaf fod y rhan fwyaf ohonom wedi cael ein syfrdanu gan gyfraniad llefarydd y Ceidwadwyr yn y Siambr hon, a anwybyddodd yn llwyr mai'r cyd-destun i hyn i gyd yw'r toriadau gan y glymblaid yn San Steffan. Dyna sy'n creu'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei throsglwyddo yn y setliad hwn i lywodraeth leol. Mae'n iawn i ddweud bod llawer iawn o uwch swyddogion a phrif weithredwyr yn ein hawdurdodau lleol yn cael cyflogau sy'n llawer iawn rhy uchel. Nid yw Cymru'n gallu fforddio talu'r math hwn o gyflog o fewn awdurdodau lleol nac yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Byddwn yn gorfod edrych yn feirniadol iawn ar gyflogau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru oherwydd, dros y blynyddoedd, maent wedi codi i raddfa gwbl afresymol yng nghyd-destun cyfrifoldebau'r swyddi hyn ac yng nghyd-destun yr hyn y gall Cymru fel gwlad ei fforddio.

We accept, Minister, that you had very few options in terms of the Welsh Government budget. I think that most of us were staggered by the contribution made by the Conservative spokesperson in the Chamber, which ignored entirely the fact that the context of this is the cuts imposed by the coalition Government in Westminster. That is what has created the financial situation faced by the Welsh Government and which is transferred through this settlement to local government. It is fair to say that many senior officers and chief executives in our local authorities are paid salaries that are far too high. Wales cannot afford to pay these kinds of salaries within local authorities or within the public sector more generally in Wales. We will have to look critically at salaries in the public sector in Wales because, over the years, they have increased to an entirely unreasonable extent in relation to the responsibilities of those individuals and in the context of what Wales as a nation can afford.

Mae'r setliad hwn yn mynd i olygu y bydd gwasanaethau o dan fygythiad. Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn trafod ag etholwr y ffaith ei fod ef a'i gwmni'n cael eu cyflogi i gyflwyno cyfleusterau er mwyn ein galluogi i ailwampio'r modd y mae deunydd yn cael ei gasglu a'i ailgylchu mewn rhan helaeth o sir Gaerfyrddin. Gwelodd y cyngor gyfle i gael gwared ar £0.25 miliwn o'i wariant, a phenderfynodd y cyngor bod yn rhaid gwneud i ffwrdd â'r gwasanaeth hwnnw. Mae hyn yn golygu na fydd gwasanaeth ailgylchu ar gael ar gyfer y rhan honno o'r sir o hyn ymlaen. Felly, rydym yn derbyn, Weinidog, eich bod chi mewn sefyllfa anodd, ac nid yw'r gyllideb yn cynnig opsiynau i chi, ond rydym hefyd yn sylweddoli bod llywodraeth leol yn wynebu sefyllfa eithriadol o anodd. Rydym yn sylweddoli y bydd swyddi'n diflannu ac y bydd gwasanaethau'n diflannu.

This settlement will mean that services will be under threat. Last week, I was discussing with a constituent the fact that he and his company were engaged to provide facilities to enable us to change the way that materials are collected and recycled in large parts of Carmarthenshire. The council saw an opportunity to make savings of £0.25 million in its expenditure, and the council decided that that service had to be done away with. That will mean that there will be no recycling service for that part of the county from now on. Therefore, Minister, we accept that you are in a difficult position, and that the budget does not provide you with many options, but we also realise that local government is facing an exceptionally difficult situation. We do realise that jobs will be lost and that services will also be lost.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn ceisio diogelu'r gwasanaethau sylfaenol hyn i bobl Cymru. Nid yw'n ddigon i ddweud, 'Dyma'r sefyllfa yr ydym wedi ei hetifeddu o San Steffan. Dyna'r setliad; gwnewch eich gorau gyda fe'. Mae'n rhaid i ni weld y cydweithio hynny, ac mae'n rhaid i ni weld cynllunio i'r dyfodol, hefyd, oherwydd y bydd y sefyllfa hon gennym, ac fe fydd angen i ni, wedi cyhoeddiad Williams wythnos nesaf, weld Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar sail yr argymhellion hynny i ddiogelu sefyllfa lywodraeth leol a'r gwasanaethau hollbwysig y mae'n eu cyflwyno i bobl Cymru i'r dyfodol.

The Welsh Government must work with local government in Wales in order to ensure that we do try to safeguard those basic services for the people of Wales. It is not enough to say, 'This is the situation that we have inherited from Westminster. That is the settlement; do the best you can'. We must see collaboration, and we must see planning for the future also, because this situation is going to exist into the future, and given the publication of the Williams report next week, we will need to see the Welsh Government taking action on the basis of those recommendations in order to safeguard the position of local government and the crucial services that it provides to the people of Wales to the future.

17:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I acknowledge the contribution of other Members in terms of the very difficult economic times that local government is facing today? I accept that the Assembly's budget is suffering because of the cuts that have taken place there. There are many reasons why those cuts are taking place, but, of course, at the end of the day, how that budget is allocated is a matter for this Assembly and for the Minister, and the 3.4% cut in local government spending has effectively come about because of the decision to put more money into health. I do not think that anyone in this Chamber disagreed with that decision to put more money into health, but the outcome of that, effectively, is that local councils are having to make some very difficult decisions indeed over the next month in an attempt to balance their budgets. Those decisions are not just about next year, but future years as well. Of course, the Welsh Government and the Assembly do not deliver services directly, but we fund others to do so, and as a result of that the really difficult decisions are going to have to be made by councillors and by officers in terms of what they are going to be cutting to try to balance their budget. It is important—and I think Lynne Neagle made the point—that we do not add to the pressures on local government, and that, when we pass legislation and bring in new directives or things for local government to do, we make sure that they are fully funded—otherwise that does add to those pressures that officers have to meet.

A gaf i gydnabod cyfraniad Aelodau eraill o ran y cyfnod economaidd anodd iawn y mae llywodraeth leol yn ei wynebu heddiw? Rwy'n derbyn bod cyllideb y Cynulliad yn dioddef oherwydd y toriadau a wnaed yno. Mae llawer o resymau dros y toriadau hynny, ond, wrth gwrs, yn y pen draw, mater i'r Cynulliad hwn ac i'r Gweinidog yw sut i ddyrannu'r gyllideb, ac mae'r gostyngiad o 3.4% yng ngwariant llywodraeth leol i bob pwrpas wedi digwydd oherwydd y penderfyniad i roi mwy o arian i iechyd. Nid wyf yn credu bod neb yn y Siambr hon yn anghytuno â'r penderfyniad i roi mwy o arian i iechyd, ond canlyniad hynny, i bob pwrpas, yw bod cynghorau lleol yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn dros y mis nesaf mewn ymgais i fantoli eu cyllidebau. Nid yw'r penderfyniadau hynny yn ymwneud yn unig â'r flwyddyn nesaf; maent yn ymwneud â'r dyfodol hefyd. Wrth gwrs, nid yw Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn cyflwyno gwasanaethau yn uniongyrchol, ond rydym yn ariannu pobl eraill er mwyn iddynt wneud hynny, ac o ganlyniad i hynny bydd yn rhaid i benderfyniadau anodd iawn gael eu gwneud gan gynghorwyr a swyddogion o ran yr hyn y maent yn mynd i'w dorri i geisio mantoli eu cyllideb. Mae'n bwysig—ac rwy'n meddwl bod Lynne Neagle wedi gwneud y pwynt—nad ydym yn ychwanegu at y pwysau ar lywodraeth leol, a'n bod yn gofalu, pan fyddwn yn pasio deddfwriaeth ac yn cyflwyno cyfarwyddebau newydd neu bethau i lywodraeth leol eu gwneud, eu bod yn cael eu hariannu'n llawn—fel arall mae hynny'n ychwanegu at y pwysau y mae'n rhaid i swyddogion ymateb iddynt.

I do say as well that I accept that we have protected local government for the last few years, and I think that has been very important. However, in a sense, that protection has meant that, for many councillors, it appears, the present cuts have for some reason come as a surprise, and it seems that some of the changes and cuts that they are imposing are effectively a result of being surprised, if you like, at the extent of the cuts.

Rwy'n dweud yn ogystal fy mod yn derbyn ein bod wedi diogelu llywodraeth leol am y blynyddoedd diwethaf, a chredaf fod hynny wedi bod yn bwysig iawn. Fodd bynnag, mewn un ystyr, mae'r ffaith iddynt gael eu diogelu wedi golygu bod y toriadau presennol, mae'n ymddangos, wedi bod yn destun syndod i lawer o gynghorwyr, am ryw reswm, ac mae'n ymddangos bod rhai o'r newidiadau a'r toriadau y maent yn eu gosod i bob pwrpas yn ganlyniad i gael eu synnu, os mynnwch chi, gan faint y toriadau.

I also wanted to refer to the Bevan Foundation's contribution to this debate; it referred to the need for transformational change rather than salami-slicing. It seems to me that a lot of the changes and cuts that have been put in place are about trying to make the books balance without thinking through the need for innovation, without thinking through how you can deliver services better and in a more cost-effective way, and without looking at other options available to them. That is partly because they have left things until the last minute, but it is also down to the fact that councillors are not used to thinking in those terms in Wales, and we do need to start thinking in those terms. They have been forced to think in those terms in England, but they have not necessarily been forced to do so in Wales, and I think that they are going to have to look at how they do that.

Rwyf hefyd am gyfeirio at gyfraniad Sefydliad Bevan at y ddadl hon; roedd yn cyfeirio at yr angen am newid trawsnewidiol yn hytrach na thoriadau tameidiog. Mae'n ymddangos i mi bod llawer o'r newidiadau a'r toriadau sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn ymwneud â cheisio mantoli'r llyfrau heb feddwl am yr angen i arloesi, heb feddwl sut y gallwch ddarparu gwasanaethau yn well ac mewn ffordd mwy cost effeithiol, a heb edrych ar opsiynau eraill sydd ar gael iddynt. Mae hynny'n rhannol oherwydd eu bod wedi gadael pethau tan y funud olaf ond mae hefyd yn deillio o'r ffaith nad yw cynghorwyr wedi arfer meddwl yn y termau hynny yng Nghymru, ac mae angen inni ddechrau meddwl yn y termau hynny. Maent wedi cael eu gorfodi i feddwl yn y termau hynny yn Lloegr, ond nid ydynt o reidrwydd wedi cael eu gorfodi i wneud hynny yng Nghymru, ac rwy'n meddwl eu bod yn mynd i orfod ystyried sut y maent yn gwneud hynny.

So I think, Presiding Officer, that we are in a situation where everybody is in difficult times. The Welsh Government, of course, is promoting a number of policies that it is expecting local government to deliver. The pupil deprivation grant is one such policy, which is funded. My concern—I have expressed this before—is that councils will not deliver the full 1% in terms of extra funding for schools that the Welsh Government has asked them to deliver, and will use that pupil deprivation grant funding to offset that obligation. I hope that that does not happen. Also, of course, there is some hope, if you like, in terms of investment, because of the changes to the housing revenue account scheme, which will release more money back to local councils to invest. In terms of capital, although things are very difficult, they are not as bad as they are in terms of revenue. Local councils are able to continue some investment in their local areas and make sure that they maximise the level of that investment that is spent locally on local firms and creating local jobs.

Felly, rwy'n meddwl, Lywydd, ein bod mewn sefyllfa lle mae pawb mewn cyfnod anodd. Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn hyrwyddo nifer o bolisïau y mae'n disgwyl i lywodraeth leol eu cyflawni. Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn un polisi o'r fath, sy'n cael ei ariannu. Fy mhryder i—rwyf wedi'i fynegi o'r blaen—yw na fydd cynghorau'n darparu'r 1% yn llawn o ran cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddynt ei ddarparu, ac y byddant yn defnyddio'r arian grant amddifadedd disgyblion i wneud iawn am y rhwymedigaeth hwnnw. Rwy'n gobeithio na fydd hynny'n digwydd. Hefyd, wrth gwrs, mae rhywfaint o obaith, os mynnwch chi, o ran buddsoddiad, oherwydd y newidiadau i'r cynllun cyfrif refeniw tai, a fydd yn rhyddhau mwy o arian yn ôl i gynghorau lleol i'w fuddsoddi. Er bod pethau'n anodd iawn o ran cyfalaf, nid ydynt mor ddrwg ag y maent o ran refeniw. Mae cynghorau lleol yn gallu parhau â rhywfaint o fuddsoddiad yn eu hardaloedd lleol a gwneud yn siŵr eu bod yn manteisio i'r eithaf ar lefel y buddsoddiad hwnnw sy'n cael ei wario'n lleol ar gwmnïau lleol a chreu swyddi lleol.

At the end of the day, Presiding Officer, what we need here is investment in services, but investment in jobs and the economy. If we are to grow the economy then public services will respond to that, and jobs will be created. Yes, jobs will be lost, but we need to create other jobs, and we need to make sure of that. Wales has been lagging behind England in terms of creating those jobs, and we do need to catch up on that.

Yn y pen draw, Lywydd, yr hyn y mae arnom ei angen yma yw buddsoddi mewn gwasanaethau, ond buddsoddi hefyd mewn swyddi a'r economi. Os ydym am ehangu'r economi yna bydd gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i hynny, a bydd swyddi'n cael eu creu. Bydd, bydd swyddi'n cael eu colli, ond mae angen inni greu swyddi eraill, ac mae angen inni wneud yn siŵr o hynny. Mae Cymru wedi bod yn llusgo y tu ôl i Loegr o ran creu'r swyddi hynny, ac mae angen i ni ddal i fyny.

Given that this is a decision of the Welsh Government, in terms of how that money is allocated, we will be abstaining on this motion today. I accept that there is very little choice about the way in which the budget is set out, but I also think that the way in which the money in being allocated and dealt with at a local government level could be better. Councils need to think for the long term as well as in terms of how they will balance next year's books.

O ystyried bod hwn yn benderfyniad gan Lywodraeth Cymru, o ran sut y mae'r arian yn cael ei ddyrannu, byddwn yn ymatal ar y cynnig hwn heddiw. Rwy'n derbyn nad oes fawr o ddewis ynglŷn â'r ffordd y caiff y gyllideb ei phennu, ond rwyf hefyd yn meddwl y gellid dyrannu ac ymdrin â'r arian yn well ar lefel llywodraeth leol. Mae angen i gynghorau feddwl am y tymor hir yn ogystal â sut y byddant yn mantoli llyfrau'r flwyddyn nesaf.

17:30

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to take part in the debate today.

Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl heddiw.

In Powys, much has been made in the media over recent weeks regarding the political manoeuvrings of the various independent council groupings and their respective leaders. It has actually been quite depressing because the fact is that the political conspiracies and in-fighting have ensured that the council has taken its eye off the central and most important aspect, which is that of having to save £20 million over the coming financial year due to another appalling settlement. However, I should say that a new leader has been appointed with a good mandate and he has appointed his cabinet yesterday. I hope that that will bring stability to the council.

Ym Mhowys, rhoddwyd llawer o sylw yn y cyfryngau dros yr wythnosau diwethaf i ystrywiau gwleidyddol gwahanol grwpiau annibynnol y cyngor a'u harweinwyr. Mae wedi bod yn eithaf digalon mewn gwirionedd oherwydd mai'r gwir yw bod y cyngor, yn sgil y cynllwynion gwleidyddol a'r ymladd ymysg ei gilydd, wedi rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar yr agwedd ganolog a mwyaf pwysig, sef y ffaith bod yn rhaid iddo arbed £20 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod oherwydd setliad ofnadwy arall. Fodd bynnag, dylwn ddweud bod arweinydd newydd wedi cael ei benodi gyda mandad da a'i fod wedi penodi ei gabinet ddoe. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n dod â sefydlogrwydd i'r cyngor.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:31.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 17:31.*

**Russell George** [Bywgraffiad] [Biography]

The financial circumstances that we find ourselves in, we all agree, are going to be with us, unfortunately, for some time to come. It is clear from work carried out by the Welsh Local Government Association that Welsh local authorities will have to deliver services in 2020 with the same level of funding that they had in 2000. We have come to the point where the funding formula has to be fundamentally reviewed. For local authorities representing significantly large parts of rural Wales, the funding pressures are even more acute.

Rydym i gyd yn cytuno bod yr amgylchiadau ariannol yr ydym yn canfod ein hunain ynddynt yn mynd i fod gyda ni, gwaetha'r modd, am beth amser i ddod. Mae'n amlwg o'r gwaith a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau yn 2020 gyda'r un lefel o gyllid ag a oedd ganddynt yn 2000. Rydym wedi dod i'r pwynt lle mae'n rhai i'r fformiwla gyllido gael ei hadolygu'n sylfaenol. Mae'r pwysau ariannu hyd yn oed yn fwy difrifol i awdurdodau lleol sy'n cynrychioli rhannau sylweddol fawr o'r Gymru wledig.

Many might say, and I heard the Minister's opening remarks, with the Williams commission reporting next week, that local government funding structures are going to be reformulated as a matter of course. However, putting those structures in place is going to take a number of years. However, rural authorities like Powys, and more importantly for the residents they serve, cannot wait that long.

Gallai llawer ddweud, a chlywais sylwadau agoriadol y Gweinidog, gyda chomisiwn Williams yn cyflwyno ei adroddiad yr wythnos nesaf, bod strwythurau cyllid llywodraeth leol yn mynd i gael eu hail-lunio fel mater o drefn. Fodd bynnag, mae'n mynd i gymryd nifer o flynyddoedd i roi'r strwythurau hynny ar waith. Fodd bynnag, ni all awdurdodau gwledig fel Powys, ac yn bwysicach fyth y trigolion y maent yn eu gwasanaethu, aros cyn hired â hynny.

I will briefly highlight the difficulties that Powys County Council is currently experiencing. Once again, it was on the receiving end of unprecedented cuts in local government finance. It is the seventh year in a row that it has received the largest budget cut of Welsh local authorities, with a reduction of 4.6% compared with a Wales average of 3.4%. It has to find £40 million of savings over the next three financial years. For an authority delivering vital local services across a very large geographical area—that is what is important—it will be very tough indeed.

Tynnaf sylw yn gryno at yr anawsterau y mae Cyngor Sir Powys yn eu profi ar hyn o bryd. Unwaith eto, derbyniodd doriadau digynsail mewn cyllid llywodraeth leol. Dyma'r seithfed flwyddyn yn olynol iddo dderbyn y toriad mwyaf yn ei gyllideb o blith holl awdurdodau lleol Cymru, gyda gostyngiad o 4.6% o'i gymharu â chyfartaledd o 3.4% trwy Gymru. Mae'n rhaid iddo arbed £40 miliwn dros y tair blynedd ariannol nesaf. Bydd yn anodd iawn yn wir i awdurdod sy'n darparu gwasanaethau lleol hanfodol ar draws ardal ddaearyddol fawr iawn—dyna sy'n bwysig.

The Minister responded to a debate last year more or less suggesting that the authority should be thankful that she has implemented a damping mechanism that has prevented the situation becoming far worse. However, with many local services under threat, I do not believe that the situation could be much worse. Powys is one of the largest local authority areas in Wales. One of its biggest assets is its beautiful landscapes and one of its key industries is tourism; yet, we have tourist information centres gone and public toilets about to close. Public transport—I have a growing postbag on this issue—is vital for many rural communities. It will be incredibly difficult, especially for the elderly across my constituency, when services are cut, which is the plan.

Ymatebodd y Gweinidog i ddadl y llynedd gan awgrymu fwy neu lai y dylai'r awdurdod fod yn ddiolchgar ei bod wedi gweithredu mecanwaith dampio sydd wedi atal y sefyllfa rhag dod yn llawer gwaeth. Fodd bynnag, gyda nifer o wasanaethau lleol o dan fygythiad, nid wyf yn credu y gallai'r sefyllfa fod yn llawer gwaeth. Powys yw un o'r ardaloedd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Un o'i hasedau mwyaf yw ei thirweddau hardd ac un o'i diwydiannau allweddol yw twristiaeth; eto, mae canolfannau croeso wedi mynd a thoiledau cyhoeddus ar fin cau. Mae cludiant cyhoeddus—rwy'n cael nifer cynyddol o lythyrau ar y mater hwn—yn hanfodol i lawer o gymunedau gwledig. Bydd yn anhygoel o anodd, yn enwedig ar gyfer yr henoed ar draws fy etholaeth, pan fydd gwasanaethau'n cael eu torri, a dyna yw'r bwriad.

Yes, it is true to say that the formula is owned, in a sense, by local authorities through the expenditure sub-group, but it is Welsh Ministers who have the ultimate say and final sign-off. I have pressed the Minister previously that the weighting given to providing public services across a large and sparsely populated rural county is not adequately taken into account in the current formula. That needs to change.

Ydy, mae'n wir dweud bod y fformiwla'n eiddo, ar un ystyr, i awdurdodau lleol trwy'r is-grŵp gwariant, ond Gweinidogion Cymru sy'n cael y gair olaf yn y pen draw ac yn rhoi'r sêl bendith terfynol. Rwyf wedi pwyso ar y Gweinidog yn y gorffennol i gydnabod nad yw'r pwysoliad a roddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws sir wledig fawr â phoblogaeth wasgaredig yn cael ei ystyried yn ddigonol yn y fformiwla bresennol. Mae angen i hynny newid.

I leave the Minister with this final point: if your colleague the Minister for health has ordered a review of the delivery of health services across mid Wales because of the pressure of rurality, then should you not consider doing the same?

Gadawaf y Gweinidog gyda'r pwynt olaf hwn: os yw eich cydweithiwr, y Gweinidog iechyd, wedi gorchymyn adolygiad o wasanaethau iechyd ar draws canolbarth Cymru oherwydd y pwysau a ddaw yn sgil ei natur wledig, yna oni ddylech chi ystyried gwneud yr un peth?

17:34 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will start off by answering a couple of questions raised by Janet Finch-Saunders. The standard spending assessment takes into account all of the things that she named, and several others—probably a couple of hundred others. It is a hugely complicated formula. What used to happen—perhaps the Minister will confirm whether it still does—was that there was a distribution sub-group of the Welsh Local Government Association that used to meet with the Welsh Government's civil servants and agree—almost always—a continuation of the formula. One year, it changed something: it used to be 52% for road length and 48% for population, but it made it 50% for each. All that did was take hundreds of thousands of pounds out of Cardiff and Swansea and put them into Pembrokeshire, Gwynedd and Powys. So, any movement that you happen to have can have huge effects.

Byddaf yn dechrau trwy ateb un neu ddau o gwestiynau a godwyd gan Janet Finch-Saunders. Mae'r asesiad o wariant safonol yn rhoi ystyriaeth i'r holl bethau a enwodd hi, a sawl un arall—yn ôl pob tebyg cwpl o gannoedd o rai eraill. Mae'n fformiwla hynod gymhleth. Yr hyn a arferai ddigwydd—efallai y gall y Gweinidog gadarnhau a yw'n dal i ddigwydd—oedd bod is-grŵp dosbarthu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn arfer cwrdd â gweision sifil Llywodraeth Cymru a chytuno—bron bob amser—i barhau â'r fformiwla. Un flwyddyn, newidiodd rhywbeth: arferai fod yn 52% ar gyfer hyd ffyrdd a 48% ar gyfer y boblogaeth, ond fe'i gwnaeth yn 50% yr un. Y cyfan a gyflawnodd hynny oedd cymryd cannoedd o filoedd o bunnoedd o Gaerdydd ac Abertawe a'u rhoi i Sir Benfro, Gwynedd a Phowys. Felly, gall unrhyw symudiad yr ydych yn digwydd ei wneud, gael effeithiau enfawr.

The other question that Janet Finch-Saunders had was about high salaries in local government. I think that that is a serious problem. I have spoken about it on more than one occasion. I will say, though, that 20 years ago chief executives were on a salary set by the size of the authority and councillors' allowances were set locally. Now it is the other way around. It was a Conservative Government—yes, a Conservative Government—that brought in the policy of allowing local authorities to set salaries so that they could attract 'the best' into local government. That is what has happened. That is why you had some people earning £250,000 or £300,000 in some authorities—although not in Wales; we have not quite got up to the English levels yet.

Y cwestiwn arall oedd gan Janet Finch-Saunders oedd ynghylch cyflogau uchel mewn llywodraeth leol. Rwy'n meddwl bod honno'n broblem ddifrifol. Rwyf wedi siarad am y peth ar fwy nag un achlysur. Byddaf yn dweud, fodd bynnag, bod prif weithredwyr 20 mlynedd yn ôl ar gyflog a osodwyd yn ôl maint yr awdurdod a bod lwfansau cynghorwyr yn cael eu gosod yn lleol. Nawr y mae'n groes i hynny. Llywodraeth Geidwadol—ie, Llywodraeth Geidwadol—a gyflwynodd y polisi o ganiatáu i awdurdodau lleol bennu cyflogau er mwyn iddynt allu denu 'y goreuon' i lywodraeth leol. Dyna beth sydd wedi digwydd. Dyna pam y mae rhai pobl yn ennill £250,000 neu £300,000 mewn rhai awdurdodau—er nad yng Nghymru; nid ydym wedi cyrraedd lefelau Lloegr eto.

What we need is to see a situation where we get back to setting salaries against a standard level. I would hope that England would do exactly the same to solve the problems in its authorities as well.

Yr hyn y mae ei angen yw gweld sefyllfa lle'r ydym yn mynd yn ôl i osod cyflogau yn unol â lefel safonol. Byddwn yn gobeithio y byddai Lloegr yn gwneud yn union yr un peth i ddatrys y problemau yn ei hawdurdodau hithau hefyd.

What I had intended to start with was the cuts. They are made by the Westminster Conservative and Liberal Democrat Government and they are now making their way through to local government. The challenge for my party is to explain to the electorate that the cuts in local services are a direct result of the cuts being made at Westminster. The public sees these huge reductions being made by the Westminster Government—billions—but most people, and I include myself in this, would not know what a billion pounds look like. The challenge is to get people to identify these reductions as the cause of the closure of their local services, to blame the Westminster Government and not the local council. The cuts from Westminster lead directly to the cuts in their local services—it is the cuts from Westminster that are closing their libraries. Councillors do not want to cut; councils in general do not want to close things. They are elected mainly because they want to provide services.

Yr oeddwn wedi bwriadu dechrau gyda'r toriadau. Maent yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, ac maent yn awr yn cyrraedd llywodraeth leol. Yr her i'm plaid i yw esbonio i'r etholwyr bod y toriadau mewn gwasanaethau lleol yn ganlyniad uniongyrchol i'r toriadau sy'n cael eu gwneud yn San Steffan. Mae'r cyhoedd yn gweld y gostyngiadau enfawr hyn yn cael eu gwneud gan y Llywodraeth yn San Steffan—biliynau—ond ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl, ac rwy'n cynnwys fy hun yn hyn, yn gwybod sut mae biliwn o bunnoedd yn edrych. Yr her yw cael pobl i weld y gostyngiadau hyn fel y rheswm pam mae eu gwasanaethau lleol yn cau, a beio Llywodraeth San Steffan ac nid y cyngor lleol. Mae'r toriadau gan San Steffan yn arwain yn uniongyrchol at y toriadau yn eu gwasanaethau lleol—toriadau San Steffan sy'n cau eu llyfrgelloedd. Nid yw Cynghorwyr yn dymuno torri; nid yw cynghorau yn gyffredinol yn dymuno cau pethau. Maent yn cael eu hethol yn bennaf oherwydd eu bod yn dymuno darparu gwasanaethau.

The Welsh Government has protected local authority expenditure up until this year. The settlement for local government in Wales has been considerably better than that in England for the period of the 2010 spending review, thanks to the Welsh Labour Government and in spite of the cuts being imposed by the UK Government. The settlement for local government in Wales in 2014-15 still remains considerably better than the equivalent in England. The combination of—I was going to say 'health pressures', but what I really mean to say is that the combination of increased hospital costs, and a reduction in the Welsh block grant have led to a substantial reduction in local government expenditure.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu gwariant awdurdodau lleol tan eleni. Mae'r setliad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru wedi bod gryn dipyn yn well nag yn Lloegr ar gyfer cyfnod adolygiad o wariant 2010, diolch i Lywodraeth Llafur Cymru ac er gwaethaf y toriadau a orfodir gan Lywodraeth y DU. Mae'r setliad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn 2014-15 yn dal yn sylweddol well na'r setliad cyfatebol yn Lloegr. Mae'r cyfuniad o—roeddwn yn mynd i ddweud 'pwysau iechyd', ond yr hyn yr wyf am ei ddweud mewn gwirionedd yw bod y cyfuniad o gostau cynyddol i ysbytai, a gostyngiad yn grant bloc Cymru wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng ngwariant llywodraeth leol.

Local authorities, in my experience, are no less efficient than other public sector bodies. Twice I have seen private sector organisations come into Swansea council and say that they can make substantial savings—one by changing practices, one via procurement and ICT. They both had one thing in common: they failed massively to make anywhere near the reductions that they predicted. With all these cuts, what has happened in England? Local residents were shocked when Somerset County Council began a consultation on withdrawing funding from over 20 libraries. The Conservative-controlled council needs to save £75 million over three years and proposed funding only 14 of its most-used libraries. Allendale Community Centre in Hanham Road, East Dorset District Council, costs £70,000 a year and is in serious danger of being closed. Research shows that a majority of Tory and Lib Dem-run councils, and a minority of Labour-controlled councils have cut youth services. A Labour-commissioned survey of just over two fifths of councils in England by the House of Commons Library revealed that 56% of Conservative or Lib Dem town halls reduced the amount spent on youth services in their area between 2008-9 and 2010-11. Meanwhile, 41% of Labour councils and 46% of those with no overall control did the same. Seven of the 10 councils that made the biggest cuts were—you will be surprised to find out—the Conservatives. However, not to take anything away from the Liberal Democrats, they managed to get the top place with Kingston upon Thames in south-west London.

Nid yw awdurdodau lleol, yn fy mhrofiad i, ddim llai effeithlon na chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Ddwywaith rwyf wedi gweld sefydliadau'r sector preifat yn dod i gyngor Abertawe a dweud y gallant arbed arian sylweddol—un drwy newid arferion, un trwy gaffael a TGCh. Roedd gan y ddau un peth yn gyffredin: fe wnaethant fethu'n llwyr â chyflawni'n agos at y gostyngiadau yr oeddent wedi'u rhagweld. Gyda'r holl doriadau hyn, beth sydd wedi digwydd yn Lloegr? Cafodd trigolion lleol sioc pan ddechreuodd Cyngor Sir Gwlad yr Haf ymgynghoriad ar roi'r gorau i gyllido dros 20 o lyfrgelloedd. Mae angen i'r cyngor, sy'n cael ei reoli gan y Ceidwadwyr, arbed £75 miliwn dros dair blynedd a chynigiodd ariannu dim ond 14 o'r llyfrgelloedd a ddefnyddir fwyaf. Mae Canolfan Gymuned Allendale yn Hanham Road, Cyngor Dosbarth Dwyrain Dorset, yn costio £70,000 y flwyddyn ac mae mewn perygl difrifol o gael ei chau. Dengys ymchwil fod y rhan fwyaf o gynghorau a reolir gan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, a lleiafrif o gynghorau a reolir gan y blaid Lafur wedi torri gwasanaethau ieuenctid. Comisiynodd y blaid Lafur arolwg gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin o ychydig dros ddau o bob pump o gynghorau yn Lloegr, a dangosodd fod 56% o neuaddau tref Ceidwadwyr neu Ddemocratiaid Rhyddfrydol wedi lleihau'r swm a wariwyd ar wasanaethau ieuenctid yn eu hardal rhwng 2008-9 a 2010-11. Yn y cyfamser, gwnaeth 41% o gynghorau Llafur a 46% o'r rhai heb reolaeth gyffredinol yr un peth. Ceidwadwyr—byddwch yn cael eich synnu i glywed— oedd saith o'r 10 cyngor a wnaeth y toriadau mwyaf. Fodd bynnag, rhag tynnu dim oddi wrth y Democratiaid Rhyddfrydol, maent wedi llwyddo i gael y lle uchaf gyda Kingston upon Thames yn ne-orllewin Llundain.

Local authorities in Wales face increased social care costs and a need to protect education expenditure, but the areas for cuts are limited. The type of council facing the largest problems will be one with discretionary services contracted out and which has its contracts fixed, high debt to income ratios and a large number of discretionary services currently being provided. I have great sympathy for councillors in the difficult decisions that they have to make. These are difficult times for local government and the Welsh Government and I wish all local authorities the best.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu costau gofal cymdeithasol uwch a'r angen i ddiogelu gwariant ar addysg, ond mae'r meysydd ar gyfer toriadau yn gyfyngedig. Y math o gyngor a fydd yn wynebu'r problemau mwyaf fydd yr un y darperir ei wasanaethau dewisol trwy gontract allanol ac sydd â chontractau sefydlog, cymarebau uchel o ran dyled i incwm a nifer fawr o wasanaethau dewisol yn cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae gennyf gydymdeimlad mawr â chynghorwyr oherwydd y penderfyniadau anodd y mae'n rhaid iddynt eu gwneud. Mae hwn yn gyfnod anodd i lywodraeth leol ac i Lywodraeth Cymru a dymunaf y gorau i bob awdurdod lleol.

17:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I thank Members for their contributions. I will start with Janet Finch-Saunders and Russell George, who focused on the formula. However, in answer to Mike Hedges's question, yes, the distribution sub-group does still exist, and there is a long-established principle that funding is distributed to local government on the basis of relative need to spend. It is done in conjunction with local government. We use the formula, which takes into account the needs of that particular local authority according to the demographic, physical and social characteristics of each area, such as population, pupil numbers, measures of deprivation and rurality. The formula is reviewed every year, and it is updated every year in detailed consultation with local government.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Rwyf am ddechrau gyda Janet Finch-Saunders a Russell George, a oedd yn canolbwyntio ar y fformiwla. Fodd bynnag, i ateb cwestiwn Mike Hedges, ydy, mae'r is-grŵp dosbarthu yn dal i fodoli, a cheir egwyddor hirsefydlog bod arian yn cael ei ddosbarthu i lywodraeth leol ar sail angen cymharol i wario. Fe'i gwneir ar y cyd â llywodraeth leol. Rydym yn defnyddio'r fformiwla, sy'n ystyried anghenion yr awdurdod lleol penodol yn ôl nodweddion demograffig, ffisegol a chymdeithasol pob ardal, megis poblogaeth, niferoedd disgyblion, mesurau amddifadedd a pha mor wledig yw'r ardal. Mae'r fformiwla yn cael ei hadolygu bob blwyddyn, a'i diweddaru bob blwyddyn mewn ymgynghoriad manwl â llywodraeth leol.

Janet Finch-Saunders is right to say that it is the Welsh Government that decides how to spend its budget, but we can give only what we have. I can give local government only what I have, and local government can spend only what it has; that is how it works. However, your hypocrisy knows no bounds: by your own admission, the Tories would cut local government budgets next year by a significant 12.5%. Therefore, in answer to you, Russell George, regarding whether things could get any worse in Powys, it absolutely could if you lot were in charge.

Mae Janet Finch-Saunders yn iawn i ddweud mai Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu sut i wario'r gyllideb, ond dim ond yr hyn sydd gennym y gallwn ei roi. Dim ond yr hyn sydd gennyf y gallaf ei roi i lywodraeth leol, a dim ond yr hyn sydd ganddi y gall llywodraeth leol ei wario; dyna sut y mae'n gweithio. Fodd bynnag, nid oes terfyn ar eich rhagrith: rydych yn cyfaddef eich hun y byddai'r Torïaid yn torri 12.5% oddi ar gyllidebau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf, sy'n ganran sylweddol. Felly, i roi ateb i chi, Russell George, ynghylch a allai pethau fynd yn waeth ym Mhowys, gallai yn bendant pe byddai eich criw chi wrth y llyw.

17:41 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With the greatest respect, Minister, this is the seventh year in a row that Powys has had the largest cut of any local authority. Therefore, even with greater cuts to local authorities, does it not mean that rural councils like Powys will suffer because of the way that this Labour Government has acted in relation to Powys County Council over the last seven years?

Gyda phob parch, Weinidog, dyma'r seithfed flwyddyn yn olynol y mae Powys wedi cael toriad mwy nag unrhyw awdurdod lleol. Felly, hyd yn oed gyda mwy o doriadau i awdurdodau lleol, onid yw'n golygu y bydd cynghorau gwledig fel Powys yn dioddef oherwydd y ffordd y mae'r Llywodraeth Lafur hon wedi gweithredu mewn perthynas â Chyngor Sir Powys yn ystod y saith mlynedd diwethaf?

17:41 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Local government has not asked for the formula to be reviewed in the way in which you suggest.

Nid yw llywodraeth leol wedi gofyn am adolygu'r fformiwla yn y ffordd yr ydych chi'n ei awgrymu.

Janet Finch-Saunders referred to the flexibility of the settlement; flexibility is really important, and I have worked very hard to make sure that local government has more flexibility. You asked me to speed up the review; it will be completed in March. It has been a very quick review and, once again, it has been done in consultation with local government.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at hyblygrwydd y setliad; mae hyblygrwydd yn bwysig iawn, ac rwyf wedi gweithio'n galed iawn i wneud yn siŵr bod gan lywodraeth leol fwy o hyblygrwydd. Gofynnoch i mi gyflymu'r adolygiad; bydd yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth. Mae wedi bod yn adolygiad cyflym iawn ac, unwaith eto, mae wedi cael ei gynnal mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol.

We have protected local government funding over recent years, and a few Members mentioned this. It is important that we have done that, because it offers public services to the most vulnerable people, as Lynne Neagle referred to. She mentioned Torfaen County Borough Council and the way in which it has approached this budget, and I completely agree with her.

Rydym wedi diogelu cyllid llywodraeth leol dros y blynyddoedd diwethaf, a soniodd ambell i Aelod am hyn. Mae'n bwysig ein bod wedi gwneud hynny, oherwydd ei fod yn cynnig gwasanaethau cyhoeddus i'r bobl fwyaf agored i niwed, fel y dywedodd Lynne Neagle. Soniodd am Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a'r ffordd y mae wedi ymdrin â'r gyllideb hon, ac rwyf yn cytuno'n llwyr â hi.

Rhodri Glyn Thomas referred to our budget and the extra spending that has gone to health and education. He also referred to senior officers' pay, as did Mike Hedges. This is a matter for individual local authorities, and they will have to look at it very closely. However, they want to get the best people and the expertise, but they are competing with England—and I know that this is something that has been felt.

Cyfeiriodd Rhodri Glyn Thomas at ein cyllideb a'r gwariant ychwanegol ar iechyd ac addysg. Cyfeiriodd hefyd at dâl uwch swyddogion, fel y gwnaeth Mike Hedges. Mae hwn yn fater i awdurdodau lleol unigol, a bydd yn rhaid iddynt ei ystyried yn ofalus iawn. Fodd bynnag, maent yn awyddus i gael y bobl orau a'r arbenigedd, ond maent yn cystadlu â Lloegr—a gwn fod hwn yn rhywbeth sydd wedi cael ei deimlo.

He talked about the workforce and, tomorrow, the First Minister and I will be meeting not only representatives from local government, but all public service workforce representatives to see how we can continue to work with them to mitigate the impact. It is inevitable that there will be an impact upon service provision and upon numbers, but we are committed to working very closely not only with local government but with all our public services.

Siaradodd am y gweithlu ac, yfory, bydd y Prif Weinidog a minnau'n cwrdd â chynrychiolwyr o lywodraeth leol, ond hefyd â holl gynrychiolwyr gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus i weld sut y gallwn barhau i weithio gyda nhw i liniaru'r effaith. Mae'n anochel y ceir effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau ac ar niferoedd, ond rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos iawn gyda llywodraeth leol ond hefyd gyda'n holl wasanaethau cyhoeddus.

Peter Black referred to the surprise that has been evident in some quarters of local government. I share his feeling and I am disappointed that they feel that, because I know, since taking up this portfolio in March, that I have pressed upon it the very difficult and unprecedented financial climate we are in. It will not go away; it is here for the next few years, so it is important that local authorities continue to use the relatively protected funding they have had over the past three years to continue that transformational change. When I visited local authorities over the summer—and I spent a significant time in local authorities—I saw innovation, particularly in health and social care and areas such as waste. They were coming up with innovative ways of delivering those public services. Therefore, I am very disappointed that some quarters feel that it has come as a surprise and that they have not pushed forward that transformational change as much as they should have done. I do not want to see local authorities salami-slicing services and certainly that is the message that I have given to them.

Cyfeiriodd Peter Black at y syndod sydd wedi bod yn amlwg mewn rhai rhannau o lywodraeth leol. Rwy'n rhannu ei deimlad ac rwy'n siomedig eu bod yn teimlo felly, gan fy mod yn gwybod fy mod, ers derbyn y portffolio hwn ym mis Mawrth, wedi pwysleisio iddynt pa mor anodd a digynsail yw'r hinsawdd ariannol yr ydym ynddo. Ni fydd yn diflannu; mae yma am yr ychydig flynyddoedd nesaf, felly mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio'r cyllid cymharol warchodedig y maent wedi'i chael dros y tair blynedd diwethaf i barhau'r newid trawsnewidiol. Pan ymwelais ag awdurdodau lleol dros yr haf—ac fe dreuliais amser sylweddol mewn awdurdodau lleol—gwelais arloesedd, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn meysydd fel gwastraff. Roeddent yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus hynny. Felly, rwy'n siomedig iawn bod rhai rhannau yn teimlo syndod ac nad ydynt wedi bwrw ymlaen â'r newid trawsnewidiol hwnnw gymaint ag y dylent fod wedi'i wneud. Nid wyf am weld awdurdodau lleol yn gwneud toriadau tameidiog i wasanaethau—ac yn sicr dyna'r neges yr wyf wedi'i rhoi iddynt.

You referred to the policies that we expect local government to deliver, and it is important that, where we have given them more flexibility in relation to specific grants, there is an element of trust that they will deliver on those key policies. I have certainly done all I can to encourage local government to hold discussions with my ministerial colleagues in relation to their specific grants. I mentioned in my opening remarks that I have given over £30 million from my portfolio, from specific grants, into the RSG.

Cyfeiriasoch at y polisïau yr ydym yn disgwyl i lywodraeth leol eu cyflawni, a lle'r ydym wedi rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt o safbwynt grantiau penodol, mae'n bwysig bod elfen o ymddiriedaeth y byddant yn cyflawni'r polisïau allweddol hynny. Rwy'n sicr wedi gwneud popeth o fewn fy ngallu i annog llywodraeth leol i gynnal trafodaethau gyda'm cyd-Weinidogion mewn cysylltiad â'u grantiau penodol. Soniais yn fy sylwadau agoriadol fy mod wedi rhoi dros £30 miliwn o'm portffolio, o grantiau penodol, i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw.

Mike Hedges is quite right that it is very hard to visualise £1 billion, but if you think that the Welsh Government budget will be cut by £1.7 billion over this term, you can see where our difficulties arise. However, I agree, as I hope that no-one goes into politics to cut services, and I, too, know how difficult it is for councillors and local authorities.

Mae Mike Hedges yn llygad ei le ei bod yn anodd iawn dychmygu £1 biliwn, ond os ystyriwch y bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei thorri £1.7 biliwn yn ystod y tymor hwn, gallwch weld lle mae ein hanawsterau'n codi. Fodd bynnag, rwy'n cytuno, gan fy mod yn gobeithio nad oes neb yn mynd i mewn i wleidyddiaeth i dorri gwasanaethau, ac rwyf innau, hefyd, yn gwybod pa mor anodd yw hi i gynghorwyr ac awdurdodau lleol.

In conclusion, I believe that this settlement reflects a reasonable outcome for local government. It has been achieved in unprecedented circumstances, and I hope that it recognises our key commitment to investing in public services. I am now looking for local authorities to intensify efforts to achieve the transformational change needed in order for them to be able to sustain services and deliver the best outcomes for people across Wales. I commend this settlement to the Assembly.

I gloi, rwy'n credu bod y setliad hwn yn ganlyniad rhesymol i lywodraeth leol. Mae wedi cael ei gyflawni mewn amgylchiadau nas gwelwyd o'r blaen, ac rwy'n gobeithio ei fod yn cydnabod ein hymrwymiad allweddol i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus. Rwyf yn awr yn disgwyl i awdurdodau lleol ddwysáu ymdrechion i gyflawni'r newid trawsnewidiol sydd ei angen er mwyn iddynt allu cynnal gwasanaethau a sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl ledled Cymru. Cymeradwyaf y setliad hwn i'r Cynulliad.

17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection, therefore I defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2012-13

## The Annual Report on Equality 2012-13

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw William Graham.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of William Graham.*

Cynnig NDM5394 Lesley Griffiths

Motion NDM5394 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd o safbwynt hybu cydraddoldeb a chynhwysiant yn 2012-13, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Rhagfyr 2013.

Notes the progress made on promoting equality and inclusion in 2012-13, as set out in the Welsh Government's Annual Report on Equality, which was laid before the National Assembly for Wales on 13 December 2013.

17:46 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

In view of the subject of this debate, I would like to take this opportunity to congratulate the Presiding Officer in her absence on becoming a Dame in this year's new year's honours list, which recognises her tireless work to champion women and equality. Her work on increasing the visibility of women in Welsh public life is an inspiration to all, and includes leading an ongoing women in public life campaign to raise awareness of barriers facing women seeking to achieve leading positions in Wales.

O ystyried pwnc y ddadl hon, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i longyfarch y Llywydd yn ei habsenoldeb ar ddod yn Fonesig yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd eleni, gan gydnabod ei gwaith diflino i hyrwyddo menywod a chydraddoldeb. Mae ei gwaith i sicrhau bod menywod yn fwy amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru yn ysbrydoliaeth i bawb, ac yn cynnwys arwain ymgyrch barhaus ar fenywod mewn bywyd cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o rwystrau sy'n wynebu menywod sy'n ceisio cyflawni swyddi blaenllaw yng Nghymru.

Our commitment to achieving greater diversity in public appointments is set out in our programme for government and our strategic equality plan. Our progress in taking this forward is one of the many actions described in our annual report on equality. I am therefore pleased to present the Welsh Government's annual report on equality for 2012-13.

Mae ein hymrwymiad i sicrhau mwy o amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus wedi'i nodi yn ein rhaglen lywodraethu a'n cynllun cydraddoldeb strategol. Yr hyn a gyflawnwyd wrth fwrw ymlaen â hyn yw un o'r nifer o gamau a ddisgrifir yn ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Felly, rwy'n falch o gyflwyno adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb ar gyfer 2012-13.

Much work has been achieved through the reporting year, thus demonstrating a positive and genuinely cross-Government approach with a strong vision of inclusion and equality. The report details the positive actions that have been taken to make Wales a more sustainable and fairer nation, and builds on the actions this Welsh Government has taken in delivering our programme for government.

Mae llawer o waith wedi'i gyflawni yn ystod blwyddyn yr adroddiad, gan ddangos agwedd gadarnhaol a gwirioneddol traws-lywodraethol gyda gweledigaeth gref o gynhwysiant a chydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn manylu ar y camau cadarnhaol sydd wedi'u cymryd i wneud Cymru yn genedl fwy cynaliadwy a thecach, ac mae'n adeiladu ar y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd wrth gyflawni ein rhaglen lywodraethu.

This is our fourteenth annual report and it brings together our statutory reporting requirements under the Government of Wales Act 2006, the Equality Act 2010 and the Welsh-specific equality duties into a single report, thus providing a complete picture of progress against our equality duties. Our commitment to equality of opportunity is enshrined not only in our governing legislation, but in our programme for government as well as the strategic equality plan, which reflects our top priorities for tackling inequality.

Dyma ein pedwerydd adroddiad blynyddol ar ddeg ac mae'n dwyn ynghyd ein gofynion statudol i gyflwyno adroddiad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru mewn un adroddiad, gan roi darlun cyflawn o'r hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â'n dyletswyddau cydraddoldeb. Mae ein hymrwymiad i gyfle cyfartal wedi'i ymgorffori yn y ddeddfwriaeth sy'n ein llywodraethu, ond hefyd yn ein rhaglen lywodraethu yn ogystal â'r cynllun cydraddoldeb strategol, sy'n adlewyrchu ein prif flaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

The annual report highlights what we have achieved in complying with our duty to promote equality of opportunity. This includes not only our strategic actions and policy commitments, but promoting equality of opportunity through our funding streams. The inclusion grant and advancing equality fund is just one example. This three-year grant was extended for a further year while a full review and consultation were undertaken on future equalities funding in Wales. This grant enabled 19 third sector organisations to develop projects operating in our diverse communities across Wales to make tangible improvements to the lives of individuals and communities as a whole.

Mae'r adroddiad blynyddol yn tynnu sylw at yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni wrth gydymffurfio â'n dyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys ein camau gweithredu strategol a'n hymrwymiadau polisi, ond hefyd hyrwyddo cyfle cyfartal trwy ein ffrydiau ariannu. Un enghraifft yn unig yw'r grant cynhwysiant a'r gronfa hyrwyddo cydraddoldeb. Cafodd y grant tair blynedd hwn ei ymestyn am flwyddyn arall, a chynhaliwyd adolygiad ac ymgynghoriad llawn ar ariannu cydraddoldeb yng Nghymru yn y dyfodol. Galluogodd y grant hwn 19 o sefydliadau trydydd sector i ddatblygu prosiectau sy'n gweithredu yn ein cymunedau amrywiol ledled Cymru i wneud gwelliannau gwirioneddol i fywydau unigolion a chymunedau yn gyffredinol.

The Welsh European Funding Office has further strengthened our actions in promoting equality by focusing resource on projects that directly improve equality on the ground, such as the project run by Sova that supports economically inactive or unemployed black and minority ethnic participants through skills development and confidence-building, as well as engaging with employers to provide employment opportunities.

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cryfhau ymhellach ein camau i hyrwyddo cydraddoldeb trwy ganolbwyntio adnoddau ar brosiectau sy'n gwella cydraddoldeb ar lawr gwlad, fel y prosiect sy'n cael ei redeg gan Sova. Mae'n cefnogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith trwy ddatblygu sgiliau a meithrin hyder, yn ogystal ag ymgysylltu â chyflogwyr i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth.

Throughout the year, Ministers have engaged regularly with groups representing people with protected characteristics at many events and meetings. This has given us a good understanding of the needs of the people of Wales. We are committed to taking these views into account and reflecting them in our policies. We have several established fora through which we engage with groups representing people with protected characteristics. These include the Wales race forum, the disability equality forum and the faith communities forum. These meetings provide the Welsh Government with expert support and advice to help our understanding of the key issues and barriers facing people with protected characteristics.

Drwy gydol y flwyddyn, mae Gweinidogion wedi ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth dda o anghenion pobl Cymru inni. Rydym wedi ymrwymo i ystyried y safbwyntiau hyn a'u hadlewyrchu yn ein polisïau. Mae gennym nifer o fforymau lle'r ydym yn ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r rhain yn cynnwys fforwm hil Cymru, y fforwm cydraddoldeb anabledd a'r fforwm cymunedau ffydd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cefnogaeth a chyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru i'n helpu i ddeall y problemau allweddol a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig.

This is the first year of reporting against our strategic equality plan objectives, and the report details the good progress that has been achieved. I would like to highlight that my Cabinet colleagues play an equal role in delivering against the statutory strategic equality plan objectives. To this end, the annual report clearly articulates the cross-cutting nature of equality and inclusion and the commitment of all Ministers to tackle barriers to equality in order to make Wales a fairer and more inclusive place. In this reporting period, we commissioned a review of advice services, which considered how services can be delivered consistently and universally across Wales.

Dyma'r flwyddyn gyntaf inni gyflwyno adroddiad ar amcanion ein cynllun cydraddoldeb strategol, ac mae'r adroddiad yn manylu ar y gwaith da sydd wedi cael ei gyflawni. Hoffwn bwysleisio bod fy nghydweithwyr yn y Cabinet yn chwarae rhan gyfartal wrth gyflawni amcanion y cynllun cydraddoldeb strategol statudol. I'r perwyl hwn, mae'r adroddiad blynyddol yn cyfleu'n glir natur drawsbynciol cydraddoldeb a chynhwysiant, ac ymrwymiad pob Gweinidog i fynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb er mwyn gwneud Cymru yn lle tecach a mwy cynhwysol. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, comisiynwyd adolygiad o wasanaethau cynghori, a oedd yn ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau yn gyson ac yn gyffredinol ledled Cymru.

The Get On with Science pilot project in 2012 specifically worked to widen the engagement of girls in STEM education, and our grant for the education of Gypsy and Traveller children, which is the lowest attaining learner group, supported over 2,000 learners in 19 local authorities. Over these 12 months, we have also been working with key business sectors to encourage more people from protected groups into roles where they are under-represented. For example, funding has been set aside to take forward initiatives to encourage girls into careers in engineering. We have developed frameworks on tackling hate crime and on independent living for disabled people, both demonstrating a strong ethic of direct and continued engagement with stakeholders. We have been actively working to improve diversity in our public appointments. Within this reporting period, a case study on the Sport Wales appointments process was undertaken. This involved evaluating current practice and instigating a more proactive approach to encouraging diversity. It resulted in an increase in the number of women who applied for public appointments and the number of women who were appointed to the Sport Wales board. It is encouraging to see the positive outcome that resulted from changes made to the appointments process.

Roedd y prosiect peilot Get On with Science yn 2012 yn gweithio'n benodol i ddenu diddordeb mwy o ferched mewn addysg STEM, ac roedd ein grant ar gyfer addysg plant Sipsiwn a Theithwyr, sef y grŵp dysgwyr â'r lefelau cyflawni isaf, yn cefnogi dros 2,000 o ddysgwyr mewn 19 o awdurdodau lleol. Dros y 12 mis, rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda sectorau busnes allweddol er mwyn annog mwy o bobl o grwpiau gwarchodedig i swyddogaethau lle maent yn cael eu tangynrychioli. Er enghraifft, mae arian wedi'i neilltuo i fwrw ymlaen â mentrau i annog merched i fynd i mewn i yrfaoedd mewn peirianneg. Rydym wedi datblygu fframweithiau ar gyfer mynd i'r afael â throseddau casineb ac ar gyfer byw'n annibynnol i bobl anabl, â'r ddau yn dangos egwyddor gref o ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn barhaus â rhanddeiliaid. Rydym wedi bod yn gweithio i wella amrywiaeth yn ein penodiadau cyhoeddus. O fewn cyfnod yr adroddiad hwn, cynhaliwyd astudiaeth achos ar broses benodi Chwaraeon Cymru. Roedd hon yn cynnwys gwerthuso arfer cyfredol a chychwyn dull mwy rhagweithiol o annog amrywiaeth. Arweiniodd at gynnydd yn nifer y menywod a gyflwynodd gais am benodiadau cyhoeddus a nifer y merched a benodwyd i fwrdd Chwaraeon Cymru. Mae'n galonogol gweld y canlyniad cadarnhaol a ddeilliodd o newidiadau a wnaed i'r broses benodi.

This is only a very small number of examples from the actions and achievements in the annual report, which help detail the valuable progress that has been made. I am confident that the actions taken forward in this first year of the strategic equality plan demonstrate that we are working effectively towards the achievement of each of the objectives. It is still early days and we are aware that there is much yet to be done.

Dim ond nifer fach iawn o enghreifftiau yw'r rhain o'r camau a gymerwyd a'r hyn a gyflawnwyd yn yr adroddiad blynyddol, sy'n cynorthwyo i fanylu ar y gwaith gwerthfawr a wnaed. Rwy'n hyderus y bydd y camau a gymerwyd ym mlwyddyn gyntaf y cynllun cydraddoldeb strategol yn dangos ein bod yn gweithio'n effeithiol tuag at gyflawni pob un o'r amcanion. Mae'n dal yn gynnar ac rydym yn ymwybodol bod llawer eto i'w wneud.

This year's annual report is positive evidence of the progress that we are making in Wales to tackle barriers to equality and inclusion, and to promote equality of opportunity, thus working towards better social and economic outcomes for the citizens of Wales. In conclusion, I recognise the cross-party commitment to the public sector equality duty and the Welsh-specific equality duties, and I hope that Members will acknowledge the constructive actions presented in this year's report.

Mae adroddiad blynyddol eleni yn dystiolaeth gadarnhaol o'r hyn yr ydym yn ei gyflawni yng Nghymru i fynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb a chynhwysiant, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal, a thrwy hynny weithio tuag at well canlyniadau cymdeithasol ac economaidd ar gyfer dinasyddion Cymru. I gloi, rwy'n cydnabod yr ymrwymiad trawsbleidiol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cydnabod y camau adeiladol a gyflwynir yn yr adroddiad eleni.

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the four amendments to the motion and I call on Mohammad Asghar to move amendments 1, 2, 3 and 4, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Mohammad Asghar i gynnig gwelliannau 1, 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hybu'r gwaith o ddatblygu polisïau yn y gweithle yng nghyswllt cam-drin domestig ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus.*

*Calls on the Welsh Government to encourage the development of domestic abuse workplace policies for public sector employees.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn credu y dylai fod gan bobl sydd wedi dioddef troseddau rhyw yn eu herbyn yr hawl i wybod pryd y mae'r sawl a ymosododd arnynt yn cael ei ryddhau o gaethiwed, gan gynnwys amodau'r rhyddhau hwnnw, ac y dylai'r hawl hwn gael ei gynnwys yn y Bil arfaethedig, y Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig.*

*Believes that victims of sex crimes should have the right to be informed when their attacker is released from custody, including the conditions of their release, and that this right should be included in the forthcoming Ending Violence Against Women and Domestic Abuse Bill.*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol o safon gyson ac ar gael ledled Cymru.*

*Recognises the need to ensure that support services for victims of sexual violence are of a consistent standard and are available throughout Wales.*

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i Bobl Anabl fel yr un sydd wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth y DU.*

*Calls on the Welsh Government to consider introducing an Access to Elected Office for Disabled People Fund such as that introduced by the UK Government.*

17:54

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 1, 2, 3 and 4.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 1, 2, 3 a 4.

I welcome this fourteenth annual report by the Minister and fully support the aim of removing discrimination on the grounds of age, disability, gender, race, religion and sexual orientation. The Welsh Government's strategic equality plan sets out eight equality objectives, and I would like to address in my remarks this afternoon some of these objectives.

Rwy'n croesawu'r pedwerydd adroddiad blynyddol ar ddeg gan y Gweinidog ac yn llwyr gefnogi'r nod o ddileu gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae cynllun cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru yn nodi wyth amcan cydraddoldeb, a hoffwn gyfeirio yn fy sylwadau y prynhawn yma at rai o'r amcanion hyn.

The first is violence against women, domestic abuse, hate crime and elder abuse. The proposed ending violence against women Bill provides an opportunity to deliver real change in the lives of women in Wales. We know that nearly 50,000 incidents of domestic abuse were reported to police in 2011-12. This figure is likely to be underestimated due to the under-reporting of this issue. A key priority is to recognise the victims of domestic abuse and encourage them to report incidents to the police.

Y cyntaf yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, troseddau casineb a cham-drin yr henoed. Mae'r Bil arfaethedig i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod yn rhoi cyfle i sicrhau newid go iawn ym mywydau menywod yng Nghymru. Rydym yn gwybod yr hysbyswyd yr heddlu am bron i 50,000 o achosion o gam-drin domestig yn 2011-12. Mae'r ffigur hwn yn debygol o fod wedi'i danamcangyfrif oherwydd na hysbysir yr heddlu am bob achos. Blaenoriaeth allweddol yw adnabod dioddefwyr cam-drin domestig a'u hannog i hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau.

Since nearly two thirds of public sector employees are women, the effective implementation of workplace policies to identify and support victims of domestic abuse is vital. Around 200,000 people who work in the Welsh public sector services are now covered by a domestic abuse workplace policy. Such schemes should be encouraged throughout Wales. Schools should have a fully trained member of staff with the expertise to recognise children who exhibit the damaging signs of having witnessed domestic abuse and to provide assistance to those children.

Gan fod bron i ddwy ran o dair o weithwyr y sector cyhoeddus yn fenywod, mae'n hanfodol bod polisïau gweithle i nodi a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae tua 200,000 o bobl sy'n gweithio yng ngwasanaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn awr yn cael eu cynnwys dan bolisi gweithle ar gyfer cam-drin domestig. Dylai cynlluniau o'r fath gael eu hannog ledled Cymru. Dylai fod gan ysgolion aelod o staff wedi'i hyfforddi'n llawn â'r arbenigedd i adnabod plant sy'n arddangos arwyddion niweidiol o fod wedi gweld cam-drin domestig ac i roi cymorth i'r plant hynny.

Victims of sexual violence should have the right to know when the perpetrator is released and the condition of their release. We also need to tackle the huge inconsistencies in the standard and availability of support services for women who have suffered sexual violence.

Dylai dioddefwyr trais rhywiol gael yr hawl i wybod pryd y bydd y troseddwr yn cael ei ryddhau ac amodau eu rhyddhau. Mae angen hefyd inni fynd i'r afael â'r anghysondebau anferth yn safon y gwasanaethau cymorth i fenywod sydd wedi dioddef trais rhywiol, a'r graddau y mae'r gwasanaethau hynny ar gael.

Incidents of hate crimes are likely to be under-reported. In 2011-12, over 1,800 incidents of hate crimes were reported to the police. Race Council Cymru, however, states that only one fifth of racist incidents and hate crimes are reported, Minister. The police must ensure that hate crime is properly recorded and dealt with accordingly. Some health and social care professionals tend not to consider domestic violence as an issue for an older woman. It is possible that injuries sustained by older women are assumed the result of age-related conditions, rather than of violence. We must ensure that these professionals are fully aware and trained to deal with such cases.

Mae'n debygol nad yw'r heddlu'n cael eu hysbysu am bob achos o drosedd casineb. Yn 2011-12, hysbyswyd yr heddlu am dros 1,800 o achosion o droseddau casineb. Mae Cyngor Hil Cymru, fodd bynnag, yn nodi na hysbysir ond am un o bob pum digwyddiad hiliol a throsedd casineb, Weinidog. Mae'n rhaid i'r heddlu sicrhau bod trosedd casineb yn cael ei gofnodi'n briodol a'i drin yn unol â hynny. Mae rhai gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn tueddu i beidio ag ystyried trais domestig fel mater ar gyfer menyw hŷn. Mae'n bosibl y cymerir bod anafiadau a ddioddefwyd gan fenywod hŷn yn ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran, yn hytrach na thrais. Rhaid inni sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hyn yn gwbl ymwybodol ac yn cael eu hyfforddi i ymdrin ag achosion o'r fath.

Independent advocacy services for older people must be extended, Minister. Research by Age Cymru in October 2012 revealed that there was only one paid advocate per 15,000 older people in Wales. Older people in Wales need the support that independent advocates provide to ensure that their voices are heard in the social care system. They normally have problems, whether that is with age, language, or disability, in that they cannot actually transfer or pass on their problems to the authorities. That should be looked at very seriously, so that they can have their problems understood and solved immediately, rather than dragging on.

Rhaid i wasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl hŷn gael eu hymestyn, Weinidog. Datgelodd ymchwil gan Age Cymru ym mis Hydref 2012 mai dim ond un eiriolwr cyflogedig sydd i bob 15,000 o bobl hŷn yng Nghymru. Mae ar bobl hŷn yng Nghymru angen y gefnogaeth a ddarperir gan eiriolwyr annibynnol, i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y system gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Fel arfer maent yn cael problemau, boed hynny gydag oedran, iaith, neu anabledd, yn yr ystyr na allant mewn gwirionedd drosglwyddo neu basio eu problemau i'r awdurdodau. Dylid edrych ar hynny'n ddifrifol iawn, fel y gellir deall eu problemau a'u datrys ar unwaith, yn hytrach na llusgo ymlaen.

I would like to say a few words about the public sector equality duty, Minister. Less than 5.5% of public sector board members identify themselves as disabled. More work needs to be done to widen participation in decision making to ensure that public sector bodies are more representative of the communities that they serve. I urge the Welsh Government to allow the UK Government to lead and introduce an access to elected office for disabled people fund to assist disabled people with the costs incurred in standing for election in Wales. It is very hard for disabled people at the moment to stand for any election, whether local or national elections. They are having more problems than able-bodied people. So, Minister, that also has to be looked at—

Hoffwn ddweud ychydig eiriau am ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, Weinidog. Mae llai na 5.5% o aelodau bwrdd yn y sector cyhoeddus yn nodi eu bod yn anabl. Mae angen gwneud mwy o waith i ehangu amrywiaeth y bobl sy'n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau bod cyrff y sector cyhoeddus yn cynrychioli'n well y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ganiatáu i Lywodraeth y DU arwain a chyflwyno cronfa mynediad at swyddi etholedig ar gyfer pobl anabl, i gynorthwyo pobl anabl gyda'r costau a ddaw i'w rhan yn sgil sefyll etholiad yng Nghymru. Mae'n anodd iawn i bobl anabl ar hyn o bryd sefyll ar gyfer unrhyw etholiad, boed yn etholiadau lleol neu genedlaethol. Maent yn cael mwy o broblemau na phobl nad ydynt yn anabl. Felly, Weinidog, rhaid edrych ar hynny hefyd—

17:59 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

17:59 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Yes, go on.

Gwnaf, ewch ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

17:59 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Explain to me then how I have managed to be elected and successfully re-elected as a disabled person.

Esboniwch i mi felly sut yr wyf wedi llwyddo i gael fy ethol a fy ail-ethol yn llwyddiannus fel person anabl.

Senedd.tv Fideo Video

17:59 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Ann, you are very fortunate that your disability is only on a minor scale. There are people in wheelchairs and they are not that fortunate. I would, rather, say that there are people with disabilities and there is always equality. We have to work—

Ann, rydych yn ffodus iawn fod eich anabledd ar raddfa fach yn unig. Mae yna bobl mewn cadeiriau olwyn ac nid ydynt mor ffodus. Byddwn, yn hytrach, yn dweud y ceir pobl ag anableddau ac y ceir cydraddoldeb bob amser. Mae'n rhaid inni weithio—

Senedd.tv Fideo Video

18:00 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

May I make a point of order afterwards, please?

A allaf i wneud pwynt o drefn wedyn, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have time in this debate to call you, if you send an e-mail.

Mae gennyf amser yn y ddadl hon i alw arnoch chi, os anfonwch e-bost.

Senedd.tv Fideo Video

18:00 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

I find the strategic equality plan objectives, as set out on page 29 of the report, very useful. They enable us to see exactly what the Government is trying to set out to do. I congratulate the Government on the very significant progress that has been made in the public appointments process—over half the public appointees have been women, which, of course, roughly reflects the population. Also, roughly 4% of appointees have been from BME communities, which also reflects the size of the BME community in Wales. That is excellent news. I am interested that only 12% of appointees in our public appointments process are identified as disabled; that is something on which we could perhaps do a bit more work. Obviously, not everybody will want to declare their disability, but it would be a terrible assumption for any of us to make that, because somebody is disabled, they are not capable of achieving to the highest level. Of course, not everybody is a Stephen Hawking, but nevertheless we have to ensure that everybody is given the opportunity of a decent education to achieve to their highest ability and has the opportunity of the dignity of work.

Rwy'n ystyried amcanion y cynllun cydraddoldeb strategol, fel y'u nodir ar dudalen 29 o'r adroddiad, yn ddefnyddiol iawn. Maent yn ein galluogi i weld yn union yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio mynd ati i'w wneud. Rwy'n llongyfarch y Llywodraeth ar y camau sylweddol iawn sydd wedi'u cymryd yn y broses penodiadau cyhoeddus—mae dros hanner y bobl a benodwyd i swyddi cyhoeddus wedi bod yn fenywod, sydd, wrth gwrs, yn fras yn adlewyrchu'r boblogaeth. Hefyd, mae tua 4% y rhai a benodwyd wedi bod o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sydd hefyd yn adlewyrchu maint y cymunedau hynny yng Nghymru. Mae hynny'n newyddion rhagorol. Mae gennyf ddiddordeb yn y ffaith mai dim ond 12% y rhai a benodir yn ein proses benodiadau cyhoeddus sy'n cael eu nodi yn bobl anabl; mae hynny'n rhywbeth efallai y gallem wneud ychydig mwy o waith arno. Yn amlwg, ni fydd pawb yn awyddus i ddatgan eu hanabledd, ond byddai'n beth ofnadwy i unrhyw un ohonom dybio na all rhywun gyflawni i'r lefel uchaf oherwydd ei fod ef neu hi yn anabl. Wrth gwrs, nid yw pawb yn Stephen Hawking, ond serch hynny mae'n rhaid inni sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gael addysg dda i gyflawni hyd eithaf eu gallu ac yn cael y cyfle i brofi urddas gwaith.

Senedd.tv Fideo Video

That means that organisations, including government, need to change to make it possible for people to have equal opportunities. I am absolutely shocked at the attitude of the DWP in relation to constituents of mine who, because they are dyslexic, have failed to turn up at the right place to sign on and have then had their benefits deducted for a whole month. I do not think that it is complying with the Equalities Act when it does that. Quite how someone who has nothing—no savings, no assets and no family living locally—is supposed to survive without any benefits for a whole month is something that I am yet to reconcile. The obvious answer, of course, is that they rely on local friends, the local community and food banks to get them through, but it should not be like that, and the DWP emphasis on tracking jobseekers' efforts to find work by forcing them to do job searches online does not make any exception for or consideration of either dyslexia or the poor literacy levels that are suffered by some 20% to 30% of the population.

Mae hynny'n golygu bod angen i sefydliadau, gan gynnwys llywodraeth, newid i'w gwneud yn bosibl i bobl gael cyfle cyfartal. Rwyf wedi fy synnu'n fawr at agwedd yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn cysylltiad ag etholwyr i mi sydd, oherwydd eu bod yn ddyslecsig, wedi methu â mynd i'r lle iawn i gofrestru ac yna wedi cael tynnu eu budd-daliadau yn ôl am fis cyfan. Nid wyf yn credu ei bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb pan mae'n gwneud hynny. Nid wyf eto wedi dod i ddeall sut yn hollol y mae rhywun sydd heb ddim—dim cynilion, dim asedau a dim teulu sy'n byw yn lleol—i fod i oroesi heb unrhyw fudd-daliadau am fis cyfan. Yr ateb amlwg, wrth gwrs, yw eu bod yn dibynnu ar ffrindiau lleol, y gymuned leol a banciau bwyd er mwyn ymdopi, ond ni ddylai fod felly, ac nid yw pwyslais yr Adran Gwaith a Phensiynau ar olrhain ymdrechion ceiswyr gwaith i ddod o hyd i waith trwy eu gorfodi i chwilio am waith ar-lein yn ystyried nac yn gwneud unrhyw eithriad naill ai ar gyfer dyslecsia na lefelau llythrennedd gwael tua 20% i 30% o'r boblogaeth.

In contrast to that, almost, disability blindness, I am celebrating the fact that in Wales we have a strategic objective to tackle barriers and support disabled people so that they can live independently. I am very struck by the positive role model of Liz Carr, who plays Clarissa Mullery in 'Silent Witness'. It is very unusual to have somebody who is disabled depicted in a leading role without it being about them being disabled. The fact is that she is the smartest character on the team, whose physical limitations enable her to analyse the evidence and come up with conclusions that those running around like whirling dervishes have missed. The screenwriter for 'Silent Witness', Tim Prager, interestingly, has a son with cerebral palsy and he was really keen to have a visibly disabled character to address that gap in our cultural horizons. He quite rightly says that limiting horizons is the greatest outrage, and that it happens because most people do not have any experience of success around disability. Therefore, I think that Liz Carr playing the Clarissa Mullery character is an important way of giving positive role models to somebody who happens to be disabled.

Mewn cyferbyniad â'r dallineb hwnnw, bron, tuag at anabledd, rwy'n dathlu'r ffaith fod gennym yng Nghymru amcan strategol i fynd i'r afael â rhwystrau a chefnogi pobl anabl fel y gallant fyw'n annibynnol. Rwyf wedi dotio ag esiampl gadarnhaol Liz Carr, sy'n chwarae Clarissa Mullery yn 'Silent Witness'. Mae'n anarferol iawn cael rhywun sy'n anabl wedi'i phortreadu mewn prif ran, heb i'r ffaith ei bod yn anabl fod y prif bwyslais. Y ffaith yw mai hi yw'r cymeriad doethaf ar y tîm, ac mae ei chyfyngiadau corfforol yn ei galluogi i ddadansoddi'r dystiolaeth ac i ddod i gasgliadau a fethwyd gan y rhai sy'n rhedeg o gwmpas yn wallgof. Yn ddiddorol, mae gan fab y sgriptiwr ar gyfer 'Silent Witness', Tim Prager, barlys yr ymennydd ac roedd yn awyddus iawn i gael cymeriad y gellid gweld ei bod yn anabl, er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwnnw yn ein gorwelion diwylliannol. Mae'n llygad ei le i ddweud mai gorwelion cyfyng yw'r gwarth mwyaf, a'i fod yn digwydd oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o bobl wedi cael unrhyw brofiad o lwyddiant cysylltiedig ag anabledd. Felly, credaf fod Liz Carr yn chwarae cymeriad Clarissa Mullery yn ffordd bwysig o roi esiampl gadarnhaol i rywun sy'n digwydd bod yn anabl.

I would like to see a much clearer strategy for how we develop our accessible schools, so that parents can track the journey that their children are going to be making through the education system. The assumption has to be that they will normally be integrated with their peers in the local community wherever possible and where it is in their best interest. One of my constituents, who is extremely physically disabled, and who spends all of his time at school in a wheelchair, has had a full-time support carer but has been offered a place at Oxford. Is that not fantastic? What a fantastic role model he is.

Hoffwn weld strategaeth lawer cliriach ar gyfer sut y byddwn yn datblygu ein hysgolion hygyrch, fel y gall rhieni olrhain y daith y mae eu plant yn mynd i fod arni trwy'r system addysg. Rhaid tybio y byddant fel arfer yn cael eu hintegreiddio gyda'u cyfoedion yn y gymuned leol lle bynnag y bo'n bosibl a lle bo hynny er eu lles gorau. Mae un o'm hetholwyr i, sydd yn hynod anabl yn gorfforol, ac sy'n treulio ei holl amser yn yr ysgol mewn cadair olwyn, wedi cael gofalwr cymorth llawn amser ond mae wedi cael cynnig lle yn Rhydychen. Onid yw hynny'n wych? Mae'n esiampl gadarnhaol wych.

18:05 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was interested to see, in the latest annual report on equality, that there is a section on procurement. I thought that that was good. It was quite fascinating. I had not seen it before. Members here will know that it is an issue that we in Plaid Cymru have been pursuing for many months. In fact, a freedom of information question to one major public sector organisation—I will not mention the national museum—has revealed a pretty dismal record on its use of Welsh companies; in fact, it has a lucrative 10-year contract in which its caterers only have to use up to 24% of Welsh produce. That is worse than the Welsh Government, which managed to attain only 40%, by the way. Therefore, it is all very well to have the public sector duty as part of the Welsh Government's equality strategy, but I have to ask, Minister, what steps will the Welsh Government take to ensure that Welsh companies are not forced out of the competition for contracts when they can clearly offer high-quality services at competitive costs? Surely, in the current economic climate affecting us in Wales, Welsh companies should, in fact, enjoy at least a degree of positive discrimination, which would also increase employment opportunities.

Roedd yn ddiddorol gweld, yn yr adroddiad blynyddol diweddaraf ar gydraddoldeb, bod adran ar gaffael. Roeddwn yn meddwl bod hynny'n beth da. Roedd yn hynod ddiddorol. Nid oeddwn wedi gweld hynny o'r blaen. Bydd Aelodau yma yn gwybod ei fod yn fater yr ydym ni ym Mhlaid Cymru wedi bod yn rhoi sylw iddo am fisoedd lawer. Yn wir, mae cwestiwn rhyddid gwybodaeth i un sefydliad sector cyhoeddus mawr —ni wnaf sôn am yr amgueddfa genedlaethol—wedi datgelu record eithaf digalon o ran ei ddefnydd o gwmnïau o Gymru; a dweud y gwir, mae ganddo gontract 10 mlynedd proffidiol lle nad oes raid i'w arlwywyr ond defnyddio hyd at 24% o gynnyrch Cymreig. Mae hynny'n waeth na Llywodraeth Cymru, a lwyddodd i gyrraedd dim ond 40%, gyda llaw. Felly, un peth yw bod dyletswydd y sector cyhoeddus yn rhan o strategaeth cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, ond rhaid i mi ofyn, Weinidog, pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad yw cwmnïau yng Nghymru yn cael eu gorfodi allan o'r gystadleuaeth am gontractau pryd y gallant yn amlwg gynnig gwasanaethau o ansawdd uchel am gostau cystadleuol? Does bosib, yn yr hinsawdd economaidd bresennol sy'n effeithio arnom yng Nghymru, y dylai cwmnïau o Gymru, mewn gwirionedd, fwynhau o leiaf rhywfaint o wahaniaethu cadarnhaol, a fyddai hefyd yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth.

While we are on the subject, why was I given a totally unacceptable reply from the relevant Minister when I asked why a contract for a basic piece of research was awarded to the University of Lancaster, when the research could have been carried out by any one of our Welsh universities? Perhaps the Welsh Government should make sure that it puts its own house in order first.

Tra ein bod ar y pwnc, pam y cefais i ateb cwbl annerbyniol gan y Gweinidog perthnasol pan ofynnais pam fod contract ar gyfer darn sylfaenol o ymchwil wedi'i ddyfarnu i Brifysgol Caerhirfryn, pan allai'r gwaith ymchwil fod wedi cael ei gynnal gan unrhyw un o'n prifysgolion yng Nghymru? Efallai y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei fod yn rhoi ei dŷ ei hun mewn trefn yn gyntaf.

The pages on disability in the report, while good, merely gave an account of work in progress. There is no information on how the Welsh Government has helped disabled people to gain access to employment. I would have liked to have seen more on that, Minister. We all know that 23% of the working-age population in Wales is disabled, yet there are more than four times more non-disabled people than disabled people in employment or in education. Even if disabled people are in employment we all know that they are usually lower paid than non-disabled people. What will the Welsh Government do about this glaring inequality? I would have liked to have seen more on that, Minister. Obviously, all—or most—of us in this Chamber condemn those examples where very seriously disabled people have been wrongly assessed as being capable of working. The fact does remain that disabled people in Wales still suffer from blatant discrimination. I am afraid that that is mainly down to the Tory-Lib Dem Government and Atos. There is a sign as you drive out of this area saying 'Atos kills'. I thought that it was a little dramatic when I first saw it, but we have all read in the newspapers about the cases of people who have taken their own lives as a result of Atos.

Er bod y tudalennau ar anabledd yn yr adroddiad yn dda, nid oeddent ond yn rhoi gwybod am waith ar y gweill. Nid oes unrhyw wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru wedi helpu pobl anabl i gael mynediad i gyflogaeth. Byddwn wedi hoffi gweld mwy am hynny, Weinidog. Rydym i gyd yn gwybod bod 23% o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru yn anabl, ond eto mae mwy na phedair gwaith yn fwy o bobl nad ydynt yn anabl nag o bobl anabl mewn cyflogaeth neu mewn addysg. Hyd yn oed os yw pobl anabl mewn cyflogaeth rydym i gyd yn gwybod eu bod fel arfer yn cael tâl is na phobl nad ydynt yn anabl. Beth a wnaiff Llywodraeth Cymru am yr anghydraddoldeb amlwg hwn? Byddwn wedi hoffi gweld mwy am hynny, Weinidog. Yn amlwg, mae pob un— neu'r rhan fwyaf—ohonom yn y Siambr hon yn condemnio'r enghreifftiau hynny lle mae pobl sy'n ddifrifol anabl wedi cael eu hasesu'n anghywir fel bod yn gallu gweithio. Mae'n parhau'n wir fod pobl anabl yng Nghymru yn dal i ddioddef gwahaniaethu amlwg. Mae arnaf ofn bod hynny'n bennaf oherwydd Llywodraeth y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol ac Atos. Mae yna arwydd wrth i chi yrru allan o'r ardal hon yn dweud 'Mae Atos yn lladd'. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn braidd yn ddramatig pan welais ef gyntaf, ond rydym i gyd wedi darllen yn y papurau newydd am achosion pobl sydd wedi cymryd eu bywydau eu hunain o ganlyniad i Atos.

I would also like to ask why, when the Welsh Government claims to be so keen to champion equality in our society, the Welsh Government has continued to dismiss the idea of establishing the post of disability commissioner. We have, quite rightly, commissioners for children, older people and the Welsh language, but why are disabled people not regarded as having an equal claim to have someone appointed to look after their interests? It is no good fobbing us off, as the First Minister has done, by saying that the Government prefers to focus on the framework for independent living. When I first raised the question of appointing a disability commissioner, when I was first elected to the Senedd, the First Minister said that it was an interesting idea. Now, this seems to have become a political issue. Is this because it is Plaid Cymru that put forward this proposal? I really hope not, because I can assure the First Minister that we have the backing of a good number of third-sector organisations that are supporting our submission of a Bill to appoint such a commissioner.

Hoffwn hefyd ofyn pam mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i wrthod y syniad o sefydlu swydd comisiynydd i bobl anabl, a hithau'n honni ei bod mor awyddus i hyrwyddo cydraddoldeb yn ein cymdeithas. Mae gennym, yn gwbl briodol, gomisiynwyr ar gyfer plant, pobl hŷn a'r iaith Gymraeg, ond pam nad ystyrir bod gan bobl anabl hawl cyfartal i gael rhywun wedi'i benodi i ofalu am eu buddiannau? Nid oes diben osgoi rhoi ateb inni, fel y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud, trwy ddweud bod yn well gan y Llywodraeth ganolbwyntio ar y fframwaith ar gyfer byw'n annibynnol. Pan godais y cwestiwn o benodi comisiynydd i bobl anabl am y tro cyntaf, pan gefais fy ethol gyntaf i'r Senedd, dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn syniad diddorol. Yn awr, mae'n ymddangos bod hwn wedi dod yn fater gwleidyddol. A yw hyn oherwydd mai Plaid Cymru a gyflwynodd y cynnig hwn? Gobeithio ddim, oherwydd y gallaf sicrhau'r Prif Weinidog bod gennym gefnogaeth nifer dda o sefydliadau trydydd sector sy'n ein cefnogi yn ein syniad o gyflwyno Bil i benodi comisiynydd o'r fath.

I will conclude by saying that, by the next annual report, we might be looking for more results than merely listing a number of equality-focused issues. I think that we have some work to do in Wales on equality, because I believe that we have lost the confidence of the lesbian, gay, bisexual and transgender community in Wales over the Ugandan issue. We have to accept the explanation of the First Minister, and I am not in any way—I can assure you—doubting the First Minister's integrity. That has never been my bag in politics and it never will be. However, he is not a charity worker or a volunteer simply helping on projects; the Wales-Africa project is a brilliant project. He is the leader of the Government of a British nation, with many issues to consider when making foreign trips. I believe that he did this country a disservice by not speaking out when he had the opportunity to do so. If he felt that he could not speak out, he could have made the decision, as First Minister, not to go to Uganda. Many world leaders are refusing to attend to the Sochi Winter Olympics because of the Russian treatment of LGBT people, yet our First Minister goes to Uganda—

Rwyf am gloi trwy ddweud y byddwn o bosibl yn chwilio am fwy o ganlyniadau, yn hytrach na dim ond rhestru nifer o faterion sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, erbyn yr adroddiad blynyddol nesaf. Rwy'n meddwl bod gennym rywfaint o waith i'w wneud yng Nghymru ar gydraddoldeb, gan fy mod yn credu ein bod wedi colli hyder y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yng Nghymru dros fater Uganda. Mae'n rhaid inni dderbyn esboniad y Prif Weinidog, ac nid wyf mewn unrhyw ffordd—gallaf eich sicrhau—yn amau gonestrwydd y Prif Weinidog. Nid dyna fu fy ffordd i mewn gwleidyddiaeth erioed, ac ni fydd byth. Fodd bynnag, nid yw'n weithiwr elusen neu'n wirfoddolwr sy'n helpu ar brosiectau; mae'r prosiect Cymru-Affrica yn brosiect gwych. Mae yn arweinydd Llywodraeth un o genhedloedd Prydain, gyda llawer o faterion i'w hystyried wrth wneud teithiau tramor. Rwy'n credu ei fod wedi gwneud anghymwynas â'r wlad hon trwy beidio â dweud ei farn pan gafodd y cyfle i wneud hynny. Os oedd yn teimlo na allai ddweud ei farn, gallai fod wedi gwneud y penderfyniad, fel Prif Weinidog, i beidio â mynd i Uganda. Mae llawer o arweinwyr y byd yn gwrthod mynd i Gemau Olympaidd y Gaeaf yn Sochi oherwydd y modd y mae Rwsia yn trin pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, ond eto mae ein Prif Weinidog yn mynd i Uganda—

18:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Conclude with this, please.

Trefn. Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

18:10

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That country has just passed legislation that imposes a life sentence on gay people. I will conclude by quoting Pastor Niemöller.

Mae'r wlad honno newydd basio deddfwriaeth sy'n gosod dedfryd oes ar bobl hoyw. Byddaf yn cloi trwy ddyfynnu Pastor Niemöller.

18:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You do not have much time.

Nid oes gennych lawer o amser.

18:10

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'They came for the Jews and I did not speak out because I was not a Jew. Then they came for me and there was no one left to speak out for me.'

Daethant am yr Iddewon, ac ni ddywedais ddim am nad oeddwn yn Iddew. Yna daethant amdanaf i ac nid oedd neb ar ôl i siarad o fy mhlaid i.

18:11 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very pleased to speak in this debate. This seems like an opportunity to say that a lot has been achieved, but there is still a lot to do. I want to talk very briefly about a situation where legislation has a disproportionate effect on certain groups in the community. There have been two bits of legislation recently that have particularly affected Gypsies and Travellers. One of these was a Bill from this Assembly, and the other was from Westminster, namely the Control of Horses (Wales) Bill and the Scrap Metal Dealers Act 2013.

Rwyf yn falch iawn o gael siarad yn y ddadl hon. Mae hwn yn ymddangos fel cyfle i ddweud bod llawer wedi cael ei gyflawni, ond bod llawer ar ôl i'w wneud. Rwyf am siarad yn gryno iawn am sefyllfa lle mae deddfwriaeth yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol yn y gymuned. Cafwyd dau ddarn o ddeddfwriaeth yn ddiweddar sydd wedi effeithio'n arbennig ar Sipsiwn a Theithwyr. Bil gan y Cynulliad hwn oedd un o'r rhain, ac roedd y llall yn deillio o San Steffan, sef y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) a Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013.

I am very pleased that the Minister, Alun Davies, has committed on the Control of Horses (Wales) Bill to an action plan and guidance where there will be consultation with Gypsy and Traveller horse owners. I am very pleased that I was able to chair a meeting with the Minister and his officials before Christmas, and that there will be another meeting on Thursday this week. This will look at the wider issues of what this Bill means to the law-abiding Gypsy and Traveller communities that look after their horses well and want to ensure that they are able to continue to do so. The fact that there was no Stage 1 for this Bill, which I know had to be brought in urgently because of the animal welfare considerations, meant that there was no early consultation with Gypsies and Travellers on the implications for their way of life. However, I am pleased that that commitment has been developed and that these meetings are taking place with the responsible Minister.

Rwy'n falch iawn bod y Gweinidog, Alun Davies, wedi ymrwymo, o ran y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru), i ddarparu cynllun gweithredu ac arweiniad gan ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr sy'n berchnogion ceffylau. Rwy'n falch iawn fy mod wedi gallu cadeirio cyfarfod gyda'r Gweinidog a'i swyddogion cyn y Nadolig, ac y cynhelir cyfarfod arall ddydd Iau yr wythnos hon. Bydd hwn yn ystyried materion ehangach ynglŷn â'r hyn y mae'r Bil hwn yn ei olygu i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr sy'n cadw at y gyfraith, yn gofalu am eu ceffylau'n dda, ac yn awyddus i sicrhau eu bod yn gallu parhau i wneud hynny. Ni chafwyd unrhyw ymgynghori cynnar gyda Sipsiwn a Theithwyr ar y goblygiadau i'w ffordd o fyw oherwydd na chafwyd Cam 1 ar gyfer y Bil hwn. Rwy'n gwybod y bu'n rhaid ei gyflwyno ar frys oherwydd ystyriaethau lles anifeiliaid. Fodd bynnag, rwy'n falch bod yr ymrwymiad hwnnw wedi cael ei ddatblygu a bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol.

However, the UK's Scrap Metal Dealers Act 2013 from the Westminster Government became law on 1 December. Again, this has major implications for the Gypsy and Traveller way of life. The purpose of the Act was to stop metal theft, and I think that that is something that we would all support. However, I do not think that there was any consultation at all—none that I could find—from the Westminster Government with Gypsies and Travellers about the effect of this Act. Many Gypsies and Travellers are currently working as scrap metal merchants and dealers. They fulfil a very important role in recycling waste and, for some of them, there was no knowledge at all that this legislation was coming into effect. Given low literacy levels, it is absolutely essential that a proactive effort is made in reaching out to communities like the Gypsy and Traveller community when making legislation that has a disproportionate effect on them. The first that I knew of this scrap metal Act was when Gypsies and Travellers came to see me here at the Senedd. That day was the deadline for them to be able to apply for a transitional licence to carry on doing their work. It was too late, basically, for them to get the licences that they urgently needed.

Fodd bynnag, daeth Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 gan Lywodraeth San Steffan yn gyfraith ar 1 Rhagfyr. Unwaith eto, mae gan hon oblygiadau mawr ar gyfer ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr. Diben y Ddeddf oedd atal lladrad metel, a chredaf fod hynny'n rhywbeth y byddem oll yn ei gefnogi. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod Llywodraeth San Steffan wedi ymgynghori o gwbl—dim y gallwn i ei weld—gyda Sipsiwn a Theithwyr am effaith y Ddeddf hon. Ar hyn o bryd mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn gweithio fel masnachwyr a delwyr metel sgrap. Maent yn cyflawni swyddogaeth bwysig iawn yn ailgylchu gwastraff ac, i rai ohonynt, nid oedd unrhyw wybodaeth o gwbl bod y ddeddfwriaeth hon yn dod i rym. O ystyried lefelau llythrennedd isel, mae'n gwbl hanfodol bod ymdrech ragweithiol yn cael ei gwneud i estyn allan i gymunedau megis y gymuned Sipsiwn a Theithwyr wrth wneud deddfwriaeth sy'n cael effaith anghymesur arnynt. Y cyntaf a wyddwn i am y Ddeddf metel sgrap hon oedd pan ddaeth Sipsiwn a Theithwyr i fy ngweld yma yn y Senedd. Y diwrnod hwnnw oedd y dyddiad cau iddynt allu gwneud cais am drwydded drosiannol i barhau i wneud eu gwaith. Roedd yn rhy hwyr, yn y bôn, iddynt gael y trwyddedau yr oedd eu hangen arnynt ar frys.

Some local authorities are now taking a very proactive approach. Cardiff certainly is. Cardiff Council came here to meet with Gypsy and Traveller representatives in order to get a fast-track method going, as far as was possible, with specific officers who would help Gypsies and Travellers to fill in forms. Many of them are now getting licences in Cardiff, but I do not know how that is happening over the rest of Wales. The scrap metal Act, in particular, illustrates that you can have all of the right equality proposals, you can have a perfect equal opportunities scheme and you can have everything there in principle, but when it comes down to the ground and it is not recognised that you have to have proactive methods to reach out to people, none of that will mean anything. Something like the scrap metal Act can have a huge, disproportionate effect on this group. The result of that is that there is more suspicion of authorities, and that the groups become even more marginalised. In fact, at the meeting about the scrap metal Bill that we held here before Christmas, all the Gypsies and Travellers, a lot of them fathers and sons, were going to sign on at the jobcentre for the first time in their lives, because they had been able to work as scrap metal dealers until this legislation came in. It was not aimed at them—I do not think there was any intention of aiming it at them—but they just were not taken into consideration. That is an example of how we should not do legislation, and we must be aware of the impact that legislation has. It is very important to consider that in this annual report.

Mae rhai awdurdodau lleol bellach yn cymryd agwedd ragweithiol iawn. Mae Caerdydd yn sicr yn gwneud hynny. Daeth Cyngor Caerdydd yma i gyfarfod â chynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr er mwyn rhoi dull carlam ar waith, cyn belled ag yr oedd yn bosibl, gyda swyddogion penodol a fyddai'n helpu Sipsiwn a Theithwyr i lenwi ffurflenni. Mae llawer ohonynt yn awr yn cael trwyddedau yng Nghaerdydd, ond nid wyf yn gwybod sut mae hynny'n digwydd trwy weddill Cymru. Mae'r Ddeddf metel sgrap, yn arbennig, yn dangos y gallwch gael pob un o'r cynigion iawn ynghylch cydraddoldeb, y gallwch gael cynllun cyfle cyfartal perffaith ac y gallwch gael popeth mewn egwyddor, ond y bydd hynny i gyd yn ddibwys os daw at lawr gwlad ac nad yw'n cael ei gydnabod bod rhaid i chi gael dulliau rhagweithiol i estyn allan at bobl. Gall rhywbeth fel y Ddeddf metel sgrap gael effaith enfawr, anghymesur ar y grŵp hwn. Canlyniad hynny yw eu bod yn fwy amheus o'r awdurdodau, a bod y grwpiau yn cael eu hunain hyd yn oed yn fwy ar y cyrion. Yn wir, yn y cyfarfod am y Bil metel sgrap a gynhaliwyd gennym yma cyn y Nadolig, roedd yr holl Sipsiwn a Theithwyr, llawer ohonyn nhw'n dadau a meibion, yn mynd i gofrestru yn y ganolfan waith am y tro cyntaf yn eu bywydau, gan eu bod wedi gallu gweithio fel delwyr metel sgrap nes i'r ddeddfwriaeth yma ddod i rym. Nid oedd wedi'i hanelu atynt—nid wyf yn credu bod unrhyw fwriad i'w hanelu atynt—ond ni chawsant eu hystyried o gwbl. Dyna enghraifft o sut na ddylem wneud deddfwriaeth, a rhaid inni fod yn ymwybodol o'r effaith a gaiff deddfwriaeth. Mae'n bwysig iawn ystyried hynny yn yr adroddiad blynyddol.

18:15

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the one thing that is clear from this very thorough report is the wide range of activities and schemes that the Welsh Government is embarking on in terms of dealing with the equality duty, which we all have, in fact—it is not just a matter for the Welsh Government; the entire Welsh Assembly has that duty. The way that that is being delivered is right and proper, and certainly, on behalf of the Welsh Liberal Democrats, we very much support the work that is ongoing to deliver on that.

Rwy'n meddwl mai'r un peth sy'n glir o'r adroddiad trylwyr iawn hwn yw'r ystod eang o weithgareddau a chynlluniau y mae Llywodraeth Cymru yn cychwyn arnynt o ran ymdrin â'r ddyletswydd cydraddoldeb, sy'n ddyletswydd inni i gyd, mewn gwirionedd—nid yw'n fater i Lywodraeth Cymru yn unig; mae'r ddyletswydd honno yn berthnasol i Gynulliad Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae'r ffordd y mae'n cael ei chyflawni yn iawn ac yn briodol, ac yn sicr, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rydym yn cefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau hynny yn fawr iawn.

If I could just pick up a point that Lindsay Whittle made in relation to Atos, it is very easy to scapegoat people, and I think that Atos has a lot to answer for in the way that it has actually delivered in terms of benefits for disabled people, but it is not always just Atos. In the time that I have had dealing with appeals for people who claim benefits, a lot of the problem is about how the DWP officials interpret the advice that they get from Atos and the rules that are being applied to that advice. So, it is the system as a whole that, effectively, is designed to try to stop people getting benefits, as opposed to one particular part of that system causing the problem. I think that that is an issue that needs to continue to be picked up at a UK level. Of course, Atos was given the contract well before the present Government was in power, but of course it has been continued by the present Government. Certainly, the way that the benefits system is being administered, particularly for those with disabilities, does need to be reviewed. I repeat what I have said previously: that, in my view, in terms of the changes to housing benefit, people with disabilities should be excluded from those changes as well. I think that it is important that people are supported when they have a disability and are not penalised for it.

Pe gallwn godi pwynt a wnaeth Lindsay Whittle mewn cysylltiad ag Atos, mae'n hawdd iawn creu bwch dihangol o bobl, ac rwy'n meddwl bod gan Atos lawer i'w egluro yn y ffordd y mae wedi cyflawni mewn gwirionedd o ran budd-daliadau i bobl anabl, ond nid dim ond Atos yw'r broblem bob amser. Yn yr amser yr wyf wedi ymdrin ag apeliadau i bobl sy'n hawlio budd-daliadau, mae llawer o'r broblem yn ymwneud â sut y mae'r swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau'n dehongli'r cyngor y maent yn ei gael gan Atos a'r rheolau sy'n cael eu rhoi ar waith wrth ddilyn y cyngor hwnnw. Felly, y system yn ei chyfanrwydd, i bob pwrpas, sydd wedi cael ei chynllunio i geisio atal pobl rhag cael budd-daliadau, yn hytrach nag un rhan benodol o'r system honno yn achosi'r broblem. Rwy'n meddwl fod hwnnw'n fater y mae angen parhau i'w godi ar lefel y DU. Wrth gwrs, rhoddwyd y contract i Atos ymhell cyn i'r Llywodraeth bresennol fod mewn grym, ond wrth gwrs mae wedi cael ei barhau gan y Llywodraeth bresennol. Yn sicr, mae angen adolygu'r ffordd y mae'r system fudd-daliadau'n cael ei gweinyddu, yn enwedig ar gyfer pobl ag anableddau. Ailadroddaf yr hyn yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen: sef y dylai pobl ag anableddau, yn fy marn i, gael eu heithrio o'r newidiadau i fudd-dal tai hefyd. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig fod pobl yn cael eu cefnogi pan fo ganddynt anabledd, a pheidio â chael eu cosbi amdano.

In terms of a number of issues that arise from this report, we had a debate last October on the Equality and Human Rights Commission's annual report, 'Working together to strengthen equality and human rights in Wales', and, of course, some of the issues in that report are also coming through in this annual report, and in some of the amendments to this motion. In particular, the third amendment that has been put forward by the Conservatives is about ensuring that support services for victims of sexual violence are of a consistent standard and available throughout Wales, and that is always going to be a huge challenge, I think, particularly as we do not always deliver those services ourselves, in terms of making sure that that happens. There is still a lot of work to be done in terms of putting that in place, and certainly I know the Minister is committed to ensuring that consistency is in place. Certainly, that is something that does need to continue to be addressed.

O ran nifer o faterion sy'n codi o'r adroddiad hwn, cawsom ddadl fis Hydref diwethaf ar adroddiad blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Cydweithio i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru', ac, wrth gwrs, mae rhai o'r materion yn yr adroddiad hwnnw hefyd yn dod i'r amlwg yn yr adroddiad blynyddol, ac yn rhai o'r gwelliannau i'r cynnig hwn. Yn benodol, mae'r trydydd gwelliant a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl sydd wedi dioddef trais rhywiol o safon gyson ac ar gael ledled Cymru, ac mae hynny bob amser yn mynd i fod yn her enfawr, rwy'n meddwl, yn enwedig gan nad ydym bob amser yn cyflwyno'r gwasanaethau hynny ein hunain, o ran gwneud yn siŵr bod hynny'n digwydd. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd o ran rhoi hynny ar waith, ac yn sicr gwn fod y Gweinidog wedi ymrwymo i sicrhau cysondeb. Yn sicr, mae hynny'n rhywbeth y mae angen parhau i roi sylw iddo.

In relation to hate crime, the media has only just this week been reporting on that problem, with 'The Independent' focusing on race hate on Monday,

O safbwynt troseddau casineb, rhoddwyd sylw i'r broblem honno yn y cyfryngau dim ond yr wythnos hon, gyda'r 'Independent' yn canolbwyntio ar gasineb hiliol ddydd Llun,

'a crime the police will not solve'.

trosedd na fydd yr heddlu'n ei datrys.

The article notes the same problems that we have noted here in Wales, and in previous debates, of groups with specific characteristics not having the confidence in the criminal justice system to report crimes. Of more concern, hate crimes are not always being investigated, with very few court cases or convictions. Police apparently do not want the statistics to reflect badly on them, so they do not welcome the reporting of those crimes, and, I think, in some cases actively discourage the reporting of hate crimes. Although the police statistics cover England and Wales, I am pleased to say that in Wales there has to be some action on this. Wrexham County Borough Council, for example, has been running a fantastic campaign to combat hate crime since August 2011, and a charity and the police force, with support from that council, have been urging victims to report abuse. Certainly, when we discussed disability-related harassment here in Wales, again for a report by the Communities, Equality and Local Government Committee, that issue of underreporting, with people being reluctant to report because they felt they were being ignored or not believed, was an issue. I think that is characteristic of that particular problem. Clearly, there are still issues of people having confidence in the system to bring forward their problems and complaints to the authorities, because they feel that the authorities are not going to support them in that.

Mae'r erthygl yn nodi'r un problemau ag yr ydym wedi'u nodi yma yng Nghymru, ac mewn dadleuon blaenorol, sef nad oes gan grwpiau â nodweddion penodol yr hyder yn y system cyfiawnder troseddol i hysbysu am droseddau. Mae'n destun mwy o bryder nad yw troseddau casineb yn cael eu hymchwilio bob amser, gydag ychydig iawn o achosion llys neu euogfarnau. Mae'n debyg nad yw'r heddlu am i'r ystadegau adlewyrchu'n wael arnynt, felly nid ydynt yn croesawu adroddiadau am y troseddau hynny, ac rwy'n credu eu bod, mewn rhai achosion, yn annog pobl i beidio â rhoi gwybod am droseddau casineb. Er bod ystadegau'r heddlu yn cwmpasu Cymru a Lloegr, rwy'n falch o ddweud y bu rhywfaint o weithredu yn y maes hwn yng Nghymru. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, er enghraifft, wedi bod yn cynnal ymgyrch wych i frwydro yn erbyn troseddau casineb ers mis Awst 2011, ac mae elusen a'r heddlu, gyda chefnogaeth gan y cyngor, wedi bod yn annog dioddefwyr i hysbysu am gamdriniaeth. Yn sicr, pan oeddem yn trafod aflonyddu ar sail anabledd yma yng Nghymru, eto ar gyfer adroddiad gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, roedd y ffaith bod pobl yn amharod i gyflwyno adroddiad am eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu neu ddim yn cael eu credu, yn broblem. Credaf fod hynny'n nodweddiadol o'r broblem benodol hon. Yn amlwg, mae problemau o hyd o ran diffyg hyder pobl yn y system i gyflwyno eu problemau a'u cwynion i'r awdurdodau, oherwydd eu bod yn teimlo nad yw'r awdurdodau yn mynd i'w cefnogi yn hynny o beth.

I will briefly refer to the amendments. The Welsh Liberal Democrats will be supporting all four of the amendments. In relation to amendment 4 on an access to elected office for disabled people fund, which was referred to earlier by Mohammad Asghar, it currently offers grants of between £250 and £20,000 to disabled people standing for election to cover disability-related costs. That is a very empowering fund that certainly needs to be replicated in Wales because it is not already available in Wales. It is important that we have that representation and diversity among our elected officials, as well as in jobs and positions in quangos, local authorities and other public sector bodies.

Cyfeiriaf yn gryno at y gwelliannau. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi pob un o'r pedwar gwelliant. O ran gwelliant 4 ar gronfa mynediad at swyddi etholedig ar gyfer pobl anabl, y cyfeiriwyd ati'n gynharach gan Mohammad Asghar, mae ar hyn o bryd yn cynnig grantiau o rhwng £250 ac £20,000 i bobl anabl sy'n sefyll etholiad i dalu am gostau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Mae honno'n gronfa rymusol iawn y mae'n sicr angen ei hefelychu yng Nghymru oherwydd nad yw ar gael yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod yn cael y gynrychiolaeth a'r amrywiaeth ymhlith ein swyddogion etholedig, yn ogystal ag mewn swyddi a swyddi mewn cwangos, awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

18:21

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will try to be brief because quite a lot of what I have to say has been said already, with some exception. We are all agreed that equality is something that we should see mainstreamed. Every aspect of our lives has to have equality in it. That applies to everyone, not just in Wales, but throughout the UK and, as Lindsay said, internationally. I think that the Welsh Government has already gone a long way to do work on equality issues and leads by example. We promote equality for all. I think that the First Minister was very successful in looking at international equality when he recently visited Uganda. There are a couple of issues that I would like to address. As I say, just because I am only going to talk about two or three issues it does not mean that there are not many more.

Ceisiaf fod yn gryno oherwydd bod llawer o'r hyn sydd gennyf i'w ddweud wedi cael ei ddweud yn barod, gyda rhai eithriadau. Rydym i gyd yn cytuno bod cydraddoldeb yn rhywbeth a ddylai fod yn y brif ffrwd. Mae'n rhaid cael cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ein bywydau. Mae hynny'n berthnasol i bawb, nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y DU ac, fel y dywedodd Lindsay, yn rhyngwladol. Rwy'n meddwl bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi mynd yn bell i wneud gwaith ar faterion cydraddoldeb ac yn arwain trwy esiampl. Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Credaf i'r Prif Weinidog fod yn llwyddiannus iawn wrth edrych ar gydraddoldeb rhyngwladol pan ymwelodd ag Uganda yn ddiweddar. Mae un neu ddau o faterion yr hoffwn roi sylw iddynt. Fel y dywedais, rwyf yn mynd i siarad am ddau neu dri mater yn unig, ond nid yw'n golygu nad oes llawer mwy.

There is the question of gender and the continuing inequalities that women face in terms of employment and pay. There are key differences between men and women in the world of employment. We all know that. Economic activity is higher for women and women are three times more likely to work part time. Earnings are also likely to be less. Women have been hit hard during the recession due to the UK Government's cuts. Childcare provision is one of the issues that can hamper women as they strive for equality and this must continue to be one of the Welsh Government's top priorities in this area. The Flying Start programme is invaluable in helping families in disadvantaged communities. I welcome the investment that the Welsh Government has put in, including in my own constituency in Holywell. We must, as people have said, encourage far more women into public appointments and support them when they get there, and strive to encourage more women to enter politics at all levels. In this way, we can ensure that all government represents gender in society in an equitable way.

Ceir y cwestiwn ynglŷn â rhyw a'r anghydraddoldebau parhaus y mae menywod yn eu hwynebu o ran cyflogaeth a chyflog. Ceir gwahaniaethau allweddol rhwng dynion a menywod yn y byd gwaith. Rydym i gyd yn gwybod hynny. Mae gweithgarwch economaidd yn uwch ar gyfer menywod ac mae menywod dair gwaith yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser. Mae enillion hefyd yn debygol o fod yn llai. Mae menywod wedi dioddef yn wael yn ystod y dirwasgiad oherwydd toriadau Llywodraeth y DU. Mae darpariaeth gofal plant yn un o'r materion a all rwystro menywod wrth iddynt ymdrechu am gydraddoldeb a rhaid i hon barhau i fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn amhrisiadwy wrth helpu teuluoedd mewn cymunedau difreintiedig. Croesawaf y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yn fy etholaeth i yn Nhreffynnon. Mae'n rhaid inni, fel y mae pobl wedi'i ddweud, annog llawer mwy o fenywod i ymgeisio am benodiadau cyhoeddus a'u cefnogi pan fyddant yn llwyddo, ac ymdrechu i annog mwy o fenywod i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ar bob lefel. Yn y ffordd hon, gallwn sicrhau bod llywodraeth gyfan yn cynrychioli rhyw yn y gymdeithas mewn ffordd deg.

Disability has been mentioned. It is quite hard to look at someone and identify what their disability is. For example, there are many people who many people would not recognise as having a disability, but they do. That is the sort of attitude that we have to be very careful of. Disabled people are often excluded and disadvantaged in society and are at a greater risk of living in poverty. As people have said already, this is being exacerbated by welfare reform. Measures to improve independent living and economic and social inclusion for people with disabilities must remain at the forefront of Welsh Government policy.

Mae anabledd wedi cael ei grybwyll. Mae'n eithaf anodd edrych ar rywun a nodi beth yw ei anabledd. Er enghraifft, ceir llawer o bobl na fyddai llawer o bobl yn sylweddoli bod ganddynt anabledd, ond mae anabledd ganddynt. Dyna'r math o agwedd y mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn ohoni. Yn aml mae pobl anabl yn cael eu heithrio a'u rhoi dan anfantais mewn cymdeithas ac maent mewn mwy o berygl o fyw mewn tlodi. Fel y mae pobl wedi ei ddweud eisoes, caiff hyn ei waethygu gan y diwygiadau i'r gyfundrefn les. Rhaid i fesurau i wella cynhwysiant economaidd a chymdeithasol pobl ag anableddau, a gwella'u gallu i fyw'n annibynnol barhau i fod yn flaenllaw ym mholisi Llywodraeth Cymru.

Finally, on issues affecting the LGBT community, it is depressing to note that, in the 'How fair is Wales?' report in 2011, it was highlighted that people in Wales are among the least likely in the UK to agree that anti-gay prejudice should be tackled; a fifth thought that a lesbian or gay person was unsuitable to be a teacher; 70% thought it was acceptable for a bed and breakfast establishment to turn down a booking from a lesbian or gay couple; and, more than a quarter would be unhappy about a close relative marrying or forming a long-term partnership with someone of the same sex. I am pleased to say that the Government is trying hard to change these attitudes. I hope that every one of us here will work hard to try to change those attitudes. Speaking as an Assembly Commissioner, in the Commission, we have worked very hard in this place to see that those outmoded, out-dated and absolutely disgraceful attitudes do not continue here in Wales.

Yn olaf, ar faterion sy'n effeithio ar y gymuned pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, mae'n ddigalon nodi yr amlygwyd, yn yr adroddiad 'Pa mor deg yw Cymru?' yn 2011, bod pobl yng Nghymru ymhlith y rhai lleiaf tebygol yn y DU i gytuno y dylid mynd i'r afael â rhagfarn gwrth-hoyw; roedd un o bob pump yn meddwl bod rhywun lesbiaidd neu hoyw yn anaddas i fod yn athro; roedd 70% yn meddwl ei bod yn dderbyniol i sefydliad gwely a brecwast wrthod caniatáu i gwpl lesbiaidd neu hoyw aros yno; a, byddai mwy na chwarter yn anhapus pe byddai perthynas agos yn priodi neu'n ffurfio partneriaeth tymor hir gyda rhywun o'r un rhyw. Rwy'n falch o ddweud bod y Llywodraeth yn ymdrechu'n galed i newid yr agweddau hyn. Rwy'n gobeithio y bydd pob un ohonom yma yn gweithio'n galed i geisio newid yr agweddau hyn. Wrth siarad fel un o Gomisiynwyr y Cynulliad, yn y Comisiwn, rydym wedi gweithio'n galed iawn yn y lle hwn i sicrhau nad yw'r agweddau ar ôl yr oes, hen ffasiwn, a hollol warthus hyn yn parhau yma yng Nghymru.

There is much to commend in this report, but we cannot rest on our laurels. I have said it many times: to make Wales a fairer nation where hate, prejudice, economic and social inequalities become things of the past, we cannot rest on our laurels and say that we are there. We will not know when we are there. We have to keep working and keep working hard, year on year. However, I do welcome this report.

Mae llawer i'w ganmol yn yr adroddiad hwn, ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Rwyf wedi dweud hyn lawer gwaith: i wneud Cymru yn genedl decach lle mae casineb, rhagfarn, anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol yn dod yn bethau sy'n perthyn i'r gorffennol, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau a dweud ein bod wedi cyrraedd. Ni fyddwn yn gwybod pan fyddwn wedi cyrraedd. Mae'n rhaid inni barhau i weithio a pharhau i weithio'n galed, o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r adroddiad hwn.

18:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

18:25 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I will start by thanking Assembly Members for their generally helpful contributions to the discussion on the annual report. In terms of the amendments proposed by Mohammad Asghar, I am content to support amendments 1, 3 and 4. However, I oppose amendment 2, and I will explain why. We are serious about tackling all forms of violence against women. The Welsh Government has led the way in promoting the need for violence against women, domestic abuse and sexual violence workplace policies across the Welsh public service. The majority of public service organisations in Wales, including the Welsh Government, have now implemented or reviewed their workplace policies on domestic abuse, violence against women and sexual violence.

Rwyf am ddechrau trwy ddiolch i Aelodau'r Cynulliad am eu cyfraniadau defnyddiol yn gyffredinol at y drafodaeth ar yr adroddiad blynyddol. O ran y gwelliannau a gynigir gan Mohammad Asghar, rwy'n fodlon cefnogi gwelliannau 1, 3 a 4. Fodd bynnag, rwy'n gwrthwynebu gwelliant 2, a byddaf yn egluro pam. Rydym o ddifrif ynglŷn â mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd o ran hyrwyddo'r angen am bolisïau yn y gweithle ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, bellach wedi gweithredu neu adolygu eu polisïau yn y gweithle ar gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol.

In terms of amendment 2, we agree with the introduction of Clare's law by the UK Government, which enables people to check the police record of their partners and therefore allows potential victims to make informed decisions about their future. However, this is a criminal justice matter and is reserved by the UK Government. It is therefore outside the competence of the National Assembly for Wales, and cannot be included in our ending violence against women and domestic abuse Bill.

O ran gwelliant 2, rydym yn cytuno gyda chyflwyniad cyfraith Clare gan Lywodraeth y DU, sy'n galluogi pobl i weld cofnod heddlu eu partneriaid, ac felly'n caniatáu i ddioddefwyr posibl wneud penderfyniadau am eu dyfodol ar sail y wybodaeth. Fodd bynnag, mae hwn yn fater sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol ac mae wedi'i gadw'n ôl gan Lywodraeth y DU. Felly mae y tu allan i gymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ni ellir ei gynnwys yn ein Bil ar roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

Mohammad Asghar also referred to violence against women and domestic abuse more generally. We recognise the need to ensure that support services for victims of sexual violence are of a consistent quality, that they are delivered in the right geographical areas and that there is sufficient capacity to meet demand. It is for this reason that my colleague the Minister for Local Government and Government Business commissioned an independent review of all violence against women, domestic abuse and sexual violence services in Wales.

Cyfeiriodd Mohammad Asghar hefyd at drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yn fwy cyffredinol. Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl sydd wedi dioddef trais rhywiol o ansawdd cyson, eu bod yn cael eu darparu yn yr ardaloedd daearyddol cywir a'u bod yn ddigonol i fodloni'r galw. Am y rheswm hwn y mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r holl wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

I will not address Members in the order that they spoke, but will offer some comments on contributions. Peter Black, I am very grateful for your general support for the report. I accept your point—and it is something that we need to look at—that it is the system in terms of the assessment of disabled people that is, perhaps, inappropriate. That needs to be looked at further. Clearly, we need to link all of our work to the Equality and Human Rights Commission report. I can tell you that, on the issue of hate crime, the consultation has now been completed on the draft framework, and I will be making an announcement on the final framework very soon. That will certainly include the issue of reporting arrangements.

Ni fyddaf yn cyfarch Aelodau yn y drefn y gwnaethant siarad, ond byddaf yn cynnig rhai sylwadau ynglŷn â'u cyfraniadau. Peter Black, rwy'n ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth gyffredinol i'r adroddiad. Rwy'n derbyn eich pwynt—ac mae'n rhywbeth y mae angen inni ei ystyried—mai'r system ar gyfer asesu pobl anabl sydd, o bosibl, yn amhriodol. Mae angen edrych ar hynny ymhellach. Yn amlwg, mae angen inni gysylltu ein holl waith ag adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Gallaf ddweud wrthych, o safbwynt troseddau casineb, bod yr ymgynghoriad ar y fframwaith drafft wedi ei gwblhau, a byddaf yn gwneud cyhoeddiad ar y fframwaith terfynol yn fuan iawn. Bydd hynny'n sicr yn cynnwys y trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau.

We are committed to assisting all underrepresented groups to engage with political life. This is why my colleague the Minister for Local Government and Government Business has appointed an expert group on local government diversity, which I understand is due to report to her shortly. The access to elected office for disabled people fund is currently under evaluation by the UK Government. When we have received the evaluation, we can then consider whether to adopt a similar scheme in relation to Assembly or local elections in Wales.

Rydym yn ymrwymedig i gynorthwyo pob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgysylltu â bywyd gwleidyddol. Dyna pam y mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, wedi penodi grŵp arbenigol ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Rwyf yn deall y bydd yn cyflwyno adroddiad iddi cyn bo hir. Mae Llywodraeth y DU wrthi'n gwerthuso'r gronfa mynediad at swyddi etholedig ar gyfer pobl anabl ar hyn o bryd. Pan fyddwn wedi derbyn y gwerthusiad, gallwn wedyn ystyried a ddylid mabwysiadu cynllun tebyg ar gyfer etholiadau'r Cynulliad neu etholiadau lleol yng Nghymru.

In relation to the points made by Lindsay Whittle, I cannot comment on procurement policy; that is not a matter for me. However, in terms of independent living and disabled people accessing employment, I can say that that is a clear strand within the independent living action plan, and it is a matter that we will monitor closely. The disability commissioner has not been called for by the disability forum. I remember raising this issue with the forum and it was not seen as a priority for it, although, naturally, it is a matter that we keep under review.

O ran y pwyntiau a wnaed gan Lindsay Whittle, ni allaf roi sylwadau ar bolisi caffael; nid yw hynny'n fater i mi. Fodd bynnag, o ran byw'n annibynnol a galluogi pobl anabl i sicrhau cyflogaeth, gallaf ddweud bod hynny'n elfen glir yn y cynllun gweithredu ar gyfer byw'n annibynnol, ac mae'n fater y byddwn yn ei fonitro'n agos. Nid yw'r fforwm anabledd wedi galw am gomisiynydd i bobl anabl. Rwy'n cofio codi'r mater hwn gyda'r fforwm ac nid oedd yn ei ystyried yn flaenoriaeth, ond, yn naturiol, mae'n fater yr ydym yn parhau i'w adolygu.

I will link in here the points that Sandy Mewies made in terms of attitudes towards LGBT people and the prejudices that are still all too apparent in Welsh public life. This is a matter that concerns us greatly and is very much a part of the hate-crime framework. I agree with your comments about the First Minister's visit to Uganda, which was a first-class visit, and I cannot see why Lindsay Whittle drew a parallel between the visit to the Wales for Africa programme to meet volunteers and charity workers in Uganda with visits to the Russian Winter Olympics. I am afraid that that has passed me by.

Byddaf yn cysylltu yma y pwyntiau a wnaeth Sandy Mewies o ran agweddau tuag at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a'r rhagfarnau sydd yn dal i fod yn rhy amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae hwn yn fater sy'n peri pryder mawr i ni ac yn sicr yn rhan o'r fframwaith troseddau casineb. Rwy'n cytuno â'ch sylwadau am ymweliad y Prif Weinidog ag Uganda, a oedd yn ymweliad o'r radd flaenaf, ac ni allaf weld pam y gwnaeth Lindsay Whittle gyffelybiad rhwng yr ymweliad â'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica i gwrdd â gwirfoddolwyr a gweithwyr elusennau yn Uganda, ac ymweliadau â Gemau Olympaidd y Gaeaf yn Rwsia. Rwy'n ofni bod hynny y tu hwnt imi.

Julie Morgan's points on Gypsies and Travellers were well made. It is clear that there is a need for greater consultation on legislation on this matter. Jenny Rathbone was supportive of the annual report and particularly of the issue of equality objectives and the clarity those provided in terms of what we are seeking to achieve. It illustrates the practical differences made in 12 months towards a fair and inclusive Wales. I should point it out: 51% of the people in Wales are women and it is absolutely crucial that those opportunities are improved. You also made a particular point about the problems of people suffering from dyslexia and about the fact that, very often, it is not allowed for. I am dyslexic and I have suffered from that all my life. It is a matter I have to cope with. Even when I am delivering a prepared speech, it will, at times, jumble up in front of my eyes. Hopefully, it is not too obvious. Indeed, even when answering questions, my ability to recall facts is not as fast as I would like it to be, but that is something that I just have to cope with and there is no reason why people should necessarily be held back.

Roedd pwyntiau Julie Morgan ar Sipsiwn a Theithwyr yn rhai da. Mae'n amlwg bod angen mwy o ymgynghori ar y ddeddfwriaeth yn y maes hwn. Roedd Jenny Rathbone yn gefnogol i'r adroddiad blynyddol ac yn arbennig yr amcanion cydraddoldeb a'r eglurder yr oedd y rhain yn ei ddarparu o ran yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Mae'n dangos y gwahaniaethau ymarferol a wnaed mewn 12 mis tuag at gyflawni Cymru deg a chynhwysol. Dylwn nodi: mae 51% o bobl Cymru yn fenywod ac mae'n gwbl hanfodol bod y cyfleoedd hynny'n cael eu gwella. Roeddech hefyd yn gwneud pwynt arbennig am broblemau pobl sy'n dioddef o ddyslecsia ac am y ffaith, yn aml iawn, na ddarperir ar ei gyfer. Rwyf i'n ddyslecsig ac rwyf wedi dioddef o hynny ar hyd fy oes. Mae'n fater y mae'n rhaid i mi ymdopi ag ef. Hyd yn oed pan fyddaf yn cyflwyno araith wedi'i pharatoi, bydd, ar adegau, yn mynd yn gybolfa o flaen fy llygaid. Nid yw'n rhy amlwg, gobeithio. Yn wir, hyd yn oed wrth ateb cwestiynau, nid yw fy ngallu i gofio ffeithiau mor gyflym ag yr hoffwn iddo fod, ond mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i mi ymdopi ag ef ac nid oes unrhyw reswm pam y dylai pobl gael eu dal yn ôl o reidrwydd.

In conclusion, the equality objectives seek to address long-standing ingrained and often intergenerational inequalities for those with protected characteristics. It is therefore essential that our actions through the equality objectives have a long-term focus to address these inequalities. We will continue to build on the progress made, and I look forward to continued working with ministerial colleagues over the coming years to make equality and inclusion in Wales a reality.

I gloi, mae'r amcanion cydraddoldeb yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hir-sefydlog cynhenid, sy'n aml yn parhau o genhedlaeth i genhedlaeth, ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig. Felly, mae'n hanfodol bod ein gweithredoedd trwy'r amcanion cydraddoldeb yn pwysleisio ar fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn yn y tymor hir. Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd, ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chydweithwyr gweinidogol dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod cydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru yn wirionedd.

18:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff Gwelliant 1, felly, ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There is objection. I defer all further voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Rwy'n gohirio pob pleidlais arall tan yr amser pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:32

# Pwynt o Drefn

# Point of Order

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have had notice of a point of order, and I call Ann Jones.

Rwyf wedi cael hysbysiad ynghylch pwynt o drefn, a galwaf ar Ann Jones.

18:32

## Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I rise to ask you to clarify whether Mohammad Asghar did in fact break Standing Order 13.9(iv) or 13.9(v) when he referred to my disability as being 'minor'. I wonder whether you would rule as to whether that was courteous behaviour in the Chamber.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n codi i ofyn i chi egluro a wnaeth Mohammad Asghar mewn gwirionedd dorri Rheol Sefydlog 13.9 (iv) neu 13.9 (v) pan gyfeiriodd at fy anabledd fel bod yn 'fach'. Tybed a fyddech yn dyfarnu ynghylch a oedd hwnnw'n ymddygiad cwrtais yn y Siambr.

18:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Do you wish to say anything, Mohammad?

A ydych am ddweud unrhyw beth, Mohammad?

18:32

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Deputy Presiding Officer, I did not mean to hurt her. I actually wanted to say in this context that I would like to see more disabled people in this Chamber rather than able bodies. If I hurt her, I apologise for that.

Ddirprwy Lywydd, nid oeddwn yn bwriadu ei brifo. Yr hyn yr oeddwn eisiau ei ddweud yn y cyd-destun hwn, mewn gwirionedd, oedd y byddwn yn hoffi gweld mwy o bobl anabl yn y Siambr hon yn hytrach na chyrff galluog. Os gwnes i ei brifo hi, rwy'n ymddiheuro am hynny.

18:32

## Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It is not the first time.

Nid dyma'r tro cyntaf.

18:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I would encourage Members to go the extra mile to be courteous to people. That sometimes means that, when a discourtesy has been perceived and is pointed out, you can apologise in a full and appropriate manner, if you think that is appropriate. I did not call the Member to order at the time because I regarded the remarks as tactless rather than discourteous with intent. I will however review the matter and I will come back on that if it is necessary to do so. I really do think that this place works best when we are courteous to each other and do not judge other people's levels of disability or illness or whatever barriers they may have had to overcome. It is really not for us to assess those for others, especially when they dispute that assessment.

Trefn. Byddwn yn annog yr Aelodau i fynd gam ymhellach i fod yn gwrtais â phobl. Mae hynny weithiau'n golygu y gallwch ymddiheuro'n llawn ac yn briodol, os ydych yn credu bod hynny'n briodol, pan ystyrir y bu anghwrteisi ac y tynnwyd sylw at hynny. Ni alwais yr Aelod i drefn ar y pryd oherwydd fy mod yn ystyried y sylwadau yn ddifeddwl yn hytrach nag yn anghwrtais gyda bwriad. Fodd bynnag, byddaf yn adolygu'r mater ac yn dod yn ôl ato os bydd angen gwneud hynny. Rwyf wir yn meddwl bod y lle hwn yn gweithio orau pan fyddwn yn gwrtais â'n gilydd heb farnu lefelau anabledd neu salwch pobl eraill, neu ba bynnag rwystrau y gallent fod wedi gorfod eu goresgyn. Nid mater i ni yw asesu'r rhain ar gyfer pobl eraill, yn enwedig pan fyddant yn anghytuno â'r asesiad hwnnw.

18:33 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Could I come back on that, Presiding Officer?

Diolch yn fawr. Allaf i ddod yn ôl ar hynny, Lywydd?

18:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think I have made the position clear as I saw it at the time. As I said, I will review the Record and I will come back on that if necessary.

Rwy'n credu fy mod wedi gwneud y sefyllfa'n glir fel yr oeddwn yn ei gweld hi ar y pryd. Fel y dywedais, byddaf yn adolygu'r Cofnod a byddaf yn dod yn ôl os oes angen.

18:34 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch yn fawr.

18:34

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before I proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn imi fynd ymlaen, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5396

Result of the vote on motion NDM5396

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 12, Ymatal 15.*

*Motion agreed: For 28, Against 12, Abstain 15.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5394.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5394.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 27, Against 28 Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5394.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5394.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5394.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5394.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 44, Yn erbyn 1, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 44, Against 1, Abstain 10.*

Cynnig NDM5394 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5394 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd o safbwynt hybu cydraddoldeb a chynhwysiant yn 2012-13, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Rhagfyr 2013.

1. Notes the progress made on promoting equality and inclusion in 2012-13, as set out in the Welsh Government's Annual Report on Equality, which was laid before the National Assembly for Wales on 13 December 2013.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hybu'r gwaith o ddatblygu polisïau yn y gweithle yng nghyswllt cam-drin domestig ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus.

2. Calls on the Welsh Government to encourage the development of domestic abuse workplace policies for public sector employees.

3. Yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol o safon gyson ac ar gael ledled Cymru.

3. Recognises the need to ensure that support services for victims of sexual violence are of a consistent standard and are available throughout Wales.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i Bobl Anabl fel yr un sydd wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth y DU.

4. Calls on the Welsh Government to consider introducing an Access to Elected Office for Disabled People Fund such as that introduced by the UK Government.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5394 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5394 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5394 fel y'i diwygiwyd: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5394 as amended agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

18:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:36.*

*The meeting ended at 18:36.*